------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 11 Chwefror 2015**

Amser:
**09.15**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Marc Wyn Jones**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru


## Agenda

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod – 09.15 – 09.30**

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09.30)

### 2 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2013 – 2014 (09.30 – 11.00)

(Tudalennau 1 – 192)
Esytn
CYPE(4)-05-15 – Papur 1

Ms Ann Keane, y Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Simon Brown, Cyfarwyddwr Strategol
Meilyr Rowlands, Cyfarwyddwr Strategol

### 3 Papurau i'w nodi

**Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau – Bil Cymwysterau Cymru** (Tudalennau

193 - 195)
CYPE(4)-05-15 - Papur i'w nodi 2

**Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** (Tudalennau 196 - 200)
CYPE(4)-05-15 - Papur i'w nodi 3

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer gweddill y cyfarfod: (11.00)

## 5 Dull gweithredu o ran yr Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi (11.00 - 11.30) (Tudalennau 201 - 202)

CYPE(4)-05-15 - Papur preifat 4

## 6 Ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel (11.30 - 12.00) (Tudalennau 203 - 246)

CYPE(4)-05-15 - Papur preifat 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## 2013-2014



Estyn

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 2-3 | **Cynnwys** |
| 4-17 | **Rhagair** |
| 18-23 | **Ynglŷn ag Estyn** |
| 24-59 | **Adran 1: Dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni** |
| 25 | Dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni mewn ysgolion a lleoliadau |
| 26-27 | Mae gan rai grwpiau o ddysgwyr ffactorau risg lluosog |
| 28 | Beth gall lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ei wneud i gynorthwyo plant sydd mewn perygl o dangyflawni? |
| 29-30 | Beth gall rhieni a theuluoedd ei wneud i gynorthwyo plant sydd mewn perygl o dangyflawni? |
| 31 | Beth gall ysgolion cynradd ei wneud i gefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni? |
| 32 | Beth gall ysgolion uwchradd ei wneud i gefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni? |
| 33 | Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) |
| 34 | Mae dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni yn cael cymorth da yn aml mewn ysgolion arbennig a gynhelir |
| 35 | Unedau cyfeirio disgyblion |
| 36-37 | Cymharu perfformiad ysgolion arbennig ag unedau cyfeirio disgyblion |
| 38<br>38 | Rôl awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl<br>Beth gall awdurdodau lleol ei wneud i gefnogi plant sydd mewn perygl o dangyflawni? |
| 39-40 | Dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni mewn addysg bellach a hyfforddiant |
| 41 | Beth gall darparwyr ei wneud i gefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni? |
| 42 | Grwpiau o ddysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni |
| 43-44 | Sut gall ysgolion gefnogi dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig? |
| 45 | Mae dysgwyr mewn perygl o dangyflawni os ydynt yn dod o gefndiroedd cymharol dlawd |
| 46<br>46 | Sut gall ysgolion gefnogi dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?<br>Dysgwyr sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol sydd mewn perygl o dangyflawni |
| 47<br>47-49 | Sut gall ysgolion gefnogi plant sy'n derbyn gofal?<br>Dysgwyr mwy abl a thalentog sydd mewn perygl o dangyflawni |
| 50 | Sut gall darparwyr gefnogi dysgwyr mwy abl? |
| 51 | Dysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol sydd mewn perygl o dangyflawni |
| 52 | Sut gall darparwyr gefnogi dysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol? |
| 53 | Lles mewn ysgolion |
| 54-55 | Pwysigrwydd presenoldeb |
| 56<br>56 | Sut gall ysgolion wella presenoldeb dysgwyr?<br>Pwysigrwydd ymddygiad |
| 57 | Sut gall ysgolion helpu dysgwyr i reoli'u hymddygiad? |
| 58 | Bwlio |
| 59 | Sut gall ysgolion fynd i'r afael â bwlio? |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **60-137** | **Adran 2:** Adroddiadau sector |
| 60-69 | Ysgolion cynradd |
| 70-77 | Ysgolion uwchradd |
| 78-83 | ysgolion arbennig a gynhelir |
| 84-89 | Ysgolion arbennig annibynnol |
| 90-95 | Ysgolion prif ffrwd annibynnol |
| 96-99 | Colegau arbenigol annibynnol |
| 100-105 | Unedau cyfeirio disgyblion |
| 106-111 | Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed |
| 112-117 | Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc |
| 118-121 | Colegau addysg bellach |
| 122-127 | Dysgu yn y gwaith |
| 128-133 | Dysgu oedolion yn y gymuned |
| 134-137 | Dysgu yn y sector cyfiawnder |

| | |
|---|---|
| **138-147** | **Adran 3:** Gweithgarwch dilynol |
| 138-139 | Effaith gweithgarwch arolygu dilynol |
| 140 | Yr amser a gymer i ysgolion ddod allan o gategori gweithgarwch dilynol |
| 141 | Ysgolion cynradd |
| 142 | Ysgolion uwchradd |
| 142-147 | Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc |

| | |
|---|---|
| **148-165** | **Section 4:** Sylwadau ar berfformiad |
| 149 | Perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen |
| 150-151 | Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 |
| 152-153 | Arholiadau yng nghyfnod allweddol 4 |
| 154 | Dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion |
| 155 | Gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched |
| 156 | Perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim |
| 157 | Presenoldeb |
| 158 | Gwaharddiadau |
| 159 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) |
| 160 | Medrau, addysg bellach a dysgu gydol oes |
| 161 | Addysg bellach |
| 162 | Dysgu yn y gwaith |
| 163-164 | Dysgu oedolion yn y gymuned |



**Ann Keane.**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Rhagair

Hwn yw fy mhumed adroddiad blynyddol, a'r olaf, fel Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Rwyf wedi bod yn AEM yng Nghymru ers dros 30 o flynyddoedd, a bu llu o newidiadau mewn addysg a hyfforddiant dros y cyfnod hwnnw. Yn fwyaf nodedig oedd creu Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru yn 1998 a datganoli pwerau i Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg a hyfforddiant, ymhlith materion eraill. Bu llawer o newidiadau eraill hefyd. Pan ymunais â'r arolygiaeth nid oedd unrhyw 'Gwricwlwm Cenedlaethol' ac nid oedd lefelau 'O' a TAUau wedi'u disodli gan gymwysterau TGAU. Roedd rhai ysgolion uwchradd detholgar yng Nghymru o hyd, ac roedd y ddarpariaeth ôl-16 yn wahanol iawn, yn cynnig llawer llai o ddewisiadau, a dewisiadau llai amrywiol na heddiw. Mae rhai risgiau newydd wedi dod i'r amlwg dros y 30 mlynedd diwethaf ochr yn ochr â'r posibiliadau cyffrous. Mae pwysigrwydd cynyddol cyfathrebiadau a chapasiti digidol wedi creu chwyldro o ran y modd y mae athrawon yn cyflwyno'r cwricwlwm, a'r modd y mae dysgwyr yn cymryd perchenogaeth o'u dysgu, tra hefyd yn creu heriau i e-ddiogelwch plant a phobl ifanc.

Nid yw rhai pethau wedi newid. Mae'r angen i blant a phobl ifanc gael yr addysg a'r hyfforddiant gorau posibl yn dal cyn gryfed nawr ag erioed. **Er nad yw Cymru'n gwneud cystal â gwledydd eraill o ran ei pherfformiad addysgol, mae momentwm i'w gael ar yr un pryd ar gyfer newid yn y system, ac mae rhai dangosyddion yn dangos tuedd ar i fyny.** Rhaid i hyn barhau os yw pobl ifanc yng Nghymru i ddatblygu mor gyflawn ag y gallant a chwarae rhan weithredol yn llywio dyfodol Cymru a'r byd ehangach.


# Pa mor dda yw safonau?

Mae perfformiad yn erbyn nifer o ddangosyddion pwysig yng Nghymru yn gwella. Mae cyfraddau presenoldeb yn gwella. Mae cyfran y disgyblion sy'n absennol o'r ysgol yn barhaus yn gostwng. Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn lleihau ychydig. Fe wnaeth cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) ostwng eleni. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r gwelliannau hyn yn dynodi bod y mentrau a gyflwynwyd mewn ysgolion a darparwyr eraill, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn cael effaith gadarnhaol.

Fodd bynnag, mae heriau pwysig yn parhau o hyd. Roedd eleni yn flwyddyn gymysg ar gyfer safonau mewn darparwyr addysg a hyfforddiant. **Lle mae safonau yn y sector ysgolion uwchradd wedi gwella, mae safonau yn y sector ysgolion cynradd wedi dirywio. Mae safonau da neu ragorol wedi parhau i nodweddu sectorau fel ysgolion arbennig a gynhelir a lleoliadau meithrin nas cynhelir, ond mae'r duedd o berfformiad cymharol wan wedi parhau mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau).**


**Bu gostyngiad mewn safonau yn yr ysgolion cynradd a arolygwyd gennym eleni, er eu bod yn well yn gyffredinol na safonau mewn ysgolion uwchradd.** Fe wnaeth y gyfran o ysgolion cynradd â safonau da neu ragorol ostwng o saith o bob deg ysgol i ychydig dros chwech o bob deg ysgol. Digonol yn unig yw bron i bedair o bob deg ysgol, sef cynnydd bach ar y llynedd. Mewn llawer o achosion, roedd hyn oherwydd gwendidau ym medrau rhifedd disgyblion, ac rydym wedi bod yn edrych yn fanylach ar y rhain eleni; hefyd, diffyg hyder disgyblion o ran defnyddio'r medrau hyn mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Mae safonau llythrennedd wedi gwella ychydig eleni, yn enwedig mewn perthynas â medrau ysgrifennu disgyblion. At ei gilydd, mae cynnydd o ran gwella ysgrifennu disgyblion yn fwy yn y Cyfnod Sylfaen nag yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw safonau mewn Cymraeg ail iaith wedi gwella o'r llynedd. Hefyd, roedd angen gweithgarwch dilynol ar ryw ddwy o bob tair ysgol gynradd oherwydd diffygion mewn safonau a darpariaeth eleni.

**Ffigur 1: Nifer yr ysgolion a gynhelir, Ionawr 2014 (a)**




(a) Mae pob un o'r pedair ysgol pob oed yn cael eu cyfrif fel un ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd yn y siart hwn.

**Ffigur 2: Nifer yr ysgolion a gynhelir a arolygwyd yn 2013-2014**



**Fe wnaeth safonau mewn ysgolion uwchradd wella eleni o gymharu â pherfformiad cymharol wan y llynedd.** Cododd cyfran yr ysgolion uwchradd â safonau rhagorol neu dda i dros hanner o gymharu ag ymhell o dan hanner y llynedd. Eleni, ni fu angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn unrhyw ysgol uwchradd ar ôl arolygiad craidd, o gymharu â chwe ysgol yr oedd angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt y llynedd.

Gwelodd y sector uwchradd rywfaint o gynnydd yn yr agweddau canlynol ar ddarpariaeth:


- deilliannau
- lles disgyblion
- gwelliannau yn y ddarpariaeth ar gyfer medrau, yn enwedig llythrennedd
- addysgu a dysgu
- arweinyddiaeth, hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella

Mae angen cyffredinol bron ym mhob ysgol uwchradd, hyd yn oed y goreuon, i wella safonau mewn mathemateg a rhifedd, mewn darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog ac mewn perfformiad disgyblion ar lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg.

Mae **gwelliannau mewn llywodraethu** ar draws y sector cynradd a'r sector uwchradd. Erbyn hyn, mae llywodraethwyr yn chwarae mwy o ran mewn hunanarfarnu ysgolion nag yn y gorffennol, ac maent yn fwy parod i herio perfformiad.

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, **mae safonau mewn ysgolion arbennig a gynhelir ac ysgolion annibynnol yn arbennig o gadarn.** O'r chwe ysgol arbennig a gynhelir a arolygwyd gennym, ceir safonau rhagorol mewn pump ohonynt. Mae pob un o saith ysgol annibynnol y brif ffrwd a arolygwyd gennym yn dda o leiaf. Fodd bynnag, **mae'r ddarpariaeth wan mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn parhau i beri pryder, ac mae'r sector yn nodedig yn wannach na sectorau eraill.** O'r wyth uned a arolygwyd eleni, dim ond tair sy'n perfformio'n dda.

**Ffigur 3: Nifer y disgyblion ym mhob math o ysgol, Ionawr 2014 (a)**




(a) Mae disgyblion mewn ysgolion pob oed wedi'u cynnwys yn y data hwn ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd 622 o gofrestriadau mewn unedau cyfeirio disgyblion hefyd.

# Pa mor dda yw safonau?

Er 2010, rydym wedi bod yn nodi nifer gynyddol o ysgolion y mae angen monitro pellach arnynt yn dilyn eu harolygiad 'craidd' cychwynnol. Mae nifer yr ysgolion sy'n mynd i mewn i gategori 'gweithgarwch dilynol' wedi codi ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid adlewyrchir y duedd honno yn nifer yr ysgolion sy'n peri pryder. Yr ysgolion hyn yw'r rhai â'r diffygion mwyaf difrifol. Adroddaf yn Adran 3 yr adroddiad blynyddol hwn ar effaith gweithgarwch dilynol arolygu. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r ysgolion yr ydym yn cynnal gweithgarwch dilynol ynddynt yn gwneud cynnydd da o ran gweithredu ein hargymhellion a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae rhyw ddwy ran o dair o ysgolion yn cael eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol ar ôl blwyddyn. **Mae nifer yr ysgolion sy'n aros mewn categori gweithgarwch dilynol am ddwy neu dair blynedd yn fach iawn, a'r ysgolion y nodwn fod angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt, neu y mae angen gwelliant sylweddol arnynt, yw'r ysgolion hyn yn bennaf.** Hyd yn oed gyda'r ysgolion hyn, wrth olrhain y deilliannau ar gyfer disgyblion mewn sampl ohonynt, rydym wedi canfod gwelliant cynaledig mewn perfformiad ar ôl arolygiad.

Eleni, buom yn monitro cynnydd awdurdodau lleol o ran bodloni argymhellion o arolygiadau blaenorol o'u gwasanaethau addysg. **Fe wnaethom dynnu pum awdurdod o gategorïau gweithgarwch dilynol.** Mae'r awdurdodau hyn wedi gwneud cynnydd o ran:

- gwella cyfraddau presenoldeb ysgolion
- dadansoddi data perfformiad ysgolion
- gwneud trefniadau ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc
- cynllunio ar gyfer lleoedd ysgol
- cynllunio ariannol
- hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth, gydag awdurdodau eraill a rhwng ysgolion o fewn awdurdodau
- comisiynu neu gynnig cymorth ac arweinyddiaeth


**Mae'n destun pryder bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn pedwar awdurdod lleol o hyd, bod un awdurdod yn dal yn y categori angen gwelliant sylweddol a bod angen monitro gan Estyn ar dri awdurdod.** Mae'r awdurdodau lleol hyn yn gwneud cynnydd arafach o ran:

- codi safonau gwaith disgyblion
- gwella hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella mewn ysgolion
- sicrhau cysondeb ac ansawdd mewn ymyriadau ysgol


**Mae safonau mewn darparwyr ôl-16 yn amrywio.** Ni fu unrhyw arolygiadau craidd mewn sefydliadau addysg bellach (SABau) eleni, ond cynhaliom ymweliadau monitro â phob sefydliad a chyhoeddom adolygiad blynyddol o berfformiad ar gyfer pob darparwr. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud yn dda mewn SABau. Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddo dysgwyr yn is o ran cymwysterau medrau allweddol mewn rhifedd o gymharu â'r rheini mewn llythrennedd, ac nid yw dysgwyr difreintiedig yn cyflawni gystal ag y gallent am fod nifer anghymesur wedi cofrestru ar gyrsiau lefel is. Mae'n dda gweld cynnydd yn nifer y cyrsiau sy'n cael eu cynnig mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, a'r nifer sy'n dilyn cyrsiau lefel 3 yn gyffredinol.

Mae deilliannau yn y tri darparwr dysgu yn y gwaith a arolygwyd gennym eleni fymryn yn well nag oeddent y llynedd. **Mae deilliannau dysgwyr yn y ddau ddarparwr dysgu oedolion yn y gymuned a arolygom ymhlith rhai o'r gorau yn y sector.** Mae dysgwyr yn y system cyfiawnder yn gwneud yn well mewn lleoliadau diogel na phan fyddant yn cael eu goruchwylio gan dimau troseddau ieuenctid. Yn y lleoliadau gwannach hyn, nid yw'r bobl ifanc yn mynychu'n dda ac maent yn methu cwblhau eu rhaglenni addysg neu hyfforddiant.

**Ffigur 4: Nifer y darparwyr ôl-16 a cholegau arbenigol annibynnol, 2013-2014**




**Ffigur 5: Nifer yr arolygiadau / ymweliadau monitro blynyddol ar gyfer darparwyr ôl-16 a cholegau arbenigol annibynnol, 2013-2014 (a)**




(a) Ymweliadau monitro blynyddol oedd y rhain yn y sector addysg bellach ac arolygiadau ym mhob sector arall.

## Faint o gynnydd sydd wedi'i wneud dros bum mlynedd?

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae arolygiadau Estyn wedi nodi llawer o gryfderau a diffygion yn y system addysg. Gwnaed cryn ymdrech gan athrawon, arweinwyr a rheolwyr i fynd i'r afael â'r diffygion hynny ac adeiladu ar y cryfderau. Yn y rhagair hwn, rwyf am fyfyrio ar rywfaint o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ac sydd yn cael ei wneud mewn agweddau allweddol ar ddarpariaeth, a nodi lle mae angen gwneud mwy o gynnydd.

## Pa mor dda y mae ysgolion a lleoliadau yn cefnogi lles plant a phobl ifanc?

Nid yw rhieni yn anfon eu plant i'r ysgol i gael canlyniadau arholiadau da yn unig. Maent hefyd am i'w plant ddatblygu yn ddinasyddion ifanc cyflawn a hyderus sydd â synnwyr cadarn o'r da a'r drwg, sy'n gallu cyd-dynnu â phobl eraill ac sy'n gwybod sut i fyw bywyd iach.

**Mae lles disgyblion yn dda yn aml mewn lleoliadau, ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac ysgolion uwchradd.** Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn canolbwyntio ar eu gwaith ac yn cydweithredu ag athrawon, staff cymorth a disgyblion eraill. Mewn nifer o ysgolion, yn enwedig mewn ychydig o ysgolion uwchradd lle mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r ethos yn wael, mae ymddygiad aflonyddgar rhai disgyblion yn cael effaith niweidiol ar gynnydd disgyblion eraill yn yr un dosbarthiadau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae ysgolion a lleoliadau yn darparu cymorth cadarn i blant a phobl ifanc, ac mae'r rheini sy'n wynebu anawsterau emosiynol, ymddygiadol neu gymdeithasol yn elwa o grwpiau anogaeth, addysg bersonol a chymdeithasol a chwnsela.

Mae athrawon yn y mwyafrif o ysgolion cynradd yn defnyddio ystod o ddulliau i ennyn diddordeb disgyblion mewn materion moesegol a chymdeithasol. Mae ychydig o ysgolion wedi sefydlu rhaglenni i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau athronyddol ac i archwilio sut mae'r cysyniadau hynny'n effeithio ar eu meddwl a'r dewisiadau a wnânt. Mae ysgolion eraill yn defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i helpu disgyblion archwilio materion moesol a moesegol ac i ddatblygu rheolau dosbarth a siarteri ysgol. Mewn llawer o ysgolion, mae'r cyngor ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd a gwaith y plant.

Mewn arolygiadau, adroddwn yn rheolaidd ar absenoldeb disgyblion o'r ysgol a bwlio. O ganlyniad i weithredu cydunol gan ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n sylweddol. Yn adran 1 adroddiad blynyddol eleni, rwyf yn cyfeirio yn ôl at faterion presenoldeb a bwlio, ac rwyf hefyd yn trafod agweddau eraill ar les gan gyfeirio'n benodol at blant sydd mewn perygl o dangyflawni.

## Pa mor dda y mae ysgolion yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach?

Mae ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod chwarter o blant pedair a phump oed yn rhy drwm, bod un o bob deg yn ordew, a bod ychydig dros draean o'r holl blant o dan 16 oed yn rhy drwm neu'n ordew. Mae hyn yn cynyddu i hanner y bobl yn y grŵp oedran 16-44.

Mae ymatebion i arolwg Estyn o ddysgwyr a rhieni yn dangos bod bron yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd a'u rhieni yn teimlo bod eu hysgolion yn addysgu disgyblion yn dda ynglŷn â sut i gadw'n iach. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod eu hysgolion yn addysgu disgyblion yn dda ynglŷn â sut i gadw'n iach, ond dim ond 80% o ddisgyblion sy'n cytuno bod eu hysgol yn cynnig darpariaeth dda yn hyn o beth.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach o ran deiet a gweithgarwch corfforol. O ganlyniad, mae disgyblion yn aml yn gwneud dewisiadau iach o ran beth maent yn ei fwyta a'i yfed yn yr ysgol. Mae hyn oherwydd bod athrawon yn canolbwyntio ar fwyta'n iach mewn

gwersi perthnasol ac am fod y dewisiadau bwyd yn ffreutur yr ysgol yn rhoi hwb iddynt i'r cyfeiriad iawn.

Mewn rhai ysgolion cynradd, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn rhedeg siop ffrwythau a bwyd yn ystod amserau egwyl. Mae mentrau buddiol eraill i hyrwyddo bwyta'n iach yn cynnwys cael diwrnodau 'bwyta ffrwythau' fel 'Dydd Gwener Ffrwythau' a chlybiau coginio lle bydd plant yn gwneud bwyd maethlon a blasus. Mewn rhai ysgolion, mae plant yn cynhyrchu cynlluniau bwyta'n iach, sy'n cael eu cymeradwyo gan rieni, neu maent yn dylunio labeli ar gyfer y bwyd yn ffreutur yr ysgol, gan ddangos y gwerthoedd siwgr a braster perthnasol. Ymateba'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig i'r mentrau hyn.

Mae ychydig o ysgolion uwchradd wedi creu amgylchedd deniadol dull caffeteria i ddarparu man steilus a phoblogaidd i gael cinio. Fodd bynnag, mae tuedd i fwy o ddisgyblion adael safleoedd ysgolion uwchradd amser cinio i gael dewisiadau bwyd llai iach. Hefyd, mae achosion mewn ysgolion uwchradd o ddisgyblion yn dod â bwyd a diod llai iach i mewn i'r ysgol - eitemau fel creision a diodydd swigod - a'u gwerthu i ddisgyblion eraill.

## Pa mor dda y mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi datblygiad cynnar?

Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen gan Lywodraeth Cymru ym Medi 2008. Mae llawer o ymarferwyr wedi gweithio'n gyson ers hynny i addasu'u harferion addysgu, cynllunio ac asesu ac i greu amgylcheddau dysgu newydd, yn enwedig mewn mannau awyr agored, i gefnogi datblygiad cynnar plant mewn ffyrdd newydd.

Gwyddwn fod ansawdd eu profiadau dysgu yn bwysig iawn i ddatblygiad cynnar disgyblion, yn enwedig ar gyfer datblygu lleferydd ac iaith, ac ar gyfer dealltwriaeth plant o ffeithiau a chysyniadau rhif sylfaenol. Mae darparwyr da y blynyddoedd cynnar yn cynnig ystod eang o brofiadau ysgogol a diddorol i blant. Maent yn cyfoethogi'r amgylchedd iaith drwy siarad â phlant mewn brawddegau llawn ac mewn ffordd strwythuredig. Mae cwestiynau treiddgar yn annog dysgwyr i feddwl ac i ddarparu atebion yn eu geiriau eu hunain. Lle ceir darpariaeth dda, mae plant yn datblygu diddordeb mewn llyfrau ac iaith ysgrifenedig. Maent yn archwilio'r awyr agored ac yn cymryd rhan mewn chwarae cymdeithasol cyfoethog gyda phlant eraill. Hefyd, dysgant i ddyfalbarhau gyda gweithgaredd ac i ganolbwyntio ar broblem.

**Lle ceir y nodweddion da hyn mewn darpariaeth y blynyddoedd cynnar – fel mewn llawer o leoliadau nas cynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir ac ysgolion cynradd – gallant helpu plant i wneud cynnydd cyflym. Gallant fod yn bwysig hefyd o ran lliniaru effaith anfantais gymdeithasol ac economaidd ar ddysgu cynnar.**

Mewn llawer o ysgolion, mae'r nodweddion da hyn yn parhau trwy gydol y Cyfnod Sylfaen ac mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn safonau, er o fan cychwyn isel weithiau. At ei gilydd, bu mwy o welliannau mewn llythrennedd, yn enwedig mewn ysgrifennu, nag mewn rhifedd. Serch hynny, mae'n bryder bod ychydig o ysgolion wedi mynd yn ôl i ddefnyddio arddull addysgu mwy ffurfiol gyda phlant iau a phlant hŷn yn yr ystod oedran 3-7. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau ymarferwyr o ofynion cysylltiedig ag oed y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a phrofion cenedlaethol mewn darllen a rhifedd. Yn gynyddol, mae ychydig o ysgolion yn troi at ddefnydd amhriodol o gynlluniau cyhoeddedig, ffurfiol, rhai ohonynt yn anelu at ddysgu ffoneg mewn ffordd sydd y tu hwnt i allu plant ifanc, gan mai cyfyngedig yw eu gallu i nodi mân wahaniaethau rhwng seiniau ac i gynhyrchu'r seiniau eu hunain. Nid yn gymaint bod y cynlluniau cyhoeddedig eu hunain yn ddiffygiol. Yn hytrach, y defnydd amhriodol a wneir ohonynt ar yr adeg anghywir mewn datblygiad plentyn sy'n achosi'r anhawster. O'u cymryd ynghyd, mae'r tueddiadau hyn wedi arwain at lai o ffocws a hyder ymhlith ychydig o ddarparwyr y blynyddoedd cynnar.

## Pa gynnydd sy'n cael ei wneud mewn llythrennedd a rhifedd?

Un pryder allweddol yn fy adroddiad blynyddol ar addysg a hyfforddiant yn 2009-2010 oedd bod 'gormod o ddisgyblion ac oedolion yng Nghymru â gafael gwan ar yr hanfodion'. Bryd hynny, adroddom fod gormod o ddisgyblion yn mynd i mewn i ysgolion uwchradd gydag oedrannau darllen islaw eu hoedrannau cronolegol, a bod medrau ysgrifennu disgyblion yn wan. Roedd yn amlwg hefyd mai ychydig o ddysgwyr abl oedd yn cyrraedd y lefelau llythrennedd uwch a bod lefelau llythrennedd sylfaenol isel gan ormod o oedolion.

Dangosodd tystiolaeth arolygu fod cynllunio trawsgwricwlaidd ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn wan. Ychydig o athrawon oedd yn cynllunio'n fanwl sut i ddatblygu ac atgyfnerthu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

**Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r darlun at ei gilydd wedi bod yn un o welliant cyffredinol yn y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd, er mai yn gymharol araf y mae hyn yn digwydd.**

## Pa mor ddefnyddiol yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd?

Yn 2013, cyflwynwyd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ac mae ysgolion wedi'i groesawu at ei gilydd. **Dywed arweinwyr a rheolwyr mewn ysgolion fod y FfLlRh wedi codi disgwyliadau ar gyfer staff o'r hyn y gall, ac y dylai, disgyblion ei gyflawni wrth iddynt symud drwy'r ysgol.** Erbyn hyn, mae gan lawer o ysgolion cynradd, a bron pob ysgol uwchradd, gydlynwyr llythrennedd a rhifedd â chyfrifoldeb i arwain ar ddatblygu'r meysydd hyn a chynorthwyo staff eraill. Mae hwn yn welliant sylweddol ar y sefyllfa cyn cyflwyno'r FfLlRh.

**Ers cyflwyno'r FfLlRh, rydym wedi gweld cynlluniau mwy priodol ar gyfer gwella llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Nid yw'r darlun yn un mor gadarnhaol ar gyfer rhifedd** lle mae ond rhyw hanner o ysgolion cynradd ac uwchradd wedi datblygu cynlluniau cadarn ar gyfer cyflwyno rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae mwy o sylw yn cael ei roi yn sicr i lythrennedd a rhifedd mewn cynllunio ysgol gyfan ac mewn datblygiad proffesiynol athrawon.

Ers cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, mae'r mwyafrif o **ysgolion cynradd ac uwchradd** wedi:

- archwilio eu darpariaeth a'i mapio yn erbyn y FfLlRh er mwyn nodi bylchau yn y ddarpariaeth
- addasu'u cynlluniau gwaith er mwyn eu cysoni â'r FfLlRh
- nodi adnoddau i staff a disgyblion eu defnyddio mewn gwersi sy'n adlewyrchu'r FfLlRh

## Pa gynnydd sy'n cael ei wneud mewn llythrennedd?

Dros y blynyddoedd, bu pryderon ers tro ynglŷn â darllen cynnar disgyblion, ac yn benodol eu dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng seiniau a llythrennau. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ysgolion cynradd wedi gwella datblygiad cynyddol a systematig gwybodaeth a medrau ffonig disgyblion. Hefyd, mae llawer mwy o ymwybyddiaeth erbyn hyn o nodweddion mathau gwahanol o ysgrifennu a'u dibenion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd nag oedd bum mlynedd yn ôl.

Yn fwy diweddar, mae pryderon wedi dod i'r amlwg ynglŷn â sut i gyflawni'r cydbwysedd mwyaf effeithiol rhwng addysgu medrau iaith ac astudio llenyddiaeth mewn gwersi Cymraeg a Saesneg. Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon yn defnyddio llenyddiaeth yn dda i ddatblygu hoffter disgyblion o ddarllen a'u gwerthfawrogiad o ysgrifennu da. Mewn rhai ysgolion cynradd ac uwchradd, fodd bynnag, mae astudio llenyddiaeth wedi disodli addysgu medrau iaith gormod. Yn yr ysgolion hyn, **nid oes digon o gyfleoedd o hyd i ddatblygu medrau lefel uwch, fel medrau cyfosod, defnyddio awgrym, dod i gasgliad a rhagfynegi wrth ddarllen testunau ffeithiol.** Nid yw athrawon yn gwneud digon ychwaith i annog disgyblion i ddatblygu medrau rhesymu a dadlau ar lafar.

## Pa gynnydd sy'n cael ei wneud mewn rhifedd?

Mewn lleiafrif o ysgolion, er bod y ffocws ar rifedd wedi cynyddu, mae gormod o staff nad ydynt yn ei weld yn brif flaenoriaeth. Mewn ychydig o ysgolion cynradd, mae datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn dal i gael blaenoriaeth. **Fel arfer, mae cynlluniau i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn wannach na chynlluniau i ddatblygu llythrennedd yn y rhan fwyaf o ysgolion.** Mewn rhyw hanner o ysgolion cynradd ac uwchradd, mae disgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd i lefel dda ac yn cymhwyso'r medrau hyn yn rhesymol o dda yn yr ystod pynciau lle mae rhifedd yn arbennig o berthnasol, mewn gwyddoniaeth neu dechnoleg neu ddaearyddiaeth, er enghraifft. Mewn rhyw hanner o ysgolion, fodd bynnag, mae disgyblion yn ei chael hi'n anodd defnyddio technegau rhif sylfaenol yn rhugl neu i greu a dehongli graffiau a siartiau yn briodol ar draws y cwricwlwm. Y rheswm am hyn yn aml yw gwendidau mewn rhesymu mathemategol a medrau rhifiadol staff addysgu mewn mathemateg ac mewn pynciau perthnasol eraill. Oni bai bod athrawon yn y pynciau eraill hyn yn gwbl rifog eu hunain, ni fyddant yn sylwi ar gamgymeriadau rhifiadol mewn gwaith disgyblion yn gyson, nac yn gwbl ymwybodol o'r cyfleoedd i fynd â dysgu disgyblion mewn rhifedd ymhellach.

## A oes llai yn astudio cymwysterau mathemateg a gwyddoniaeth mewn ysgolion?

Rydym wedi nodi pryder mewn nifer o adroddiadau blynyddol blaenorol ynglŷn â'r gostyngiadau yn niferoedd y disgyblion sy'n astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg yn 16 oed a hŷn. **Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r niferoedd sy'n astudio bioleg, cemeg a ffiseg fel gwyddorau ar wahân ar lefel TGAU wedi gwella ychydig, ond mae'r niferoedd sy'n astudio gwyddoniaeth a phynciau'n gysylltiedig â mathemateg ar lefel Safon Uwch wedi bod yn statig dros y blynyddoedd diwethaf.**

Mae pryder newydd wedi dod i'r amlwg ar gyfer disgyblion yn yr ystod oedran 14-16. **Mae cyfran y disgyblion sy'n astudio cyrsiau gwyddoniaeth gymhwysol lefel 2 wedi cynyddu'n fawr ar draul cyrsiau TGAU dyfarniad dwbl mewn gwyddoniaeth.** Mae disgyblion sy'n astudio gwyddoniaeth gymhwysol ar lefel 2 yn tueddu peidio â gwneud cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth wyddonol, llythrennedd a rhifedd ar yr un gyfradd â'r rheini sy'n dilyn cyrsiau TGAU, ac mae eu dewisiadau ar gyfer dilyniant ar y lefel nesaf – lefel 3 – yn fwy cyfyngedig o ganlyniad i hynny.

## A yw ysgolion yn gwella'r broses o asesu gwaith disgyblion?

Mae llawer o adroddiadau blynyddol dros y blynyddoedd diwethaf wedi nodi gwendidau yn yr asesu mewn ysgolion. **Mae llawer o adroddiadau arolygu yn dal i ddweud nad yw asesiadau athrawon mewn ysgolion bob amser yn ddigon cadarn neu ddibynadwy. Wrth edrych ar lyfrau disgyblion yn ystod arolygiadau, mae arolygwyr yn aml yn canfod bod diffyg cyfatebiaeth rhwng y lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol a ddyfarnwyd gan staff ac ansawdd gwaith y disgyblion.** Mae argymhellion mewn adroddiadau arolygu yn aml yn tynnu sylw at yr angen i wella cywirdeb a chysondeb gwaith asesu athrawon, a'r angen i esbonio'n glir i ddisgyblion sut i wella eu gwaith.

Yn ôl yn 2007-2008, dywedodd yr adroddiad blynyddol 'nid yw asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn ddigon cyson ar hyd a lled Cymru'. Mae hyn yn wir o hyd. Mae llawer o ysgolion yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd safoni a chymedroli fel rhan o asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol ochr yn ochr â staff o ysgolion eraill, ond nid yw'r gweithgareddau hyn ar hyn o bryd yn gwarantu safonau asesu genedlaethol sy'n gadarn, yn ddibynadwy a chywir. Bellach, mae llawer o ysgolion yn defnyddio systemau olrhain electronig i wirio cynnydd disgyblion. Mae'r systemau hyn yn gyfrwng defnyddiol i athrawon ac arweinwyr mewn ysgolion yn aml, ond dim ond mor gywir â'r wybodaeth a gaiff ei bwydo iddynt yw'r systemau hyn.

**Lle nad yw asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol yn gadarn, gall hyn gamarwain disgyblion a thanseilio hygrededd hunanarfarnu ysgolion.** Os nad oes gan ysgolion wybodaeth ddigon cadarn am berfformiad disgyblion, ni allant farnu beth sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda. Ni fydd staff yn gwybod p'un a yw newidiadau penodol y maent wedi'u gwneud i'r addysgu a'r dysgu wedi bod yn effeithiol neu beidio. Lle mae'r asesu yn wan, mae'n golygu bod rhieni a llywodraethwyr yn derbyn negeseuon gwyrgam ynglŷn â chynnydd disgyblion. Hefyd, mae gan asesiadau gwan athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol y potensial i danseilio atebolrwydd yn fwy cyffredinol, yn enwedig pan fydd yr asesu hwnnw'n rhan hanfodol o'r sail ar gyfer barnu perfformiad athrawon ac ar gyfer barnu pa ysgolion sy'n gwneud yn dda a pha rai sy'n methu gwneud hynny.

## Meithrin gallu: a yw ansawdd yr addysgu yn gwella?

Bu ffocws cadarn ar wella medrau a gallu staff i ymgymryd â nifer o fentrau newydd yn ddiweddar, er enghraifft, i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac i gefnogi cyflwyno cymwysterau newydd.

**Mae'r hyfforddiant i staff i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion wedi gwella ers cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.** Yn 2012-2013, roedd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ysgolion ganolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn ystod eu diwrnodau hyfforddiant mewn swydd. Ers hynny, mae bron pob ysgol wedi canolbwyntio'r rhan fwyaf o'u diwrnodau datblygu staff ar adolygu cynllunio a chyflwyno llythrennedd, a rhifedd i raddau llai. Yn ddiweddar, bu cynnydd hefyd yn yr hyfforddiant gyda'r nod o leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad.

Yn gyffredinol, mae diwrnodau hyfforddiant mewn swydd wedi'u cynllunio i adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd mewn adroddiadau hunanarfarnu ysgolion, cynlluniau gwella a threfniadau rheoli perfformiad. Mae mwy o staff cymorth yn cyfranogi mewn hyfforddiant ochr yn ochr ag athrawon erbyn hyn nag oedd bum mlynedd yn ôl, ond mae'r cyfranogiad hwn yn parhau'n wan yn o leiaf hanner yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Dros y pum mlynedd diwethaf, llythrennedd sydd wedi cael y sylw mwyaf, ond mae gwella medrau rhifiadol staff wedi parhau i fod yn her. Mae'n amlwg o'r gwersi a arsylwn a llyfrau'r disgyblion y craffwn arnynt fod gormod o athrawon heb y wybodaeth fathemategol briodol i fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau rhif disgyblion.

Mae'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol wedi cynnig lefelau cymorth amrywiol i staff mewn pynciau ar draws y cwricwlwm i'w helpu i arfarnu medrau disgyblion naill ai mewn llythrennedd neu rifedd ond, **yn y cyfnod hwn o'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol, nid yw athrawon yn gwbl glir eto ynglŷn â'r safonau a ddisgwylir na'r ffordd orau o ddatblygu gwybodaeth a medrau disgyblion.**

Mae awdurdodau lleol - ac, yn gynyddol, consortia - wedi gwneud cyfraniad da yn aml at hyfforddiant mewn swydd ysgolion dros y pum mlynedd diwethaf, ond nid yw'r un ohonynt, nac ysgolion eu hunain, wedi neilltuo llawer o amser i arfarnu effaith hyfforddiant mewn swydd. Mae'r modelau gorau ar gyfer datblygiad proffesiynol mewn ysgolion, fel mewn darparwyr eraill, yn cynnwys ymarferwyr wrth eu dylunio a'u cyflwyno, ac maent wedi'u teilwra yn ôl anghenion penodol. Mae rhai consortia'n adeiladu ar y canolfannau rhagoriaeth sydd eisoes yn bodoli mewn ysgolion.

Ym Medi 2012, darparodd Llywodraeth Cymru y cyfle i athrawon newydd gymhwyso ymgymryd â chwrs Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol i redeg ochr yn ochr â'u rhaglen sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar. Dewiswyd y meysydd astudio o fewn y rhaglen Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol yn ofalus i adlewyrchu blaenoriaethau a bennwyd gan benaethiaid, ac a nodwyd gan Estyn o ganfyddiadau arolygu. Bellach, mae'r rhaglen Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol yn cael ei haddasu i fod ar gael i athrawon yn fwy cyffredinol fel rhan o'r 'Fargen Newydd' ar gyfer ymarferwyr.

## Meithrin gallu: a yw cymorth rhwng ysgol ac ysgol yn gwneud gwahaniaeth?

Yn Nhachwedd 2013, sefydlwyd y prosiect Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol a Datblygol gan Lywodraeth Cymru. Mae hon yn galluogi ysgolion cynradd ac uwchradd â pherfformiad uchel i weithio gydag ysgolion y mae angen eu gwella. Mae canfyddiadau cynnar o'r ysgolion dan sylw yn galonogol.

Cyhoeddwyd rhaglen Her Ysgolion Cymru gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau 2014. Mae'r 40 o ysgolion 'Llwybrau Llwyddiant' yn derbyn adnoddau ac arbenigedd ychwanegol i ymgymryd â rhaglen o wella a gynlluniwyd i fod yn gyflym a chynaliadwy. Neilltuir cynghorydd sydd â hanes da o wella ysgolion i bob ysgol.

**Mae cymorth rhwng ysgol ac ysgol yn offeryn pwerus ar gyfer rhannu arfer effeithiol ac ar gyfer meithrin gallu arweinwyr a rheolwyr i wella ysgolion.** Mae gweithdrefnau a phrosesau hunanarfarnu wedi gwella o ganlyniad i hyn yn aml. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae ysgolion wedi canolbwyntio'n fanwl ar y deilliannau sy'n tarddu o ganfyddiadau hunanarfarnu, ac ar effaith unrhyw newidiadau a gyflwynwyd. Yn anochel efallai, eir at rai ysgolion da iawn yn rhy aml i ddarparu cymorth, a gall hyn fynd yn feichus iddynt.

**Ceir y buddion mwyaf pan na fydd yr ysgolion sydd mewn partneriaeth yn rhy bell oddi wrth ei gilydd o ran y camau yn eu gwelliant eu hunain. Gall gormod o wahaniaeth rhwng ysgolion partner gyfyngu ar y graddau y bydd cydweithredu yn llwyddo. A bydd ysgolion yn gweithio orau â'i gilydd, ac nid yw hynny'n syndod, pan fydd ymrwymiad cadarn i'r model cymorth rhwng ysgol ac ysgol.** Mae ansawdd arweinyddiaeth a'r gallu i gynhyrchu ymrwymiad cadarn i welliant ymhlith staff ar bob lefel yn parhau'n allweddol i lwyddiant. Mewn lleiafrif o ysgolion partner â pherfformiad isel, mae amharodrwydd ar lefel uwch aelodau staff i dderbyn y diffygion yn yr ysgol yn cyfyngu ar ymrwymiad a chynnydd.

## Meithrin gallu: a yw ansawdd arweinyddiaeth yn gwella?

**Lle bydd angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn ysgol, neu lle bydd angen gwelliant sylweddol ynddi, mae arweinyddiaeth wan yn destun pryder bron bob tro. Mae hyn wedi bod yn wir hefyd yn y ddarpariaeth ôl-16.** Weithiau, pan fydd ysgol wedi'i rhoi mewn categori sy'n peri pryder, mae newid wedi bod yn yr arweinyddiaeth, neu, yn amlach, mae ymyrraeth ar waith - gan gonsortia neu awdurdodau lleol ac o weithgarwch dilynol Estyn - i gynorthwyo arweinwyr i ddatblygu medrau arweinyddiaeth. Mae llwyddiant cymharol yr ymyrraeth hon yn awgrymu nad yw hyn yn gymaint o fater yn ymwneud â gallu arweinwyr, ond yn hytrach methiant o fewn y system i nodi pryderon ynglŷn ag arweinyddiaeth mewn ysgolion yn ddigon cynnar i gynnig cymorth a datblygiad i arweinwyr er mwyn gwneud yn siŵr nad yw eu hysgolion yn methu.

**Mae canfyddiadau arolygu wedi dangos, dro ar ôl tro dros y pum mlynedd diwethaf, fod cysylltiad rhwng ansawdd arweinyddiaeth ac ansawdd deilliannau ar gyfer dysgwyr.** Fodd bynnag, caiff aelodaeth y garfan o arweinwyr ar y lefelau uchaf ei phennu gormod o hyd gan uchelgais unigol a phersonol, a dim digon ar hyn o bryd gan unrhyw system genedlaethol ar gyfer sicrhau bod darpar arweinwyr a rheolwyr y dyfodol yn datblygu'r medrau sydd eu hangen ar y system.

Yn ein harolygiadau, rydym yn gweld mwy o enghreifftiau o rolau arwain yn cael eu rhannu allan ar draws pob lefel mewn ysgolion a sefydliadau eraill nag a welwyd bum mlynedd yn ôl. Mae hon yn nodwedd gadarnhaol, gan nad yw nodweddion arweinyddiaeth effeithiol wedi'u cyfyngu i benaethiaid neu brifathrawon yn unig. Dylai pawb sy'n gysylltiedig â chyflwyno a hwyluso addysg a hyfforddiant yng Nghymru gael cyfleoedd i arfer arweinyddiaeth. Mae dosbarthu rolau arwain yn helpu i wella medrau arwain mewn mwy o ymarferwyr.

Ysgogwr arall ar gyfer gwelliant fu cynnwys rheolwyr ysgol a rheolwyr ôl-16 mewn arolygiadau Estyn fel arolygwyr cymheiriaid. Mae nifer yr arolygwyr cymheiriaid yn cynyddu bob blwyddyn, ac ar hyn o bryd mae gennym un neu fwy o arolygwyr cymheiriaid mewn 80% o ysgolion uwchradd, yn ogystal ag mewn nifer gynyddol o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig a darparwyr ôl-16. Dywed llawer o arolygwyr cymheiriaid wrthym mai cyfranogi'n uniongyrchol mewn arolygiadau Estyn yw un o'r profiadau hyfforddi gorau y maent wedi'i gael.

Ysgogwr arall eto – ac un pwysig iawn o bosibl – fydd y Bwrdd Genedlaethol Datblygu Arweinyddiaeth, sydd wedi'i sefydlu i roi cyngor ar llwybr arweinyddiaeth cydlynus ar gyfer athrawon a rheolwyr ym mhob cyfnod allweddol o'u gyrfaoedd.

**Dros y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig, bu angen i arweinwyr ddatblygu medrau newydd i ymateb i'r heriau cynyddol y maent wedi'u hwynebu.** Bu angen medrau hunanarfarnu a chynllunio mwy fforensig ar arweinwyr, ynghyd â galluoedd ehangach yn ymwneud â llunio gweledigaeth gynhwysol ar gyfer y dyfodol, a meddu ar yr egni a'r argyhoeddiad i wireddu'r weledigaeth honno. Roedd disgwyl i arweinwyr dalu sylw mwy cyson i'r busnes craidd o addysgu a dysgu. Roedd angen iddynt feithrin partneriaethau o fewn ysgolion a cholegau, gydag ysgolion a darparwyr ôl-16 eraill a gydag asiantaethau fel y gwasanaethau ieuenctid a'r gwasanaethau plant.

Yn gynyddol, mae arweinwyr yn cydnabod bod mwy o ofyniad nawr i weithio ar y cyd ac i ddatblygu dulliau newydd o weithio mewn partneriaeth. Mae'r arweinwyr gorau wedi gallu cyd-drafod darpariaeth well ar gyfer eu dysgwyr drwy ffedereiddio ysgolion, drwy sefydlu ysgolion pob oed, drwy uno sefydliadau addysg bellach neu drwy ehangu dewisiadau mewn rhwydweithiau 14-19. Mae hyn wedi mynnu medrau cydweithredu a chyfathrebu gwell ar draws llawer o fathau o rwydweithiau.

**Mae gallu arweinwyr i feddwl y tu hwnt i'w sefydliad eu hunain yn nodwedd allweddol o'r hyn sydd ei angen o hyd er mwyn gwella addysg a hyfforddiant yng Nghymru.** Dros y pum mlynedd diwethaf, gwelwyd arwyddion calonogol fod arweinwyr a rheolwyr yn dechrau edrych yn ehangach ar eu rolau a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, er gwaetha'r cynnydd da yn y meysydd arwain hyn, mae gormod o ynysyddiaeth mewn rhai darparwyr, ysgolion ac awdurdodau lleol o hyd. Er enghraifft, er y gwyddwn fod Llwybrau Dysgu 14-19 wedi arwain at ddewisiadau pynciau ehangach a mwy o gymorth dysgu yng nghyfnod allweddol 4, gwyddwn hefyd fod rhai ysgolion yn dal i ddangos tuedd tuag at gadw disgyblion yn eu chweched dosbarth eu hunain, ac nid yw disgyblion bob amser yn cael gwybodaeth gywir neu ddiduedd wrth wneud eu dewisiadau yn 14 neu 16 oed. Er bod y pwyntiau trosglwyddo i ddysgwyr rhwng lleoliadau ac ysgolion cynradd, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, ac ysgolion uwchradd a darparwyr ôl-16, wedi bod yn ffocws llu o adolygiadau, adroddiadau a mentrau polisi, mae rhwystrau yn bodoli o hyd i rannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc, ac ychydig iawn o enghreifftiau sydd o gynllunio ar y cyd yn systematig rhwng darparwyr ar draws y pwyntiau trosglwyddo.

Er mwyn lliniaru ymhellach effeithiau tlodi ar gyflawniadau disgyblion, bydd angen i arweinwyr sicrhau bod yr holl asiantaethau perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithlon, gan gynnwys y gwasanaethau ieuenctid, y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, fel bod pawb yn rhannu dealltwriaeth o angen ac ymrwymiad diffuant i unioni er budd disgyblion o gefndiroedd cymharol dlawd. Mae Adran 1 Adroddiad Blynyddol eleni yn rhoi ffocws ar yr heriau y mae ysgolion a darparwyr eraill yn eu hwynebu o ran goresgyn effaith tlodi ac anfantais ar gynnydd disgyblion.

## Gair i gloi

Mae llawer o heriau yn bodoli o hyd, yn enwedig o ran codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd, a mynd i'r afael ag effaith tlodi cymharol ar gyflawniadau disgyblion. Fodd bynnag, **mae llawer o waith da wrthi'n cael ei wneud.** Mae'r trefniadau cwricwlwm ac asesu mewn ysgolion yn destun adolygiad, felly hefyd y system ar gyfer hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant mewn swydd athrawon. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i lwybrau i ddatblygu gallu arweinwyr a darpar arweinwyr o fewn y system. Mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd yn fwy systematig i gynorthwyo ei gilydd i wella. Mae cynlluniau ar waith i ddod ag awdurdodau lleol at ei gilydd ac i gryfhau consortia addysg rhanbarthol er mwyn cefnogi gwelliant.

**Fodd bynnag, mae anghydbwysedd o hyd rhwng buddsoddi mewn mecanweithiau sy'n dwyn ysgolion a darparwyr eraill i gyfrif, a buddsoddi mewn strategaethau i feithrin gallu yn y gweithlu, gan gynnwys y gallu i arwain.** Mae angen i ni roi mwy o bwyslais ar feithrin gallu wrth i ni symud i ddyfodol sy'n cynnig gweledigaeth newydd ar gyfer yr hyn a fydd yn cael ei gyflwyno yn y cwricwlwm, a'r hyn a fydd o'r herwydd yn newid y profiad o ddysgu ac addysgu fel ei gilydd.

Ar cyfan, er y gall cyfraddau gwella amrywio ar draws sectorau addysg, mae tystiolaeth arolygu yn dangos bod y rhan fwyaf o ysgolion a darparwyr ôl-16 yn lleoedd da i blant a phobl ifanc fod ynddynt. Yn y rhan fwyaf o ysgolion a darparwyr ôl-16, mae plant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd ac yn elwa o ethos o barch. Ym mhob sector, ceir athrawon sy'n gallu paratoi gwersi sy'n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn datblygu'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae llawer iawn o athrawon, arweinwyr a rheolwyr cydwybodol ac ymroddgar yn ein hysgolion a'n darparwyr ar hyd a lled Cymru. Weithiau, ceir camddefnyddio egni. Weithiau, yn anffodus, ceir hunanfodlonrwydd neu arweinyddiaeth wan, neu, yn llai aml, anghymhwysedd.

Dros y 30 mlynedd diwethaf o'm bywyd fel arolygydd, bu ymrwymiad cadarn bob amser i wneud y gorau ar gyfer plant a phobl ifanc. Ond mae angen o hyd i Gymru feithrin gallu a medrusrwydd ei gweithlu addysg i gyflawni'r gorau posibl i'w phlant a'i phobl ifanc. Yr hyn sydd gennym yw sylfaen gadarn i adeiladu arni ar gyfer y dyfodol.



Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
2013-2014

# Ynghylch Adroddiad Blynyddol PAEM

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ariannu Estyn, ond rydyn ni'n annibynnol ar y Cynulliad.  Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

# Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin y mae awdurdodau lleol yn eu cynnal neu'n eu hariannu
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector Cyfiawnder

Nod uniongyrchol ein gwaith arolygu yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant ar hyd a lled Cymru.

Yn nifer o'r sectorau, rydyn ni'n gweithio gyda chyrff rheoleiddio ac arolygiaethau eraill i arolygu'r ddarpariaeth. Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid yn Ofsted i arolygu'r ddarpariaeth dysgu yn y gwaith sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Mae ein harolygwyr yn cydweithio ag AGGCC i arolygu ysgolion preswyl a chartrefi plant diogel awdurdodau lleol. Rydyn ni hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM, o dimau troseddau ieuenctid (TTI) yng Nghymru. Rydyn ni'n ymuno ag Arolygiaeth Carchardai EM ac Ofsted i arolygu sefydliadau ar gyfer troseddwyr ifanc yn Lloegr sydd â nifer sylweddol o bobl ifanc o Gymru. Rydyn ni hefyd yn cynnwys arolygwyr o Swyddfa Archwilio Cymru pan fyddwn ni'n arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol.

Rydyn ni hefyd yn cynnig cyngor ar faterion penodol i Lywodraeth Cymru mewn ymateb i gylch gwaith blynyddol mae'r Gweinidog Addysg yn ei roi i ni. Mae ein cyngor ni'n cynnig tystiolaeth o effaith strategaethau, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar addysg a hyfforddiant dysgwyr.

Rydyn ni'n cyhoeddi enghreifftiau o arfer dda ar sail tystiolaeth arolygu. Gallwn ni edrych o safbwynt unigryw ac annibynnol ar safonau ac ansawdd pob agwedd ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae gwneud hyn yn cyfrannu at y polisïau ar addysg a hyfforddiant sydd wedi'u cyflwyno ar hyd a lled Cymru.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith a'n dulliau gweithio, dilynwch y ddolen yma: www.estyn.gov.uk

# Y cylch arolygu dan sylw yn yr adroddiad yma

Pan fyddwn ni'n arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru, rydyn ni'n defnyddio ein Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae'r fframwaith yma'n cynnwys tri chwestiwn allweddol a deg o ddangosyddion ansawdd, ac maen nhw wedi'u trefnu dan y penawdau sy'n dilyn:

**Pa mor dda yw'r deilliannau?**

1.1 Safonau
1.2 Lles

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

2.1 Profiadau dysgu
2.2 Addysgu
2.3 Gofal, cymorth ac arweiniad
2.4 Yr amgylchedd dysgu

**Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

3.1 Arweinyddiaeth
3.2 Gwella ansawdd
3.3 Gweithio mewn partneriaethau
3.4 Rheoli adnoddau

Rydyn ni hefyd yn rhoi dwy farn gyffredinol ary perfformiad presennol ac ar y rhagolygon ar gyfer gwella.

Rydyn ni'n defnyddio'r raddfa bedwar pwynt sy'n dilyn i ddangos ein barnau arolygu.

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella'n gorbwyso'r cryfderau |

Mewn arolygiadau o wasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc, rydyn ni'n creu adroddiadau ar y ddarpariaeth dan bedwar pennawd:

2.1 Cymorth ar gyfer gwella ysgolion
2.2 Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol
2.3 Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles
2.4 Mynediad a lleoedd ysgol

# Gweithgarwch dilynol

Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr.

Gall hyn amrywio o nodi arfer ragorol i argymell mesurau arbennig. Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ac i ba sectorau y maent yn berthnasol.

| | Ysgolion a gynhelir | Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | Awdurdodau lleol | Lleoliadau nas cynhelir | Ôl-16 | Hyfforddiant cychwynnol i athrawon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfer ragorol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Monitro gan yr awdurdod lleol | ✓ | | | ✓ | | |
| Monitro gan Estyn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gwelliant â ffocws | | | | ✓ | | |
| Gwelliant sylweddol | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Mesurau arbennig | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Ailarolygiad | | | | | ✓ | ✓ |

| Categori | Esboniad |
|---|---|
| Arfer ragorol | Os yw darparwr yn cael unrhyw farnau rhagorol ac y nodir felly bod ganddo arfer sy'n arwain y sector mewn un maes neu fwy, bydd yn cael ei wahodd i ysgrifennu astudiaeth achos i'w rhannu gyda darparwyr eraill. Gellir cyhoeddi'r astudiaeth achos ar wefan Estyn. |
| Monitro gan yr awdurdod lleol | Bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r darparwr i fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad. Bydd swyddogion yr awdurdod lleol yn trafod cynnydd gydag arolygydd cyswllt Estyn ar gyfer yr awdurdod lleol. Tua blwyddyn ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, bydd yr awdurdod lleol yn ysgrifennu adroddiad i Estyn, yn esbonio'r modd y mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd. |
| Monitro gan Estyn | Gan amlaf, bydd angen y lefel hon o weithgarwch pan fydd o leiaf un o'r barnau cyffredinol ar gyfer darparwr yn ddigonol, ond nid yw'n achosi pryder i'r graddau bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arno. Os oes angen ymweliad monitro, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. |
| Gwelliant â ffocws | Os nodir bod angen gwelliant â ffocws ar leoliad nas cynhelir, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ei bryderon. Rhaid i bwyllgor rheoli / perchennog y lleoliad anfon eu cynlluniau gweithredu i Estyn i'w cymeradwyo. Bydd arolygydd Estyn yn ymweld â'r lleoliad bob tymor am hyd at dri thymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os nad yw'r lleoliad yn gwneud digon o gynnydd, bydd Estyn yn cysylltu â'r awdurdod lleol i awgrymu bod cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o'r lleoliad gan nad yw'n darparu addysg o safon dderbyniol. |
| Angen gwelliant sylweddol | Bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod y darparwr wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Os yw cynnydd yn annigonol, bydd y tîm yn ystyried p'un a oes angen mesurau arbennig ar y darparwr. |
| Mesurau arbennig | Os nodir bod angen mesurau arbennig ar ddarparwr, bydd Estyn yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ei fod wedi cael ei roi mewn categori statudol. Rhaid i'r darparwr anfon ei gynllun gweithredu i Estyn i'w gymeradwyo. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn fel arfer yn ymweld â'r darparwr bob tymor yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar y cynnydd y mae'r darparwr wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad. Bydd Estyn yn parhau i gynnal ymweliadau monitro nes bod y Prif Arolygydd yn penderfynu bod y darparwr wedi gwella ddigon i'w dynnu o'r categori mesurau arbennig. |
| Monitro gan Estyn: ôl-16 | Os nodir bod angen i ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon gael ei fonitro gan dîm Estyn, bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd tua blwyddyn yn ddiweddarach. Os yw arolygwyr yn barnu bod cynnydd annigonol wedi'i wneud, gallai hyn arwain at ailarolygiad llawn. Yn dilyn monitro gan Estyn, bydd llythyr yn cael ei gyhoeddi ar wefan Estyn, yn adrodd ar ganfyddiadau'r ymweliad monitro. |
| Ailarolygiad | Os nodir bod angen ailarolygiad llawn ar ddarparwr hyfforddiant ôl-16 neu ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon, bydd yr arolygiaeth yn ysgrifennu llythyr at y darparwr, gyda chopi i'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), ac, yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC), yn nodi'r meysydd y mae angen eu gwella, a bydd yn cynnal ailarolygiad llawn o'r darparwr ymhen blwyddyn i 18 mis. Ar ôl yr ailarolygiad, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad llawn yn arfarnu'r cynnydd a wnaed gan y darparwr. Os yw'r tîm yn barnu bod cynnydd annigonol wedi'i wneud ar ddiwedd ailarolygiad, adroddir am hyn wrth yr AdAS, ac wrth CCAUC yn achos hyfforddiant cychwynnol i athrawon, fel rhan o'u gweithdrefnau rheoli contract. |

# Esboniad o’r geiriau a’r ymadroddion rydyn ni’n eu defnyddio i ddisgrifio’n harfarniadau

Y geiriau a’r ymadroddion yng ngholofn chwith y tabl sy’n dilyn yw’r rheini’r ydyn ni’n eu defnyddio i ddisgrifio’n harfarniadau. Yr ymadroddion yn y golofn dde yw’r esboniadau mwy manwl-gywir.

| | |
|---|---|
| **bron bob un** | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| **y rhan fwyaf** | 90% neu fwy |
| **llawer** | 70% neu fwy |
| **mwyafrif** | dros 60% |
| **hanner neu tua hanner** | agos at 50% |
| **lleiafrif** | o dan 40% |
| **ychydig** | o dan 20% |
| **ychydig iawn** | llai na 10% |

**Nodiadau am y data rydyn ni’n eu defnyddio yn yr adroddiad yma**

1 Mae’r data rydyn ni’n eu dangos mewn siartiau neu’n eu trafod yn nhestun yr adroddiad yn dod o gronfa ddata graddau arolygu Estyn. Rydyn ni’n nodi yn yr adroddiad o ba ffynonellau eraill mae data wedi dod, ac mae'n deillio'n bennaf o adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru.

2 Mae’r ffigurau yn y siartiau wedi’u talgrynnu i’r ganran gyfan agosaf. Oherwydd hynny, mae’n bosib na fydd canrannau’n gwneud cyfanswm o 100%.





# Adran 1: Dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni

Mae'r ffocws yn yr adran hon ar y grwpiau hynny o ddysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni, ac ar y ffyrdd y mae ysgolion a darparwyr eraill yn eu cynorthwyo i gyflawni. Yn rhan gyntaf yr adran hon, bydd y naratif yn dilyn cronoleg y sectorau addysg, gan ddechrau gyda'r blynyddoedd cynnar a gorffen gyda sectorau ôl-16. Gwneir cymhariaeth rhwng ysgolion arbennig, sy'n cynnig darpariaeth eithriadol o dda i un grŵp o ddysgwyr ag anghenion arbennig, ac unedau cyfeirio disgyblion, sy'n cynnig darpariaeth o ansawdd cymysg iawn i grŵp gwahanol o ddysgwyr sydd mewn perygl.

Mae ail ran yr adran yn canolbwyntio ar yr heriau sy'n gysylltiedig â grwpiau penodol o ddysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni, sef dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rheini ag anghenion addysgol arbennig, plant sy'n derbyn gofal, dysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, a dysgwyr mwy abl a thalentog. Yn olaf, mae sylwebaeth ar les yn canolbwyntio ar bwysigrwydd strategaethau i gynorthwyo presenoldeb, meithrin ymddygiad da a mynd i'r afael â bwlio.

Ni fydd y naratif yn yr adran hon yn adrodd ystod lawn y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â thangyflawniad y grwpiau a nodwyd uchod, gan fod dealltwriaeth dda o'r dystiolaeth hon eisoes. Yn hytrach, bydd yr adran hon yn mynd ati i nodi priodweddau'r ysgolion hynny a darparwyr eraill sy'n llwyddo i oresgyn y rhwystrau sy'n wynebu'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl. Bydd astudiaethau achos yn dangos sut a ble y mae ysgolion a darparwyr eraill yn llwyddo.

Mae'r adran hon yn defnyddio tystiolaeth o adroddiadau AEM ar ddarparwyr unigol yn ogystal ag o sail y dystiolaeth ar gyfer adroddiadau arolygon thematig y mae Estyn wedi'u cyhoeddi. Cafwyd llawer o'r data a ddefnyddir yn yr adran hon oddi wrth Lywodraeth Cymru. Rhoddir cyfeiriadau ffynonellau eraill mewn troednodiadau yn yr adran hon.

# Dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni mewn ysgolion a lleoliadau

Mae gan ysgolion llwyddiannus lawer o nodweddion cadarnhaol sy'n diogelu dysgwyr dan anfantais rhag tangyflawni a'u helpu i wireddu'u potensial. Rydym wedi cynnal nifer o arolygon dros y blynyddoedd diwethaf ar ba mor dda y mae ysgolion yn helpu dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyflawni'n dda.[1]

Mae ein canfyddiadau'n dangos bod cael eu haddysgu mewn ysgol dda neu gan ddarparwr da yn gwneud gwahaniaeth i ddysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni. Mae dysgwyr sydd mewn perygl yn gwneud yn dda os cânt eu haddysgu'n dda, os ydynt yn mwynhau profiadau dysgu perthnasol a diddorol ac yn cael cymorth priodol, ac os yw eu hysgol yn cael ei harwain gan bobl sy'n myfyrio ar yr hyn sy'n gweithio, ac yn gweithredu ar hynny. Mae'r dysgwyr hyn yn elwa hefyd os yw eu hysgol yn meithrin gallu rhieni a theuluoedd i gefnogi dysgu, ac maent yn elwa os yw eu hysgol yn gweithio mewn partneriaethau amlasiantaeth lle mae cyfrifoldeb ar y cyd i helpu dysgwyr gynyddu hyd yr eithaf yr hyn y gallant ei gyflawni, ni waeth beth yw'r rhwystrau.

Er ei bod yn wir fod llawer o ddysgwyr sydd mewn perygl yn llwyddo yn ein hysgolion, serch hynny, mae perfformiad rhai grwpiau o ddysgwyr sydd mewn perygl yn rhy bell ar ei hôl hi o hyd o gymharu â pherfformiad dysgwyr eraill. Mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i wneud gryn dipyn yn waeth na dysgwyr eraill. Maent yn astudio llai o bynciau TGAU mewn ysgolion, ac mae gormod ohonynt wedi'u dal ar gyrsiau lefel isel mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith. Mae grwpiau eraill o ddysgwyr yn wynebu heriau sylweddol hefyd yn eu dysgu, er enghraifft, y rhai ag anghenion addysgol arbennig, y rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol a'r rhai sydd dan ofal yr awdurdod lleol.

[1] 'Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol (Estyn, 2013)
http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/296969.4/Gweithio%20gyda'n%20gilydd%20i%20fynd%20i'r%20afael%20ag%20effaith%20tlodi%20ar%20gyflawniad%20addysgol%20-%20Rhagfyr%202013/?navmap=30,163
'Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion' (Estyn, 2012)
http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/260005.2/Arfer%20effeithiol%20wrth%20fynd%20i'r%20afael%20â%20thlodi%20ac%20anfantais%20mewn%20ysgolion%20-%20Tachwedd%202012/?navmap=30,163

# Mae gan rai grwpiau o ddysgwyr ffactorau risg lluosog


Mewn lleiafrif o ysgolion, mae staff wedi datblygu 'matrics' o'r risgiau a'r heriau a wynebir gan ddysgwyr sy'n perthyn i un neu fwy o gategorïau risg ac sydd felly'n gorfod ymgodymu â nifer o ffactorau, sy'n cynyddu eu natur fregus.

Isod, ceir diagram sy'n dangos niferoedd a chyfrannau'r dysgwyr yn y grwpiau sydd mewn perygl, gan gynnwys y rheini sy'n perthyn i fwy nag un grŵp sydd mewn perygl o dangyflawni.

**Ffigur 1.1:**
Nifer y dysgwyr mewn ysgolion yng Nghymru, yn ôl cymhwyser i gael PYDd, statws AAA a statws SIY [2]

Disgyblion nad ydynt yn un o'r tri grŵp: yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig, neu Saesneg fel iaith ychwanegol.

214,500
**59.6%**





Mae'n cynnwys dysgwyr 5-15 oed mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig a gynhelir, ac ysgolion pob oed

[2] Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru, 2014

Mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn arbennig o agored i dangyflawni. Mae'r siart isod yn dangos nid yn unig bod dysgwyr o gefndiroedd cymharol dlawd yn methu â chyflawni gystal â'u cyfoedion ym mhob cyfnod allweddol o addysg, ond eu bod yn perfformio'n waeth fyth os ydynt hefyd yn perthyn i gategori AAA. Caiff dysgwyr sydd mewn categorïau anghenion addysgol arbennig eu nodi ar raddfa symudol o fod angen naill ai gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy neu ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sy'n denu'r lefel uchaf o gymorth.

**Ffigur 1.2:**
Cyflawniad o ran dangosyddion dewisedig, yn ôl cymhwyster i gael PYDd a statws AAA, 2013




Yng ngweddill y rhan hon o Adran 1, edrychwn yn fanylach ar yr hyn y gall ysgolion a darparwyr eraill ei wneud i liniaru risgiau tangyflawni.

# Beth gall lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ei wneud i gynorthwyo plant sydd mewn perygl o dangyflawni?

Mae cael profiadau cyn-ysgol cefnogol yn fuddiol tu hwnt i bob plentyn, ond maent yn arbennig o werthfawr i blant sydd mewn perygl o dangyflawni. Mae ymarferwyr y blynyddoedd cynnar mewn sefyllfa i adnabod dysgwyr a allai fod yn cael anhawster cyn gynted ag y byddant yn dod i mewn i addysg. Gallant hefyd gysylltu â gwasanaethau ac asiantaethau sy'n darparu cymorth arbenigol. Mae hyn yn golygu y gallant gefnogi dysgwyr yn gynnar a helpu lleddfu effeithiau anfantais. Gall ymyriadau cynnar sy'n cael eu targedu'n dda wneud gwahaniaeth mawr.

Gall darparwyr y blynyddoedd cynnar wneud iawn am rai o'r diffygion a wynebir gan rai dysgwyr. Mae lleoliadau addysg nad ydynt yn ysgolion, ac ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd, yn darparu lefelau uchel o ofal, nad yw ar gael adref efallai. Mae darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn cynnig cyfleoedd i blant gymdeithasu â phlant eraill mewn amgylchedd strwythuredig lle mae ffiniau ar gyfer chwarae. Mae plant yn dysgu cydweithredu a rhannu. Gall lleoliadau'r blynyddoedd cynnar helpu plant i reoli'u hemosiynau hefyd, fel eu bod yn barod i ddysgu. Efallai mai ar leferydd ac iaith plant y mae effaith fwyaf addysg y blynyddoedd cynnar. Yn aml, bydd gan blentyn o gartref mwy breintiedig eirfa ehangach yn dair oed o gymharu â'r rhan fwyaf o blant o gefndiroedd difreintiedig. Mae darparwyr da y blynyddoedd cynnar yn dechrau unioni'r diffyg hwn. Gellir adnabod problemau lleferydd a darparu cymorth priodol. Caiff plant eu hannog i gyfathrebu a siarad mewn brawddegau llawn. Siaredir â nhw, ac maent hwythau'n ymateb.

Mae darparwyr y blynyddoedd cynnar yn rhoi cyfleoedd i blant wrando ar storïau a thrin a thrafod llyfrau, cyfleoedd nad ydynt efallai yn eu cael adref. Mae plant yn dechrau deall bod ystyr i eiriau, a'u bod yn gallu cael mwynhad o lyfrau. Dysgant ystod o ganeuon a rhigymau, sy'n aml yn cynnwys rhifau neu ddyddiau'r wythnos, ac mae'r gweithgareddau hyn hefyd yn eu cynorthwyo wrth ddatblygu medrau mathemategol cynnar. Gall lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ddarparu ystod o brofiadau ysgogol a diddorol, ac annog plant i ganfod pethau drostynt eu hunain a datblygu medrau meddwl.

### Staff yn nodi anghenion plant unigol

**Mae staff yn St Winefride's Playgroup, Sir y Fflint,** yn cymryd yr amser i ddod i adnabod eu plant yn unigol er mwyn nodi eu hanghenion. Drwy arsylwi'r plant, gall ymarferwyr nodi'r cynnydd y maent wedi'i wneud a chynllunio'r camau nesaf y mae angen iddynt eu cymryd yn eu dysgu. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn awydd plant i ddysgu ac wedi rhoi hwb i'w hunan-barch.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Beth gall rhieni a theuluoedd ei wneud i gynorthwyo plant sydd mewn perygl o dangyflawni?

Pan fydd rhieni'n gweithio gyda darparwyr, mae safonau'n gwella

Mewn lleoliadau ac ysgolion sy'n llwyddo i liniaru effaith tlodi, gwelwn fod cysylltiadau cadarn â rhieni ynddynt yn aml. Mae'r cyswllt â rhieni'n dechrau cyn bod plant yn mynd i mewn i addysg, er enghraifft drwy ymweliadau â'r cartref, datblygu proffiliau asesu cynnar, cyswllt ag ymwelwyr iechyd, ac mewn cylchoedd chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr y blynyddoedd cynnar yn cydnabod gwerth meithrin gallu rhieni i helpu'u plentyn i ddysgu gartref fel y gall yr amgylchedd cartref gyfnerthu a gwella'r dysgu yn y darparwr. Mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd y ceir yr angen mwyaf i feithrin gallu dysgu rhieni a theuluoedd, lle mae llawer o rieni wedi cael profiadau gwael o addysg yn y gorffennol.

Mae ysgolion cynradd da yn datblygu cysylltiadau â rhieni hefyd trwy raglenni allgymorth a chymorth i deuluoedd, Dechrau'n Deg, gweithio amlasiantaeth, a chyswllt â mentrau adeiladu cymuned, fel Cymunedau yn Gyntaf. Yn aml, bydd ganddynt swyddogion cyswllt teuluoedd sy'n helpu rhieni ddatblygu strategaethau gartref i helpu'u plant ddysgu'n effeithiol. Mae'r ysgolion hyn yn sefydlu trefniadau i rieni ddod i mewn i'r ysgol ac ymuno yn y gweithgareddau, er enghraifft mewn prynhawniau 'Dod â Rhiant' i'r ysgol, lle bydd rhieni'n gweithio ochr yn ochr â'u plant ar heriau'r cwricwlwm. Mae ychydig o ysgolion yn sefydlu rhaglenni ar ôl ysgol i deuluoedd ac yn eu cynnwys mewn gweithgareddau chwarae a chyfathrebu. Mae ychydig o ysgolion yn sefydlu cyfarfodydd rhwng rhieni ac arbenigwyr fel therapyddion lleferydd ac iaith, neu ymgynghorwyr pediatrig ar safle'r ysgol. Mae ysgolion eraill yn cynnig rhaglenni dysgu oedolion yn yr ysgol mewn llythrennedd, rhifedd, TGCh neu fedrau rhianta.

Pan fydd y ddeialog rhwng rhieni, lleoliadau ac ysgolion yn gynhyrchiol, daw barnau rhieni am ddarparwyr yn fwy cadarnhaol a byddant yn ymgysylltu'n fwy gweithredol ag addysg eu plentyn. Caiff rhieni ddealltwriaeth well o'r hyn y mae ymarferwyr yn ceisio'i wneud a dysgant sut i gefnogi dysgu'u plant gartref. Mae staff, hefyd, yn cael ymwybyddiaeth well o anghenion y plant a'u hamgylchiadau gartref. Mae agweddau rhieni tuag at bwysigrwydd presenoldeb yn newid yn aml, ac mae cyfraddau presenoldeb yn gwella oherwydd hynny.

**Rhieni yn chwarae rhan weithredol**

Mae staff yn **Ysgol y Foryd** yn cynnwys rhieni yn nysgu eu plant. Maent wedi sefydlu fforwm rhieni ac yn annog rhieni i chwarae rhan weithredol mewn gwella'r ysgol, gan ddefnyddio 'cynrychiolwyr rhieni' i ymgysylltu â phob rhiant. Mae'r ysgol yn cynnal 'cyrsiau i deuluoedd', lle bydd grwpiau rhieni/plant yn dysgu gyda'i gilydd, ac mae'r swyddog cyswllt â theuluoedd yn gweithio â rhieni i wella presenoldeb a lleihau'r rhwystrau posibl rhag dysgu. Dywed staff fod y rhan fwy gweithredol a chwaraeir gan rieni wedi helpu codi safonau yn yr ysgol er gwaethaf cynnydd mewn lefelau difreintedd. Mae bron pob un o'r plant sydd wedi mynychu'r cyrsiau gyda rhieni yn datblygu'u hunan-barch, maent yn mwynhau'r ysgol mwy ac yn magu hyder.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

### Teuluoedd yn dysgu gyda'i gilydd

**Mae Ysgol Gynradd Meisgyn, Rhondda Cynon Taf**, wedi mabwysiadu polisi 'drws agored' er mwyn cynnwys rhieni yn nysgu eu plant. Mae sesiynau dysgu teuluol wythnosol yn dod â phlant a rhieni at ei gilydd. Trwy weithio gyda theuluoedd, sefydlwyd rhwydwaith o gymorth ar gyfer dysgwyr a rhieni. Caiff rhieni fwy o gyfleoedd nawr i weithio gyda'u plant mewn ffordd gefnogol ac anffurfiol ac mae hyn wedi helpu i feithrin cymuned agosach gyda'r ysgol yn ei chanol.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

Mewn teuluoedd a grwpiau ethnig lle rhoddir gwerth uchel ar addysg, bydd dysgwyr yn gwneud yn dda yn aml. Er enghraifft, mae statws uchel i addysg yn aml mewn teuluoedd Tsieineaidd ac Indiaidd yng Nghymru. Mae nifer y dysgwyr Tsieineaidd ac Indiaidd mewn ysgolion yng Nghymru yn gymharol fach, ond mae canran uwch o lawer o ddysgwyr o'r cefndiroedd hyn yn ennill gradd C neu uwch yn y pynciau craidd mewn TGAU na grwpiau ethnig eraill. Ar lefel TGAU, mae rhyw 78% o ddysgwyr Tsieineaidd yn cyflawni trothwy cynhwysol lefel 2 o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 52%.[3]



[3] Mae cyflawniad disgyblion yn ôl ethnigrwydd wedi'i seilio ar gyfartaledd tair blynedd ar gyfer 2011-2013.

# Beth gall ysgolion cynradd ei wneud i gefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni?

Mae arweinwyr mewn ysgolion cynradd sy'n cynorthwyo dysgwyr sydd mewn perygl yn hyrwyddo ethos o ofal a pharch i bob dysgwr, gyda disgwyliad y bydd pawb yn yr ysgol, gan gynnwys staff, yn gwneud eu gorau. Mae'r arweinwyr gorau yn meithrin ymdeimlad o falchder yn yr ysgol ac yn cynnwys pob rhanddeiliaid wrth ddatblygu ei weledigaeth a'i gwerthoedd. Maent yn deall fod gwaith tîm yn bwysig os yw'r ysgol i ddatblygu mewn ffordd sy'n gydlynus a chyson wrth helpu pob dysgwr i gyflawni. Caiff cyfrifoldebau eu dosbarthu i wneud yn siŵr bod ffocws di-baid a chyson ar flaenoriaethau'r ysgol, ac ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr. Ceir systemau ysgol i sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am arwain ar flaenoriaethau yn cael cyfleoedd strwythuredig i adolygu'u gweithredoedd yn rheolaidd, gan wneud yn siŵr bod pob dysgwr yn elwa ar strategaethau ysgol gyfan. Mae eglurder ynghylch sut mae strategaethau ysgol, fel ffocws ar lythrennedd, neu ddatblygu dysgwyr mwy abl, yn cael eu hadlewyrchu mewn targedau unigol dysgwyr.

Yn yr ysgolion cynradd gorau, mae athrawon yn gweithio'n dda mewn timau i gynllunio gyda'i gilydd ac i wneud y gorau o gryfderau ei gilydd. Maent yn trafod anghenion newidiol dysgwyr, ac yn dadansoddi'r cryfderau a'r gwendidau yn eu dulliau. Adolygant eu strategaethau addysgu a chynnwys y cwricwlwm yn rheolaidd, a gwnânt newidiadau i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion pob dysgwr. Ceir systemau ysgol i athrawon a staff cymorth gasglu a rhannu gwybodaeth am ddysgwyr unigol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi yn y ffordd orau bosibl. Sefydlir grwpiau anogaeth i ymateb i anghenion dysgwyr fel eu bod yn gallu datblygu'u medrau cymdeithasol ac ymddygiadol er mwyn gwneud cynnydd yn eu gwaith. Gwna arweinwyr ysgol yn siŵr bod cyfleoedd i staff ddatblygu'u medrau i gefnogi pob dysgwr.

### Staff yn datblygu medrau a photensial i arwain

Mae medrau, dyheadau a gwerthoedd cadarnhaol yr un mor bwysig i staff ag ydynt i ddysgwyr yn **Ysgol Gynradd Herbert Thompson,** Caerdydd. Anogir staff i ddatblygu'u medrau, ac mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd hyfforddi iddynt i wella'u potensial arwain.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

Yn yr ysgolion gorau, caiff cynnydd dysgwyr ei olrhain yn ofalus o adeg mynediad hyd at yr amser pan fyddant yn gadael. Pan fydd dysgwyr yn dechrau cwympo ar ei hôl hi neu ei chael hi'n anodd datblygu'u medrau mewn un maes o'u dysgu, caiff rhaglenni ymyrraeth eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r diffygion hyn fel bod dysgwyr yn gallu dal i fyny'n gyflym â'u cyfoedion. Mae ysgolion da yn monitro cynnydd dysgwyr ar raglenni ymyrraeth yn rheolaidd, ac yn gwirio'u cynnydd yn erbyn y targedau penodol a gytunir gyda phob dysgwr.

### Staff yn darparu ymyrraeth gynnar, wedi'i thargedu

Mae **Ysgol Gynradd High Cross** yng Nghasnewydd yn defnyddio ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael ag amrywiaeth gynyddol anghenion y plant. Mae'r ysgol wedi datblygu ystod o ymatebion ac wedi hyfforddi staff er mwyn darparu ymyriadau arbenigol, targedig wedi'u teilwra yn ôl anghenion y dysgwyr.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Beth gall ysgolion uwchradd ei wneud i gefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni?

Yn yr ysgolion uwchradd gorau, mae arweinwyr yn deall bod angen i ddysgwyr deimlo'n hyderus a bod cefnogaeth iddynt os ydynt am gyflawni'u potensial. Mae sefydlu ymdeimlad clir o gyfeiriad ac ethos o ddisgwyliadau uchel a chynhwysiant yn bwysig i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ysgolion lle mae gan ddysgwyr hunan-barch isel ac agweddau negyddol at ddysgu.

Mae parch dysgwyr atynt eu hunain ac eraill yn datblygu orau pan fydd yr hyn a ddysgant yn yr ystafell ddosbarth yn adlewyrchu gwerthoedd sy'n treiddio i bob agwedd ar fywyd ysgol. Mae ysgolion da yn cydnabod bod ethos cadarnhaol a gefnogir gan bawb yn helpu dysgwyr i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Mewn ysgolion effeithiol, mae'r strwythurau arwain wedi'u cynllunio i sicrhau bod cymorth ar gyfer lles dysgwyr a'u cyflawniad academaidd yn gyd-ddibynnol. Mae lles dysgwyr yn ystyriaeth gymaint i athrawon pynciau academaidd ag ydyw i staff cymorth bugeiliol.

Mae'r ffordd y mae dysgwyr yn cael profiad o'r cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd yn wahanol iawn i ysgolion cynradd. Wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, mae dysgwyr yn gweld eu bod yn gadael cynefindra cael yr un athro dosbarth a'r un cyd-ddisgyblion yn y dosbarth am flwyddyn o leiaf, i wynebu byd lle trefnir y profiad cwricwlwm yn wersi pwnc ar wahân yn cael eu cyflwyno gan amrywiaeth o athrawon. Mae'r trosglwyddo hwn yn ddefod newid byd y gall dysgwyr mwy hyderus ac abl ymgymryd yn hwylus â hi fel arfer. Fodd bynnag, oni bai bod ansawdd y wybodaeth o'r ysgol gynradd am y pontio ac ansawdd y cymorth yn yr ysgol uwchradd yn gadarn, efallai na fydd anghenion dysgwyr unigol sydd mewn perygl yn cael eu cydnabod, a gall y profiad dysgu wneud i rai dysgwyr deimlo eu bod wedi ymddieithrio.

Mae rhai ysgolion uwchradd yn dylunio cwricwlwm mwy cydlynus ac integredig ar gyfer dysgwyr 11 oed, lle bydd dysgwyr yn treulio mwy o amser gyda llai o athrawon, sydd felly'n gallu dod i'w hadnabod yn well. Mae athrawon yn ennyn diddordeb dysgwyr mewn cwricwlwm ac mae'r dull o gyflwyno'r cwricwlwm hwnnw'n cael ei wahaniaethu'n briodol, a defnyddiant systemau olrhain cadarn.

Mae ysgolion da yn mynd ati'n rheolaidd i nodi a mynd i'r afael â thanberfformiad posibl yn gynnar, ac mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd lle ceir difreintedd cymdeithasol cymharol uchel. Mae'r ysgolion gorau'n defnyddio gweithdrefnau ymyrryd penodol sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion nodedig unigolion a grwpiau penodol.

Mae gan ysgolion effeithiol systemau i sicrhau bod y targedau a osodir ar gyfer dysgwyr yn rhai realistig ond uchelgeisiol. Mae staff yn monitro cynnydd dysgwyr tuag at eu targedau'n rheolaidd, ac yn olrhain lefelau cwblhau gwaith cartref dysgwyr, eu hymdrech a'u hymddygiad yn ofalus. Mae athrawon yn nodi lefelau angen cymorth dysgwyr ar sail eu haeddfedrwydd, y dystiolaeth o gymorth yn y cartref a'u cymhelliant. Mae athrawon yn deall yr agweddau ar gyrsiau y mae dysgwyr yn eu cael yn anodd, ac maent yn ymateb trwy gynnig cymorth wedi'i deilwra yn y dosbarth, tasgau gwaith cartref a chlybiau adolygu. Lle mae anghenion dysgu eraill gan ddysgwyr, mae'r arbenigedd gan athrawon a chynorthwywyr cymorth i nodi'r rhain a chyfeirio dysgwyr at y cymorth sydd ei angen arnynt neu i wneud trefniadau i dynnu dysgwyr allan o'r dosbarth. Mae'r ysgolion gorau yn cyfathrebu'n dda â rhieni, gan eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â sut caiff dysgwyr eu cynorthwyo, a gweithio'n greadigol i gynnwys y rhieni hynny a theuluoedd sy'n anodd eu cyrraedd.

Yn yr ysgolion hyn, mae anogwyr dysgu'n gweithio'n ddyfal gyda dysgwyr targedig ac mae staff cymorth yn gweithio gyda dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig. Darperir cymorth personol yn systematig, ac mae staff yn gweithio gydag asiantaethau eraill i helpu dysgwyr oresgyn amgylchiadau cartref anodd, neu broblemau corfforol, iechyd meddwl neu broblemau cymdeithasol. Mae'r lefel gadarn hon o gymorth personol yn helpu dysgwyr mewn perygl i wella'u presenoldeb, eu hymddygiad a'u perfformiad academaidd.

Mae ysgolion da yn mabwysiadu dull strategol o gydlynu gwasanaethau cymorth dysgwyr sy'n fewnol ac yn allanol i'r ysgol. Maent yn hyfforddi ac yn diweddaru staff cymorth er mwyn gwella effaith cymorth asiantaethau allanol.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn dadansoddi data perfformiad ar ddysgwyr unigol er mwyn mesur effaith eu strategaethau cymorth dysgu. Maent yn myfyrio'n feirniadol ar beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim yn gweithio'n dda, ac yn addasu'u rhaglenni yn unol â hynny.


# Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

Yn y sectorau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed – unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig a gynhelir – mae deilliannau arolygu yn amrywio'n fawr. Yn gyffredinol, mae dysgwyr mewn ysgolion arbennig a gynhelir yn gwneud mwy o gynnydd na'r rheini mewn unedau cyfeirio disgyblion, ac mae ansawdd y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn well o lawer mewn ysgolion arbennig nag mewn UCDau. Mae'r siartiau isod yn dangos dosbarthiad barnau ar y safonau mewn ysgolion arbennig a gynhelir ac UCDau sydd wedi'u harolygu yn y cyfnod ers dechrau'r cylch arolygu presennol (2010-2014).

Rhagorol
Da
Digonol
Anfoddhaol

**Ffigur 1.3:**
Safonau mewn ysgolion arbennig a gynhelir, 2010-2014


25% | 71% | 4% | 0%



28
o ysgolion arbennig
a gynhelir

**Ffigur 1.4:**
Safonau mewn unedau cyfeirio disgyblion, 2010-2014

12% | 42% | 27% | 19%



26
UCDau

# Mae dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni yn cael cymorth da yn aml mewn ysgolion arbennig a gynhelir

Mae anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol a/neu namau gan ddysgwyr sy'n mynychu ysgolion arbennig. Mae rhyw 4,350 o ddysgwyr yn mynychu ysgolion arbennig a gynhelir, ac mae safonau mewn llawer yn dda neu'n well: mae deilliannau wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae nodweddion cadarn yr ysgolion hyn yn dangos arfer effeithiol sy'n berthnasol i bob ysgol a darparwr. Mae ysgolion arbennig da a rhagorol yn rhannu nifer o nodweddion cyffredin. Mae ganddynt ethos sy'n canolbwyntio ar gyflawniad a dysgu. Yn aml, mae ymddygiad da yn deillio o'r ethos hwn, sy'n wahanol i ganolbwyntio ar reoli ymddygiad da yn unig. Ceir addysgu arbenigol ac mae cynnydd dysgwyr yn cael ei olrhain yn effeithiol. Mae athrawon yn ymwybodol o anghenion a galluoedd gwahanol y dysgwyr, ac mae hyn yn eu helpu i gynllunio rhaglenni ac awgrymu llwybrau ar gyfer dilyniant. Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir ac yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill ac asiantaethau i ddarparu ar gyfer anghenion dysgwyr eu hysgol eu hunain. Mae'r ysgolion hyn yn hunan-gyfeiriol ond yn rhannu arbenigedd yn hwylus gydag eraill er budd dysgwyr. Maent yn mabwysiadu dull amlasiantaeth i oresgyn heriau, yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig â chefndiroedd cymharol dlawd.



# Unedau cyfeirio disgyblion

Roedd 622 o ddysgwyr wedi cofrestru mewn UCDau yng Nghymru yn 2012-2013. Mae hyn yn cyfrif am ryw hanner y dysgwyr sy'n cael eu haddysg mewn lleoliad heblaw am yr ysgol.

Awdurdodau lleol sy'n cynnal UCDau i ddarparu addysg y tu allan i leoliad ysgol ar gyfer dysgwyr na fyddent fel arall yn derbyn addysg briodol o bosibl. Fel arfer, bydd dysgwyr yn mynychu UCDau am eu bod wedi cael eu gwahardd, neu eu bod mewn perygl o gael eu gwahardd o ysgolion neu am eu bod yn gwrthod mynychu ysgol. Bechgyn yw llawer ohonynt ac mae anghenion dysgu ychwanegol gan y rhan fwyaf. Mae gan ychydig o ddysgwyr anghenion emosiynol, iechyd neu anghenion iechyd penodol iawn eraill sy'n cael effaith sylweddol ar eu gallu i ymgysylltu ag addysg y brif ffrwd. Mae nifer fach o UCDau yn darparu ar gyfer anghenion penodol, fel anghenion iechyd meddwl neu anghenion merched sy'n feichiog neu'n famau ifanc.

Er 2010, rydym wedi arolygu 26 UCD. Mae ychydig ohonynt yn rhagorol, gydag arfer sy'n arwain y sector.[4] Gan mwyaf, fodd bynnag, mae deilliannau arolygu yn waeth yn gyffredinol ar gyfer UCDau nag ar gyfer unrhyw sector arall, ac mae gan hanner ohonynt safonau a darpariaeth ddigonol yn unig, neu maent yn anfoddhaol.

Er bod UCDau yn cefnogi rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yng Nghymru, mae gormod o ddysgwyr yn aros mewn UCDau am gyfnod rhy hir, nid ydynt yn ail-integreiddio mewn ysgolion y brif ffrwd, nid ydynt yn mynychu'n ddigon da, nid ydynt yn cyflawni cymwysterau priodol nac yn symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Y rheswm am hyn fel arfer yw bod ansawdd yr addysgu yn amrywio gormod. Mae'r cwricwlwm yn aml yn gyfyngedig ac yn anniddorol, ac nid yw'n cynnig digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd mewn ffyrdd sy'n eu hysgogi ac yn eu diddori. Hefyd, mae partneriaethau ag ysgolion eraill yn wan mewn llawer o achosion.

Ym mhob achos, mae'r nodweddion hyn yn cysylltu â diffygion mewn arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr UCD, gan yr awdurdod lleol drwy bwyllgor rheoli'r UCD a swyddogion. Cyfyngedig yw'r datblygiad proffesiynol sy'n cael ei gynnig i arweinwyr, neu nid yw'n cael ei gynnig o gwbl, felly hefyd y cymorth ar gyfer athrawon â gofal. Nid yw'r UCDau yn hunanarfarnu'n dda, ac nid ydynt yn casglu nac yn dadansoddi data yn dda. Nid yw'r pwyllgor rheoli yn dwyn yr UCD i gyfrif yn ddigonol. Mae'r UCDau yn tueddu peidio â rhannu arfer dda, arbenigedd nac adnoddau, ac maent yn aros gormod ar wahân i'w gilydd ac ysgolion prif ffrwd.

At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth mewn gormod o UCDau yn methu'r dysgwyr agored i niwed sy'n eu mynychu, tra bod darpariaeth mewn ysgolion arbennig yn darparu'n dda ar gyfer dysgwyr ag AAA. Ar y tudalennau nesaf, ceir cymhariaeth rhwng y canfyddiadau o arolygiadau o'r ddau sector.





[4] I gael enghreifftiau o astudiaethau achos arfer orau o UCDau, http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/arfer-orau/Arwyddbyst%20at%20arferion%20gorau/astudiaethau-achos-unedau-cyfeirio-disgyblion/

# Cymharu perfformiad ysgolion arbennig ag unedau cyfeirio disgyblion

## Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

### Safonau

- Presenoldeb yn wael yn aml
- Dadrithiad
- Lefelau isel o hyder a hunan-barch

### Darpariaeth

- Dim digon o ffocws ar lythrennedd a rhifedd dysgwyr
- Dim digon o gymwysterau ar gyfer dysgwyr

### Addysgu

- Diffyg arbenigedd arbenigol
- Mwy o bwyslais ar reoli ymddygiad nag ar ddysgu
- Disgwyliadau isel
- Olrhain cyflawniad disgyblion gwael, a gwaith heb ei wahaniaethu
- Staff cymorth ddim yn cael eu defnyddio'n dda i gynorthwyo'r dysgu

### Arweinyddiaeth

- Dim digon o brofiad strategol na phrofiad rheoli a dim digon o gymwysterau
- Athro â Gofal gyda ffocws ar redeg yr UCD o ddydd i ddydd yn bennaf
- Data heb fod yn cael ei ddefnyddio'n dda i lywio'r cynllunio
- Ychydig o gysylltiadau â systemau'r awdurdod lleol neu ysgolion eraill
- Yn aml, dim meini prawf mynediad/ymadael clir ar gyfer dysgwyr
- Cwmpas cyfyngedig, neu ddim cwmpas o gwbl, ar gyfer rhannu rolau arwain
- Athro â Gofal heb unrhyw reolaeth gyllidebol

## Ysgolion arbennig a gynhelir

### Safonau

- Presenoldeb yn dda yn aml
- Cynnydd a hyder da/rhagorol

### Darpariaeth

- Ffocws da ar lythrennedd a rhifedd dysgwyr
- Ystod o gymwysterau priodol

### Addysgu

- Staff â chymwysterau priodol
- Addysgu llythrennedd a rhifedd da
- Disgwyliadau uchel
- Olrhain cynnydd unigolion
- Defnydd rhagorol o staff cymorth i gynorthwyo'r dysgu

### Arweinyddiaeth

- Mae CPCP yn ofynnol ar gyfer pob penodiad pennaeth newydd
- Rheolaeth perfformiad a hyfforddiant effeithiol ar gyfer yr athrawon gwannaf
- Data'n cael ei ddefnyddio'n dda i gynllunio a monitro cynnydd
- Rhwydweithiau penaethiaid ar gyfer rhannu arfer dda
- Arferion ysgol gyfan yn gyson
- Arweinyddiaeth yn cael ei rhannu allan ymhlith aelodau tîm
- Cyfeiriad strategol cadarn gan y pennaeth

# Cymharu perfformiad ysgolion arbennig ag unedau cyfeirio disgyblion

## Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

### Hunanarfarnu

- Hunanarfarnu anghywir – gwendidau ddim yn cael eu cydnabod yn aml
- Dim digon o ffocws ar sut i wella

### Partneriaethau

- Cyswllt cyfyngedig â rhieni
- Partneriaethau cyfyngedig â'r gymuned/busnes/ysgolion eraill

### Datblygiad proffesiynol

- Hyfforddiant a rhwydweithio cyfyngedig i wella medrau arweinwyr ac athrawon (yn gysylltiedig yn aml â diffyg rheolaeth ariannol)

### Adeiladau ac adnoddau

- Adeiladau heb fod yn addas at y diben bob amser
- Ychydig o UCDau sy'n derbyn y grant amddifadedd disgyblion

### Cymorth gan yr awdurdod lleol

- Cymorth strategol gwan
- Staff ddim yn cael eu cynnwys mewn hyfforddiant yr awdurdod lleol na chyfarfodydd penaethiaid

## Ysgolion arbennig a gynhelir

### Hunanarfarnu

- Gwybodaeth dda am yr ysgol
- Cynllunio gwella yn cynnwys ffocws ac adnoddau da

### Partneriaethau

- Partneriaethau cadarn â gwasanaethau iechyd corfforol a meddwl
- Cyngor i ysgolion prif ffrwd ar gynorthwyo dysgwyr ag anghenion arbennig

### Datblygiad proffesiynol

- Hyfforddiant wedi'i dargedu'n dda yn aml ar gyfer athrawon, staff cymorth a rheolwyr canol ac uwch reolwyr

### Adeiladau ac adnoddau

- Amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda
- Adnoddau a chymorth ariannol priodol

### Cymorth gan yr awdurdod lleol

- Yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd gyda darparwyr/asiantaethau/clystyrau eraill
- Cymorth gan yr awdurdod lleol yn amrywiol

# Rôl awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gynorthwyo pob dysgwr i gyflawni ei botensial. Mae ganddynt rwymedigaeth statudol i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn gyfrifol am addysg plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol a ddarperir gan awdurdodau lleol yn cynnwys bodloni rhwymedigaethau statudol ar gyfer dysgwyr ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol a chydlynu darpariaeth ar gyfer y dysgwyr hyn. Yn ystod y cylch diweddar o arolygiadau awdurdodau lleol, canfuom fod y gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol yn dda neu'n well mewn mwyafrif o awdurdodau lleol. Mewn dau awdurdod lleol, mae'r gwasanaethau yn rhagorol, ond dim ond digonol yw'r gwasanaethau mewn chwe awdurdod. Mewn dau awdurdod arall, mae'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol yn anfoddhaol.

Mewn awdurdodau lle mae'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn dda neu'n well, mae uwch swyddogion yn darparu cyfeiriad strategol da, ac maent yn glir ynghylch cryfderau'r maes gwasanaeth a meysydd i'w datblygu. Yng Ngheredigion, mae swyddogion yn defnyddio data'n dda i gynllunio darpariaeth yn strategol, ac yn arfarnu ei heffaith yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd o ddata i lywio cynllunio anghenion dysgu ychwanegol yn strategol wedi'i ddatblygu digon bron ym mhob awdurdod arall.

# Beth gall awdurdodau lleol ei wneud i gefnogi plant sydd mewn perygl o dangyflawni?

## Mae awdurdodau lleol llwyddiannus:

— yn darparu **arweinyddiaeth strategol** gadarn ar fynd i'r afael â difreintedd – mae ganddynt gynlluniau eglur sy'n canolbwyntio ar y mater, yn cynnwys ysgolion mewn prosesau penderfynu, ac yn datblygu medrau uwch arweinwyr ysgol mewn gweithio mewn partneriaeth i ymgysylltu â'r gymuned

— yn mabwysiadu **dull ataliol** o fynd i'r afael ag effaith tlodi – dechreuant gyda dadansoddiad trylwyr o anghenion er mwyn nodi effaith amddifadedd ar deuluoedd lleol, maent yn rhannu gwybodaeth fewnol gydag ysgolion a phartneriaid, ac yn darparu gwaelodlin ar gyfer mesur effaith mentrau newydd

— yn cynllunio **cronfa ddata unigol, gynhwysfawr** o wybodaeth am ddysgwyr a grwpiau o ddysgwyr – galluogant staff i gael darlun llawnach o anghenion dysgwyr unigol a ddefnyddir fel sail ar gyfer dull cyffredin

— yn dod â chynlluniau gwasanaethau at ei gilydd ar gyfer gwasanaethau addysg, ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol i ddatblygu **strategaeth gynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael â thangyflawniad** – cynhyrchant gynlluniau integredig i gydlynu gwasanaethau ac osgoi dyblygu

— â **thargedau penodol a dangosyddion perfformiad** yn ymwneud â chau'r bwlch mewn deilliannau rhwng dysgwyr breintiedig a dysgwyr difreintiedig – maent yn mesur cynnydd yn erbyn y targedau hyn

Yn **Abertawe,** mae 20% o ddysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r awdurdod lleol wedi gwella cydlyniant gweithio amlasiantaeth er mwyn helpu teuluoedd sy'n agored i niwed ac i wella deilliannau addysgol dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni. Yn ogystal, mae'r awdurdod wedi cyfuno nifer o ffynonellau data fel y gall adnabod unigolion sy'n agored i niwed, a threfnu a monitro gwaith cymorth.

Mae'r awdurdod lleol wedi creu system sy'n cynnwys ystod eang o ddata y bydd yn ei ddefnyddio i adnabod plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae'r 'Proffiliau Asesu Breguster' yn cynnwys data am ddysgwyr unigol. Mae'r gronfa ddata'n cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb, gwaharddiadau, anghenion addysgol arbennig, lefelau llythrennedd a symudiadau ysgol, yn ogystal â nodi p'un a yw disgybl yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol neu'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae'r awdurdod lleol wedi creu set o feini prawf risg a ddefnyddir i ddyfarnu 'sgôr risg' ar gyfer pob disgybl. Mae'r cofnod hwn wedi helpu rhoi sylfaen wybodaeth gadarn i swyddogion ar draws ystod o feysydd gwasanaeth er mwyn targedu cymorth ac ymyrraeth yn briodol.

Mae'r awdurdod lleol yn rhannu'r proffiliau gydag ysgolion fel eu bod yn gallu gwella'r cymorth y maent yn ei roi i ddysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni. Hefyd, mae swyddogion yn defnyddio'r gronfa ddata i nodi anghenion y rhai sy'n cael eu haddysg mewn lleoliad heblaw am yr ysgol.

# Dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni mewn addysg bellach a hyfforddiant

Mewn sefydliadau addysg bellach, mae dysgwyr o ardaloedd tlotach yn llawer mwy tebygol o fod wedi cofrestru ar gyrsiau lefel is na dysgwyr eraill. Mae cydberthynas clir rhwng y lefel difreintedd yn yr ardal lle mae dysgwyr yn byw a lefel y cwrs neu gymhwyster y bydd dysgwyr yn eu hastudio, fel y dangosir yn y siart ar y dudalen nesaf.


Mae'r siart yn dangos lefelau'r cyrsiau y caiff dysgwyr eu cofrestru ar eu cyfer, o lefel mynediad hyd at lefel 3 neu'n uwch. Mae'r lefelau amddifadedd yn mynd o'r chwith i'r dde ar y siart, gydag 1 yn cyfeirio at y lefel amddifadedd uchaf a 10 yw'r lefel isaf (mae'r ffigurau yn deillio o godau post dysgwyr a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).[5]

Mae'r siart yn dangos bod llawer mwy wedi'u cofrestru ar lefel mynediad a lefel 1 ymhlith dysgwyr o ardaloedd o amddifadedd cymharol uchel na'u cyfoedion o gefndiroedd mwy breintiedig. Cafodd bron i draean o ddysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig eu cofrestru ar gyrsiau lefel 1. Mae'r gyfran hon yn gostwng i ychydig dros un rhan o bump ar gyfer dysgwyr o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Cafodd 13% o ddysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig eu cofrestru ar gyrsiau lefel mynediad o gymharu â 7% o ddysgwyr o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Dim ond un o bob pump o ddysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig a gafodd eu cofrestru ar gyrsiau ar lefel 3 neu'n uwch. Mae'r gyfran hon yn codi i ychydig dros draean ar gyfer dysgwyr o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.

[5] Daw'r degradd amddifadedd yn y siart o drefn rancio ardaloedd cod post yn ôl eu nodweddion economaidd-gymdeithasol, fel y'u pennir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae'r degradd yn dangos y drefn rancio wedi'i rhannu yn ddegfedau.

**Ffigur 1.5: Canran y dysgwyr wedi'u cofrestru ar bob lefel o gwrs mewn sefydliadau addysg bellach, yn ôl amddifadedd cymharol yr ardal lle mae dysgwyr yn byw (2012-2013)**




Mae sefydliadau addysg bellach yn aml yn ymateb i ddysgwyr o ardaloedd tlotach sydd â phroffil gwan o raddau TGAU drwy symud y dysgwyr hyn i gyrsiau lefel mynediad. O ganlyniad, mae eu dysgwyr, yn rhy aml, yn cael darpariaeth nad yw'n gwneud fawr ddim i'w cyffroi nac ennyn eu diddordeb. Mae dysgwyr sy'n ymrestru mewn sefydliadau addysg bellach gyda graddau D, E ac F mewn TGAU mewn Saesneg a mathemateg yn eu cael eu hunain mewn grŵp dysgu galwedigaethol yn aml, ond yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser mewn 'dosbarth datblygu llythrennedd a rhifedd'. Mae'r dysgwyr hyn yn gorfod ymdrechu i fodloni gofynion mynediad y cwrs ar lefel 1. Anaml y bydd cyfle iddynt ddilyn eu llwybr galwedigaethol dewisedig ar lefel mynediad, a gwelant eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrth y dysgwyr sy'n astudio cyrsiau galwedigaethol ar lefel 1 neu'n uwch.

Mae nifer o sefydliadau addysg bellach yn cynnig carwsél o gyrsiau rhagflas byr ar gyfer y dysgwyr hyn, yn y crefftau adeiladu fel arfer. Mae hyn yn galluogi'r dysgwyr i gyflawni medrau ymarferol a hefyd gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, ychydig o gyfle sydd i ddysgwyr yn y meysydd Trin Gwallt a Harddwch, Gofal neu Lletygarwch ac Arlwyo, neu nid oes cyfle iddynt o gwbl, i ddatblygu medrau galwedigaethol sylfaenol. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn teimlo'n ddiysbryd ac yn tynnu allan er bod cyflogwyr yn dal i fynnu dysgwyr sy'n gallu cyflawni tasgau sylfaenol ar gyfer y diwydiant. Daw llawer o'r dysgwyr hyn o gefndiroedd cymharol dlawd.

Mewn dysgu yn y gwaith hefyd, mae rhai dysgwyr sy'n agored i niwed yn gadael eu rhaglenni hyfforddi yn gynnar cyn bod y darparwr wedi'u cofrestru'n swyddogol gyda chorff dyfarnu. Mae cyfraddau cadw ar gyfer y dysgwyr hyn yn wael. Yn aml, nid ydynt yn elwa ar gael cyngor ac arweiniad effeithiol gan y darparwr cyn dechrau eu hyfforddiant, a byddant yn gadael yn aml heb ddatblygu unrhyw fedrau neu wybodaeth newydd o bwys. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw dysgwyr yn cael cymorth personol a chymorth dysgu priodol a fyddai'n eu hannog a'u cymell i barhau â'u hyfforddiant. Mae hyn yn aml yn gwaethygu profiadau gwael blaenorol mewn dysgu ac yn cadarnhau cred dysgwyr na allant ddysgu, cyflawni, ymuno â'r gweithlu, na chwarae rhan ystyrlon mewn cymdeithas.

# Beth gall darparwyr ei wneud i gefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni?

Mewn llawer o sefydliadau addysg bellach, mae'r trefniadau ar gyfer cymorth dysgu yn glir. Wrth i sefydliadau fynd yn fwy ac yn fwy cymhleth, bu'n her i sicrhau bod cymorth dysgwyr o ansawdd cyson uchel ar bob safle. Mae'r cymorth hwn yn gweithio orau pan fydd strwythur atebolrwydd clir ac uwch reolwr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gynhwysiant a chymorth dysgwyr.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae sefydliadau addysg bellach yn adnabod dysgwyr y gall fod rhwystrau personol, cymdeithasol neu emosiynol ganddynt rhag cyflawni pan fyddant yn gwneud cais i ymuno â chwrs. O ganlyniad i sgrinio cynnar, caiff dysgwyr eu hadnabod ar gyfer cymorth. Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar gymorth galw i mewn ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn dal yn rhy fylchog, hyd yn oed lle mae ansawdd y cymorth yn dda.

Mae'r sefydliadau addysg bellach da yn monitro dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni. Gweithiant gydag asiantaethau allanol i gael cymorth ychwanegol. Darparant help gyda gofal plant a chludiant, lle bo'n briodol, ac maent yn cyfeirio dysgwyr at grantiau neu fwrsarïau penodol. Mae llawer o sefydliadau yn cynnig gwasanaeth llinell flaen gadarn ar gyfer dysgwyr sy'n dioddef argyfwng neu sydd â phroblemau personol, cymdeithasol neu emosiynol. Fodd bynnag, nid oes digon o sefydliadau yn arfarnu'r niferoedd sy'n manteisio ar y cymorth hwn, nac ansawdd y cymorth.

I'r rhan fwyaf o ddysgwyr sydd wedi ei chael hi'n anodd mewn addysg uwchradd, awyrgylch ac ethos mwy aeddfed sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith sy'n eu denu ac yn rhoi cychwyn newydd iddynt yn aml. Mae llawer yn gweld gwaith ymarferol 'uniongyrchol' mewn meysydd galwedigaethol yn arbennig o ysgogol. Mae sefydliadau yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol mwy a mwy i annog dysgwyr i ysgrifennu am eu dysgu. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn astudiaethau cerbydau modur yng Ngholeg Cambria yn defnyddio'u ffonau galluog i ysgrifennu 'blogiau' am eu gwaith ymarferol. Bydd tiwtoriaid yn helpu'r dysgwyr hyn gyda'u medrau llythrennedd trwy ddarparu adborth yn electronig, ac mae dysgwyr yn barod i dderbyn yr adborth hwn a gweithredu arno. Mae dysgwyr yn yr amgylchiadau hyn yn teimlo bod eu medrau o ran defnyddio TG yn cael eu gwerthfawrogi a'u datblygu ymhellach.

Erbyn hyn, mae mwy o sefydliadau addysg bellach yn cynnig cyrsiau lefel mynediad a lefel 1 mewn meysydd galwedigaethol. Er nad yw'r rhain ar lefel ddigon uchel i fynd i mewn i gyflogaeth fedrus, maent yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch sy'n cynnig llwybr i gyflogaeth fedrus neu led-fedrus. Hefyd, mae dysgwyr yn datblygu medrau cyflogadwyedd defnyddiol mewn sesiynau ymarferol sy'n ymwneud â datrys problemau a gweithio mewn timau. Mae gan ychydig o sefydliadau ffyrdd arloesol hefyd o wella medrau rhifiadol dysgwyr trwy ddefnyddio ystod o gyfleoedd dysgu electronig sy'n meithrin hyder dysgwyr.

Mewn dysgu yn y gwaith, pan fydd gan ddysgwyr gyswllt rheolaidd ag aseswyr wyneb yn wyneb neu'n electronig bob dwy i dair wythnos y bydd dysgwyr yn gwneud orau. Dim ond mewn lleiafrif o achosion y ceir y cyswllt rheolaidd hwn, fodd bynnag. Aseswyr sy'n ymateb yn hyblyg i amgylchiadau dysgwyr ac sy'n teilwra sesiynau addysgu yn ôl anghenion y dysgwyr sy'n cael yr effaith fwyaf yn aml ar gynnydd dysgwyr a'u datblygiad personol, yn enwedig ar gyrsiau lefel 2 a lefel 3. Mae'r aseswyr mwyaf effeithiol yn aml yn ymgymryd â hyfforddiant diweddaru rheolaidd ac wedi mynychu gweithdai sy'n benodol i sector a chael diweddariadau gwybodaeth.

Mae 'Fframwaith ymgysylltu a dilyniant ieuenctid' Llywodraeth Cymru yn gynllun i leihau nifer y bobl ifanc 11 i 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae hwn yn amlinellu trefniadau i ysgolion, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru i weithio gyda'i gilydd i sefydlu systemau ar gyfer nodi'n gynnar unrhyw ddysgwyr sydd mewn perygl o roi'r gorau iddi, creu 'gweithwyr arweiniol' i weithio gyda rhanddeiliaid lleol, a sefydlu hyfforddeiaethau a Gwarant Ieuenctid ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

# Grwpiau o ddysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni

## Canran y dysgwyr â datganiadau

**4.3%** ↑
Abertawe

**4.2%**
Sir Gaerfyrddin

**1.5%** ↓
Pen-y-bont ar Ogwr

**1.7%**
Rhondda Cynon Taf

**1.7%**
Torfaen

## Dysgwyr ag anghenion dysgu arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol sydd mewn perygl o dangyflawni

Ar hyn o bryd, dyma'r tri cham cymorth i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion a gynhelir:

— Datganiadau o anghenion addysgol arbennig
— Gweithredu gan yr ysgol a mwy
— Gweithredu gan yr ysgol

Mae ychydig dan chwarter o garfanau disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd yn derbyn cymorth o dan un o'r categorïau hyn, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb anghenion, ond mae'r ganran sydd â datganiadau - sy'n dynodi'r lefel anghenion fwyaf yn y continwwm - yn gymharol isel ar 2.7% ar draws yr holl ysgolion a gynhelir, gan gynnwys ysgolion arbennig.

Mae nifer y datganiadau sy'n cael eu rhoi yn gostwng, ac mae trothwyau gwahanol ledled Cymru ar gyfer rhoi datganiadau fel bod mwy o ddysgwyr yn cael darpariaeth heb orfod troi at ddatganiad. O ganlyniad, mewn rhai awdurdodau lleol, nid yw dysgwyr ag AAA sylweddol yn cael datganiad, er nad yw'n dilyn y bydd y dysgwyr hyn yn derbyn cymorth annigonol.

Ar hyn o bryd, gan Abertawe a Sir Gaerfyrddin y mae'r ganran uchaf o ddysgwyr â datganiadau (4.3% a 4.2%), a Phen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen sydd â'r ganran isaf (1.5%, 1.7% ac 1.7%). Nid oes cydberthynas o angenrheidrwydd rhwng canran y datganiadau ac ansawdd y gwasanaeth cymorth.

Dros y pum mlynedd diwethaf, bu cynnydd yn y gyfran o ddysgwyr ag AAA sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn 11 ac 14 oed, ac sy'n cyflawni trothwy lefel 2 cynhwysol yn 16 oed. Yn 2013, fe wnaeth ychydig dros hanner y dysgwyr 11 oed ag AAA gyflawni'r dangosydd pwnc craidd. Fodd bynnag, yn 2013, dim ond un o bob chwech o ddysgwyr 16 oed ag AAA wnaeth gyflawni trothwy lefel 2 cynhwysol.

Mae trosglwyddo rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16 yn adeg anodd yn aml i ddysgwyr ag AAA. Mewn ychydig o enghreifftiau, mae cynlluniau pontio yn helpu myfyrwyr i drosglwyddo'n hwylus o'r ysgol i addysg bellach. Fodd bynnag, anaml y bydd y datganiad o anghenion arbennig a'r cynllun addysg unigol yn trosglwyddo o'r ysgol i'r sefydliad addysg bellach. Dylai cynigion Llywodraeth Cymru i wneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am gydlynu a rheoli cynlluniau addysg unigol (CAUau) dysgwyr hyd at 25 oed helpu sicrhau trosglwyddo mwy esmwyth i ddysgwyr.

# Sut gall ysgolion gefnogi dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig?

Mewn ysgolion cynradd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag AAA yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Mae llawer o ddysgwyr dan drefniadau gweithredu gan yr ysgol yn elwa ar raglenni ymyrraeth ddwys 10 wythnos, sy'n canolbwyntio fel arfer ar wella medrau darllen neu rif sy'n eu helpu i ddal i fyny â'u grŵp cyfoedion. Mae mwyafrif o ysgolion yn darparu sesiynau atodol i'r dysgwyr hyn dros y flwyddyn er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cynnal y buddion y maent wedi'u cael yn ystod y rhaglen dal i fyny. Mewn lleiafrif o ysgolion, fodd bynnag, nid yw'r rhaglenni yn rhedeg yn esmwyth. Yn yr ysgolion hyn, mae dysgwyr yn cael eu tynnu allan yn ddyddiol o'u sesiynau Saesneg a mathemateg a arweinir gan yr athro i gael eu haddysgu gan gynorthwywyr cymorth dysgu. Yn yr achosion hyn, daw'r rhaglenni dal i fyny yn sesiwn addysgu ddyddiol yn hytrach na rhaglen atodol, ac nid yw dysgwyr yn dal i fyny â chyfoedion.

Mae rhai cryfderau yn narpariaeth y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd ar gyfer dysgwyr ag AAA. Mae rhai ysgolion yn arbennig o effeithiol yn datblygu cysylltiadau cadarn gydag asiantaethau eraill, fel elusennau, grwpiau gwirfoddoli a gwasanaethau awdurdod lleol. Mae'r cymorth i ddysgwyr ag AAA yn cael ei drefnu'n dda yn yr ysgolion hyn fel bod dysgwyr yn gwneud cynnydd yn unol â disgwyliadau. Mewn ychydig o ysgolion, mae cwricwlwm sydd wedi'i addasu'n ddychmygus ar gael i ddysgwyr ag AAA ym Mlwyddyn 9 ac yng nghyfnod allweddol 4 i ennyn eu diddordeb mewn dysgu a'u helpu i ennill cymwysterau.

Lle mae'r ddarpariaeth yn arbennig o effeithiol, mae ysgolion yn defnyddio gwybodaeth a rennir gan ysgolion cynradd partner i drefnu ymyrraeth gynnar. Mae hyn yn golygu bod yr ymyrraeth gywir ar ddechrau Blwyddyn 7 yn adeiladu ar y cymorth yng nghyfnod allweddol 2.

Yn y mwyafrif o ysgolion, mae athrawon yn addasu'u gwersi a'u gweithgareddau yn dda i fodloni anghenion dysgwyr AAA, gyda chymorth gan gynorthwywyr addysgu ac athrawon arbenigol.

Lle mae diffygion, y rheswm am hyn yn aml yw nad yw athrawon yn defnyddio gwybodaeth am ddysgwyr ag AAA yn ddigon da. Mae hyn yn golygu nad yw eu cynllunio'n ddigon manwl i fodloni anghenion dysgwyr. Yn yr amgylchiadau hyn, mae diffygion eraill hefyd yn y modd y caiff cynnydd dysgwyr ei adolygu, ac o ran y modd y rhoddir gwybod i rieni am gryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae systemau ar gyfer asesu gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol dysgwyr yn gywir yn hanfodol os yw targedau CAU dysgwyr yn mynd i adlewyrchu'u hanghenion unigol. Dylai targedau mewn CAUau fod yn benodol i anghenion y dysgwr a'u rhannu yn dalpiau byr, a dylent gynnwys meini prawf llwyddo clir. Mae adolygu rheolaidd yn bwysig gan y dylid edrych ar CAU fel dogfen weithio organig.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn olrhain dysgwyr ar raglenni ymyrraeth ac mae llawer ohonynt yn olrhain cynnydd dysgwyr AAA, a'r ddarpariaeth ar eu cyfer, yn fwy cyffredinol. Mae ysgolion da yn defnyddio'r systemau hyn i sicrhau bod dysgwyr yn gwella'u llythrennedd, rhifedd a'u medrau cymdeithasol yn ogystal â chael ystod gadarn a chytbwys o brofiadau dysgu.

**Cynorthwywyr cymorth dysgu yn arwain ar raglenni ymyrraeth**

Mae **Ysgol Gynradd Herbert Thompson**, Caerdydd, yn defnyddio system effeithiol o olrhain dysgwyr i fonitro cynnydd dysgwyr a nodi anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol wedi hyfforddi cynorthwywyr cymorth dysgu i arwain ar ystod o raglenni ymyrraeth. Caiff dysgwyr gymorth sydd wedi'i dargedu'n dda, ac mae bron pob dysgwr sy'n dilyn rhaglenni ymyrraeth ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn o fewn cyfnod amser byr. Yn ogystal, mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn datblygu'n broffesiynol trwy ddadansoddi data a deall effaith eu gwaith.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

Mae ysgolion sy'n cefnogi dysgwyr ag AAA yn dda yn gweithio mewn partneriaeth â dysgwyr a'u rhieni neu ofalwyr i osod ac adolygu targedau. Maent yn sicrhau bod dysgwyr yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud a pha gymorth y byddant yn ei gael. Yn Ysgol Gynradd Glasllwch yng Nghasnewydd, mae dysgwyr a rhieni yn gweithio gyda'r staff i gyflwyno ystod eang o strategaethau ymyrraeth, gan ddilyn cyngor gwasanaethau cymorth arbenigol pan fydd angen. Mae'r ysgol yn defnyddio cynorthwywyr addysgu profiadol sy'n cydweithio'n agos â rhieni ac athrawon dosbarth i fonitro cynnydd a chynnal cyflymder heriol ar gyfer dysgu.

Yn y nifer fach o ysgolion uwchradd â chanolfannau adnoddau arbenigol sy'n darparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol penodol, mae'r canolfannau yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad dysgwyr yn gyffredinol. Maent yn gryfder gwirioneddol yn yr ysgol yn aml, ac mae eu trefniadau cynhwysol a'u lefel uchel o gymorth sensitif yn helpu dysgwyr i integreiddio ym mywyd yr ysgol. Hefyd, defnyddir y canolfannau adnoddau arbenigol i gynorthwyo dysgwyr ar draws y brif ffrwd. Rhennir arbenigedd gyda staff ar draws yr ysgol ac mewn ysgolion lleol eraill fod y gall rhai eraill ddysgu o arfer dda. Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos yr arfer.

**Ysgol Gyfun Gellifedw yn cynorthwyo ei dysgwyr AAA**

Mae gan **Ysgol Gyfun Gellifedw, Abertawe** ganolfan adnoddau arbenigol, a elwir yn gyfleuster addysgu arbenigol, sy'n darparu'n dda iawn ar gyfer nifer fach o ddysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol, ac mae'n cynnig cymorth sensitif a gofalgar i'r rheini ag anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mae cynllunio gofalus yn sicrhau mynediad cyfartal i holl feysydd y cwricwlwm, a chyfleoedd chwaraeon ychwanegol, wedi'u teilwra, i ddysgwyr ag anawsterau dysgu lluosog.

Mae staff yn y cyfleuster addysgu arbenigol yn gosod amcanion uchelgeisiol ar gyfer unigolion mewn partneriaeth â rhieni a dysgwyr. Mae'r targedau hyn yn cynnwys nodau academaidd a nodau ymddygiad, a'u diben yw cefnogi datblygu annibyniaeth dysgwyr. Mae'r cyfleuster addysgu arbenigol yn sicrhau bod athrawon yn cael disgrifiadau cryno syml o bob dysgwr sy'n pwysleisio cyflawniadau y maent wedi'u gwneud ac yn cynnwys targedau pellach ar gyfer gwella. Mae pob adran wedi cael arweiniad buddiol ar sut i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu penodol mewn llyfrynnau o'r enw "SEN at a Glance". Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio'r arweiniad hwn yn dda i ddarparu gweithgareddau wedi'u teilwra ar gyfer dysgwyr penodol.

Rhoddir cyfleoedd i gynorthwywyr addysgu hefyd i ddatblygu arbenigedd penodol, er enghraifft mewn datblygu llythrennedd a chyfathrebu neu fynd i'r afael â dyslecsia. Mae'r staff hyn yn sicrhau bod dysgwyr ag AAA yn cael cwricwlwm sydd wedi'i wahaniaethu ym mhob dosbarth y brif ffrwd. Gweithiant yn galed i sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd annibynnol ac nad ydynt yn mynd yn or-ddibynnol ar gymorth.


O ganlyniad, mae dysgwyr sy'n cael cymorth gan y cyfleuster addysgu arbenigol yn cael eu hintegreiddio'n dda ym mywyd yr ysgol, yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau academaidd a chymdeithasol ac yn rhagori ar eu targedau mewn llawer o ddangosyddion allweddol.

# Mae dysgwyr mewn perygl o dangyflawni os ydynt yn dod o gefndiroedd cymharol dlawd

Yng Nghymru, mae tua 32% o blant yn byw mewn tlodi (rhyw 192,000-200,000 o blant). Mae gan Gymru hefyd gyfran uwch o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim nag yn Lloegr.[6]

Mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llawer mwy tebygol o dangyflawni na dysgwyr eraill. Mae ysgolion yn fwy ymwybodol o lawer o hyn nawr nag oeddent 10 mlynedd yn ôl. Mae'r siart isod yn dangos sut mae'r bwlch rhwng perfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr eraill wedi lleihau ychydig mewn nifer o ddangosyddion perfformiad ar ddiwedd y cyfnodau allweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

**Ffigur 1.6: Ar gyfer dangosyddion dethol, y bwlch mewn cyflawniad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â dysgwyr eraill, 2011 i 2013**




Er bod y bwlch hwn wedi cau ychydig dros gyfnod, mae'r grŵp o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn syrthio ymhellach ar ei hôl hi o gymharu â dysgwyr eraill wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae'r bwlch o 18 pwynt canran rhwng y ddau grŵp o ran cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn saith oed yn mynd yn fwlch o 33 pwynt canran o ran cyflawni trothwy lefel 2 cynhwysol yn 16 oed.

Mae tangyflawniad cynnar yn aml yn arwain at gyrhaeddiad gwan nes ymlaen. Er enghraifft, dim ond 9% o ddysgwyr sy'n methu â chyflawni'r dangosydd pwnc craidd yn 11 sy'n troi at wella ac yn mynd ymlaen i gyflawni trothwy lefel 2 cynhwysol yn 16.

Mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim hefyd yn astudio ar gyfer llai o gymwysterau yn 16 oed. Er enghraifft, mae dysgwyr yn astudio 9 neu 10 TGAU ar gyfartaledd yn y 10 o ysgolion uwchradd uchaf (o ran cyflawniad cyffredinol dysgwyr ar drothwy lefel 2 cynhwysol), ond dim ond 6 neu 7 ar gyfartaledd yn y 10 ysgol isaf. Hefyd, maent yn cael llai o gyfleoedd diwylliannol a chwaraeon.

[6] 'Dileu tlodi plant erbyn 2020: Dyhead yn unig?', Kathryn Potter, http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/ki-023.pdf%20-%2003112011/ki-023-Cymraeg.pdf

# Sut gall ysgolion gefnogi dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?

## Strategaethau mewnol ysgolion

**Mae ysgolion effeithiol:**

— yn mabwysiadu dull strategol, ysgol gyfan o fynd i'r afael ag anfantais
— yn defnyddio data i nodi ac olrhain cynnydd dysgwyr dan anfantais
— yn canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd a medrau dysgu dysgwyr dan anfantais
— yn datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr dan anfantais
— yn gwella presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad dysgwyr dan anfantais
— yn teilwra'r cwricwlwm yn ôl anghenion dysgwyr dan anfantais
— yn gwneud ymdrechion mawr i ddarparu profiadau sy'n cyfoethogi y bydd dysgwyr mwy breintiedig yn eu cymryd yn ganiataol
— yn gwrando ar ddysgwyr dan anfantais
— yn cynnwys rhieni a gofalwyr dysgwyr dan anfantais
— yn datblygu arbenigedd staff i fodloni anghenion dysgwyr dan anfantais

## Strategaethau sy'n cynnwys partneriaid

**Mae ysgolion llwyddiannus:**

— yn datblygu'r medrau arwain sydd eu hangen ar gyfer partneriaeth
— yn cydlynu a rheoli gwasanaethau amlasiantaeth ar y safle
— yn cymryd rhan mewn dulliau gweithredu 'Tîm o amgylch y teulu'
— yn dylunio ystod o ddysgu y tu allan i oriau
— yn deall beth mae'n ei olygu i fod yn ysgolion bro a chryfhau eu cysylltiadau cymunedol
— yn defnyddio grwpiau anogaeth i gynnwys teuluoedd dysgwyr newydd sy'n agored i niwed
— yn defnyddio rhaglenni dysgu fel teulu
— yn annog cyfranogiad mewn rhaglenni rhianta
— yn gweithio mewn partneriaeth i gyfuno'u hadnoddau â darparwyr eraill yn arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith asiantaethau allanol

# Dysgwyr sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol sydd mewn perygl o dangyflawni

Mae plant sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol yn wynebu llawer o anawsterau posibl yn eu bywydau ac yn eu haddysg. Mae ychydig dros chwarter o ddysgwyr sy'n derbyn gofal yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae angen addysgol arbennig gan ychydig dros dair rhan o bump. Daw bron i ddwy ran o dair o blant sy'n derbyn gofal i mewn i ofal y gwasanaethau cymdeithasol am eu bod wedi dioddef cam-drin neu esgeulustra. Mae 26% yn dod o deuluoedd sydd mewn trallod difrifol neu gamweithredu.[6]

Yn gyffredinol, mae perfformiad plant sy'n derbyn gofal yn gwaethygu wrth iddynt symud drwy'r system addysg, ac mae'r bwlch rhwng eu perfformiad nhw a pherfformiad dysgwyr eraill yn mynd yn fwy hefyd. Erbyn saith oed, mae bwlch o 30 pwynt canran rhwng eu perfformiad a pherfformiad dysgwyr eraill (o ran cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen).

> Dim ond 13% o blant sy'n derbyn gofal yn 16 oed sy'n cyflawni trothwy lefel 2 cynhwysol o gymharu â 53% ar gyfer yr holl ddysgwyr.

[6] Cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, Swyddfa Archwilio Cymru (2012)

# Sut gall ysgolion gefnogi plant sy'n derbyn gofal?

Mae ar blant sy'n derbyn gofal angen cymorth trwy gydol eu haddysg, i ddelio â phroblemau emosiynol, ac i gynnal eu cynnydd academaidd. Bydd llawer ohonynt yn dioddef tarfu yn eu bywydau a gall fod angen iddynt symud ysgol pan fydd eu lleoliadau cartref yn newid, neu drwy 'symudiadau rheoledig' pan gânt eu trosglwyddo i ysgol newydd i alluogi cychwyn newydd.

Mae ysgolion sy'n cefnogi'r dysgwyr hyn yn dda yn defnyddio ystod o ddulliau cydlynus, ac yn creu partneriaethau cadarn gydag ystod o wasanaethau a darparwyr eraill. Maent yn cydnabod pwysigrwydd parhad da mewn darpariaeth, ac mae ganddynt systemau i dderbyn gwybodaeth a hwyluso trosglwyddo esmwyth o ysgol neu leoliad blaenorol y dysgwr. Maent yn helpu dysgwyr i wneud cychwyn cadarnhaol mewn ysgol newydd, er enghraifft trwy ddarparu cofnod cyflawniad arbennig er mwyn meithrin hyder. Maent yn hyfforddi'u staff i fentora a chwnsela, neu'n gwneud defnydd da o gwnselwyr yn yr ysgol fel bod gan ddysgwyr 'fan diogel' yn yr ysgol lle gallant siarad am eu problemau gydag aelod o staff y maent yn ymddiried ynddo/ynddi. Yn ogystal, maent yn darparu cyfleoedd i aelodau teulu, gofalwyr a gweithwyr cymdeithasol i siarad am faterion a thrafod cynnydd gyda'r dysgwr yn yr ysgol. Mae rhai ysgolion yn creu 'canolfan gymorth' yn yr ysgol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau emosiynol, yn cael eu cynnal yn ôl egwyddorion ac arferion 'grŵp anogaeth' i ddarparu man dysgu lle mae'r staff hefyd yn cefnogi datblygiad emosiynol dysgwyr.


# Dysgwyr mwy abl a thalentog sydd mewn perygl o dangyflawni

Mae dysgwyr mwy abl a thalentog yn agored i dangyflawni hefyd os nad ydynt yn cael darpariaeth sy'n eu galluogi i ddatblygu'u galluoedd yn llawn.

Nid yw dysgwyr mwy abl a thalentog yng Nghymru yn cyflawni gystal ag y dylent wneud. Nid oes digon o ddysgwyr ysgolion cynradd yn cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol yn 11 oed ac yn 14 oed yn y pynciau craidd, sef Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Yng nghyfnod allweddol 4, nid oes digon o ddysgwyr 16 oed yn cyflawni'r graddau A/A* uwch yn y pynciau craidd. Hyd yn oed mewn ysgolion lle ceir safonau da, nid yw'r arweinyddiaeth, y ddarpariaeth, y cymorth a'r addysgu yn rhoi ystyriaeth ddigon da yn aml i anghenion dysgwyr mwy abl a thalentog.

Yn rhyngwladol, nid yw Cymru'n cymharu'n ffafriol â gwledydd eraill o ran perfformiad dysgwyr mwy abl a thalentog. Mae adroddiad y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) ar gyfer 2013, sy'n asesu perfformiad dysgwyr yn 15 oed ar draws 65 o wledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, yn dangos mai nifer fach o gyflawnwyr uchel sydd gan Gymru o gymharu â'r gwledydd sy'n perfformio orau yn y byd.

**Ffigur 1.7:**
Cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni pump neu fwy o raddau A* mewn arholiadau TGAU yn ôl gwledydd y DU, 2008 i 2012 yn gyfunold[7]





Yng Nghymru, mae cyrhaeddiad ym mhen uchaf sbectrwm graddau TGAU yn wannach nag yn rhanbarthau eraill y DU. Er enghraifft, mae cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni pum gradd A* ar lefel TGAU yn is nag yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a chyfartaledd y DU. Mae'r nifer is sy'n cyflawni'r graddau TGAU rhagorol hyn yng Nghymru yn dynodi nad yw dysgwyr mwy abl a thalentog yn gwneud gystal ag y gallent wneud.

**Ffigur 1.8:**
O'r dysgwyr a gyflawnodd lefel 5 neu uwch yn eu pwnc yn 11 oed yng Nghymru, cyfran y dysgwyr hyn a aeth ymlaen i ennill gradd A* neu A yn y pwnc hwnnw yn 16 oed

Nifer y dysgwyr yn cyflawni lefel 5 neu'n uwch yn 11 oed yng Nghymru, 2008

O'r disgyblion hyn, y gyfradd a aeth ymlaen i ennill gradd A neu A* mewn TGAU yn y pwnc hwnnw yn 16 oed, yn 2013




Carfan o ddisgyblion yr oedd data cyrhaeddiad ar gael ar eu cyfer yn 11 oed yn 2008 ac yn 16 oed yn 2013:
Mathemateg a Saesneg = 32,600
Cymraeg mamiaith = 6,620

[7] Adroddiad terfynol Llysgennad Oxbridge ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/oxbridge-project/oxbridge-final-report/?skip=1&lang=cy

At ei gilydd, nid yw'r dysgwyr hynny sy'n cael eu hasesu gan eu hathrawon yn 11 oed yn ddysgwyr sy'n perfformio uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd yn gwneud digon o gynnydd drwy'r cyfnodau allweddol dilynol i gyflawni'r graddau uchaf mewn TGAU. Mae cynnydd dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn arbennig o wael.

Nid problem yng Nghymru yn unig yw hon. Yn Lloegr, mae Ofsted wedi nodi bod 65% o ddysgwyr a gyflawnodd lefel 5 neu'n uwch mewn Saesneg neu fathemateg yn 11 oed yn 2013 wedi methu mynd ymlaen i gyflawni A neu A* yn y ddau bwnc hyn ar lefel TGAU[8].

Mae cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni'r radd uchaf (A*) yn y pynciau craidd ar lefel TGAU yng Nghymru yn isel eithriadol.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn 2013, mewn bron i chwarter o ysgolion uwchradd yng Nghymru, ni wnaeth unrhyw ddysgwyr gyflawni A* mewn iaith Saesneg. Mewn rhyw un o bob deg ysgol, ni wnaeth unrhyw ddysgwyr gyflawni A* mewn mathemateg. Yn rhyw un o bob chwe ysgol cyfrwng Cymraeg, ni wnaeth unrhyw ddysgwyr gyflawni A* mewn Cymraeg mamiaith. Yn achos dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mae'r ffigurau yn gostwng yn ddramatig. Mewn bron i dri chwarter o ysgolion uwchradd, ni wnaeth unrhyw ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gyflawni A* mewn mathemateg, ac mewn bron i naw ysgol o bob deg, ni wnaeth unrhyw ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gyflawni A* mewn iaith Saesneg.

Fodd bynnag, mae amrywio mawr rhwng ysgolion ac o fewn awdurdodau lleol. Mae ychydig iawn o ysgolion sydd â chyfrannau uchel o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n dda. Er enghraifft, yn Ysgol Esgob Gore yn Abertawe, lle mae rhyw 27% o ddysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, llwyddodd 21% i gyflawi gradd A* neu A mewn iaith Saesneg yn 2013, gyda rhyw 7% yn cyflawni A*.

[8] The most able students: Are they doing as well as they should in our non-selective secondary schools? Ofsted (2013)

# Sut gall darparwyr gefnogi dysgwyr mwy abl?

Mae'r ychydig ysgolion yng Nghymru lle mae dysgwyr mwy abl yn cyflawni'u potensial llawn yn tueddu bod yn ysgolion lle mae safonau ar gyfer yr holl ddysgwyr yn eu gosod yn y 25% uchaf o ysgolion yng Nghymru, a lle mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn gryf.

Mae'r ysgolion hyn yn darparu dewisiadau cwricwlwm sy'n bodloni anghenion dysgwyr mwy abl. Maent yn ategu'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 drwy ychwanegu cyrsiau sy'n herio'r rhai mwy abl. Efallai y byddant yn darparu cymhwyster TGAU mewn seryddiaeth, ffotograffiaeth neu astudiaethau clasurol, er enghraifft.

Mae darpariaeth allgyrsiol wedi'i theilwra, fel gwneud ffilmiau, clybiau ysgrifennu a chlybiau mathemateg yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth hefyd, ac mewn rhai achosion, cyfleoedd i ennill cymwysterau ychwanegol. Mae'r ysgolion gorau yn hyrwyddo dulliau personol o ddysgu, ac yn sicrhau bod athrawon arbenigol, neu arbenigwyr fel artistiaid a phobl chwaraeon, ar gael i ddysgwyr mwy abl. Maent yn rhoi rheolaeth i ddysgwyr dros beth maent yn ei ddysgu a sut, ac yn eu mentora'n dda pan fyddant yn gwneud dewisiadau ar gyfer dilyniant. Mae dysgwyr mwy abl yn elwa'n fawr ar weithio gyda dysgwyr eraill mwy abl, ac mae llawer o ysgolion llwyddiannus yn sefydlu cysylltiadau gydag ysgolion eraill, sefydliadau addysg bellach a phrifysgolion i gynnig cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio.

Mae'r addysgu gorau i gefnogi dysgwyr mwy abl yn hyblyg ac yn ymateb i wahaniaethau dysgwyr ac yn defnyddio deunyddiau adnodd ysgogol i ysbrydoli dysgwyr i ddefnyddio medrau meddwl lefel uwch. Mae dulliau datrys problemau a chyfleoedd i ddysgwyr archwilio'u syniadau drwy gyfryngau digidol yn galluogi dysgwyr i fod yn greadigol ac i ymgysylltu â'u dysgu eu hunain. Mae athrawon sy'n gwella dysgu dysgwyr mwy abl yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i herio dysgwyr. Nid ydynt yn ofni symud i ffwrdd oddi wrth eu cynlluniau i archwilio llwybrau dysgu mewn ymateb i gwestiynau dysgwyr. Cefnogant ddysgwyr mwy abl i ddylunio'u profiadau dysgu eu hunain.

Mae'r ysgolion hyn yn datblygu ethos lle gwerthfawrogir cyflawniad yn fawr iawn. Caiff doniau a chyflawniadau dysgwyr eu dilysu mewn digwyddiadau dathlu ac mewn arddangosiadau o amgylch yr ysgol a'r gymuned leol.

**Ysgol Gynradd Ynys y Barri yn dod o hyd i ddoniau pob plentyn**

Mae **Ysgol Gynradd Ynys y Barri** wedi datblygu ystod o strategaethau i wella cyflawniad dysgwyr mwy abl. Mae'r ysgol yn adnabod ac yn cefnogi dysgwyr sy'n dangos gallu mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau, a gwna'r defnydd gorau o fedrau staff i helpu dysgwyr i ehangu eu doniau. Mae dysgwyr mwy abl yn ymgymryd ag ystod o gyfrifoldebau ar draws yr ysgol, ac yn ehangu'u medrau trwy brosiectau a chlybiau.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr adroddiad arolygu

Lle mae ysgolion uwchradd a sefydliadau addysg bellach yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd i ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog, gellir codi dyheadau gan fod dysgwyr yn dod i wybod mwy am yr hyn sydd ar gael iddynt pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Yng Ngholeg Sir Gâr yn Llanelli, mae dysgwyr o ysgolion uwchradd lleol yn cymryd rhan mewn rhaglen atodol 14-19 ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog. Mae'r rhaglen yn tynnu sylw at lwybrau dilyniant a llwybrau gyrfaoedd yn y dyfodol, ac yn rhoi'r cyfle i'r dysgwyr hyn ymweld â diwydiant lleol a sefydliadau addysg uwch i siarad â staff.

Mae Coleg Sir Gâr yn datblygu ei ddysgwyr mwy abl a thalentog ei hun drwy gyfranogi yng nghystadlaethau Sgiliau Cymru yn ogystal â'r cystadlaethau Worldskills International a gynhelir bob dwy flynedd. Hefyd, mae ganddo academi chwaraeon lle bydd dysgwyr sydd â photensial uchel mewn chwaraeon yn elwa ar gysylltiadau cadarn â chlybiau a chymdeithasau proffesiynol. Mae ganddo raglen academaidd, ddiwylliannol a rhagoriaeth yn ogystal, i herio a chefnogi ei ddysgwyr mwyaf abl. Cynigir ystod o weithgareddau i'r dysgwyr hyn o fewn grwpiau tiwtorial arbenigol ar gyfer meddygaeth, gwyddor filfeddygol, deintyddiaeth, mathemateg, gwyddoniaeth, y gyfraith ac ieithoedd tramor modern.

# Dysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol sydd mewn perygl o dangyflawni



Mae rhyw chwarter o ddysgwyr SSIE sydd ar gyrsiau lefel mynediad yn gadael cyn diwedd y cwrs, ac nid ydynt yn cael tystysgrif na chymhwyster.

Yng Nghymru, mae rhyw 7-8% o ddysgwyr mewn ysgolion cynradd sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY). Mae hyn yn gyfwerth â rhyw un o bob tri dysgwr ar ddeg, neu ryw ddau ddysgwr ym mhob dosbarth ym mhob ysgol gynradd yng Nghymru. Yn fras, o'r dysgwyr hyn, mae rhyw chwarter yn newydd i'r Saesneg, mae gan ryw hanner rhywfaint o fedrau cychwynnol mewn Saesneg ac maent yn datblygu'u cymhwysedd yn yr iaith, ac mae rhyw chwarter yn gymwys neu'n rhugl yn Saesneg.

Mae plant sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol mewn perygl o dangyflawni pan fyddant mewn ysgolion lle nad ydynt yn gallu deall beth mae athrawon a chyd-ddysgwyr yn ei ddweud, neu beth mae llyfrau neu daflenni gwaith yn ei olygu. Fodd bynnag, ceir darpariaeth effeithiol ar gyfer dysgwyr sy'n cyrraedd yr ysgol gyda fawr o gymhwysedd neu ddim cymhwysedd yn Saesneg, yn enwedig mewn canolfannau trefol mawr, fel Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe. Mae llawer o ddysgwyr SIY yn goresgyn y rhwystrau i'w dysgu ac yn gwneud yn dda erbyn iddynt adael yr ysgol uwchradd oherwydd ymyriadau sydd wedi'u targedu'n dda gan athrawon arbenigol, dadansoddi eu cynnydd yn ofalus, lefelau uchel o integreiddio mewn dosbarthiadau, a chefnogaeth frwd gan athrawon dosbarth. Erbyn 16 oed, mae 66% o ddysgwyr SIY yn gymwys neu'n rhugl yn Saesneg. O'r rhain, mae 64% yn cyflawni trothwy lefel 2 cynhwysol o gymharu â rhyw 54% o ddysgwyr eraill.

Mae'n ddarlun tebyg ar gyfer dysgwyr Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) sy'n oedolion. Yn gyffredinol, mae cyfran y dysgwyr SSIE sy'n cwblhau'u cyrsiau iaith yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned yn gyson uchel ar 94%, ac mae llawer ar lefel 1 (92%) yn ennill cymhwyster neu dystysgrif ar ddiwedd y cwrs.



# Sut gall darparwyr gefnogi dysgwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol?

At ei gilydd, mae dysgwyr SIY a SSIE yn datblygu'u medrau iaith yn well yng nghyd-destun astudio ystod o destunau sy'n berthnasol i'w hanghenion. Defnyddiant y medrau hyn yn dda yng nghyd-destun yr ystafell ddosbarth neu yn eu cymunedau. Mae athrawon yn defnyddio deunyddiau dilys i wella'r dysgu ac i ddarparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu medrau.

Mae gan ddysgwyr sydd ag ond ychydig o fedrau yn Saesneg ddealltwriaeth dda o gysyniadau, er enghraifft mewn gwyddoniaeth a mathemateg, ond yn eu mamiaith. Nid yw nifer ohonynt wedi cael fawr o addysg ffurfiol, neu ddim addysg ffurfiol o gwbl, a chyfyngedig yw eu llythrennedd yn eu mamiaith. At ei gilydd, fel grŵp, mae dysgwyr sy'n cyflawni rhywfaint o gymhwysedd neu ruglder yn Saesneg yn cyflawni'n dda o gymharu â dysgwyr eraill ar ddiwedd addysg gynradd ac uwchradd. Mae hwn yn gyflawniad sylweddol i'r dysgwyr hyn a'u teuluoedd.

Gwelwn fod dysgwyr SIY yn aml yn cael cymorth da mewn canolfannau trefol mawr lle mae gwasanaeth datblygedig i'w cynorthwyo. Cânt y cymorth hwn gan athrawon cymwys neu gynorthwywyr addysgu sydd wedi cael hyfforddiant a chymorth priodol. Yn yr arfer orau, mae dysgwyr mwy datblygedig yn parhau i dderbyn cymorth. Mae staff yn monitro cyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr SIY yn ofalus iawn, yn aml gan ddefnyddio ysgolion neu risiau sy'n disgrifio'r camau amrywiol wrth iddynt ddatblygu cymhwysedd a rhuglder yn yr iaith. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr SIY yn fwy bylchog pan fydd plentyn yr unig un yn yr ardal ag anghenion SIY. Yn yr achosion hyn, mae dysgwyr yn ei chael hi'n anodd gwneud cynnydd oherwydd diffyg cymorth SIY rheolaidd, ac nid yw'r arbenigedd gan athrawon yn aml i ddarparu gymaint o gymorth ag y byddent yn dymuno.

Lle mae cymorth yn fwyaf effeithiol, mae aelod dwyieithog gan y gwasanaeth cymorth hefyd sy'n gallu asesu hyfedredd a llythrennedd y dysgwyr yn eu mamiaith er mwyn pennu pa wybodaeth flaenorol sydd ganddynt am bynciau eraill. Cysylltant yn dda ag ysgolion fel bod athrawon yn gallu gosod heriau priodol ar gyfer dysgwyr mewn Saesneg ac mewn pynciau eraill. Yn yr enghreifftiau gorau, mae staff SIY ac athrawon dosbarth yn cynllunio ar y cyd ac mae ganddynt berthynas weithio agos iawn, yn enwedig yng nghyfnodau cynnar datblygiad SIY y dysgwr. Byddant yn rhannu gwybodaeth am gaffael iaith ac am gynnydd cyffredinol dysgwyr. Mewn ysgolion sydd â darpariaeth effeithiol ar gyfer dysgwyr SIY, mae cyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr SIY yn cael eu dadansoddi'n ofalus fel unigolion ac fel grŵp ar wahân.

Mewn llawer o achosion, mae'r dysgwyr SIY unigol yn elwa'n fawr ar gael eu trwytho yn iaith yr ysgol ac maent yn dysgu'n well yn y dosbarth gyda chymorth nag o fewn grwpiau sy'n cael eu tynnu allan o'r dosbarth. Lle bydd dysgwyr yn cael eu tynnu allan o'r dosbarth, mae cyfyngiad amser ar hyn a gwneir hynny at ddiben penodol yn hytrach na bod yn ddull arferol o addysgu a dysgu.

Ar gyfer dysgwyr SIY a SSIE, mae cyflawni rhuglder a chymhwysedd yn Saesneg yn brofiad sy'n newid bywyd, ac sy'n galluogi plant ac oedolion i symud o fywyd o unigedd posibl i ymgysylltu'n llawnach â'u cymunedau lleol, ac â'r cyfleoedd addysg a hyfforddiant sydd ar gael iddynt drwy'r ysgol, addysg bellach a dysgu oedolion yn y gymuned.

**Ysgol Babanod Mount Street yn cefnogi anghenion poblogaeth ysgol amrywiol**

Mae **Ysgol Babanod Mount Street**, Powys yn darparu addysg ar gyfer amrywiaeth eang o ddysgwyr. Daw tua 37% ohonynt o ganolfan gyfagos y fyddin ac mae tua hanner ohonynt heb gartref parhaol. Hefyd, maent yn dod o amrywiaeth o grwpiau ethnig. Mae'r ysgol yn sicrhau ei bod yn cefnogi anghenion poblogaeth amrywiol yr ysgol trwy benodi'r staff cywir, cynnig amrywiaeth o weithgareddau mewn gwersi dan do ac yn yr awyr agored, a bodloni anghenion crefyddol.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Lles mewn ysgolion




Nid yw 30% o ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd a arolygwyd gennym yn credu bod yr ysgol yn gwrando ar eu barnau na'n gwneud y newidiadau y maent yn eu hawgrymu.

Mae gan ysgolion sy'n helpu pob dysgwr i gyrraedd eu potensial ddealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng lles a safonau. Maent yn gwybod y gall dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni deimlo'n bryderus ynglŷn â'r ysgol a'u bod yn fwy tebygol o fod yn anfodlon ac ymddieithrio. Maent yn deall fod angen i'r dysgwyr hyn deimlo'n ddiogel a hyderus cyn y gallant ddechrau dysgu, a bod angen iddynt ddatblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol dyfalbarhad a gwytnwch. Mae'r ysgolion hyn hefyd yn deall fod angen iddynt wrando ar lais y disgybl.

## Llais y disgybl

Mae cyfleoedd i ddysgwyr gael dweud eu dweud ym mhob agwedd ar fywyd ysgol yn bwysig o ran datblygu cyfranogiad, uchelgais a safonau dysgwyr. Mae ychydig o ysgolion yn sicrhau bod eu cynghorau ysgol a mecanweithiau eraill ar gyfer ymgynghori â dysgwyr yn cynnwys ystod o leisiau o gymuned yr ysgol. Mae'r ysgolion hyn yn addasu agweddau ar eu strategaethau addysgu, cwricwlwm, polisïau a gweithio mewn partneriaeth mewn ymateb i farnau dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o gynghorau ysgol yn gwneud gwahaniaeth i fywyd ysgol drwy ddylanwadu ar y modd y gellir gwella meysydd o'r ysgol, fel gwisg ysgol. Fodd bynnag, dim ond mewn lleiafrif o ysgolion y mae cynghorau ysgol yn cael effaith sylweddol ar weithdrefnau a pholisïau ysgol, neu ar ddulliau addysgu a dysgu.

Er gwaetha'r ffaith fod gan bob ysgol uwchradd gyngor ysgol etholedig sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod gwaith a bywyd yr ysgol, nid yw 30% o ddysgwyr mewn ysgolion a arolygwyd gennym yn credu bod yr ysgol yn gwrando ar eu barnau na'n gwneud y newidiadau y maent yn eu hawgrymu.

Yn yr achosion gorau, mae ysgolion yn defnyddio ystod o fecanweithiau ar gyfer casglu barnau pob dysgwr, er enghraifft holiaduron neu 'flychau awgrymiadau' i ddysgwyr adrodd gwybodaeth yn ôl yn ddienw. Hefyd, maent yn defnyddio 'muriau syniadau' i ddysgwyr ychwanegu atebion creadigol ynglŷn â materion ysgol, a dyddiaduron dysgu lle bydd dysgwyr yn cadw cofnod parhaus o'u meddyliau ynglŷn â'u dysgu. Ym mhob achos lle ceir adborth gan ddysgwyr, mae ysgolion effeithiol yn sicrhau y gweithredir ar farnau dysgwyr. Mae athrawon yn cymryd barnau dysgwyr o ddifrif ac yn eu defnyddio wrth gynllunio gwaith a llunio polisïau.






# Pwysigrwydd presenoldeb

Caiff absenoliaeth effaith sylweddol ar ba mor dda y bydd dysgwyr yn cyflawni. Mae pob diwrnod neu wythnos i ffwrdd o'r ysgol yn ddiangen yn ychwanegu at debygolrwydd dysgwr o dangyflawni i ryw raddau.

Yn 2013, llwyddodd y rhan fwyaf o ddysgwyr a fynychodd yr ysgol bob dydd ym Mlwyddyn 6 i gyflawni'r dangosydd pwnc craidd. Fodd bynnag, fe wnaeth hyn ostwng i ychydig dros hanner ar gyfer y dysgwyr a gollodd rhwng 30% a 50% o sesiynau yn ystod y flwyddyn. Ym Mlwyddyn 11 yn 2013, fe wnaeth dros hanner y dysgwyr a fynychodd yr ysgol y rhan fwyaf o'r amser gyflawni trothwy lefel 2 cynhwysol, ond fe wnaeth hyn ostwng i 4% yn unig ar gyfer dysgwyr a gollodd dros hanner y sesiynau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r siart isod yn dangos y berthynas rhwng cyflawniad a chyfraddau absenoldeb.

**Ffigur 1.9**
Cyflawniad dysgwyr ym Mlynyddoedd 6 ac 11, yn ôl cyfradd absenoldeb gyffredinol, 2013





(a) Fe wnaeth nifer fach iawn o ddisgyblion Blwyddyn 6 golli dros 50% o sesiynau, felly nid yw'r cyflawniad ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr ar gael.

Mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fod yn absennol. Hefyd, maent yn fwy tebygol o fod yn ddisgyblion sy'n absennol yn barhaus.[9] Pan fydd dysgwyr yn dechrau aros i ffwrdd o'r ysgol, gallant ddod i'r arfer o fod yn absennol yn barhaus. Mae rhyw 7% o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn absennol yn barhaus mewn ysgolion cynradd, ond mae hyn yn codi i ryw 18% mewn ysgolion uwchradd.

Mewn ysgolion uwchradd, mae cyfradd absenoldeb gyffredinol[10] dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim bron ddwywaith yn fwy na'r gyfradd ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys i'w cael. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae'r gyfradd absenoldeb anawdurdodedig ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ryw bedair gwaith yn uwch na'r gyfradd ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys i'w cael.

Mae'r siart isod yn dangos y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau absenoldeb ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion mwy breintiedig.

**Ffigur 1.10:**
Absenoldeb cyffredinol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ôl cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, 2011-2012




Mae'r gyfradd absenoldeb ar gyfer dysgwyr ag AAA yn uwch nag ar gyfer dysgwyr heb AAA. Mewn ysgolion uwchradd, mae gan ddysgwyr sydd ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol gyfradd absenoldeb uwch nag unrhyw grwpiau eraill o ddysgwyr ag AAA. Gan y grŵp hwn o ddysgwyr y mae'r gyfradd uchaf o absenoldeb anawdurdodedig hefyd. Mae bron i bedair gwaith yn uwch nag ar gyfer dysgwyr heb AAA.

[9] Ystyrir bod disgyblion yn absennol yn barhaus os ydynt yn absennol o'r ysgol am o leiaf 20% o'r sesiynau hanner diwrnod y mae ysgolion yn agored, heb gynnwys diwrnodau hyfforddiant mewn swydd.
[10] Mae'r gyfradd absenoldeb gyffredinol yn cynnwys absenoldeb awdurdodedig ac absenoldeb anawdurdodedig.

# Sut gall ysgolion wella presenoldeb dysgwyr?

Mae'r ysgolion sydd fwyaf llwyddiannus o ran gwella presenoldeb yn cydnabod bod addysgu o ansawdd da a chwricwlwm sy'n bodloni anghenion dysgwyr yn arwain at ymgysylltu'n well â disgyblion. Maent yn nodi unrhyw ddiffygion mewn addysgu yn gyflym ac yn cynnig ystod eang o ddewisiadau cwricwlwm i ddysgwyr. Maent yn darparu cymorth, arweiniad a mentora da, ac yn defnyddio arfer adferol, canolfannau cymorth i ddisgyblion a grwpiau anogaeth yn effeithiol, ac mae'r rhain wedi helpu mwy o ddysgwyr i fynychu'r ysgol yn fwy mynych. Mae gan yr ysgolion hyn drefniadau partneriaeth effeithiol gydag asiantaethau a gwasanaethau allanol. Yn aml, byddant yn cyflogi neu'n neilltuo cyfrifoldeb i aelod o staff i wella presenoldeb grwpiau penodol o ddysgwyr. Maent yn aml yn meithrin perthnasoedd da gyda theuluoedd penodol a chymunedau lleol. Mae'r arfer o gyfnewid gwybodaeth am batrymau presenoldeb dysgwyr unigol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn dda yn aml.

Mae ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cryfhau'r negeseuon y maent yn eu rhoi ynglŷn â'r cyswllt rhwng presenoldeb uchel a chyflawniad academaidd da. Mae'r pwyslais ar ddata presenoldeb mewn bandio ysgolion uwchradd ac yn arolygiadau Estyn wedi canolbwyntio mwy o sylw ar faterion presenoldeb hefyd. Mae llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o'u lefel presenoldeb cyfredol neu gyfradd presenoldeb wythnosol eu dosbarth.

Fodd bynnag, mae gormod o ysgolion sydd heb gynnal dadansoddiad manwl o'u presenoldeb neu heb osod targedau priodol ar gyfer gwella presenoldeb grwpiau penodol o ddysgwyr. Nid yw ychydig o ysgolion yn sylweddoli'n llawn yr effaith y gallant ei chael ar wella presenoldeb ac yn dal i gredu ei fod yn fwy o fater i deuluoedd ac nid iddynt hwy.

**Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed yn mynd i'r afael â phresenoldeb**

**Mae Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed** yn Abertawe wedi gwella presenoldeb drwy wneud y cwricwlwm yn fwy perthnasol i ddysgwyr, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Yn ogystal, mae'r Grŵp Ffocws ar Bresenoldeb yn helpu i olrhain a monitro presenoldeb dysgwyr, yn enwedig presenoldeb dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

I wylio fideo ar yr arfer effeithiol yn Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed, cliciwch ar y deunyddiau HMS ar fynd i'r afael ag amddifadedd a chodi safonau.

# Pwysigrwydd ymddygiad

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, ac mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch tuag at oedolion a'u cyfoedion.

Mae ymddygiad da yn nodwedd mewn ysgolion lle mae athrawon yn cyflwyno gwersi diddorol sy'n cynnig digon o her i ddysgwyr o bob gallu. Ysgolion sy'n mabwysiadu ac yn gweithredu ymagwedd ysgol gyfan at ymddygiad yn llwyddiannus sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ymddygiad. Yn yr ysgolion hyn, ceir dull cyson o reoli ymddygiad gan bob aelod o staff, mae pob dysgwr yn deall rheolau'r ysgol, ac mae arweinwyr ysgol yn gofyn am farnau dysgwyr yn rheolaidd ynglŷn â'u lles.

Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o ysgolion cynradd a lleiafrif o ysgolion uwchradd, mae nifer fach o ddysgwyr yn tarfu ar wersi'n rheolaidd. Yn yr ysgolion hyn, mae dysgwyr yn dangos medrau cymdeithasol gwael mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol, ac mae hyn yn rhwystro'u gallu i ddysgu a gweithio gydag eraill yn effeithiol. Nid yw ychydig o ddysgwyr yn dangos parch tuag at eu hathrawon na'u cyfoedion. Ychydig o ddiddordeb y mae'r dysgwyr hyn yn ei ddangos yn eu gwaith, ac mae ganddynt agweddau negyddol at ddysgu.

Mewn ysgolion lle ceir ymddygiad gwael, mae disgwyliadau athrawon o ddysgwyr yn rhy isel. Nid yw'r gweithgareddau dysgu yn cynnig digon o her i ddysgwyr, ac nid ydynt yn bodloni anghenion pob un o'r dysgwyr. Mae rhediad y dysgu yn rhy araf, mae strategaethau addysgu yn ailadroddus ac nid yw medrau dysgwyr, yn enwedig eu medrau llythrennedd, a'u gwybodaeth bynciol, wedi'u datblygu'n ddigonol. Nid yw athrawon yn rheoli ymddygiad yn ddigon da ac mae hyn yn cyfyngu ar ddysgu'r dysgwyr.

# Sut gall ysgolion helpu dysgwyr i reoli'u hymddygiad?

Mae ysgolion da yn deall y modd y mae datblygu lles cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr yn rhan annatod o ddull ysgol gyfan o godi safonau ar gyfer pob dysgwr.

Mae'n bwysig sefydlu synnwyr clir o gyfeiriad ac ethos cadarnhaol wrth feithrin cyfrifoldeb cymdeithasol a pharch at eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae gan ddisgyblion hunan-barch isel ac agweddau negyddol at ddysgu. Mae parch dysgwyr tuag at eraill yn datblygu orau pan fydd gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol yn treiddio i bob agwedd ar fywyd ysgol, gan gynnwys yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn gwersi a sut maent yn dysgu. Mewn ysgolion sy'n datblygu medrau cymdeithasol ac ymddygiadol dysgwyr yn dda, mae arweinwyr yn sicrhau bod polisïau ysgol gyfan, fel y rheini'n ymwneud â gwrthfwlio, ymddygiad, ac addysgu a dysgu, yn gydlynus. Mae gwerthoedd yr ysgol, rheolau a chyfrifoldebau yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u hatgyfnerthu gan bob aelod o staff.

Mae ysgolion sy'n cynorthwyo dysgwyr yn dda yn defnyddio ystod eang o ddulliau sy'n cynnwys:

- rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol sy'n datblygu gwerthoedd a chyfrifoldebau dysgwyr
- cwnsela, gan gynnwys gan asiantaethau arbenigol, datblygu grwpiau cymorth a chwnsela gan gyfoedion
- systemau cymorth i ddysgwyr
- prosesau eirioli
- prosesau cyfiawnder adferol
- 'systemau cyfeillio', lle caiff dysgwyr eu paru er mwyn cefnogi'i gilydd
- sesiynau cyfathrebu cymdeithasol sy'n datblygu medrau cymdeithasol dysgwyr
- sesiynau rheoli dicter
- y rhaglen Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol at Ddysgu (SEAL)
- dulliau amlasiantaeth o ddelio â materion penodol fel camddefnyddio sylweddau neu iechyd rhywiol

Mae gwella ymddygiad dysgwyr yn aml yn mynnu bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn gweithio'n agos â phartneriaid ac asiantaethau eraill, yn enwedig pan fydd problemau ymddygiad y dysgwyr yn deillio o amgylchiadau yn y cartref. Darperir y cymorth mwyaf effeithiol i blant o ddull cynhwysfawr, di-dor, sy'n gweithredu ar draws asiantaethau gwahanol.

**Ysgol Uwchradd y Rhyl yn ymgysylltu â dysgwyr sydd wedi dadrithio**

Fe wnaeth staff yn **Ysgol Uwchradd y Rhyl** adnabod grŵp o ddysgwyr a oedd â phroblemau ymddygiad ac mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol. Defnyddiodd yr ysgol ddull amlasiantaeth gyda sefydliadau lleol a oedd yn cefnogi plant i ail-ymgysylltu â'r dysgwyr hyn. Gyda'i gilydd, fe wnaethant greu cwricwlwm sydd wedi gwella cyflawniad, agweddau ac ymgysylltiad.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Bwlio



Mewn un o bob pedair ysgol uwchradd a arolygwyd gennym, nid yw dros un o bob pump dysgwr yn meddwl bod eu hysgol yn rheoli digwyddiadau o fwlio yn ddigon da.

Ymateb i'n holiaduron dysgwyr yn dangos bod 93% o ddisgyblion ysgolion cynradd ac 84% o ddisgyblion ysgolion uwchradd o'r farn fod eu hysgol yn delio'n dda ag unrhyw ddigwyddiadau o fwlio.

Mae dysgwyr mewn ysgolion uwchradd yn pryderu mwy ynghylch y ffordd y mae eu hysgol yn ymdrin ag ymddygiad bwlio nag mewn ysgolion cynradd. Dengys yr holiaduron fod llawer o ddysgwyr ysgolion uwchradd yn fodlon yn gyffredinol â'r dulliau gwrth-fwlio yn eu hysgol. Fodd bynnag, mewn un o bob pedair ysgol uwchradd a arolygwyd gennym, nid yw dros un o bob pum dysgwr yn meddwl bod eu hysgol yn rheoli digwyddiadau o fwlio yn ddigon da.

Mae gormod o ddysgwyr yn dioddef o fwlio ar ryw adeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Gall effeithiau cael eich bwlio fod yn rhai tymor byr neu hirdymor, yn seicolegol neu'n gymdeithasol, ac arwain yn aml at dangyflawni neu broblemau presenoldeb. Mae rhai grwpiau o ddysgwyr mewn mwy o berygl na'r cyfartaledd o gael eu bwlio, gan gynnwys:

— dysgwyr ag anghenion arbennig neu anabledd
— dysgwyr sy'n lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol
— dysgwyr o gefndir ethnig lleiafrifol neu gefndir crefyddol

Yn arolwg Estyn eleni 'Gweithredu ar fwlio', canfu arolygwyr fod y modd y mae ysgolion yn delio â bwlio yn amrywio'n fawr rhwng ysgolion, a bod staff yn aml yn mabwysiadu dulliau gwahanol o fewn yr un ysgol. Mae diffyg dealltwriaeth glir ymhlith llawer o staff, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, o'r hyn sy'n gwneud 'digwyddiad adroddadwy' o fwlio. Nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd ddarlun digon clir o batrymau ymddygiad dros gyfnod y gallant ei ddefnyddio i lywio cynllunio gwrth-fwlio'.[11]

[11] 'Gweithredu ar fwlio' (Estyn, 2014)
http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/315942.9/Gweithredu%20ar%20fwlio%20-%20Mehefin%202014/?navmap=30,163

# Sut gall ysgolion fynd i'r afael â bwlio?

Mae cysylltiad cryf iawn rhwng ansawdd ethos ysgol a faint o fwlio sy'n digwydd ynddi. Lle ceir ethos o ansawdd uchel, bydd llai o fwlio'n digwydd, a hyd yn oed pan na fydd yn digwydd, mae'r ysgolion hyn yn fwy tebygol o ddelio ag ef yn effeithiol. Yn yr achosion gorau, mae ysgolion yn helpu dysgwyr i ddeall eu hawliau a defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae gwaith rheolaidd a gweithredol ar Hawliau'r Plentyn, er enghraifft mewn gwasanaethau boreol, mewn trafodaethau yn y dosbarth ac mewn rhyngweithiadau dyddiol athrawon â phlant, yn helpu meithrin ethos lle mae plant yn deall bod ganddynt hawl i fod yn ddiogel, ac y gallant arfer yr hawl hon yn yr ysgol yn ogystal ag mewn meysydd eraill o'u bywydau. Mae'r dulliau hyn yn aml yn cynorthwyo plant wrth sefydlu eu rheolau eu hunain mewn ystafelloedd dosbarth ac yn yr ysgol yn gyffredinol. Yn yr achosion gorau, mae plant yn rheoli'u hymddygiad eu hunain a'u rhyngweithiadau â phlant eraill gyda'r hawliau hyn yn flaenllaw yn eu meddyliau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod wrth bwy i ddweud os ydynt yn gweld rhywun yn cael ei fwlio neu'n cael eu bwlio eu hunain. Fodd bynnag, mae disgyblion mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol o lawer o gyfeirio digwyddiadau nag mewn ysgolion uwchradd. Wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn, maent yn mynd yn llai hyderus y bydd yr ysgol yn gallu datrys y problemau bwlio.

Mae ysgolion yn dod yn fwyfwy effeithiol o ran helpu dysgwyr i ddeall materion yn ymwneud ag e-ddiogelwch er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn aros yn ddiogel ar-lein a phan fyddant yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae digwyddiadau o fwlio seiber hefyd yn cynyddu wrth i ddysgwyr symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn yr arfer orau, mae staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y technolegau y mae disgyblion yn eu defnyddio, ac yn deall y potensial i'w camddefnyddio yn yr ysgol a thu hwnt. Hefyd, ceir cydweithredu cadarn rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd lleol o ran sicrhau dull cyson o fynd i'r afael â'r materion hyn.


Mae ysgolion yn cyfyngu ar fwlio drwy gyfyngu ar y cyfleoedd lle gall camymddwyn ddigwydd. Er enghraifft, maent yn cadw golwg fanwl ar ardaloedd cymunedol, a gwnânt yn siŵr fod goruchwyliaeth effeithiol rhwng gwersi, amser egwyl ac amser cinio, pan fydd bwlio'n fwy tebygol o ddigwydd. Mae ysgolion yn darparu gwasanaethau cwnsela ac yn defnyddio asiantaethau allanol yn dda i gynorthwyo disgyblion sy'n cael eu bwlio. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gan staff ddealltwriaeth dda o raddau'r bwlio geiriol sy'n digwydd ac yn gwybod y math o iaith a ddefnyddir gan ddysgwyr sy'n ffurf o sarhad. Mae staff yn gwybod nad 'cellwair' arferol yw hyn ac maent yn ei drin yn briodol fel ymddygiad tramgwyddus a bwlio.

Mae cofnodi digwyddiadau o fwlio yn bwysig am ei fod yn galluogi ysgolion i fonitro tueddiadau a llywio'u dulliau gwrth-fwlio yn unol â hynny. Gwelwn fod y rhan fwyaf o ysgolion yn cadw cofnodion o ymddygiad gwael, ond dim ond lleiafrif sy'n cadw cofnod penodol o ddigwyddiadau o fwlio neu'n categoreiddio digwyddiadau yn ôl y nodweddion gwarchodedig.

**Ysgol Gynradd Eveswell yn mynd i'r afael â homoffobia**

Mae **Ysgol Gynradd Eveswell** yng Nghasnewydd wedi gwneud cryn dipyn o waith yn herio stereoteipiau. Mae'n gweithio gyda'r awdurdod lleol a sefydliad cenedlaethol i fynd i'r afael â homoffobia a mynd i'r afael ag unrhyw ddewisiadau a safbwyntiau o ran stereoteipio ymhlith disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr adroddiad thematig: Gweithredu ar fwlio





# Adran 2: Adroddiadau sector
## Ysgolion cynradd

Yn Ionawr 2014, roedd 1,357 o ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae hyn 17 yn llai nag yn Ionawr 2013. Roedd 269,421 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd yn Ionawr 2014, sy'n gynnydd o 5,235 o ddisgyblion o'r flwyddyn flaenorol. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol i nifer y disgyblion cynradd godi. Eleni, fe wnaethom arolygu 229 o ysgolion cynradd.


# Gweithgarwch dilynol: Ysgolion cynradd

Nodwyd bod arfer ragorol mewn 34 o ysgolion eleni o dan o leiaf un dangosydd ansawdd. Mae'r nifer hon fwy neu lai wedi aros yr un fath dros y blynyddoedd diwethaf ar ryw 15% o ysgolion cynradd a arolygwyd. Barnwyd bod deg ysgol yn rhagorol yn gyffredinol. Yn yr ysgolion hyn, mae gan arweinwyr systemau trylwyr i bennu disgwyliadau uchel gan ddisgyblion a chysondeb mewn addysgu ac asesu ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae angen ymweliad dilynol ar ryw ddwy ran o dair o ysgolion cynradd a arolygwyd eleni. Gall fod gan ysgol rai agweddau ar ei darpariaeth sydd ond yn ddigonol, er mai 'da' yw'r farn gyffredinol. Mae hyn yn golygu bod angen monitro dilynol ar rai ysgolion sy'n dda yn gyffredinol. Mae angen monitro naill ai gan yr awdurdod lleol neu gan Estyn ar 58% o ysgolion a arolygwyd eleni, o gymharu â 43% y llynedd. Yn yr ysgolion sydd angen eu monitro gan Estyn, nid yw arweinwyr yn gwneud digon i fynd i'r afael ag anghysonderau ar draws yr ysgol, yn enwedig mewn perthynas â'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud yn eu medrau rhifedd, ac i raddau llai yn eu medrau llythrennedd.

Mae cyfran yr ysgolion cynradd y mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddynt wedi aros yn weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf, ar ryw 2%. Fodd bynnag, mae angen gwelliant sylweddol mewn 12 o ysgolion cynradd eleni. Mae hyn yn fwy na'r llynedd, ac yn cynrychioli 5% o'r ysgolion a arolygwyd.

**Ffigur 2.1: Canrannau ysgolion cynradd mewn categorïau gweithgarwch dilynol**[12]




[12] Mae ychydig iawn o ysgolion mewn dau gategori, er enghraifft lle mae arfer ragorol gan ysgol ac mae angen ei monitro gan Estyn hefyd.

# Deilliannau: Ysgolion cynradd

## Safonau

Mae safonau yn dda neu'n well yn gyffredinol mewn rhyw 63% o ysgolion cynradd a arolygwyd. Mae hyn yn is nag yn y ddwy flynedd flaenorol pan oedd safonau yn dda neu'n well mewn rhyw 70% o ysgolion cynradd. Mae cyfran yr ysgolion lle barnodd arolygwyr fod safonau yn rhagorol neu'n anfoddhaol wedi aros yn gyson fwy neu lai. Eleni, y rheswm pennaf am y cynnydd mewn barnau digonol yw cynnydd cyfyngedig disgyblion mewn rhifedd. Mewn ychydig dros draean o ysgolion, lle ceir safonau digonol yn unig, nid oes unrhyw duedd o welliant, ac mae merched yn tueddu perfformio'n well na bechgyn, yn enwedig o ran y deilliannau a'r lefelau uwch na'r disgwyl mewn llythrennedd. Mae cyfradd cynnydd ar draws yr ysgol yn rhy amrywiol.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae safonau'n rhagorol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu, o fannau cychwyn isel yn aml. Maent yn cymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd, medrau meddwl a datrys problemau yn dda ar draws y cwricwlwm. Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng safonau llythrennedd a rhifedd mewn gwersi Saesneg a mathemateg yn y drefn honno, a'u safonau mewn pynciau eraill. Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gystal â'u cyfoedion a'r duedd yw nad oes fawr o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Mewn ychydig o ysgolion lle nad yw'r Cyfnod Sylfaen wedi'i roi ar waith yn llawn ac wedi mynd yn rhy ffurfiol, nid yw disgyblion yn datblygu'u medrau meddwl a datrys problemau yn ddigon da, ac mae eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol yn cael ei rwystro.


## Llythrennedd

Bu gwelliant bach yn llythrennedd disgyblion eleni, yn enwedig mewn ysgolion sy'n darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu mewn amryw o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae cynnydd o ran gwella ysgrifennu disgyblion wedi bod yn gyflymach yn y Cyfnod Sylfaen nag yng nghyfnod allweddol 2. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae ysgrifennu disgyblion yn dal yn rhy fyr ac mae diffyg dychymyg yn yr ysgrifennu hwnnw.

Yn y **Cyfnod Sylfaen,** mae'r ffocws cynyddol ar siarad a gwrando wedi parhau i gael effaith gadarnhaol. Lle mae hyn yn arbennig o lwyddiannus, mae disgyblion yn ymateb yn hyderus i gwestiynau gan ddefnyddio geirfa aeddfed. Mewn ychydig o ysgolion sy'n datblygu darllen disgyblion yn dda, mae disgyblion yn darllen yn rhugl ac yn trafod yr hyn y maent wedi'i ddarllen yn hyderus. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn defnyddio strategaethau ffoneg i ddarllen geiriau anghyfarwydd ac yn defnyddio cliwiau eraill ynglŷn â chyd-destun y llyfr i wella'u dealltwriaeth a rhuglder. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw'r medrau i ddatgodio testunau gan lawer o ddisgyblion. Un nodwedd ragorol a welwyd mewn ysgrifennu ychydig iawn o ddisgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yw eu dealltwriaeth o arddulliau ysgrifennu gwahanol a'u gallu i ddefnyddio'r rhain ar draws y cwricwlwm. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd wrth ddatblygu'u hysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, ysgrifennant yn annibynnol i greu llythrennau, storïau a cherddi sy'n cynnal diddordeb. Mae eu sillafu a'u hatalnodi yn gywir yn gyffredinol.

Yng **nghyfnod allweddol 2,** mewn ysgolion lle mae darllen yn rhagorol, mae disgyblion yn defnyddio medrau darllen lefel uwch fel defnyddio awgrym a dod i gasgliad. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn trafod y cymeriadau a'r cynllun yn eu llyfr yn fanwl. Mae'r medrau ganddynt i'w helpu i ddarllen gyda dealltwriaeth. Mae disgyblion hŷn yn datblygu'u medrau ymchwilio ac yn brasddarllen a sganio testun i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae darllen disgyblion, yn enwedig darllen bechgyn, yn betrusgar yn aml ac nid yw'r hyder gan

**Ffigur 2.2: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



ddisgyblion wrth chwilio am wybodaeth. Mewn lleiafrif o ysgolion, anaml y bydd disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig mewn gwersi heblaw am Saesneg, ac nid ydynt yn ailddrafftio eu gwaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mewn mwyafrif o ysgolion, mae disgyblion yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Lle mae ysgrifennu yn gadarn, mae atalnodi a gramadeg yn gywir, a defnyddir geirfa i greu effaith ac i ddal sylw'r darllenydd.

## Rhifedd

Mewn mwyafrif o ysgolion, mae'r ffocws cynyddol ar ddatblygu rhifedd disgyblion yn dechrau cael effaith gadarnhaol, er y gwneir hyn o waelodlin isel.

Yn y **Cyfnod Sylfaen,** mae llawer o ddisgyblion yn ei chael hi'n anodd dehongli problemau a fynegir mewn geiriau a phenderfynu pa weithrediad sydd angen iddynt ei ddefnyddio i ddatrys y broblem. Lle ceir safonau da, mae disgyblion yn siarad yn hyderus am y fathemateg a ddefnyddiant ac yn esbonio'r rhesymau dros eu dull gweithredu.



Yng **nghyfnod allweddol 2,** mewn ysgolion lle mae rhifedd yn gadarn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau i ddatrys problemau mathemategol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Maent yn datrys problemau bywyd go iawn sy'n mynnu cymhwyso ystod o fedrau rhifedd. Er enghraifft, maent yn cynllunio i brynu celfi newydd ar gyfer eu hystafell ddosbarth ac yn cyfrifo'r gost. Mewn lleiafrif o ysgolion lle mae diffygion mewn rhifedd, nid yw disgyblion yn defnyddio'r medrau a ddysgant mewn gwersi mathemateg ar yr un lefel mewn pynciau eraill.

## TGCh

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio TGCh yn dda i gyflwyno gwybodaeth, ac mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'u medrau mewn TGCh i ymchwilio i wybodaeth mewn pynciau gwahanol. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae TGCh yn rhagorol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o offer TGCh yn hyderus yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn adeiladu ar hyn i feistroli medrau mwy cymhleth. Er enghraifft, maent yn cynhyrchu gemau cyfrifiadur syml gan ddefnyddio efelychiadau a thaenlenni. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw disgyblion yn defnyddio ystod ddigon eang o fedrau TGCh fel ymdrin â data, modelu neu ysgrifennu rhaglenni syml wedi'u codio.

## Cymraeg

Nid yw safonau mewn Cymraeg fel ail iaith wedi gwella. Yn y **Cyfnod Sylfaen,** mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i fwynhau dysgu Cymraeg ac yn ymateb i orchmynion gyda dealltwriaeth. Mae llawer ohonynt yn gofyn ac yn ateb cwestiynau syml yn hyderus. Eleni, mewn ychydig o ysgolion, bu cynnydd mewn sesiynau ymarfer byr, dyddiol i gadw medrau disgyblion yn Gymraeg yn chwim. Mae hyn yn aml yn gwella hyder disgyblion pan fyddant yn siarad am ystod o destunau, ac mae wedi'u galluogi i gynnal sgwrs am gyfnodau hirach, yn enwedig yng **nghyfnod allweddol 2.** Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau llefaredd ac ysgrifennu Cymraeg ymhellach na gwersi Cymraeg. Nid oes hyder ganddynt ac maent yn amharod i gyfranogi mewn sgyrsiau byr ynglŷn â phynciau bob dydd. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau darllen nad ydynt wedi'u datblygu gystal â'u medrau siarad ac ysgrifennu, ac mae llawer yn ei chael hi'n anodd trafod yr hyn maent wedi'i ddarllen. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â llyfr darllen Cymraeg.

## Lles

Mae lles yn dda neu'n well mewn mwyafrif o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn llawn cymhelliant i ddysgu ac yn cydweithredu'n dda â'i gilydd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i fod yn iach, ac maent yn esbonio beth yw deiet iach a buddion ymarfer corff rheolaidd.

Mewn llawer o ysgolion, lle mae athrawon yn gweithredu'r **Cyfnod Sylfaen** yn llwyddiannus, mae disgyblion yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn dda ac yn gwneud dewisiadau priodol ynglŷn â sut a beth yr hoffent ei ddysgu. Yng **nghyfnod allweddol 2,** mae cyfran gynyddol o ddisgyblion yn cyfrannu at gynllunio'r cwricwlwm ac yn nodi beth maent eisoes yn ei wybod a beth yr hoffent ddysgu amdano.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at oedolion a'u cyfoedion. Mewn ychydig iawn o ysgolion, lle mae diffyg rhediad yn y gwersi ac nid oes dull cyson o reoli ymddygiad disgyblion, mae lleiafrif o ddisgyblion yn tarfu ar waith eraill.

Yn 2013-2014, mae cynnydd mewn presenoldeb cyffredinol o ryw un pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gyfradd genedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd yn dangos tuedd o wella er 2006 ac mae tua 95%. Eleni, mae argymhelliad i wella presenoldeb disgyblion gan ychydig o dan draean o ysgolion a arolygwyd. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi cynyddu eu ffocws ar wella presenoldeb disgyblion i ryw raddau, nid yw llawer yn cynnal y ffocws hwn neu'n gwneud cynnydd digonol o ran gwella presenoldeb cyffredinol. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae presenoldeb yn cymharu'n wael â phresenoldeb ysgolion tebyg ac nid yw'n dangos fawr o welliant dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cyngor ysgol etholedig sy'n gallu dangos sut mae ei gamau gweithredu wedi gwella elfennau o ddarpariaeth, fel gwella'r ardal awyr agored neu brynu teganau a gemau ychwanegol ar gyfer amseroedd chwarae. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae'r cyngor ysgol yn cael effaith sylweddol ar bolisïau a'r cwricwlwm. Er enghraifft, mewn un ysgol, mae'r cyngor ysgol wedi helpu staff i gyflwyno rhifedd yn fwy rheolaidd i'r cwricwlwm, ac wedi dylunio polisïau gwrthfwlio a gwaith cartref yr ysgol.

### Prosiectau menter busnes yn gwella medrau disgyblion

Mae disgyblion o bob gallu yn **Ysgol Gynradd Llanyrafon** yn cymryd rhan mewn prosiectau menter busnes. Mae cyfranogi mewn menter busnes yn gwella medrau llythrennedd, rhifedd a medrau bywyd disgyblion yn fawr, ac yn gwella eu hyder a'u lles.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Darpariaeth: Ysgolion cynradd

Mae'r ddarpariaeth yn dda neu'n well mewn rhyw 70% o ysgolion. Mae'r gyfran hon yn is na'r llynedd ac yn adlewyrchu diffygion mewn addysgu. Mae gan dros ddwy ran o dair o ysgolion o leiaf un argymhelliad i wella agweddau ar addysgu neu asesu. Hefyd, mae cyfran yr ysgolion sy'n darparu profiadau dysgu da neu well ar gyfer disgyblion yn is nag yr oedd y llynedd.

## Profiadau dysgu

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n unol ag egwyddorion y **Cyfnod Sylfaen** ar y cyfan. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ysgolion da eleni, mae tuedd i'r Cyfnod Sylfaen fynd yn rhy ffurfiol yn rhy fuan. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio cynlluniau gwaith wedi'u prynu i gyflwyno rhifedd a llythrennedd. Nid yw hyn yn annog defnyddio pob maes dysgu i gryfhau medrau disgyblion nac i wneud dysgu yn hwyl ac yn gymhellgar.

Yng **nghyfnod allweddol 2,** mae cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n defnyddio dull thematig o gyflwyno'r cwricwlwm. Mae ychydig o ysgolion yn caniatáu hyblygrwydd yn y cynllunio hwn i ymateb i ddiddordeb disgyblion ac i ystyried digwyddiadau cyfredol. Nid yw ychydig iawn o ysgolion yn bodloni argymhelliad Llywodraeth Cymru ar gyfer maint amser addysgu yng nghyfnod allweddol 2 ac nid ydynt yn caniatáu digon o amser i ymdrin â'r ystod pynciau sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Eleni, mae'r ysgolion a arolygwyd ar gyfnodau amrywiol o ran gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Maent yn addasu'u cynllunio i gynnwys mwy o gyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Lle mae hyn yn fwyaf llwyddiannus, mae ysgolion yn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac mae staff yn cipio diddordeb disgyblion mewn gwersi sydd â chyd-destun dychymygus ac ysgogol. Mae ysgolion lle mae cynllunio'n dda neu'n well yn cynnig cyfleoedd arloesol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau rhifedd, llythrennedd, eu medrau meddwl a TGCh mewn prosiectau thematig, trawsgwricwlaidd fel y rheini sy'n canolbwyntio ar addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF). Mewn ysgolion lle mae diffygion, nid yw'r cwricwlwm yn caniatáu digon o amser ar gyfer yr ystod lawn o bynciau neu feysydd dysgu; mae dulliau o gynllunio yn anghyson; ac nid yw athrawon yn addasu cynlluniau gwaith neu ddeunyddiau yn ddigon da i ymateb i ddiddordebau ac anghenion dysgwyr.

Mae mwyafrif o ysgolion yn gwneud defnydd da o ymweliadau addysgol ac ymwelwyr â'r ysgol. Mewn ychydig o ysgolion, mae athrawon yn gwneud defnydd creadigol o'r gymuned leol fel adnodd dysgu. Maent yn cysylltu'r profiadau hyn â chyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn cyd-destun bywyd go iawn a dychmygus. Er enghraifft, mae disgyblion yn asesu ac yn adrodd ar risgiau llifogydd yn eu hardal mewn ymateb i eitemau newyddion cenedlaethol.


Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg yn parhau yn faes pwysig i'w wella mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion.

**Gwneud llythrennedd a rhifedd yn flaenoriaeth**

Mae **Ysgol Gynradd Eveswell** wedi codi safonau disgyblion trwy weithredu llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

**Ffigur 2.3: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



## Addysgu

Eleni, roedd addysgu ac asesu rhagorol gan 10 o ysgolion. Mae hyn yn gynnydd ar y llynedd. Er bod yr ysgolion hyn yn brin, maent yn rhannu nodweddion, fel athrawon sydd â disgwyliadau uchel o bob disgybl a gwersi sy'n greadigol, yn ysgogol ac yn heriol. Mae staff yn datblygu gallu disgyblion i adnabod yr agweddau allweddol ar eu gwaith a gwaith rhai eraill sydd angen eu gwella, fel y gallant godi eu cyflawniad i lefel uwch. Er enghraifft, mewn un ysgol, mae disgyblion yn darllen 'llythyr oddi wrth ddinosor' ac yn rhoi cyngor iddo ynglŷn â sut i wella ei fedrau ysgrifennu llythyr.

Mae gan ryw ddwy ran o dair o ysgolion ddarpariaeth dda neu well ar gyfer addysgu ac asesu. Fodd bynnag, mae ansawdd a chysondeb yr adborth i ddisgyblion, a pha mor effeithiol yw hyn o ran helpu disgyblion i wella eu gwaith, yn wan. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn gwneud sylwadau cadarnhaol. Serch hynny, mewn lleiafrif o ysgolion, nid ydynt yn nodi'n ddigon clir beth sydd angen i ddisgyblion ei wneud i wella eu gwaith. Lle mae marcio yn dangos i ddisgyblion lle gallant wella, nid yw athrawon bob amser yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn ymateb i'r cyngor a roddwyd.

Mewn ysgolion lle mae'r addysgu yn dda, mae athrawon yn dweud yn glir beth maent yn ei ddisgwyl gan ddisgyblion, ac mae gwersi'n adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol. Maent yn cynnal diddordeb bron pob disgybl, nid yn unig yn y pwnc a addysgir ond hefyd wrth ddatblygu'u llythrennedd a'u rhifedd. Mae athrawon yn addasu gwaith i fod yn addas ar gyfer disgyblion o oedrannau a galluoedd gwahanol. Mae diwylliant o gydweithredu rhwng athrawon a chynorthwywyr addysgu, ac mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, mae cynorthwywyr addysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio techneg holi fedrus i helpu disgyblion gyflawni'u hamcanion dysgu am eu bod yn cymryd rhan mewn cynllunio'r wers.

Mewn llawer o'r ysgolion lle mae diffygion yn yr addysgu, mae diffyg rhediad yn y gwersi ac nid yw athrawon yn cynnal diddordeb disgyblion. Mae athrawon yn arwain gwersi'n rhy aml ac nid ydynt bob amser yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. O ganlyniad, nid yw disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, yn cyflawni safonau digon uchel bob tro. Mewn ychydig o ysgolion, mae athrawon yn defnyddio taflenni gwaith yn rhy aml. Mae hyn yn cyfyngu ar faint o waith ysgrifennu y mae disgyblion yn ei gynhyrchu ac yn eu hatal rhag gwneud penderfyniadau ynghylch sut i gyflwyno'u gwaith. Mae hyn hefyd yn rhwystro datblygiad disgyblion fel dysgwyr annibynnol. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw athrawon yn ystyried anghenion disgyblion unigol na grwpiau o ddisgyblion. Maent yn cyflwyno'r un gwaith i ddisgyblion o bob gallu ac yn edrych am ddeilliannau gwahanol, yn hytrach na chydweddu'r gwaith yn ôl lefelau datblygiad disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad yn dda neu'n well mewn naw o bob deg ysgol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas gan y rhan fwyaf o ysgolion cynradd i fynd i'r afael â bwlio ac i reoli ymddygiad disgyblion, ond nid ydynt bob amser yn cadw cofnodion a fyddai'n eu helpu i nodi patrymau bwlio. Mae gan bron pob ysgol drefniadau ar gyfer diogelu disgyblion sy'n bodloni gofynion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o wasanaethau arbenigol ac yn cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ychydig o ysgolion yn gwneud defnydd da o weithiwr cymorth bugeiliol i gysylltu rhwng y cartref a'r ysgol ac i ddarparu pwynt cyswllt a chyngor gwerthfawr i rieni a disgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion ac wedi cynyddu nifer y rhieni sy'n mynychu cyfarfodydd i drafod cynnydd eu plentyn.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn gofalu bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i fod y weithgar yn ystod yr wythnos ysgol. Mewn llawer o ysgolion, mae gwersi ynglŷn â sut i gael ffordd iach o fyw yn rhan annatod o'r cwricwlwm.

## Yr amgylchedd dysgu

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ceir pwyslais addas ar ddathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu amgylchedd dysgu diogel a chadarn i ddisgyblion lle caiff pawb ei werthfawrogi'n gyfartal. Mewn llawer o ysgolion, mae staff yn creu ystafelloedd gloyw a chroesawgar ac yn defnyddio arddangosiadau i ddathlu gwaith a chyflawniadau disgyblion. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ystod addas o adnoddau sydd wedi'u trefnu mewn ffordd sy'n hawdd i ddisgyblion eu defnyddio ac sy'n cefnogi gweithio'n annibynnol. Nid yw ychydig o ysgolion yn gwneud digon o ddefnydd o'r amgylchedd dysgu awyr agored i gefnogi dysgu yn y Cyfnod Sylfaen, yn enwedig ym Mlynyddoedd 1 a 2. Eleni, bu cynnydd yn nifer yr ysgolion lle mae gwaith cynnal a chadw gwael ar adeiladau a diogelwch gwael yn cael effaith negyddol ar les disgyblion.





# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion cynradd

## Arweinyddiaeth

Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn dwy ran o dair o ysgolion cynradd. Mae hyn i lawr o gymharu â'r llynedd lle'r oedd yn dda neu'n well mewn tri chwarter o ysgolion. Mae'r gyfran o ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth yn ddigonol yn unig wedi cynyddu eleni. Yn yr ysgolion hyn, nid yw'r uwch dîm arweinyddiaeth yn gweithio fel uned bob amser, ac nid yw rolau a chyfrifoldebau'n ddigon clir. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn dal uwch reolwyr a rheolwyr canol yn atebol am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni, ac nid ydynt yn rhoi ffocws priodol ar wella safonau. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw uwch arweinwyr yn deall y Cyfnod Sylfaen, ac nid ydynt yn sicrhau bod athrawon yn ei weithredu'n llawn i ddatblygu medrau gweithio'n annibynnol a medrau datrys problemau disgyblion.

Yn yr ychydig ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol, mae gwella safonau yn flaenoriaeth, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, ac mae pob un o'r staff, llywodraethwyr a disgyblion yn deall hyn. Gwna arweinwyr a rheolwyr ddefnydd da o wybodaeth o brosesau hunanarfarnu i ddadansoddi perfformiad ac i bennu blaenoriaethau. Mae gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol rolau sydd wedi'u diffinio'n glir ac mae diwylliant o atebolrwydd. Mae rheoli perfformiad yn effeithiol iawn ac yn gysylltiedig â pherfformiad disgyblion. Mae ethos o wella sy'n heriol, ond yn gefnogol.

Mewn rhyw un o bob saith ysgol, bernir bod yr arweinyddiaeth yn well na safonau. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn, nid yw arferion newydd wedi cael amser i effeithio'n llawn ar ddeilliannau eto. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, bu newid cymharol ddiweddar yn yr arweinyddiaeth neu bwyslais newydd ar rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr.


Yn gyffredinol, mae cyrff llywodraethol yn darparu cymorth da i benaethiaid ac yn helpu pennu'r cyfeiriad strategol yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd. Ym mhob ysgol bron, mae llywodraethwyr yn gwneud yn siŵr bod yr ysgol yn bodloni gofynion statudol. Bu gwelliannau yng ngallu llywodraethwyr i ddarparu digon o her i'r ysgol, yn enwedig mewn perthynas â'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau yn broblem mewn dros un o bob pump o ysgolion cynradd. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, mae dealltwriaeth llywodraethwyr o ddata perfformiad ysgolion yn gwella, ond maent yn dibynnu gormod ar y wybodaeth a roddir iddynt gan y pennaeth.

## Gwella ansawdd

Mae prosesau effeithiol ar gyfer gwella ansawdd gan fwyafrif o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn defnyddio ystod o wybodaeth uniongyrchol i gefnogi'u dadansoddiad o berfformiad yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data, gwrando ar ddysgwyr, arsylwi gwersi, craffu ar waith a chael barnau rhieni. Defnyddiant y canlyniadau i amlygu cryfderau ac i nodi meysydd i'w datblygu sy'n bwydo'n uniongyrchol i gynllun gwella'r ysgol. Mae nifer y meysydd i'w gwella yn hydrin, ac mae targedau'n canolbwyntio ar wella deilliannau disgyblion. Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae gwella ansawdd yn rhagorol, mae arweinwyr a rheolwyr, ar bob lefel, yn monitro ac yn arfarnu cynnydd cynlluniau'n drylwyr ac yn sicrhau bod staff yn cydymffurfio â chamau gweithredu a gytunwyd. Mae ffocws dwys ar gau'r blwch mewn cyflawniad rhwng disgyblion sy'n byw mewn amddifadedd a'u cyfoedion.

Mae llawer o ysgolion yn gwneud defnydd da o ddata i ddadansoddi perfformiad cyffredinol disgyblion ac i olrhain cynnydd. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n gwneud defnydd effeithiol o ddata i olrhain cynnydd grwpiau gwahanol o ddisgyblion. Mewn ychydig o ysgolion, mae systemau ar gyfer dadansoddi perfformiad disgyblion yn or-gymhleth, ac nid yw canlyniadau dadansoddi data'n rhoi darlun clir o beth sydd angen ei wella. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd ysgolion yn defnyddio mwy nag un system ar gyfer olrhain.

**Ffigur 2.4: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**



## Gweithio mewn partneriaeth

Mae ystod dda o bartneriaethau gan y rhan fwyaf o ysgolion sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu disgyblion. Er enghraifft, mae ychydig o ysgolion yn gweithio gyda grwpiau chwaraeon lleol i alluogi disgyblion i roi cynnig ar chwaraeon newydd a chael hyfforddiant arbenigol. Mae gan lawer o ysgolion bartneriaethau cadarn â rhieni, maent yn eu cynnwys mewn gweithgareddau ysgol ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'w helpu i gynorthwyo â dysgu eu plentyn gartref. Dim ond digonol yw partneriaethau mewn ychydig iawn o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae cysylltiadau ag ysgolion eraill wedi'u cyfyngu'n aml i weithgareddau cymedroli ac asesu ar y cyd.

## Rheoli adnoddau

Mae rhyw ddwy ran o dair o ysgolion yn cynnig gwerth da neu well am arian. Mae hyn yn llai na'r llynedd. Mae digon o staff â chymwysterau addas gan y rhan fwyaf o ysgolion. Defnyddir staff cymorth yn dda gan lawer o ysgolion i godi safonau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw llawer o ysgolion yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion yn benodol i gefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn lle hynny, maent yn defnyddio'r cyllid i gyflogi staff ychwanegol a chyflwyno rhaglenni sy'n cefnogi disgyblion â chyrhaeddiad isel. O ganlyniad, nid yw'r ysgolion hyn yn herio nac yn cefnogi disgyblion mwy abl sy'n dioddef tlodi. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymateb i anghenion hyfforddi staff yn briodol. Fodd bynnag, mae diffyg hyder ymhlith staff o ran addysgu Cymraeg fel ail iaith ac mae cyfleoedd i wella'r medrau hyn yn gyfyngedig yn aml.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae trefniadau addas i bennu a monitro cyllideb yr ysgol ac i fynd i'r afael â gwarged neu ddiffyg sylweddol yn y gyllideb. Fodd bynnag, mae'r cyswllt rhwng cynlluniau gwario a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn aneglur yn aml, ac yn gyffredinol nid yw llywodraethwyr yn monitro cynlluniau'n ddigon da yn hyn o beth. Yn 2013-2014, roedd cynnydd yng nghyfran yr ysgolion cynradd â diffyg yn eu cyllideb i 11%, i fyny o 9% yn y flwyddyn flaenorol.

### Creu diwylliant dysgu

Yn **Ysgol Gynradd High Cross**, mae arweinwyr wedi creu amgylchedd dysgu sy'n helpu staff i nodi'r ffordd orau iddynt allu datblygu'u medrau eu hunain er mwyn gwella dysgu disgyblion. Caiff athrawon eu hannog gan yr ysgol i fachu ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol ac i gyfrannu'u syniadau at gynllun datblygu'r ysgol. O ganlyniad, mae canlyniadau disgyblion wedi gwella'n sylweddol.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos





# Adran 2:
# Adroddiad sector
## Ysgolion uwchradd


Yn Ionawr 2014, roedd 213 o ysgolion uwchradd yng Nghymru, sef tair yn llai nag yn Ionawr 2013. Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn parhau i ostwng. Yn Ionawr 2014, y nifer ar y gofrestr oedd 186,427, sef gostyngiad o 4,852 o ddisgyblion o'r flwyddyn flaenorol. Eleni, fe wnaethom arolygu 36 o ysgolion uwchradd.

# Gweithgarwch dilynol: Ysgolion uwchradd

Eleni, nodwyd bod arfer sy'n arwain y sector mewn naw o ysgolion, sef cyfran debyg i'r tair blynedd diwethaf. Nodwyd bod angen eu monitro gan yr awdurdod lleol ar saith ysgol, sef ffigur sydd ychydig yn uwch na'r llynedd. Mae'r rhain yn ysgolion da yn gyffredinol, ond mae ynddynt fân agweddau sydd angen eu gwella. Eleni, fe wnaeth nifer yr ysgolion y mae angen eu monitro gan Estyn godi o 11 i 17. Mae perfformiad anghyson neu berfformiad gwael gan lawer o'r ysgolion hyn mewn un neu fwy o'r pynciau craidd. Hefyd, mae ganddynt ddiffygion pwysig mewn agweddau ar eu haddysgu ac asesu, ac mae hyn yn arwain at ormod o anghysondeb mewn profiadau disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, dim ond megis dechrau mynd i'r afael â'r diffygion hyn y mae arweinwyr.

Eleni, dim ond un ysgol gafodd ei rhoi mewn categori statudol yn dilyn arolygiad craidd. Dyma'r nifer isaf ers blwyddyn gyntaf y cylch arolygu cyfredol ac mae'n welliant ar y llynedd, pan roddwyd bron i draean o ysgolion mewn categori statudol. Y llynedd, roedd angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn chwe ysgol uwchradd. Eleni, nid oes angen mesurau arbennig mewn unrhyw ysgol.

**Ffigur 2.5: Canrannau ysgolion uwchradd mewn categorïau gweithgarwch dilynol[13]**




[13] Mae ychydig iawn o ysgolion mewn dau gategori, er enghraifft lle mae arfer ragorol gan ysgol ac mae angen ei monitro gan Estyn hefyd.

# Deilliannau: Ysgolion uwchradd

## Safonau


Mae safonau yn dda neu'n well mewn ychydig o dros hanner yr ysgolion uwchradd a arolygwyd. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r llynedd, ond mae cyfran yr ysgolion lle mae safonau'n rhagorol wedi gostwng. Hyd yn oed mewn ysgolion da, mae grwpiau o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf abl, nad ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent fod yn gwneud. Eleni, ni farnwyd bod safonau anfoddhaol mewn unrhyw ysgol. Mae hyn yn well o lawer na'r llynedd ac mae'r mwyafrif o ysgolion a arolygwyd yn dangos gwelliant cyson o ran perfformiad mewn arholiadau. Dim ond ychydig iawn o ysgolion sy'n dangos dirywiad o ran perfformiad mewn arholiadau.

Mewn ychydig iawn o ysgolion lle ceir safonau rhagorol, mae canlyniadau arholiadau yn dda iawn ac yn cymharu'n gyson dda â chanlyniadau ysgolion tebyg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos lefelau cyflawniad a chynnydd uchel yn eu dysgu. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau darllen ac ysgrifennu lefel uwch, ac mae rhai yn gallu cymhwyso'r rhain yn dda ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr ysgolion rhagorol hyn, nid yw medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm mor gryf â'u medrau llythrennedd yn gyffredinol.

Mewn rhyw hanner o ysgolion lle ceir safonau da, mae perfformiad mewn arholiadau yn cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr ysgolion hyn, nid yw bechgyn yn perfformio gystal â merched, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni gystal â'r disgwyl yn gyson, neu mae'r cynnydd mewn gwersi disgyblion mwy abl yn amrywiol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac mae'r rheini sy'n cael cymorth ychwanegol i fynd i'r afael â medrau llythrennedd neu rifedd gwan yn gwneud cynnydd da neu well. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu cofio dysgu blaenorol yn drylwyr a chywir, a gallant ysgrifennu at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd. Dangosant fedrau darllen sicr a defnyddiant eirfa eang ac amrywiol. Fodd bynnag, mae eu medrau rhifedd ar lefel is na'u medrau llythrennedd yn aml. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod disgyblion yn tueddu ymarfer ystod gymharol gul o fedrau rhifedd nad ydynt yn ddigon heriol ar gyfer lefel eu gallu. Nid ydynt yn rhugl yn gwneud cyfrifiadau sylfaenol neu nid ydynt yn gallu dehongli data'n llawn, ac mae hyn yn rhwystro'u cynnydd.

Mae safonau mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3 yn gwella. Erbyn hyn, mae mwy o ysgolion yn ymrestru disgyblion ar gyfer cymwysterau Cymraeg sy'n cyfateb i'w gallu, ac eleni, mae gan lai o ysgolion argymhellion i wella safonau Cymraeg ail iaith. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn ymarfer nac yn datblygu eu Cymraeg yn ddigon aml o hyd y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

**Ffigur 2.6: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



## Lles

Mewn dros ddwy ran o dair o ysgolion, mae lles yn dda neu'n well. Mae hyn ychydig yn uwch na'r llynedd. Hefyd, mae llai o ysgolion lle mae lles yn anfoddhaol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, lles yw'r agwedd gryfaf ar eu gwaith. Mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu gwelliant cyson mewn presenoldeb a gostyngiad mewn gwaharddiadau cyfnod penodol. Fodd bynnag, mae cyfran yr ysgolion â lles rhagorol wedi lleihau.

Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn gyffredinol yn dangos parodrwydd i ddysgu ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith a bywyd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac o'r farn y delir yn briodol â bwlio. Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd byw'n iach a chyfranogant mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon. Mae ymddygiad yn dda, er bod nifer fach o ddisgyblion mewn ychydig o ysgolion yn ymddwyn yn heriol, a chaiff hyn effaith ar gynnydd a dysgu disgyblion eraill. Mewn llawer o ysgolion, mae cyngor yr ysgol wedi'i sefydlu'n dda a gwna gyfraniadau ystyriol tuag at fywyd yr ysgol. Mae'r cynghorau ysgol hyn yn dylanwadu ar bolisi ac ystyrir eu bod yn fforwm gwerthfawr ar gyfer rhannu syniadau ynglŷn â bywyd ysgol. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae cyfraniadau disgyblion at benderfyniadau a gwelliannau ysgol yn rhagorol. Er enghraifft, mewn un ysgol, maent wedi helpu dylunio a sefydlu cyfres o adnoddau i gefnogi datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn parhau i wella ac mae gan lai o ysgolion argymhellion i wella presenoldeb. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod briodol o fedrau cymdeithasol a medrau bywyd. Mae llawer yn cyfranogi mewn ystod eang o weithgareddau i gefnogi'u cymuned leol a chodi arian ar gyfer elusennau.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae diffygion pwysig mewn agweddau ar les. Mae'r rhain yn cynnwys presenoldeb gwael neu gyfraddau presenoldeb nad ydynt yn gwella'n ddigon cyflym, lefelau uchel o absenoliaeth neu ymddygiad gwael ychydig o ddisgyblion. Dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion y mae cyfraddau uchel o waharddiadau dros dro, neu mae cyngor yr ysgol yn amhriodol ac mae terfynau o ran y modd y gall ddylanwadu ar ddarpariaeth.





### Gwerthfawrogi llais y dysgwr

Mae **Ysgol Uwchradd Castell Alun** wedi datblygu nifer o brosesau i sicrhau bod llais disgyblion yn cael ei glywed. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn y broses hunanarfarnu ac maent yn falch o'u lle yng nghymuned yr ysgol. Mae agweddau cadarnhaol at ddysgu wedi cael effaith gref iawn ar bresenoldeb, ymddygiad a safonau disgyblion.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Darpariaeth: Ysgolion uwchradd

Mae darpariaeth yn dda neu'n well mewn ychydig dros ddwy ran o dair o ysgolion. Mae hyn yn well na'r llynedd ac yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed gan ysgolion o ran gwella'u darpariaeth ar gyfer medrau a sicrhau mwy o gysondeb yn yr ysgol o ran ansawdd yr addysgu.

Mae bron pob ysgol yn cynnig ystod addas o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. Mae strategaethau effeithiol gan lawer o ysgolion i gynorthwyo disgyblion â lefelau medrau llythrennedd a rhifedd isel. Maent yn gwneud cynnydd priodol o ran rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith. Defnyddir hwn gan y rhan fwyaf fel fframwaith ar gyfer strwythuro a monitro'u darpariaeth. Fodd bynnag, dim ond mewn rhyw hanner o ysgolion y mae cydlynu a monitro llythrennedd ar draws pob un o bynciau'r cwricwlwm yn dda. Mae ansawdd y cymorth y mae ysgolion yn ei dderbyn gan bartneriaid y Rhaglen Cymorth Genedlaethol wedi bod yn amrywiol. Mewn ysgolion lle mae cymorth wedi bod yn llai effeithiol, nid yw'r profiad gan bartneriaid o ystod oedran yr ysgol y maent yn ei chynorthwyo, neu nid yw'r un ehangder arbenigedd ganddynt ar draws llythrennedd a rhifedd fel ei gilydd.

Mae diffygion gan leiafrif o ysgolion o ran y modd y maent yn cynllunio ar gyfer dilyniant mewn llythrennedd a rhifedd, a diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut a ble i gynnwys tasgau rhifedd lefel uwch yn briodol ar draws pynciau ac eithrio mathemateg.

Mae hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gref yn y rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ac yn y mwyafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg. Er enghraifft, gall disgyblion ymgymryd ag ystod o weithgareddau chwaraeon a diwylliannol allgyrsiol sy'n eu galluogi i ddatblygu'u defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau mwy cymdeithasol ac anffurfiol. Eleni, canfu arolygwyr fod disgyblion yn gallu astudio Cymraeg ar lefel briodol mewn mwyafrif o ysgolion. Fodd bynnag, fel yr adroddwyd y llynedd, mewn lleiafrif o ysgolion, gan gynnwys ychydig iawn o ysgolion dwyieithog, nid yw disgyblion yn cael eu herio'n addas ac nid ydynt yn dilyn cymwysterau sy'n briodol i'w gallu yn Gymraeg.

Trwy weithio mewn partneriaeth ag elusennau a sefydliadau amgylcheddol a defnyddio siaradwyr gwadd, mae mwyafrif o ysgolion yn cynnig ystod dda o weithgareddau sy'n cefnogi gweithgareddau datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mewn blynyddoedd blaenorol, adroddom fod dinasyddiaeth fyd-eang heb ei datblygu gystal â datblygu cynaliadwy, ond erbyn hyn mae'r ddwy agwedd yn cael sylw tebyg.

## Addysgu


Eleni, bu gwelliant bach yn ansawdd yr addysgu, sydd bellach yn dda neu'n well yn hanner yr ysgolion, ond mae llai o ysgolion lle mae'r addysgu yn rhagorol.

Yn yr ychydig iawn o ysgolion lle mae addysgu yn rhagorol, mae lefel uchel o gysondeb yn ansawdd yr addysgu ar draws pob pwnc. Mae gweithgareddau yn heriol, ac yn cipio dychymyg disgyblion yn llawn. Mae holi athrawon yn fedrus a threiddgar, ac mae'n archwilio dealltwriaeth disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl.

Mewn rhyw hanner yr ysgolion lle mae'r addysgu yn gyson dda, mae disgwyliadau uchel gan athrawon, maent yn cyflwyno tasgau sydd wedi'u cynllunio'n dda ac yn cynnig holi effeithiol. Fodd bynnag, mewn hanner yr ysgolion mae'r addysgu yn anghyson ac mae gormod o amrywio ym mhrofiadau disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae gwendidau mewn cynllunio gwersi, holi, rhediad gwersi neu ddisgwyliadau.

Mae'r asesu yn gyson dda mewn mwyafrif o'r ysgolion a arolygwyd eleni. Mae nodweddion da yn cynnwys adborth clir i ddisgyblion ynglŷn â beth sydd angen ei wella ac arweiniad ar sut i ymateb. Mae athrawon ac arweinwyr yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus. Defnyddir y wybodaeth hon yn dda i nodi lle mae angen cymorth ychwanegol neu fwy o her. Fodd bynnag, mae ansawdd yr asesu'n amrywiol mewn lleiafrif o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae anghysondeb yn ansawdd adborth ysgrifenedig ac nid yw disgyblion yn gweithredu'n rheolaidd ar sylwadau athrawon i gywiro a gwella eu gwaith.

**Ffigur 2.7: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda neu'n well mewn rhyw bedair o bob pum ysgol. Mae trefniadau sefydledig a chydlynus gan yr ysgolion hyn i wneud yn siŵr y gofelir am ddisgyblion, eu bod yn ddiogel ac yn cael cymorth ac arweiniad amserol a defnyddiol. Mewn llawer o ysgolion, mae'r effaith i'w gweld yn amlwg yng nghryfder perthnasoedd, ymddygiad, presenoldeb a chyflawniad da yn erbyn dangosyddion sy'n mesur llwyddiant mewn ystod o gymwysterau. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn delio'n brydlon ac yn briodol â bwlio.

Mewn lleiafrif bach o ysgolion, dim ond digonol yw gofal cymorth ac arweiniad oherwydd bod diffygion pwysig mewn meysydd allweddol, gan gynnwys asesiad risg annigonol o gadarn o ddiogelwch y safle. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw trefniadau gofal, cymorth ac arweiniad wedi gwella ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae trefniadau ar gyfer diogelu yn peri pryder, gan nad yw arweiniad a hyfforddiant wedi cael digon o effaith ar arferion ychydig aelodau o staff.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn mewn llawer o ysgolion. Hyd yn oed mewn ysgolion lle mai digonol yn unig yw'r ddarpariaeth, mae'r agwedd hon ar eu gwaith yn gryfder yn aml. Mewn ychydig iawn o ysgolion, ceir gwendidau yn y gwaith o gydlynu'r ddarpariaeth hon ac anghysondeb yn ansawdd y cynllunio i fodloni anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw ychydig o athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion y disgyblion hyn ac nid yw arweinwyr yn cyfathrebu'n llawn â rhieni.

Eleni, adroddom am y tro cyntaf ar drefniadau y bydd ysgolion yn eu gwneud i weithredu Mesur Bwyta ac Yfed yn Iach mewn Ysgolion (Cymru). Mae bron pob ysgol yn gwneud trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

## Yr amgylchedd dysgu

Eleni, mae cyfran uwch o ysgolion sydd ag amgylchedd dysgu rhagorol. Mae'r ysgolion hyn yn eithriadol o lwyddiannus o ran creu ymdeimlad cadarn o falchder a chymuned. Mae hyn i'w weld yn amlwg mewn presenoldeb uchel, ymddygiad da iawn a chyrhaeddiad uwchlaw'r disgwyl gan lawer o ddisgyblion. Mae llawer o ysgolion yn darparu amgylchedd dysgu da neu dda iawn. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r adeiladau yn cefnogi'r dysgu yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion mae diffygion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch neu adeiladau a safle'r ysgol. Mewn ychydig o ysgolion lle mae'r ethos yn wael a disgwyliadau yn isel, mae hyn yn effeithio ar ymddygiad ac yn arwain yn aml at lefelau gwahardd uchel.



### Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae staff yn **Ysgol Gyfun Gwynllyw** yn fodelau iaith i sicrhau bod y Gymraeg yn flaenllaw ym mywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ymfalchïo yn eu treftadaeth Gymreig a chynllunnir digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn i wneud y Gymraeg yn flaenoriaeth i bawb. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu medrau ieithyddol Cymraeg.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion uwchradd

## Arweinyddiaeth

At ei gilydd, mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn mwy o ysgolion nag a nodwyd y llynedd. Eleni, mae cyfran yr ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth yn ddigonol wedi cynyddu, ond nid oes unrhyw ysgolion ag arweinyddiaeth anfoddhaol.


Mewn mwyafrif sylweddol o ysgolion, mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn a phwrpasol ac fe'i cefnogir yn dda gan uwch arweinwyr. Yn yr ysgolion hyn, maent yn creu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ac atebolrwydd cadarn, ac yn cyfleu gweledigaeth strategol glir i staff a disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion mae anghydbwysedd rhwng y cyfrifoldebau ar lefel uwch gan nad yw cyfrifoldebau'n cael eu dosbarthu'n deg neu nid oes gan uwch arweinwyr ddigon o amser i gyflawni pob un o'u cyfrifoldebau.

Mae arweinwyr mewn mwyafrif o ysgolion yn herio tanberfformiad. Mae gan yr ysgolion hyn drefniadau datblygedig ar gyfer rheoli perfformiad, ac mae arweinwyr yn pennu amcanion heriol a mesuradwy sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion nid yw arweinwyr wedi cael effaith gynaledig eto ar wella perfformiad arholiadau mewn Saesneg/Cymraeg a mathemateg.

Mewn lleiafrif o ysgolion lle mai digonol yn unig yw'r arweinyddiaeth, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn cael digon o effaith ar yr addysgu a safonau. Yn aml, y rheswm am hyn yw nad yw arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth ddigon uchel i wella'r addysgu a'r dysgu a chodi safonau, mewn Saesneg/Cymraeg a mathemateg yn nodedig.

Eleni, bu gwelliant cadarn o ran y rôl a gallu llywodraethwyr. Nid oes unrhyw argymhellion yn gysylltiedig â llywodraethu yn adroddiadau arolygu eleni, o gymharu â'r sefyllfa y llynedd pan roddwyd argymhellion i draean o ysgolion uwchradd yn y maes hwn. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae llywodraethwyr yn cynnig her gadarn mewn perthynas â safonau a darpariaeth ac maent yn ymwneud yn weithgar â'r uwch arweinwyr wrth bennu cyfeiriad strategol yr ysgol.

**Ffigur 2.8: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**




Mae llywodraethwyr yn gwneud cysylltiadau buddiol â phynciau ac yn darparu cymorth a her ddefnyddiol i arweinwyr canol. Mewn ychydig o ysgolion uwchradd, mae dealltwriaeth glir iawn o gryfderau a meysydd i'w gwella gan lywodraethwyr. Cânt ystod eang o wybodaeth gan arweinwyr, staff a dysgwyr ac mae hyn yn helpu sicrhau bod llywodraethwyr yn cynnig lefel briodol o her a chymorth. Er enghraifft, mewn un ysgol, mae gwybodaeth dda gan lywodraethwyr am gynnydd yr ysgol am eu bod yn arsylwi gwersi, yn gwrando ar ddysgwyr ac yn cael adroddiadau ar gynnydd. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid yw llywodraethwyr yn dal arweinwyr i gyfrif yn ddigon da am eu cyfrifoldebau nac yn herio'r ysgol ddigon ar feysydd i'w gwella.

## Gwella ansawdd

Mae cyfran yr ysgolion lle mae gwella ansawdd yn dda neu'n well wedi cynyddu o gymharu â'r llynedd. Er hynny, dim ond digonol yn hyn o beth yw dros hanner yr ysgolion a arolygwyd. Nid yw'r un ysgol yn anfoddhaol.

Mewn rhyw hanner o ysgolion lle mae gwella ansawdd yn dda neu'n well, mae prosesau hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac mae adroddiadau ar bob lefel yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn gywir. Ceir prosesau systematig yn yr ysgolion hyn i arfarnu perfformiad ar sail dadansoddi data'n fanwl ac ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol o arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a chasglu barnau rhieni, disgyblion a staff. Mewn ychydig o'r ysgolion hyn, mae disgyblion yn chwarae rhan bwysig yn arfarnu darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu drwy gael eu cynnwys mewn adolygiadau ac arsylwi gwersi.

Mewn llawer o ysgolion, mae cynlluniau datblygu yn cysylltu'n agos â deilliannau hunanarfarnu ac yn nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwella. Mae llawer o arweinwyr canol mewn ysgolion lle mae gwella ansawdd yn dda neu'n well yn defnyddio data'n drwyadl i nodi beth sydd angen ei wella.

Mewn ychydig dros hanner o ysgolion, er bod hunanarfarnu a chynllunio gwelliant wedi helpu gwella agweddau ar ddarpariaeth neu berfformiad, nid yw'r prosesau hyn yn arwain yn gyson at welliannau mewn meysydd allweddol, fel presenoldeb, addysgu neu

berfformiad mewn dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg/ Cymraeg a mathemateg. Y prif ddiffyg yn yr ysgolion hyn yw nad yw adroddiadau hunanarfarnu yn nodi meysydd pwysig i'w datblygu, fel y rheini mewn addysgu, asesu a defnyddio data. Hefyd, mae gormod o anghysondeb o ran cadernid hunanarfarnu adrannol a chynlluniau gwella.

Mewn ysgolion lle mai digonol yn unig yw gwella ansawdd, mae arfarniadau uwch arweinwyr ac arweinwyr canol o ansawdd yr addysgu yn rhy hael yn aml. Yn yr ysgolion hyn, nid yw arfarniadau o wersi yn cynnwys ffocws ddigon manwl ar effaith addysgu ar gynnydd disgyblion nac yn darparu cyngor penodol i athrawon er mwyn gwella safonau.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae nifer yr ysgolion lle mae gweithio mewn partneriaeth yn dda neu'n well wedi cynyddu ers y llynedd. Un ysgol o bob naw sy'n ddigonol yn unig erbyn hyn, sef gostyngiad sylweddol o'r chwarter o ysgolion a nodwyd fel rhai digonol y llynedd.

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd gysylltiadau sefydledig ag ystod eang o bartneriaid, ac mae'r rhain wedi cyfrannu at welliannau mewn safonau a lles. Mewn ychydig o ysgolion, mae effaith gyfunol y partneriaethau hyn wedi gwneud cyfraniad eithriadol at wella neu gynnal safonau cyrhaeddiad a lles uchel.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cydweithio agosach â cholegau lleol, ysgolion a darparwyr dysgu yn y gwaith wedi ehangu ystod y cyrsiau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed. Mae'r partneriaethau hyn wedi cael effaith hefyd ar leihau nifer y disgyblion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn ogystal â helpu disgyblion sy'n agored i niwed i ennill cymwysterau buddiol.

Ceir partneriaethau defnyddiol gyda rhieni yn y rhan fwyaf o ysgolion ynghyd â chysylltiadau gwerthfawr â'r gymuned, busnesau lleol ac asiantaethau allanol, fel bod darpariaeth yn cyfateb yn dda i anghenion disgyblion. Mae gan ychydig o ysgolion gysylltiadau â grwpiau chwaraeon, drama a cherddoriaeth lleol i gynnal digwyddiadau chwaraeon a cherddorol er mwyn cysylltu â'u cymuned leol ac annog disgyblion i barhau â'u hymglymiad ar ôl gadael yr ysgol.

Mewn ychydig o ysgolion lle mae gweithio mewn partneriaeth yn ddigonol yn unig, nid yw partneriaethau â rhieni wedi'u datblygu'n ddigonol. Nid yw rhieni'n cael digon o gyfle i gyfranogi mewn agweddau ar fywyd ysgol, ac mewn ychydig o achosion nid ydynt yn cael adborth amserol, nac awgrym ynglŷn â chamau gweithredu, yn dilyn ymgynghoriadau.

## Rheoli adnoddau

Mewn dros hanner yr ysgolion uwchradd, mae rheoli adnoddau yn dda neu'n well. Mae hyn yn welliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol lle'r oedd yn dda neu'n well mewn 43% o ysgolion yn unig. Eleni, nid oes unrhyw ysgolion lle ceir rheoli adnoddau anfoddhaol, o gymharu â bron i chwarter o ysgolion y llynedd.

Mae llawer o ysgolion yn defnyddio rheoli perfformiad yn briodol i nodi anghenion datblygu staff. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae datblygiad proffesiynol yn gryfder, mae arweinwyr yn buddsoddi i gefnogi athrawon ar bob cyfnod yn eu gyrfa ac mae staff yn ymwneud â rhannu arfer orau drwy weithgorau dylanwadol. Mae cysylltiadau cynhyrchiol ag ysgolion a sefydliadau eraill gan fwyafrif o'r ysgolion hyn, a defnyddir y rhain yn effeithiol i wella darpariaeth a chysondeb yn yr addysgu. Mewn lleiafrif o ysgolion, ychydig o gyfleoedd sydd i rannu arfer dda yn rheolaidd o fewn yr ysgol neu gydag ysgolion eraill.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, mae'r pennaeth a llywodraethwyr yn monitro gwariant yn fanwl ac yn rheoli adnoddau yn dda. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid yw'r defnydd o'r grant amddifadedd disgyblion yn canolbwyntio digon ar anghenion penodol disgyblion dan anfantais. Nid yw camau gweithredu yn targedu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac maent yn tueddu bod yn rhy gyffredinol. Mae lleiafrif o ysgolion wedi llwyddo i reoli gostyngiad yn eu cyllideb yn sgil niferoedd yn gostwng ar y gofrestr neu maent wedi ymadfer yn llwyddiannus o sefyllfa ariannol wan. Mae lleiafrif o ysgolion wedi cadw cronfeydd gwarged addas ac wedi cynnal sefyllfa ariannol gadarn.

### Trosglwyddo'n effeithiol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Mae gan **Ysgol Gyfun Porthcawl** raglenni cymorth sy'n helpu disgyblion i drosglwyddo'n effeithiol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Caiff rhieni eu cynnwys yn y rhaglen hefyd, ac mae hyn yn helpu lleddfu unrhyw rai o'u pryderon eu hunain. O ganlyniad, mae lles emosiynol dysgwyr wedi gwella ac mae lefel presenoldeb wedi codi.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos





# Adran 2:
# Adroddiad sector
## Ysgolion arbennig a gynhelir

Yn Ionawr 2014, roedd 42 o ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru yn darparu ar gyfer 4,338 o ddisgyblion.  Mae nifer y disgyblion wedi cynyddu'n raddol ers 2010.  Eleni, fe wnaethom arolygu chwech o ysgolion arbennig.

# Gweithgarwch dilynol: ysgolion arbennig a gynhelir

Eleni, nodwyd bod arfer sy'n arwain y sector mewn pump o ysgolion arbennig, sef nifer debyg i'r llynedd.

Mae disgyblion mewn tair o'r ysgolion hyn yn cyflawni cynnydd sylweddol mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd. Mae rhaglenni dysgu unigol, a gynllunnir yn aml mewn partneriaeth â rhieni a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill, yn rhoi ffocws ar anghenion penodol pob disgybl. Gyda chymorth, mae bron pob disgybl yn cymryd rhan weithgar mewn cynllunio ac arfarnu eu dysgu. Dros gyfnod, mae disgyblion yn cymhwyso'u dysgu ar draws pob agwedd ar eu gwaith yn yr ysgol ac yn ehangu eu dysgu'n llwyddiannus i gyflawni cymwysterau sy'n briodol i'w hanghenion unigol.


Mae disgwyliadau uchel gan yr arweinwyr rhagorol mewn tair o'r ysgolion hyn a darparant gyfeiriad strategol cadarn a chydlynus. Maent yn creu ethos arbennig o gadarnhaol sy'n galluogi disgyblion i gyflawni eu potensial. Mae cynllunio gwelliant a hunanarfarnu â ffocws yn rhoi dealltwriaeth gynhwysfawr i'r ysgolion hyn o'u cryfderau a'u gwendidau. Mae hyfforddiant ar gyfer athrawon a staff cymorth yn cysylltu'n dda â chynlluniau gwella'r ysgolion. Mae ffocws clir ar hyrwyddo safonau disgyblion trwy gynllunio rhagorol sy'n canolbwyntio ar y disgybl, a phartneriaethau helaeth â rhieni, ysgolion eraill a'r gymuned yn parhau i fod yn nodwedd gyffredin mewn ysgolion arbennig rhagorol.

Nodwyd un ysgol fel un yr oedd angen ei monitro ymhellach gan Estyn.





**Ffigur 2.9: Niferoedd yr ysgolion arbennig a gynhelir mewn categorïau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: Ysgolion arbennig a gynhelir

## Safonau

Mae safonau da mewn tair o'r ysgolion a arolygwyd eleni, a safonau rhagorol mewn tair. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol o ran bodloni eu targedau dysgu unigol. Maent yn cael eu cymell yn dda a disgwylir iddynt gyflawni'n uchel. Mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yn cyflawni cymwysterau priodol sy'n addas i'w hanghenion a'u galluoedd.

O ran eu hanghenion dynodedig, mae disgyblion yn cyrraedd lefelau cyflawniad uchel ac yn gwneud cynnydd o leiaf da yn eu dysgu. Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd ac maent yn eu cymhwyso'n dda mewn amrywiaeth o weithgareddau ymarferol. Er enghraifft, mewn un ysgol, mae disgyblion cyfnod allweddol 4 yn defnyddio'u medrau rhifedd i gyfrifo'u helw o'u gweithgaredd menter.


Mae bron pob disgybl yn gwneud gwelliant sylweddol yn eu medrau cyfathrebu, ar lafar, drwy arwyddo, neu drwy ddefnyddio symbolau neu dechnoleg. Mae disgyblion sy'n gallu gwneud hynny yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau darllen ac ysgrifennu. Defnyddiant y medrau hyn yn dda i ysgrifennu am eu profiadau mewn tasgau ysgrifennu estynedig, ac i ddarllen yn uchel yn hyderus ac er pleser. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau meddwl da. Gofynnant gwestiynau ystyriol sy'n dynodi eu bod yn ehangu eu dealltwriaeth.

## Lles

Mae lles disgyblion yn rhagorol mewn tair o'r ysgolion ac yn dda mewn tair ysgol.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd rhagorol o ran gwella'u hymddygiad. O ganlyniad, ni fu unrhyw waharddiadau parhaol dros y tair blynedd diwethaf, a dim ond nifer fach iawn o waharddiadau cyfnod penodol a wnaed. Mae cyfraddau presenoldeb yn cymharu'n dda â chyfraddau ysgolion tebyg, gyda llawer o ddisgyblion yn mynychu'n rheolaidd pan fyddant wedi ymgartrefu yn yr ysgol.

**Ffigur 2.10: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**




Mae agwedd dda at ddysgu gan bron pob un o'r disgyblion, a chyfranogant yn frwdfrydig. Maent yn dangos cwrteisi a pharch at ei gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ychwanegol iach a gynigir gan eu hysgolion, fel gwersi yoga amser cinio a chlwb nofio boreol. Drwy'r gweithgareddau hyn, mae disgyblion yn dysgu i weithio gydag eraill wrth iddynt ddatblygu'u medrau annibynnol, cymdeithasol a'u medrau bywyd. Maent yn ymroi i ddysgu ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau.

### Helpu disgyblion i gyflawni cymwysterau

Mae disgyblion yn **Ysgol Arbennig Sant Christopher**, Wrecsam, yn cymryd rhan yn y rhaglenni dewisiadau 14-19 oed i'w helpu i gyflawni ystod o gymwysterau. Mae staff yn rhoi cyngor i ddisgyblion ar wneud dewisiadau a fydd yn eu helpu i hyrwyddo'u gyrfa, ac mae gan ddisgyblion fynediad at ystod o leoliadau gwaith.

Mae disgyblion wedi gwneud cynnydd rhagorol ac yn ennill ystod eang o gymwysterau cydnabyddedig erbyn iddynt adael yr ysgol. Mae'r rhaglen wedi ysbrydoli a chymell disgyblion i barhau i ddysgu ar ôl ysgol.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

# Darpariaeth: Ysgolion arbennig a gynhelir

## Mae'r ddarpariaeth yn dda neu'n well ym mhob un o'r ysgolion.

Ceir profiadau dysgu rhagorol mewn pedair ysgol. Mae gan yr ysgolion hyn arferion asesu sydd wedi'u datblygu'n dda, ac maent yn olrhain ac yn cofnodi cynnydd disgyblion yn ofalus iawn. Maent yn adnabod disgyblion yn dda iawn ac mae staff yn defnyddio cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y disgybl i ddarparu targedau heriol, unigol sy'n cynorthwyo dysgu disgyblion yn dda.

Mae pob un o'r ysgolion yn darparu cwricwlwm sy'n ddiddorol ac yn ysgogi dysgu disgyblion. Mae gwaith tîm cydlynus rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill yn sicrhau profiadau eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion dysgu a therapiwtig disgyblion. Fodd bynnag, mewn pedair ysgol, nid oes digon o arfer dda yn cael ei rhannu i gefnogi datblygiad staff. Nid yw ychydig o ysgolion yn darparu cyfleoedd i bob disgybl astudio cymwysterau sy'n eu herio'n ddigonol.

Mewn pedair ysgol, ceir strategaethau ac ymyriadau sydd wedi'u hymgorffori'n dda i wella llythrennedd, yn enwedig cyfathrebu. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio cynlluniau cyhoeddedig a dulliau penodol, fel arwyddion a symbolau, cyfathrebu trwy gyfnewid lluniau a straeon synhwyraidd. Mae'r ysgolion hyn yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau mewn sefyllfaoedd ymarferol ar draws y cwricwlwm.

Nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd yn gyson i ddisgyblion ddatblygu eu rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae angen i dair ysgol wneud mwy i gynllunio sut i integreiddio medrau ar draws y cwricwlwm.

Mewn pum ysgol, ceir darpariaeth dda ar gyfer Cymraeg ail iaith. Mae llawer o staff a disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg trwy gydol y diwrnod ysgol. Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan sefydledig o brofiadau dysgu'r disgyblion.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn dda o leiaf. Mae ysgolion yn fannau tawel, meithringar a phwrpasol, gyda disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion. Mae addysgu sensitif yn cynorthwyo disgyblion i reoli'u teimladau eu hunain a bod yn ystyriol o deimladau pobl eraill. Mae rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol yn rhoi pwyslais priodol ar ddatblygu diogelwch personol disgyblion, addysg rhyw a pherthnasoedd, iechyd, hylendid a chadw'n iach. Nid yw trefniadau ar gyfer diogelu yn achosi unrhyw bryder.

Mae pob un o'r ysgolion yn darparu ystod o glybiau a gweithgareddau amser cinio a thu allan i'r ysgol i gyfoethogi profiadau disgyblion, datblygu eu ffitrwydd a gwella eu medrau cymdeithasol. Nid yw un ysgol yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu a datblygu'u medrau ochr yn ochr â chyfoedion yn y brif ffrwd.

Mae pob ysgol yn darparu amgylchedd dysgu cynhwysol sy'n hyrwyddo annibyniaeth disgyblion. Ym mhob ysgol bron, mae'r adeiladau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn fannau ysgogol. Mae offer arbenigol ac addasiadau meddylgar yn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad llawn i'w hysgol. Mewn un ysgol, nid yw cyfleusterau toiledau yn bodloni gofynion statudol ar gyfer nifer y disgyblion ac mae ardaloedd y mae angen eu gwella; er enghraifft, nid yw ystafelloedd wedi'u haddurno i ddarparu amgylchedd priodol.



**Ffigur 2.11: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion arbennig a gynhelir

Yn y tair ysgol lle ceir arweinyddiaeth ragorol, mae disgwyliadau uchel ynglŷn â pherfformiad gan uwch arweinwyr ac maent yn gyson o ran herio staff yn drylwyr a'u dwyn i gyfrif.

Ceir trefniadau rheoli perfformiad addas ar gyfer athrawon a staff cymorth ym mhob un o'r ysgolion. Mae ganddynt drefniadau cadarn ar gyfer gwella ansawdd, maent yn gwneud dadansoddiadau manwl o ddata ar gynnydd disgyblion ac yn defnyddio tystiolaeth o wersi a gwaith disgyblion i fonitro perfformiad a gosod targedau addas ar gyfer gwella.

Mewn dwy ysgol, mae cyrff llywodraethol yn darparu cymorth a her gadarn i'r tîm arwain. Mae'r llywodraethwyr hyn yn wybodus iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd i'w gwella. Maent yn craffu ar ddata perfformiad ac yn monitro darpariaeth er mwyn cynorthwyo gwelliant.

Yn y ddwy ysgol lle mae'r cynllunio ar gyfer gwella yn rhagorol, ceir cylch sicrhau ansawdd rheolaidd, gyda thargedau manwl a deilliannau sydd wedi'u dynodi'n glir. Mae'r hunanarfarnu yn drwyadl ac yn gywir, gyda phwyslais priodol ar ansawdd yr addysgu a chynnydd a safonau disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn rhoi ystyriaeth dda i farnau rhieni, disgyblion a rhanddeiliaid eraill wrth gynllunio datblygiad.


Mae gweithio mewn partneriaeth yn rhagorol mewn pum ysgol. Mae diwylliant o gydweithredu ym mhob un o'r ysgolion i ehangu profiadau disgyblion a gwella eu hiechyd a'u lles. Maent i gyd yn gweithio'n agos â rhieni, a gydag asiantaethau iechyd ac asiantaethau eraill, mewn dull 'tîm o amgylch y teulu' i ddarparu'r cymorth arbenigol sydd ei angen i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion. Er enghraifft, mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael ystod o therapi i wella'u cyfathrebu neu ddatblygiad corfforol. Mae athrawon, staff cymorth a rhieni yn elwa ar gyngor therapyddion wrth iddynt ddysgu sut orau i gefnogi rhaglenni therapi disgyblion. Mae bron pob ysgol yn darparu gwasanaethau cefnogi allgymorth i ysgolion prif ffrwd er mwyn ehangu cyfleoedd dysgu disgyblion.

Ceir cydweithio rhagorol rhwng dwy ysgol i ddatblygu trefniadau cymedroli cywir a chyson o safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn gweithio'n effeithiol iawn â phartneriaid, fel y Rhaglen Cymorth Genedlaethol, i gynyddu'u hadnoddau a gwella eu harfer.

Mae gwaith gyda cholegau i ehangu cyfleoedd disgyblion i astudio cyrsiau galwedigaethol a datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt mewn gwaith yn o leiaf dda ym mhob ysgol. Mae cysylltiadau helaeth â'r gymuned leol, gan gynnwys busnesau a diwydiannau lleol, ac arfer arloesol i ddarparu profiadau gwaith, yn nodwedd gref mewn lleiafrif o ysgolion. Mae'r ysgolion hyn yn darparu cyfleoedd menter, fel caffis, siopau manwerthu, cynnal a chadw ceir a chyfleusterau golchi ceir o fewn adeilad a safle'r ysgol.

Mae gan bob un o'r ysgolion staff profiadol â chymwysterau da. Mae'r staff hyn yn elwa ar hyfforddiant rheolaidd i hyrwyddo'u medrau. Mae pob un o'r ysgolion yn darparu gwerth da am arian o leiaf, ac mae ganddynt adnoddau cynhwysfawr y byddant yn eu defnyddio'n llwyddiannus i gynorthwyo anghenion disgyblion.

**Ffigur 2.12: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**











# Adran 2:
# Ysgolion arbennig annibynnol

Yn Ionawr 2014, roedd 31 o ysgolion arbennig annibynnol cofrestredig yng Nghymru. Mae'r ysgolion hyn yn addysgu tua 550 o ddisgyblion. Mae llawer o'r ysgolion yn rhai bach ac mae disgyblion yn gyffredinol yn byw mewn cartrefi plant sydd ynghlwm wrth yr ysgol. Mae'r ysgolion yn darparu ar gyfer ystod o anghenion, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad. Mae llawer o'r disgyblion yn mynychu'r ysgolion hyn am nad ydynt wedi llwyddo i ymdopi â lleoliadau mwy y brif ffrwd.

Yn ystod 2013-2014, agorodd tair o ysgolion arbennig annibynnol newydd. Caeodd un ysgol a oedd yn darparu ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac ymddygiad heriol. Ym mis Gorffennaf 2014, nid oedd unrhyw ddisgyblion gan naw o'r ysgolion, gan nad oedd unrhyw bobl ifanc yn y cartrefi plant cysylltiedig neu am fod y bobl ifanc sy'n byw yn y cartrefi yn mynychu ysgolion y brif ffrwd neu ddarpariaeth addysgol arall.

Yn ychwanegol at arolygiadau llawn bob chwe blynedd, mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro blynyddol o ysgolion arbennig annibynnol. Eleni, fe wnaethom arolygu pedair ysgol arbennig annibynnol a chynnal ymweliadau monitro blynyddol â 21 o ysgolion.


## Gweithgarwch dilynol: Ysgolion arbennig annibynnol

Ym mhob arolygiad o ysgolion arbennig annibynnol, byddwn yn barnu'r graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Eleni, llwyddodd dwy ysgol o'r pedair ysgol a arolygwyd i fodloni pob un o'r safonau. Methodd un ysgol â bodloni un o'r safonau oherwydd diffygion mewn perthynas â mater adeiladu. Methodd yr ysgol arall â bodloni dwy o'r safonau.


Ni nodwyd bod arfer sy'n arwain y sector yn unrhyw un o'r ysgolion a arolygwyd eleni. Mewn cymhariaeth, nodwyd bod arfer sy'n arwain y sector mewn pedair o'r saith o ysgolion a arolygwyd yn ystod 2012-2103. Mae hyn yn adlewyrchu amrywiaeth sylweddol yn ansawdd addysg mewn ysgolion yn y sector.

O'r 21 o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro flynyddol, methodd chwe ysgol â bodloni un neu fwy o'r saith o safonau. Cynhaliodd Estyn ymweliadau ychwanegol â thair o'r ysgolion hyn i fonitro cynnydd mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau hyn. Byddwn yn ail-ymweld â'r ysgolion eraill fel rhan o'r broses fonitro flynyddol i wneud yn siŵr eu bod wedi gwneud y gwelliannau angenrheidiol i gynnal eu statws cofrestredig.

**Ffigur 2.13: Niferoedd yr ysgolion mewn categorïau gweithgarwch dilynol**




**Ffigur 2.14: Niferoedd yr ysgolion a fodlonodd pob un o'r rheoliadau / na fodlonodd pob un o'r rheoliadau**



# Deilliannau: Ysgolion arbennig annibynnol

## Safonau

Mae safonau yn dda mewn tair o'r pedair ysgol a arolygwyd ac yn ddigonol yn y llall. Yn yr ysgolion lle ceir safonau da, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn unol â'u galluoedd a'u hanghenion unigol. Fodd bynnag, yn yr ysgol lle mai digonol yn unig yw safonau, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn unol â'u galluoedd.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'u medrau cyfathrebu yn dda. Siaradant yn gwrtais ac yn hyderus â staff yn ogystal ag ymwelwyr â'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda, ac yn eu cymhwyso mewn gwersi ar draws y cwricwlwm. Mewn un ysgol, mae disgyblion ag anghenion cymhleth yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn effeithiol i weithgareddau y tu allan i amgylchedd yr ysgol, er enghraifft drwy reoli eu harian yn y banc lleol ac mewn siopau lleol.

Lle gallant wneud hynny, mae disgyblion yn cyfranogi'n llwyddiannus mewn lleoliadau gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau mewn siopau, caffis a ffermydd lleol.

Yn y tair ysgol lle ceir safonau da, mae llawer o'r rhai sy'n gadael yr ysgol, neu bob un ohonynt, yn mynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mewn dwy o'r ysgolion, mae un neu fwy o ddisgyblion yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fynd yn ôl i ysgolion y brif ffrwd.

Mewn rhyw dri chwarter o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro flynyddol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hanghenion unigol. Fodd bynnag, yng ngweddill yr ysgolion, nid oes digon o ffocws ar y ddarpariaeth addysgol ac nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol o ganlyniad i hynny.

## Lles

Mae lles yn dda mewn tair o'r pedair ysgol a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y llall.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd gwersi yn brydlon. Mewn un ysgol, fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn cyrraedd yn hwyr yn aml, ac yn colli gormod o ysgol.

Er gwaethaf eu hanawsterau, mae bron yr holl ddisgyblion yn ymddwyn yn dda y rhan fwyaf o'r amser. Ar yr ychydig achlysuron lle mae disgyblion yn dangos ymddygiad heriol, maent yn rheoli'u hemosiynau yn dda yn gyffredinol ac yn tawelu'n gyflym. Fodd bynnag, mewn un ysgol mae ymddygiad nifer fach o ddisgyblion yn ei gwneud hi'n anodd i ddisgyblion eraill ganolbwyntio ar eu gwaith.

Gydag ychydig iawn o eithriadau, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod pwy i fynd atynt os oes ganddynt broblem, ac mae'r hyder ganddynt i drafod eu pryderon gyda staff.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i fynegi'u barnau yn anffurfiol. Mae cyngor ysgol sefydledig gan un o'r ysgolion, lle bydd disgyblion yn cadeirio'r cyfarfodydd misol ac yn cymryd cofnodion. Mae dwy ysgol arall wedi sefydlu cyngor ysgol neu fforwm ysgol yn ddiweddar i roi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion fynegi'u barnau a chyfrannu at benderfyniadau.

Ym mron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro flynyddol, mae disgyblion yn gwella'u hymddygiad a'u medrau cymdeithasol yn dda dros gyfnod. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion nid yw disgyblion yn ymgysylltu'n ddigon da â'u dysgu.

**Ffigur 2.15: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**




Rhagorol / Da / Digonol / Anfoddhaol

# Darpariaeth: Ysgolion arbennig annibynnol

Mae ansawdd profiadau dysgu yn dda mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y ddwy arall.

Ym mhob un o'r pedair ysgol, mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Yn un o'r ysgolion, mae cyfleoedd i astudio gwyddoniaeth yn gyfyngedig.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae ystod addas o weithgareddau sy'n bodloni galluoedd ac anghenion y disgyblion. Lle bo'n briodol, mae hyn yn cynnwys ystod o gyfleoedd galwedigaethol, fel gosod brics, arlwyo a gwaith coed. Fodd bynnag, mewn un ysgol nid yw cynlluniau gwaith yn cael eu cynllunio'n ddigon da i gynnwys disgyblion mewn gweithgareddau sy'n datblygu'u medrau meddwl yn annibynnol.

Ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd, ceir cyfleoedd mewn llawer o wersi i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mewn tair o'r pedair ysgol, nid yw'r cynllunio yn cael ei gydlynu'n ddigon effeithiol ar lefel strategol. O ganlyniad, mae athrawon yn colli cyfleoedd weithiau i ddatblygu medrau disgyblion.

Mae'r addysgu yn dda mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y ddwy arall. Ym mhob un o'r ysgolion hyn, mae dealltwriaeth glir iawn gan y staff o anghenion dysgu ac anghenion ymddygiad y disgyblion unigol, ac yn y rhan fwyaf o wersi, maent yn paratoi gweithgareddau priodol. Mewn dwy ysgol, mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n dda â'i gilydd i gynorthwyo'r disgyblion unigol. Er enghraifft, maent yn gyson o ran y ffordd y maent yn rheoli ymddygiad disgyblion, ac mae hyn yn helpu disgyblion i ymdawelu'n gyflym. Fodd bynnag, mewn un ysgol, nid yw athrawon bob amser yn gwneud defnydd da o staff cymorth. Mewn ysgol arall, mae staff cymorth yn darparu gormod o help ac nid ydynt yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion wella'u medrau.

Mae'r defnydd a wneir o ddata yn amrywio gryn dipyn rhwng ysgolion. Mae pob un o'r ysgolion yn cynnal asesiad gwaelodlin, ond nid yw dwy o'r ysgolion yn defnyddio data'n ddigon da i olrhain cynnydd disgyblion.

Mewn tair o'r ysgolion, nid yw staff yn defnyddio data'n ddigon da i arfarnu effaith eu gwaith ar safonau disgyblion neu i lywio'u cynllunio.

Mewn un o'r ysgolion, mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau i annog disgyblion i farnu eu cynnydd ac i feddwl ynghylch sut gallent wella. Er enghraifft, anogant ddisgyblion i drafod y gwaith maent wedi'i wneud gyda'u cyfoedion, a beth allent wneud i wella. Fodd bynnag, yn y tair ysgol arall megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu'r technegau asesu cymheiriaid a hunanasesu hyn.

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda mewn tair o'r ysgolion a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y llall. Mae pob un o'r pedair ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau allanol i gefnogi lles y disgyblion. Mewn un ysgol, mae nyrs yn darparu sesiynau gwerthfawr am gam-drin cyffuriau ac alcohol. Mewn ysgol arall, mae swyddog cymunedol yr heddlu yn cyflwyno rhaglenni ar e-ddiogelwch, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae rheoli ymddygiad yn nodwedd gref ym mhob un o'r ysgolion, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar les disgyblion a'u gallu i ymgysylltu â dysgu. Er enghraifft, mae gweithdrefnau clir a chyson yn helpu disgyblion ddysgu i reoli'u teimladau, i gymryd cyfrifoldeb am ei gweithredoedd a dangos parch at eraill.

Ceir ethos cynhwysol iawn ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd, a chynigiant amgylchedd tawel, cefnogol sy'n helpu bron bob un o'r disgyblion i ymgysylltu â'u dysgu.

Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro flynyddol, mae staff yn creu amgylchedd dysgu meithringar sy'n rhoi hyder i ddisgyblion ac yn eu helpu i ymgysylltu â dysgu. Yn yr ysgolion hyn, mae'r cwricwlwm yn cyfateb yn dda i anghenion unigol y disgyblion, ac mae athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion nid yw'r cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigon da i gynnwys, ysbrydoli a herio disgyblion yn llawn ac nid yw gwersi'n cynnwys amcanion clir.

**Ffigur 2.16: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion arbennig annibynnol

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda yn un o'r ysgolion ac yn ddigonol yn y tair ysgol arall, ond oherwydd ansawdd uchel y cymorth i ddisgyblion unigol, mae safonau yn dda mewn tair o'r ysgolion. Ceir diffygion, fodd bynnag, yn rheolaeth strategol tair o'r ysgolion.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae gweledigaeth glir gan arweinwyr ar gyfer yr ysgol, a rhennir y weledigaeth hon gyda phob un o'r staff. Rhoddir ffocws ar greu amgylchedd ble gall disgyblion ffynnu. Fodd bynnag, mewn tair o'r ysgolion nid yw rheolwyr yn canolbwyntio digon ar gynllunio ar gyfer gwella'r ysgol neu ar fonitro perfformiad yr ysgol ar lefel strategol.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae perchnogion neu gyfarwyddwyr yn darparu cymorth, ond nid ydynt bob amser yn herio ac yn dal yr ysgol yn atebol am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

Mae pob un o'r ysgolion wedi gwneud cynnydd o ran datblygu prosesau hunanarfarnu, ond megis dechrau cael eu datblygu y mae'r prosesau hyn o hyd. Nid yw adroddiadau hunanarfarnu'n nodi meysydd i'w datblygu yn glir nac yn canolbwyntio digon ar safonau disgyblion.

Nid chwaith yw cynllunio ar gyfer gwella ysgolion wedi'i ddatblygu'n ddigonol ym mhob un o'r ysgolion. Mewn tair o'r ysgolion, nid yw cynlluniau datblygu yn helpu rheolwyr i fonitro cynnydd, oherwydd diffyg camau gweithredu, cyfrifoldebau neu raddfeydd amser wedi'u diffinio'n glir.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn dda mewn tair o'r ysgolion a arolygwyd, ac yn ddigonol yn yr ysgol arall.


Mae pob un o'r ysgolion wedi datblygu partneriaethau effeithiol i gefnogi lles disgyblion, cynyddu cyfleoedd dysgu disgyblion, neu eu helpu i symud ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant. Mae tair o'r ysgolion wedi dechrau datblygu cysylltiadau defnyddiol gydag ysgolion y brif ffrwd er mwyn datblygu gwybodaeth ac arbenigedd staff. Mae'r llall yn cysylltu â'r awdurdod lleol, sy'n darparu hyfforddiant a chymorth gwerthfawr i'r ysgol.

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro flynyddol, mae arweinwyr a rheolwyr yn gwybod beth yw cryfderau'r ysgol ac yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn dda. Fodd bynnag, nid yw hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella wedi'u datblygu'n ddigonol yn yr ysgolion eraill ac nid ydynt yn canolbwyntio digon ar ddeilliannau disgyblion.

**Ffigur 2.17: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**









# Adran 2:
# Adroddiad sector
## Ysgolion prif ffrwd annibynnol


Yn Ionawr 2014, roedd 39 o ysgolion prif ffrwd annibynnol yng Nghymru yn darparu addysg ar gyfer 8,035 o ddisgyblion. Eleni, fe wnaethom arolygu saith o'r ysgolion hyn. Mae tair o'r ysgolion a arolygwyd yn ysgolion pob oed sy'n darparu ar gyfer disgyblion ar draws y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd. Mae dwy ysgol yn darparu ar gyfer y cyfnod cynradd yn unig, a dwy ar gyfer y cyfnod uwchradd. Mae'r 2,023 o ddisgyblion yn yr ysgolion prif ffrwd annibynnol a arolygwyd gennym yn 2013-2014 yn cyfrif am ychydig dros 25% o garfan y sector.

# Gweithgarwch dilynol: Ysgolion prif ffrwd annibynnol


Eleni, nodom fod gan dair ysgol arfer sy'n arwain y sector, sef yr un nifer â'r llynedd. Mae trefniadau partneriaeth eithriadol o gadarn gan yr ysgolion hyn sy'n cyfrannu at safonau uchel.

Mewn arolygiadau o ysgolion annibynnol, barnwn y graddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Llwyddodd pump o'r ysgolion a arolygwyd eleni i fodloni pob un o'r rheoliadau. Byddwn yn ymweld eto â'r ddwy ysgol na fodlonodd pob un o'r rheoliadau hyn i wneud yn siŵr eu bod wedi gwneud y gwelliannau sy'n angenrheidiol i gynnal eu statws cofrestredig.

**Ffigur 2.18: Niferoedd yr ysgolion mewn categorïau gweithgarwch dilynol**




**Ffigur 2.19: Niferoedd yr ysgolion a fodlonodd pob un o'r rheoliadau / na fodlonodd pob un o'r rheoliadau**



# Deilliannau: Ysgolion prif ffrwd annibynnol

## Safonau

Mae safonau'n dda neu'n well ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd eleni.

Ceir safonau rhagorol mewn dwy ysgol. Yn y ddwy ysgol hyn, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, a chynnydd rhagorol yn aml, ar sail eu cyrhaeddiad wrth ddod i mewn i'r ysgol. Erbyn iddynt adael yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 neu'r chweched dosbarth, mae perfformiad disgyblion mewn arholiadau cyhoeddus yn rhagorol o gymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion eraill yn y sector a gynhelir a'r sector annibynnol.

Yn yr ysgolion lle ceir safonau da, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb ac yn ymroi'n ddiwyd i'w gwaith i wneud cynnydd cyson dda. Maent yn cofio dysgu blaenorol yn arbennig o dda ac yn defnyddio'u gwybodaeth a'u medrau blaenorol yn alluog i ddyfnhau eu dealltwriaeth o'u gwaith presennol.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn datblygu medrau llythrennedd cadarn y byddant yn eu defnyddio'n effeithiol mewn ystod o gyd-destunau. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl, gyda goslef a dealltwriaeth briodol. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn dehongli, dadansoddi a chyfosod gwybodaeth o destunau gwahanol yn dda i lunio'u barnau eu hunain, a chymhwysant hyn i'w gwaith yn llwyddiannus.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu yn dda. Ysgrifennant yn estynedig, gan roi ystyriaeth dda i gyd-destunau pwnc gwahanol a defnyddio iaith a thermau pwnc yn briodol. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw disgyblion yn ehangu eu medrau ysgrifennu digon mewn ystod o genres a thasgau gwahanol.

Ym mhob un o'r ysgolion, mae medrau rhifedd disgyblion yn gadarn yn gyffredinol. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth fathemategol sicr gan lawer o ddisgyblion, ac maent yn cymhwyso'r rhain yn gymwys mewn ystod o bynciau ar draws y cwricwlwm.

## Lles

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn uchel yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cyfranogi yn eu dysgu, yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt. Enillant ddealltwriaeth o'u rôl yn y gymuned ehangach drwy ymgymryd ag ystod eang o gyfrifoldebau a gweithgareddau gwirfoddol fel gwasanaeth cymunedol gyda sefydliadau lleol a digwyddiadau codi arian ar y cyd. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu'u medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn dda.

Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn chwarae rhan bwysig yn dylanwadu ar waith yr ysgol, yn enwedig safon y ddarpariaeth. Gwnânt hyn drwy fod yn aelodau o gynghorau ysgol, fforymau bwyd, fforymau disgyblion preswyl, grwpiau tai, eco-bwyllgorau, pwyllgorau swyddogion ac amryw o grwpiau gweithredu sy'n trefnu gweithgareddau codi arian. Mae'r grwpiau yn effeithiol o ran cynrychioli barnau disgyblion eraill a rhoi adborth iddynt. Maent wedi dylanwadu'n llwyddiannus ar benderfyniadau, fel ehangu gweithgareddau cyfoethogi, newid trefniadau amser cinio, ac mewn un ysgol, adeiladu tai adar a gardd lysiau a blodau ar dir yr ysgol.

**Ffigur 2.20: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Mae darpariaeth yn rhagorol mewn un ysgol, yn dda mewn pum ysgol ac yn ddigonol yn y llall.

Ym mhob ysgol, mae profiadau dysgu naill ai'n dda neu'n rhagorol. Mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion ac yn gyffredinol yn adeiladu ar brofiadau dysgu cynharach. Mae rhaglenni allgyrsiol cynhwysfawr gan fwyafrif o ysgolion, gyda chyfraddau cyfranogi uchel. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau seiliedig ar bwnc, cymunedol, creadigol, cerddorol, chwaraeon a diwylliannol sy'n cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion.

Mae gan lawer o ysgolion ddull systematig o ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae polisïau cynhwysfawr yn yr ysgolion hyn sy'n amlinellu ystod o ddeunydd arweiniad a chymorth i helpu sicrhau bod llythrennedd a rhifedd yn cael eu haddysgu mewn dull trefnus ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i nodi cyfleoedd penodol ar gyfer llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc, gan gydymffurfio'n fanwl â pholisïau marcio a chywiro ysgol gyfan. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion nid yw trefniadau i ddatblygu'r medrau hyn a medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol yn cael eu cynllunio'n ddigon da.

Mae'r addysgu yn dda neu'n well mewn chwech o'r ysgolion ac yn ddigonol yn yr ysgol arall. Yn yr un ysgol lle ceir addysgu rhagorol, mae disgwyliadau uchel iawn gan athrawon o ddisgyblion, maent yn cynnig lefel gadarn o her iddynt ac yn meithrin ynddynt yr hyder i fodloni'r sialens honno. Mae hyn yn helpu disgyblion i archwilio syniadau allweddol yn fanwl a sicrhau buddion sylweddol o ran eu dealltwriaeth.

Lle ceir addysgu da, gwelir hyn amlaf am fod gwybodaeth bynciol sicr gan athrawon, a defnyddiant y wybodaeth hon i esbonio testunau newydd mewn ffyrdd newydd, ac i ofyn cwestiynau treiddgar. Gosodant nodau clir ar gyfer y wers a chynlluniant amrywiaeth o weithgareddau diddorol a heriol i fodloni'r nodau hyn.

Lle mae angen i'r addysgu wella, y rheswm am hyn amlaf yw bod gweithgareddau dysgu ddim yn cyfateb i anghenion disgyblion, ac mae gormod o weithgareddau'n cael eu rheoli gan yr athro a gorddefnydd o daflenni gwaith neu gynlluniau gwaith cyhoeddedig. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu'n annibynnol, nac i gymhwyso ac ehangu eu dealltwriaeth ar lefel sy'n briodol i'w gallu.

Mae trefniadau cadarn gan ysgolion ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Yn gyffredinol, mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ac mae llawer ohonynt yn darparu adborth a chyngor llafar defnyddiol i ddisgyblion yn ystod gwersi ar sut gallant wella eu gwaith.

Darperir lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad gan y rhan fwyaf o ysgolion, ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at iechyd, lles a dysgu disgyblion. Mae trefniadau llawer o ysgolion ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion. Er bod ychydig o ysgolion yn bodloni bron pob un o'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer lles, iechyd a diogelwch disgyblion, mae ychydig o reoliadau nad yw'r ysgolion hyn yn eu bodloni, sy'n benodol i'r ysgol unigol.

Ceir ymdeimlad cadarn o gymuned ym mhob un o'r ysgolion, gyda phwyslais ar barchu eraill a sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad cyfartal i ddarpariaeth yr ysgol.

**Ffigur 2.21: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Ysgolion prif ffrwd annibynnol

Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well mewn pum ysgol ac yn ddigonol yn y ddwy arall.

Yn yr ysgol lle mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn rhagorol, mae'r uwch dîm rheoli yn darparu cyfeiriad cadarn ac yn pennu disgwyliadau uchel ar gyfer pob agwedd ar waith yr ysgol. Ar bob lefel, mae cyfarfodydd rheolaidd arweinwyr, cyfarfodydd pynciau, cyfarfodydd bugeiliol a chyfarfodydd staff llawn yn cynnig cyfleoedd arbennig o effeithiol i staff rannu gwybodaeth, pennu blaenoriaethau a dylanwadu ar ddatblygiadau strategol. Mae hyn yn helpu hyrwyddo ymdeimlad clir o ddiben ac ymrwymiad i nodau'r ysgol.

Lle mae'r arweinyddiaeth yn dda, mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad cadarn i waith yr ysgol. Maent yn llwyddo i hyrwyddo gweledigaeth gyffredin ar gyfer yr ysgol, yn seiliedig ar werthoedd a rennir a diwylliant o fod yn uchelgeisiol. Diffinnir rolau a chyfrifoldebau pob aelod o staff yn glir, a chaiff tanberfformiad ei herio'n effeithiol.

Lle mae angen i arweinyddiaeth wella, nid yw rolau a chyfrifoldebau ar gyfer meysydd pwysig o waith yr ysgol wedi'u diffinio'n glir, ac nid yw disgwyliadau'n cael eu cyfleu'n ddigon da i bob un o'r staff. Mae hyn yn golygu bod llinellau atebolrwydd yn aneglur ac nid ydynt yn cynnwys y trylwyredd sydd ei angen i yrru gwelliannau yn eu blaen.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae perchnogion yn darparu goruchwyliaeth effeithiol o waith yr ysgol ac yn monitro perfformiad yn briodol. Gwnânt yn siŵr fod trefniadau ariannol yn gadarn, a darparant gyngor busnes defnyddiol i'r ysgol yn aml.

Dim ond trefniadau tair ysgol ar gyfer gwella ansawdd sy'n dda neu'n well. Yn debyg i'r llynedd, mae diffyg llymder yn nhrefniadau'r mwyafrif o ysgolion ar gyfer sicrhau gwelliant. Nid yw'r ysgolion hyn yn casglu digon o dystiolaeth uniongyrchol i arfarnu agweddau pwysig ar eu gwaith yn gywir, yn enwedig ansawdd yr addysgu o arsylwi gwersi, a safonau trwy graffu ar waith disgyblion. Nid oes aliniad clir rhwng hunanarfarnu a chynllunio gwelliant, a chynnydd cyfyngedig maent wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf o'r ysgol.

Mae trefniadau partneriaeth y rhan fwyaf o ysgolion yn dda neu'n well. Mae gan lawer o'r ysgolion hyn bartneriaethau arbennig o gadarn gyda rhieni, ac maent yn gweithio fwyfwy ag ysgolion a sefydliadau lleol er mwyn cyflawni buddion i'r ddwy ochr. Er enghraifft, mae un ysgol wedi sefydlu partneriaeth wyddoniaeth arloesol gyda phrifysgolion a phum ysgol leol, ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, i wella deilliannau a dylanwadu ar ddewisiadau gyrfa disgyblion chweched dosbarth lleol. Mae hyn wedi helpu disgyblion i wella'u safonau ac wedi cynyddu nifer y disgyblion a gymerodd ran yn y rhaglen sy'n dilyn cyrsiau cysylltiedig â gwyddoniaeth yn y brifysgol.

Mae trefniadau da neu well gan bob ysgol ar gyfer rheoli adnoddau, ac mae'r rhain yn cyfrannu at y safonau uchel a gyflawnir gan ddisgyblion. Mewn llawer o ysgolion, mae staff yn elwa ar ystod o weithgareddau i wella'u harfer sy'n ystyried adolygiadau o reolaeth perfformiad ac yn adlewyrchu blaenoriaethau ysgol gyfan neu adrannau. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau i nodi a bodloni anghenion datblygiad proffesiynol staff wedi'u datblygu digon mewn ychydig o ysgolion, am nad oes ganddynt drefniadau rheoli perfformiad systematig.

### Menter wyddoniaeth yn ysbrydoli disgyblion

Mae **Ysgol Mynwy** wedi cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion lleol eraill i sefydlu menter wyddoniaeth. Trwy'r model partneriaeth, mae'r ysgol wedi agor ei drysau i dros 300 o ddisgyblion ychwanegol. Mae safonau mewn gwyddoniaeth wedi gwella, ac mae nifer uwch o ddisgyblion a gymerodd ran yn y rhaglen yn dilyn cyrsiau cysylltiedig â gwyddoniaeth yn y brifysgol.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr <u>astudiaeth achos</u>

**Ffigur 2.22: Niferoedd yr ysgolion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**









# Adran 2: Adroddiad sector
## Colegau arbenigol annibynnol

Yn Ionawr 2014, roedd chwech o golegau arbenigol annibynnol yng Nghymru. Mae'r colegau hyn yn addysgu rhyw 200 o ddysgwyr 16 oed a hŷn. Mae'r coleg yn darparu ar gyfer ystod o anghenion, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad.

Yn ychwanegol at arolygiadau llawn bob chwe blynedd, mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro blynyddol o golegau arbenigol annibynnol. Eleni, fe wnaethom arolygu dau goleg arbenigol annibynnol a chynnal tri ymweliad monitro blynyddol.

# Gweithgarwch dilynol: Colegau arbenigol annibynnol

Nodwyd bod arfer sy'n arwain y sector mewn un o'r colegau a arolygwyd eleni. Mae hyn yn cynnwys cynllunio rhagorol ar gyfer medrau ar draws y cwricwlwm, sy'n arwain at gynnydd eithriadol ar gyfer bron pob dysgwr, a chyfleoedd arbennig ar gyfer profiad gwaith.

# Deilliannau: Colegau arbenigol annibynnol

## Safonau

Mae safonau'n rhagorol yn un o'r colegau a arolygwyd ac yn ddigonol yn y llall.

Yn y coleg lle ceir safonau rhagorol, mae bron pob dysgwr yn gwneud cynnydd eithriadol wrth ddatblygu eu llythrennedd, rhifedd a'u medrau byw'n annibynnol. Gwnânt gynnydd rhagorol wrth gymhwyso'u medrau mewn sefyllfaoedd ymarferol, ystyrlon, er enghraifft wrth weithio yn y siop ar y safle. Mae bron pob dysgwr yn cyfathrebu'n hyderus â staff ac oedolion eraill. Er enghraifft, maent yn croesawu ymwelwyr i'r coleg, yn dangos iddynt ble i barcio ac yn gofyn iddynt gofrestru yn y dderbynfa. Mae pob un o'r dysgwyr yn y coleg hwn yn ennill unedau credyd sy'n cyfateb yn dda i'w galluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys unedau mewn ystod o bynciau arbenigol, fel bwydo da byw, rheoli cyllid personol a medrau siopa.

Yn y coleg lle ceir safonau digonol yn unig, mae dysgwyr yn cyfathrebu'n hyderus â thiwtoriaid a staff cymorth. Maent yn ymarfer ac yn datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, oherwydd diffyg systemau effeithiol ar gyfer cofnodi ac olrhain cynnydd dysgwyr, nid yw'n glir o gofnodion p'un a yw dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol sy'n unol â'u galluoedd a'u hanghenion.

## Lles

Mae lles yn rhagorol yn un o'r colegau a arolygwyd ac yn ddigonol yn y llall.


Yn y coleg lle mae lles yn rhagorol, mae cyfradd presenoldeb dysgwyr yn uchel iawn. Mae dysgwyr yn mynychu sesiynau'n brydlon, yn ymgartrefu i weithio'n gyflym ac yn canolbwyntio ar eu gwaith trwy gydol y dydd. Yn y coleg lle mae lles yn ddigonol yn unig, mae gormod o ddysgwyr nad ydynt yn mynychu'r coleg yn ddigon rheolaidd ac maent yn anghyson o ran cyrraedd gwersi yn brydlon.

Yn y ddau goleg, mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn ystod cyfnodau distrwythur. Maent yn foesgar a chwrtais tuag at oedolion a'u cyfoedion. Yn y coleg lle mae lles yn rhagorol, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd rhagorol wrth ddatblygu'u medrau cymdeithasol, ac mae hyn yn eu galluogi i gyfranogi'n llwyddiannus mewn gweithgareddau yn y gymuned leol, er enghraifft ymweld â chartref gofal.

Mae dysgwyr yn y ddau goleg a arolygwyd yn cyfrannu'n effeithiol at benderfyniadau trwy gyngor neu fforwm y coleg. Yn y coleg lle mae lles yn rhagorol, mae dysgwyr yn adrodd am ganlyniadau trafodaethau fforwm i ymddiriedolwyr y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â pholisïau ac iechyd a diogelwch o amgylch y coleg. Mae cyfraniad y dysgwyr at brosesau penderfynu yn y coleg hwn yn gryfder nodedig.

Ym mhob un o'r colegau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolygiad llawn a'r broses fonitro flynyddol, mae dysgwyr sy'n cael anawsterau sylweddol yn dysgu i reoli'u hanawsterau a'u pryderon ac yn gwella'u lefelau hyder.

**Figur 2.23: Niferoedd y colegau a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: Colegau arbenigol annibynnol

Mae ansawdd profiadau dysgu yn rhagorol yn un o'r colegau a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y llall.

Yn y coleg lle ceir profiadau dysgu rhagorol, mae'r coleg yn darparu cwricwlwm sydd wedi'i gynllunio a'i reoli'n eithriadol o dda, ac yn ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod anghenion dysgwyr unigol yn cael eu bodloni. Mae'r cynllunio ar gyfer cyfleoedd profiad gwaith o fewn y coleg a thu hwnt yn rhagorol. Yn y coleg hwn, ceir cynllunio arbennig o dda ar gyfer medrau. Prif ffocws yr holl gynllunio yw datblygu medrau trwy weithgareddau ymarferol a pherthnasol fel gweithio yn y siop ar y safle neu ar y fferm.

Mae'r coleg lle ceir profiadau dysgu digonol yn unig yn cynnig ystod o gyfleoedd perthnasol. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n cael y cyfle i gyfranogi mewn dysgu yn y gwaith sy'n ystyrlon neu i ddatblygu'u medrau galwedigaethol mewn lleoliadau realistig. Yn y coleg hwn, nid yw'r cynllunio'n canolbwyntio digon ar anghenion penodol dysgwyr unigol i'w paratoi ar gyfer bywyd ar ôl coleg.

Mae'r addysgu yn dda yn un o'r colegau ac yn ddigonol yn y llall. Yn y ddau goleg, mae staff yn paratoi gwersi'n ofalus, ac yn y rhan fwyaf o wersi defnyddiant ystod briodol o strategaethau ac adnoddau i gefnogi'r addysgu a'r dysgu. Yn un o'r colegau, nid yw staff yn herio'r dysgwyr mwy abl yn ddigon da.


Yn un coleg, ceir prosesau asesu cadarn sy'n galluogi staff i gynllunio'n effeithiol ac olrhain cynnydd dysgwyr yn drylwyr. Nid oes systemau effeithiol ar waith gan y coleg arall ar gyfer cofnodi cynnydd dysgwyr, ac mae hyn yn golygu nad yw rheolwyr yn gallu olrhain faint o gynnydd y mae dysgwyr yn ei gwneud dros gyfnod.

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol yn un o'r colegau a arolygwyd, ac yn dda yn y llall. Mae'r ddau goleg yn gweithio'n dda gydag ystod o arbenigwyr, er enghraifft therapyddion lleferydd ac iaith a seicolegwyr clinigol, i gefnogi lles y dysgwyr. Mae'r cydweithio effeithiol rhwng y staff addysg a'r arbenigwyr yn gryfder yn y ddau goleg.

Yn y coleg lle mae gofal, cymorth ac arweiniad yn rhagorol, ceir proses sydd wedi'i chydlynu'n dda ar gyfer nodi anghenion ychwanegol dysgwyr a darparu cymorth effeithiol iawn ar draws y cwricwlwm 24 awr. O ganlyniad, mae pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd rhagorol o ran datblygu'u hyder, eu hymddygiad a'u medrau.

Mewn dau o'r tri choleg arall yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro flynyddol, mae cysylltiadau agos iawn â cholegau addysg bellach yn galluogi dysgwyr i gael mynediad i ystod eang o gyfleoedd dysgu perthnasol a chyflawni cymwysterau priodol. Fodd bynnag, yn y tri choleg yr ymwelwyd â nhw nid yw systemau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol.

**Ffigur 2.24: Niferoedd y colegau a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Colegau arbenigol annibynnol

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol yn un o'r colegau a arolygwyd, ac yn ddigonol yn y llall.


Yn y coleg lle mae'r arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhagorol, mae'r tîm arwain yn darparu arweiniad strategol eithriadol o gadarn, ac mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol. Mae ymddiriedolwyr y coleg yn darparu lefel uchel o her a chymorth wybodus. Ceir prosesau hunanasesu cadarn yn y coleg hwn. Mae dealltwriaeth gynhwysfawr gan arweinwyr a rheolwyr o gryfderau'r coleg a meysydd i'w datblygu. Mae'r cynllun gwella ansawdd yn nodi targedau priodol yn glir, ac mae rheolwyr yn monitro ac yn adolygu'r rhain yn rheolaidd. Mae rheolwyr yn defnyddio ystod eang o ddata i osod targedau heriol.

Yn y coleg lle mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn ddigonol yn unig, mae uwch arweinwyr yn hyrwyddo safonau uchel ar gyfer ymddygiad a gofal pob dysgwr. Mae'r bwrdd cyfarwyddwyr yn darparu cymorth defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw uwch reolwyr a chyfarwyddwyr yn rhoi ffocws digon clir bob amser ar wella darpariaeth addysgol neu safonau. Mae prosesau hunanasesu yn y coleg hwn wedi'u sefydlu'n dda, ac mae'r adroddiad hunanasesu yn adlewyrchu sefyllfa'r coleg yn gywir. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddeilliannau dysgwyr. Mae cynllun gwella'r coleg yn nodi meysydd priodol i'w datblygu, er nad yw prosesau ar gyfer olrhain ac arfarnu cynnydd yn erbyn y targedau hyn wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae diffyg data addysgol yn y coleg hwn yn golygu nad yw rheolwyr yn gallu arfarnu effaith eu gwaith ar safonau dysgwyr.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn rhagorol yn un o'r colegau a arolygwyd, ac yn dda yn y llall. Mewn un coleg, mae cysylltiadau effeithiol iawn gyda busnesau lleol yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn profiad gwaith ystyrlon a datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen at fywyd ar ôl coleg. Yn y coleg arall, mae cysylltiadau sydd wedi'u datblygu'n dda gydag ysgolion ac awdurdodau lleol yn galluogi'r coleg i gynllunio ar gyfer anghenion unigol dysgwyr.

Yn un o'r colegau yr ymwelwyd ag ef fel rhan o'r broses fonitro flynyddol, mae'r adroddiad hunanasesu yn arfarnol ac mae'r cynllun gwella ansawdd yn pennu targedau clir ar gyfer gwella. Fodd bynnag, yn y ddau goleg arall yr ymwelwyd â nhw, nid yw hunanasesu yn llywio cynlluniau gwella'n ddigonol.

**Ffigur 2.25: Niferoedd y colegau a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**





Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd EM dros
Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
2013-2014

# Section 2: Adroddiad sector
## Unedau cyfeirio disgyblion

Yn Ionawr 2014, roedd 35 o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yng Nghymru. Mae'r UCDau hyn yn addysgu cyfanswm o ryw 600 o ddisgyblion. Maent yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag ystod o anghenion, gan gynnwys mamau ifanc, disgyblion â phroblemau iechyd meddwl a disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu'r UCDau hyn am eu bod wedi'u gwahardd neu mewn perygl o gael eu gwahardd o ysgolion prif ffrwd.

Mae ychydig o dan hanner yr UCDau yn darparu lleoliadau amser llawn ar gyfer disgyblion. Mae'r UCDau eraill yn gweithio'n agos gyda phartneriaid, fel colegau addysg bellach, lleoliadau profiad gwaith a'r gwasanaeth ieuenctid, i ehangu cyfleoedd i ddisgyblion barhau â'u dysgu.


Dim ond tri o'r wyth UCDau a arolygwyd eleni sy'n perfformio'n dda. Mae pob un o'r rhain yn darparu ar gyfer disgyblion iau. Yn gyffredinol, mae deilliannau arolygu yn waeth ar gyfer UCDau nag ar gyfer sectorau eraill. Mae hyn yn ddarlun tebyg i'r llynedd, ac mae angen ar frys o hyd am arweinyddiaeth gadarnach gan awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn rheoli UCDau yn uniongyrchol ac maent mewn sefyllfa dda i ddylanwadu ar ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid oes gweledigaeth na strategaeth glir gan ddigon o awdurdodau lleol ar gyfer sut mae eu UCDau yn cydweddu â'r ystod o wasanaethau a gynigiant i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed. Arweinyddiaeth gadarn yw'r allwedd i wella addysgu, y cwricwlwm a deilliannau mewn UCDau, ond nid oes digon o hyfforddiant datblygu arweinyddiaeth na chymorth ar gyfer athrawon â gofal.

## Gweithgarwch dilynol: Unedau cyfeirio disgyblion

Eleni, gofynnom i ddwy o'r wyth UCD ddarparu astudiaethau achos rhagorol. Mae'r UCDau hyn yn gweithio'n dda gydag ysgolion, rhieni ac asiantaethau eraill. O ganlyniad maent yn gwella deilliannau, hyder ac ymddygiad disgyblion ac yn eu dychwelyd yn gyflym i ysgol y brif ffrwd. Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn camu i mewn yn gyflym pan fydd angen help ychwanegol ar ddisgyblion.

Mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn tair UCD, mae angen gwelliant sylweddol yn un ohonynt ac mae angen monitro gan Estyn ar ddwy uned. Mae diffygion yn cynnwys deilliannau gwael ar gyfer disgyblion a methiant gan staff i olrhain cynnydd a chynllunio ar gyfer medrau. Hefyd, nid yw pwyllgorau rheoli yn gwneud digon i wella'r addysgu a'r dysgu. Nid yw rheolwyr yn defnyddio data'n dda i osod targedau ar gyfer gwella, ac mae hunanarfarnu yn wan.

**Ffigur 2.26: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion mewn categorïau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: Unedau cyfeirio disgyblion

## Safonau

Mae safonau yn rhagorol yn un o'r wyth UCD a arolygwyd eleni, ac yn dda mewn dwy ohonynt. Yn yr UCDau hyn, mae disgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn falch o'u gwaith. Maent yn gwrando'n ofalus, ac yn datblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn dda iawn. Defnyddiant eu medrau i ymchwilio a chofnodi atebion a chanlyniadau yn gywir mewn gwersi mathemateg a gwyddoniaeth ac wrth ysgrifennu mewn gwersi iaith. Maent yn ymarfer ac yn datblygu'u medrau iaith trwy gydol y diwrnod ysgol, ac yn awyddus i gymryd rhan mewn cyflwyniadau a thrafodaethau. Yn y ddwy UCD cyfrwng Cymraeg, mae bron yr holl ddysgwyr, yn unol â'u gallu, yn dangos dealltwriaeth dda o'r Gymraeg a Saesneg ac yn eu defnyddio'n naturiol ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. Mae disgyblion ym mhob UCD yn datblygu dealltwriaeth resymol o ddiwylliant Cymru.

Fodd bynnag, mewn tair UCD, digonol ar y gorau yw safonau disgyblion, ac mewn dwy UCD, maent yn anfoddhaol. Yn yr UCDau hyn, mae'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn amrywio gormod ac nid yw lleiafrif sylweddol yn gwneud gystal ag y dylent. Er bod bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 yn ennill cymwysterau, nid yw'r rhain ar lefel ddigon uchel bob amser, neu'n unol â galluoedd disgyblion. Nid yw disgyblion yn ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn amrywiaeth o wersi ac nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd. Mewn tair o'r pump UCD, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, ac mewn un UCD, mae bron i ddwy ran o dair o ddisgyblion yn methu â symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf neu i waith.

## Lles

Mae lles yn rhagorol mewn dwy UCD ac yn dda mewn tair uned. Mae disgyblion yn yr UCDau hyn yn teimlo'n ddiogel a gweithiant yn dda gyda staff a'i gilydd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach. Maent yn mwynhau eu gwersi ac yn cyrraedd yn brydlon. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda a dangosant barch at eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella'u presenoldeb dros gyfnod. Yn y ddwy UCD lle mae lles yn rhagorol, mae'r lefel presenoldeb dros 94%.

Yn y tair UCD arall lle nad yw lles ddim gwell na digonol neu'n anfoddhaol, nid yw disgyblion yn mynychu'n dda. Mae'r lefel presenoldeb mor isel â 65% a 75%. Mewn dwy o'r UCDau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, ond yn yr UCD arall nid yw lleiafrif yn ymddwyn yn dda, a chaiff hyn effaith negyddol ar waith disgyblion eraill.

Ym mron pob un o'r UCDau, mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd da i wneud penderfyniadau ynglŷn â bywyd a gwaith yr UCD. Er enghraifft, cymerant ran mewn gweithgareddau codi arian, dewis staff newydd a phenderfynu ar adnoddau TGCh newydd.

**Ffigur 2.27: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: Unedau cyfeirio disgyblion

Mae'r ddarpariaeth yn rhagorol mewn un UCD ac yn dda mewn un arall. Yn yr UCDau hyn, mae'r cwricwlwm cynhwysfawr yn bodloni anghenion y disgyblion a cheir ffocws ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y diwrnod ysgol. Mae staff yn yr UCDau hyn yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Darparant gyfleoedd i ddisgyblion ennill cymwysterau priodol. Mae athrawon yn yr UCDau yn defnyddio asesu i nodi cryfderau a meysydd o angen y disgyblion, a gosodant y gwaith i ddisgyblion ar y lefel gywir. Defnyddiant wybodaeth yn dda i osod targedau ar gynlluniau addysg unigol. Maent yn cynllunio'u gwersi'n ofalus i wneud defnydd o ystod eang o adnoddau a strategaethau i helpu disgyblion ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon a chynorthwywyr yn gweithio'n dda â'i gilydd. Mae staff yn olrhain cynnydd academaidd a chymdeithasol disgyblion, ac yn gweithio gyda disgyblion i osod targedau ar gyfer gwella. Caiff disgyblion adborth defnyddiol ar ba mor dda y maent yn ei wneud, a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mewn un UCD, mae disgyblion yn treulio o leiaf un diwrnod yr wythnos yn eu hysgolion prif ffrwd. Mae cymorth staff, lle bo angen, yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n hwylus yn ôl i'r ysgol.

Dim ond digonol yw'r ddarpariaeth mewn pedair UCD, ac mae'n anfoddhaol mewn dwy uned. Yn yr UCDau hyn, nid yw'r cwricwlwm yn cynnig ystod ddigon eang o bynciau ac nid yw'n addas at anghenion disgyblion. Er enghraifft, nid yw un UCD yn darparu addysg bersonol a chymdeithasol. Nid yw UCD arall yn darparu gwyddoniaeth ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3. Yn yr UCDau hyn, nid yw disgyblion yn cael digon o help gyda'u medrau ac nid oes digon o ffocws yn cael ei roi ar lythrennedd a rhifedd. Er bod y rhan fwyaf o'r UCDau hyn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ennill cymwysterau, mae'r rhain ar lefel rhy isel yn aml.

Yn y pum UCD, nid yw'r addysgu ddim gwell na digonol neu mae'n anfoddhaol. Nid oes disgwyliadau ddigon uchel o ddisgyblion gan athrawon yn yr UCDau hyn. Mae diffyg rhediad yn y gwersi ac mae athrawon yn dibynnu gormod ar daflenni gwaith. Nid yw athrawon yn defnyddio ystod eang o ddeunyddiau i gynnal diddordeb disgyblion. Maent yn addysgu amrywiaeth o bynciau, a hynny'n aml yn ychwanegol at y pwnc y gwnaethant hyfforddi ynddo, ac nid yw eu gwybodaeth bynciol gystal ag y dylai fod bob amser. Nid yw athrawon yn yr UCDau hyn yn cwblhau eu marcio bob amser, nac yn dangos i ddisgyblion beth sy'n rhaid iddynt ei wneud i gael canlyniadau gwell. Nid ydynt yn defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio gwaith disgyblion ar y lefel gywir. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu dangos i ddisgyblion eu bod wedi gwella, ac nid ydynt yn annog disgyblion i fyfyrio ar ba mor dda y maent wedi cwblhau'u gwaith.

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn dda neu'n rhagorol yn y tair UCD. Lle bo hyn yn wir, mae'r UCDau yn rhoi cymorth da i ddisgyblion. Mae staff yn helpu disgyblion i ddysgu rheoli eu hymddygiad. Maent yn gyson o ran eu dulliau, a gwnânt ddefnydd da o systemau gwobrwyo cadarnhaol. Maent yn annog presenoldeb da ac yn gweithio'n dda gyda gweithwyr cymdeithasol addysgol i gynnig cymorth i deuluoedd yn gyflym pan fydd disgyblion yn absennol. Mae'r UCDau hyn yn teilwra eu rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol i fodloni anghenion disgyblion.

Mae gofal, cymorth ac arweiniad mewn tair o'r UCDau yn ddigonol, ond yn anfoddhaol mewn dwy arall. Mewn dwy UCDau, mae pryderon ynghylch diogelu, yn cynnwys diffyg polisi gwrthfwlio, goruchwyliaeth wael o ddisgyblion ac adrodd yn anghywir am ymyriadau corfforol. Mewn un UCD, nid yw staff yn rheoli ymddygiad yn ddigon da. Weithiau, byddant yn gwobrwyo disgyblion pan na fyddant yn ymddwyn yn dda. Nid yw'r UCDau gwannach yn gwneud digon i fodloni anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol disgyblion.

**Ffigur 2.28: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Unedau cyfeirio disgyblion

Dim ond dwy UCD o wyth sydd ag arweinyddiaeth a rheolaeth dda neu ragorol. Yn yr UCDau hyn, mae'r awdurdod lleol yn rhoi cymorth a her dda. Mae pwyllgorau rheoli yn adnabod eu UCDau yn dda. Mae'r UCDau hyn yn casglu ac yn defnyddio data a thystiolaeth uniongyrchol o addysgu a dysgu. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cryfderau a'u gwendidau. Gwnânt gynlluniau gofalus ar gyfer gwella. Mae ganddynt drefniadau da i ddadansoddi pa mor dda y mae staff yn gwneud, a gwnânt yn siŵr fod gan staff yr adnoddau a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i wneud gwaith da.

Yn y chwe UCD arall, digonol ar y gorau yw'r arweinyddiaeth, ac mewn tri achos, mae'n anfoddhaol. Mae'r UCDau hyn yn cael eu siomi gan eu hawdurdodau lleol a'u pwyllgorau rheoli sydd ddim yn darparu'r cymorth a'r her sydd eu hangen ar yr UCDau. Yn yr UCDau hyn, mae rheolwyr yn canolbwyntio ar wella ymddygiad ar draul herio'r holl ddisgyblion i gyflawni gystal ag y gallant. Nid yw'r UCDau hyn yn defnyddio data i ddadansoddi pa mor dda y maent yn ei wneud, ac nid oes digon o ffocws ar ddeilliannau disgyblion. Nid ydynt yn gwneud defnydd o arsylwadau gwersi rheolaidd i nodi lle nad yw'r addysgu yn ddigon da. O ganlyniad, syniad chwyddedig sydd ganddynt o ba mor dda maent yn ei wneud. Nid ydynt yn gosod targedau clir ar gyfer gwella.

Mae pedair UCD yn gweithio'n arbennig o dda gyda'u partneriaid, gan gynnwys rhieni. Gweithiant yn agos ag ysgolion i wneud yn siwr bod disgyblion yn cael eu croesawu a'u cefnogi pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol. Maent yn gwneud cysylltiadau cadarn rhwng yr arweinyddiaeth a'r cwricwlwm er mwyn gwella a rhannu arfer dda o fewn yr UCDau. Fodd bynnag, nid yw'r pedair UCD arall yn gweithio'n ddigon agos â'u partneriaid. Nid ydynt bob amser yn gweithio'n dda â rhieni a gofalwyr, nac yn rhoi gwybodaeth gyson iddynt am gynnydd eu plentyn.

Dim ond tair UCD sy'n darparu gwerth da neu well am arian. Mae'r UCDau hyn yn gwneud yn siwr bod staff wedi'u hyfforddi'n dda i addysgu'r cwricwlwm a rheoli ymddygiad. Cydweithiant ag ysgolion y brif ffrwd i gynyddu eu capasiti. Fodd bynnag, nid yw'r UCDau eraill yn gwella medrau ac arbenigedd staff digon, naill ai drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus na thrwy rannu arfer dda a dysgu oddi wrth eraill. Methodd un UCD â gweithredu'r holl argymhellion iechyd a diogelwch.

## Cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad disgyblion

Mae pwyllgor rheoli effeithiol yn dwyn **Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion** i gyfrif am berfformiad a lles disgyblion. Hefyd, mae'r awdurdod lleol wedi cefnogi a monitro'r ddarpariaeth yn ofalus iawn, sydd wedi helpu i gryfhau rôl y pwyllgor rheoli.

Gydag amser, mae disgyblion yn yr UCD yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu hymddygiad a'u hagwedd. Bu gostyngiad sylweddol mewn gwaharddiadau, gwelliant o ran lefelau presenoldeb a chynnydd da wrth ddatblygu medrau, ac mae disgyblion naill ai wedi mynd yn ôl i addysg brif ffrwd neu wedi symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant pellach, neu gyflogaeth.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

**Ffigur 2.29: Niferoedd yr unedau cyfeirio disgyblion a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**




Free
You are helping the environment
War On Waste Van
Recycle Paper
PaPer
Melon
Pinc






# Adran 2: Adroddiad sector
## Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Mae bron pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ariannu rhyw ddarpariaeth addysg ran-amser ar gyfer plant tair oed, a phlant pedair oed yn achlysurol iawn, mewn lleoliadau yn ogystal ag mewn ysgolion. Nid yw awdurdodau lleol yn cynnal y lleoliadau hyn er eu bod yn gyfrifol am sicrhau bod lleoliadau'n darparu addysg gynnar o ansawdd da. Mae lleoliadau sy'n darparu addysg yn cynnwys darparwyr gofal dydd a chylchoedd chwarae. Fodd bynnag, nid yw pob lleoliad yn gymwys i dderbyn cyllid ar gyfer addysg.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi adrodd am duedd ostyngol yn nifer y lleoliadau heb fod mewn ysgolion sy'n darparu addysg ran-amser ar gyfer plant tair a phedair oed. Mae'r duedd hon wedi parhau o uchafbwynt o ryw 780 o leoliadau yn 2008-2009 i ryw 660 o ddarparwyr eleni. Gall lleoliadau benderfynu peidio â pharhau i ddarparu addysg am lawer o resymau, fel anawsterau o ran recriwtio arweinwyr â chymwysterau addas, neu dim digon o blant tair oed sy'n gymwys i gael cyllid i'w gwneud hi'n werth iddynt gynnig lleoedd addysg rhan-amser. Mewn ychydig o achosion, mae'r awdurdod lleol yn tynnu lleoliadau o'u rhestr o ddarparwyr addysg os yw'r lleoliad yn methu â darparu safon dderbyniol o addysg.

Eleni, fe wnaethom arolygu 105 o leoliadau. Mae un o bob pedwar lleoliad yn fach, gyda llai na chwech o blant tair oed yn mynychu. Mewn lleoliadau bach, bydd arolygwyr yn adrodd ar y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn unig, er mwyn osgoi adnabod plant unigol. Eleni, roedd tua hanner yr holl leoliadau cyfrwng Cymraeg a rhyw draean o'r lleoliadau cyfrwng Saesneg a arolygwyd yn lleoliadau bach.


## Gweithgarwch dilynol: Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Eleni, nodom fod arfer ragorol mewn 18 o leoliadau, ac mae hyn yn fwy na'r llynedd. Roedd rhyw dri chwarter o'r rhain yn lleoliadau cyfrwng Saesneg, a rhyw chwarter ohonynt yn lleoliadau bach. Mae lleoliadau lle ceir arfer ragorol yn cynllunio'r cwricwlwm yn drwyadl ac yn gynhwysfawr. Defnyddiant asesu'n dda i gynllunio camau nesaf plant, ac mae ymarferwyr yn fedrus wrth wrando ar blant a rhyngweithio â nhw. Mae arweinwyr yn annog diwylliant o fyfyrio ac maent yn rhoi ffocws cadarn ar wella deilliannau ar gyfer plant.

Mae angen ymweliad dilynol gan yr awdurdod lleol neu gan Estyn ar chwarter o leoliadau, sef cyfran debyg i'r llynedd. Eleni, nodom fod angen gwelliant â ffocws mewn un lleoliad.[14]

Fel arfer, mae angen mwy o amser ar leoliadau y mae'n ofynnol iddynt gael ymweliad dilynol gan yr awdurdod lleol, i ymgorffori arfer fel gweithdrefnau hunanarfarnu, neu i fireinio cynllunio ac asesu. Mae lleoliadau y mae angen ymweliad gan Estyn arnynt yn ei chael hi'n anodd yn aml nodi ble mae angen iddynt wella, ac mae eu cynllunio ar gyfer gwella yn wan. Nid yw arweinwyr yn y lleoliadau hyn yn dangos digon o ymdrech bob amser i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol neu o ran ystyried blaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu medrau llythrennedd a rhifedd cynnar plant, neu annog plant i fwyta'n iach.

**Ffigur 2.30: Canrannau lleoliadau mewn categorïau gweithgarwch dilynol**




[14] Mae lleoliad a osodir yn y categori gwelliant â ffocws yn methu darparu safon dderbyniol o addysg ac nid yw arweinwyr yn dangos y gallu i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

# Deilliannau: Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

## Safonau

Mae safonau'n dda neu'n well mewn 95% o leoliadau lle'r adroddom ar safonau. Mae hyn yn debyg i ganfyddiadau'r llynedd.

Lle mae safonau'n dda neu'n well, mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos mwynhad wrth wrando ar storïau ac ymunant yn frwdfrydig â chanu caneuon ac adrodd rhigymau. Mae llawer yn ymateb yn sensitif i'r hyn sydd gan rai eraill i'w ddweud, a mynegant eu meddyliau a'u syniadau yn gydlynus, er enghraifft wrth drafod ffotograffau ohonyn nhw eu hunain pan oeddent yn fabanod. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos rheolaeth dda ac annibyniaeth wrth ddefnyddio offer ysgrifennu, fel defnyddio sialciau mawr i greu darluniau diddorol o loÿnnod byw yn yr awyr agored. Mae medrau rhifedd plant yn datblygu'n dda yn gyffredinol. Er enghraifft, mae llawer yn cyfrif darnau arian yn gywir wrth chwarae rôl. Mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, mae llawer o blant yn hyderus wrth ddefnyddio ystod addas o eirfa ac ymadroddion Cymraeg syml gyda rhywfaint o gymorth gan oedolion.

Yn ogystal, yn yr ychydig iawn o leoliadau lle ceir safonau rhagorol, mae bron yr holl blant yn ddysgwyr hyderus sy'n cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a datrys problemau cynnar yn dda ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae gan y plant hyn agwedd gadarnhaol at ysgrifennu ac yn aml byddant yn brysur yn llunio gwahoddiadau, nodiadau a labeli gludiog ar gyfer eu modelau gan ddefnyddio dull gwneud marciau. Mae rhifau yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn eu bywydau, fel dod o hyd i rif eu cartref ar linell rhifau, neu rannu hadau yn gywir rhwng potiau blodau.


Yn yr ychydig iawn o leoliadau lle nad yw safonau ddim gwell na digonol, cynnydd cyfyngedig y mae llawer o blant yn ei wneud o ran gwella ac ehangu'u geirfa, ac mae plant yn dibynnu gormod ar oedolion i gael cyfeiriad.

Thema sy'n parhau, hyd yn oed mewn lleoliadau da, yw' angen i leoliadau wella medrau TGCh plant. Eleni, mae tua hanner yr holl argymhellion sy'n ymwneud â safonau yn cyfeirio at ddiffygion mewn TGCh.

## Lles

Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda, yn awyddus i gyfranogi mewn gweithgareddau ac yn dyfalbarhau am gyfnod amser rhesymol. Dangosant barch ac ystyriaeth at ei gilydd, ac maent yn trin adnoddau'n ofalus. Yn yr ychydig iawn o leoliadau lle mae lles plant yn rhagorol, mae plant yn gwneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â beth yr hoffent ei wneud a pha bryd i fynd allan i'r awyr agored neu aros dan do. Maent yn rheoli eu hamser yn gyfrifol ac yn dangos annibyniaeth cynyddol mewn medrau hunangymorth, fel gwisgo dillad awyr agored neu baratoi a bwyta eu byrbryd eu hunain.

**Ffigur 2.31: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Mae'r ddarpariaeth yn dda neu'n well mewn 94% o leoliadau a arolygwyd eleni. Yn y lleoliadau hyn, mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau llythrennedd a rhifedd plant yn dda, dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i chwarae gêm rifo fel hopsgots er mwyn datblygu'u medrau rhif, neu maent yn cuddio llythrennau yn y tywod i annog plant i ddechrau adnabod blaenlythrennau a'u seiniau. Mewn ychydig iawn o leoliadau lle mae ansawdd y ddarpariaeth yn rhagorol, mae'r cynllunio yn gydweithredol ac yn arloesol, ac yn cynnwys plant yn weithredol wrth drafod beth fyddant yn ei ddysgu.

At ei gilydd, mae cynllunio ar lefel uchel yn dda yn y rhan fwyaf o leoliadau, ac mae'n well nag a welsom mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae agweddau penodol ar y cynllunio y mae angen eu gwella, hyd yn oed mewn lleoliadau da. Yn nodedig, nid yw ymarferwyr yn nodi cyfleoedd priodol yn eu cynllunio i herio ac ymestyn plant mwy abl, ac nid yw'r cynllunio ar gyfer gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolion yn canolbwyntio'n ddigon da bob amser ar beth fydd plant yn ei ddysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg wedi gwella, ac mae'n dda mewn llawer o leoliadau erbyn hyn. Er bod ymarferwyr yn defnyddio'u medrau i ddatblygu dealltwriaeth plant, nid ydynt bob amser yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg wrth chwarae rôl ac yn ystod gweithgareddau eraill. Erbyn hyn, mae tua hanner y lleoliadau yn gwneud yn siwr bod plant yn cael cyfleoedd rheolaidd a phriodol i ddefnyddio TGCh. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn fedrus wrth annog plant i roi cynnig ar brofiadau newydd, fel defnyddio tegan a reolir o bell i gefnogi gwaith cyfeiriadol, a recordio eu hunain yn adrodd stori neu ganu rhigwm. Fodd bynnag, mewn tua hanner y lleoliadau, nid yw'r cynllunio yn nodi'n ddigon clir cyfleoedd i blant ddatblygu'u medrau TGCh.

Mae ansawdd yr addysgu wedi gwella eleni. Erbyn hyn, mae ymarferwyr yn defnyddio cwestiynau mwy penagored fel 'pam ydych chi'n meddwl fod y blodyn yn tyfu?' a 'sut gallwch chi wneud i'r car fynd yn gyflymach i lawr y llethr?' i annog plant i feddwl drostynt eu hunain. Lle mae diffygion yn yr addysgu, maent bron i gyd yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag asesu. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw ymarferwyr yn asesu dysgu plant yn ddigon rheolaidd, nid yw'r asesu a'r cynllunio yn cysylltu â'i gilydd, ac mae ymarferwyr yn aneglur ynglŷn â pha fedrau y mae angen i'r plant eu dysgu nesaf.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn darparu gofal da, yn cadw plant yn ddiogel ac yn rhydd rhag niwed ac yn meithrin gwerthoedd pwysig fel caredigrwydd, gonestrwydd, tegwch a pharch. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd i blant ddysgu am y byd y tu hwnt i'w teulu a'r lleoliad, neu i ymboeni ynghylch y byd y maent yn byw ynddo.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn amgylcheddau dysgu deniadol ac ysgogol, gyda digon o staff cymwys a phrofiadol. Ac eithrio TGCh, yn gyffredinol mae digon o adnoddau o ansawdd da. Nid yw ychydig iawn o leoliadau yn gwneud y gorau o fannau awyr agored i gyfoethogi profiadau dysgu plant.


### Dathlu cryfderau i wella datblygiad

Mae **Meithrinfa Ddydd Tiny Beginnings** yn gweithio gyda rhieni i nodi cryfderau'r plant a'u blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Mae staff y feithrinfa yn defnyddio'r wybodaeth hon i osod targedau unigol ar gyfer plant, i gynllunio addysgu a dysgu, ac i olrhain cynnydd plant.

Mae'r plant yn elwa ar wybod eu cryfderau, mae dealltwriaeth glir gan rieni o gynnydd eu plant ac mae ymarferwyr yn fedrus wrth nodi'r camau nesaf ar gyfer dysgu'r plant.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos

**Ffigur 2.32: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Lleoliadau heb fod mewn ysgolion i blant dan bump oed

Mae'r arweinyddiaeth yn dda neu'n well yn 93% o'r lleoliadau a arolygwyd eleni.

Mae bron pob sefydliad wedi sefydlu systemau sicrhau ansawdd priodol, gyda chryn gymorth yn aml gan eu hawdurdod neu gonsortia lleol. Mae ychydig o leoliadau yn defnyddio'r systemau hyn i ddatblygu'u hyder a'u dealltwriaeth o hunanarfarnu ac i nodi meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o leoliadau maent wedi camddeall diben hunanarfarnu ac mae'n ymarferiad papur yn hytrach na chyfrwng i ysgogi gwelliant. Yn y lleoliadau hyn, mae'r cynllunio ar gyfer gwella yn wan hefyd yn gyffredinol.

## Defnyddio tystiolaeth i fireinio hunanarfarnu

Mae **Canolfan Ddydd Fingers and Thumbs**, Pen-y-bont ar Ogwr, wedi mireinio ei phrosesau hunanarfarnu. Mae ymarferwyr yn monitro'r dysgu o ddydd i ddydd ac yn cymryd perchenogaeth o feysydd unigol. Caiff y canfyddiadau eu hadrodd yn ôl a gweithredir newidiadau yn unol â hynny. Mae mentrau a ysgogwyd gan hunanarfarnu wedi arwain at welliannau gwerthfawr yn y cynllunio, ac mae safonau'n gwella o ganlyniad i hynny.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cliciwch ar yr astudiaeth achos


Yn yr ychydig iawn o leoliadau lle ceir arweinyddiaeth ragorol, mae'r hunanarfarnu yn rhoi ffocws cadarn ar ddeilliannau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod llwyddiant gwaith y lleoliad yn cael ei fesur yn ôl yr hyn y mae plant yn ei ddysgu. Mae diwylliant cryf ar draws y lleoliadau hyn o ofyn 'a fydd hyn yn gwneud gwahaniaeth?' wrth gynllunio ar gyfer gwelliant, a myfyrio ar 'a yw hyn wedi gwneud gwahaniaeth?' wrth arfarnu cynnydd.


Yn yr ychydig iawn o leoliadau lle mae'r arweinyddiaeth yn ddigonol yn unig neu'n anfoddhaol, nid yw ymarferwyr yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Nid yw arweinwyr yn goruchwylio nac yn gwerthuso gwaith ymarferwyr yn effeithiol. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw arweinwyr yn rhoi gwybodaeth gyson am ddatblygiadau i'r pwyllgor rheoli. O ganlyniad, nid yw'r pwyllgor rheoli yn gallu darparu lefel addas o her i ymarferwyr.

Eleni, mae mwy o leoliadau a chanddynt bartneriaethau rhagorol nag oedd y llynedd. Mae bron pob un o'r lleoliadau hyn yn gwneud gwahaniaeth go iawn yn eu cymuned leol. Er enghraifft, mae un lleoliad wedi sefydlu cyfleuster i blant fynychu therapi lleferydd ac iaith, y mae rhieni'n teimlo'n fwy esmwyth yn mynd iddo yn lle mynychu clinig. Mewn ychydig iawn o leoliadau, nid yw rhieni'n cael digon o wybodaeth i helpu eu plentyn gartref.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn darparu gwerth da am arian. Mae ganddynt staff cymwys a phrofiadol. Mae arweinwyr yn defnyddio arbenigedd staff yn gynyddol i gefnogi meysydd fel Cymraeg neu ddatblygiad creadigol. Mae systemau da ar waith gan y rhan fwyaf o arweinwyr a rheolwyr ar gyfer adolygu gwariant a chysoni gwariant yn briodol ag amcanion y lleoliad. Nid oes digon o adnoddau gan ychydig o leoliadau i ddatblygu medrau TGCh plant neu mae cyfleoedd ar gyfer dysgu awyr agored yn gyfyngedig.

**Ffigur 2.33: Canrannau'r barnau a ddyfarnwyd ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**




9
naw
6
chwech
5
pump
Dyma Tomas y tanc.
1
un
2
dau







# Adran 2: Adroddiad sector
## Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

### Crynodeb o'r barnau o gylch arolygu 2010-2013 ac adolygiad o gynnydd yn 2013-2014

Gan i'r cylch o arolygiadau o awdurdodau lleol ddod i ben yn ystod y flwyddyn academaidd 2013-2014, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys trosolwg o farnau o'r cylch cyfan, ac yna crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn 2013-2014 ar sail canfyddiadau o ymweliadau arolygu er mwyn monitro'r awdurdodau hynny yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt.

Dim ond mewn un awdurdod a arolygwyd yn ystod cylch 2010-2013 y barnwyd bod perfformiad cyffredinol yn rhagorol. Ceredigion oedd hwn, a arolygwyd yn hydref 2013.


Dros y cylch cyfan, nodwyd bod angen monitro dilynol ar dros ddwy ran o dair o wasanaethau addysg awdurdodau lleol. Yn ystod arolygiadau monitro 2013-2014, tynnwyd pum awdurdod lleol o gategorïau gweithgarwch dilynol.

# Gweithgarwch dilynol: Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

Mae'r awdurdodau sydd wedi'u tynnu o gategori gweithgarwch dilynol yn 2013 wedi gwella'n rhannol am eu bod wedi hyrwyddo cyfleoedd i'r eithaf i gydweithredu, boed hynny o fewn yr awdurdod ei hun, fel yn y bartneriaeth rhwng y gwasanaeth addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn Sir Benfro i wella diogelu, neu ar draws awdurdodau, fel yn y cymorth y mae Ceredigion wedi'i ddarparu i Bowys mewn arweinyddiaeth a gwella ysgolion. Ar Ynys Môn, y cydweithredu rhwng ysgolion sydd wedi arwain at welliant mewn safonau addysg.

Mae cydweithredu wedi gofyn bod arweinwyr yn gweithio o fewn mwy nag un system lywodraethu, a bod yn atebol i fwy nag un sefydliad. Mae'r arweinwyr gorau wedi rheoli'r materion hyn yn dda ac wedi dod o hyd i ffyrdd i weithio'n effeithlon i ychwanegu gwerth trwy bartneriaeth.

**Ffigur 2.34: Niferoedd yr awdurdodau lleol mewn categorïau gweithgarwch dilynol (Gorffennaf 2014)**



# Deilliannau: Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

## Safonau

Dros gylch arolygu 2010-2013, roedd safonau'n dda mewn 10 awdurdod lleol, ond ni welwyd safonau rhagorol yn yr un awdurdod. Roedd safonau'n ddigonol mewn saith awdurdod, ac yn anfoddhaol mewn pum awdurdod.

Buom yn monitro cynnydd chwe awdurdod lleol yn 2013-2014 a oedd wedi cael argymhellion ynglŷn â safonau o'u harolygiadau.

Dim ond un o'r awdurdodau hyn sydd wedi gwneud cynnydd cadarn o ran gwella safonau. Fel arfer, mae oedi rhwng gwella'r arweinyddiaeth a gwasanaethau o fewn awdurdod a'r effaith a gaiff hyn ar ddeilliannau. Ym mhob awdurdod ac eithrio un, nodom fod gwelliannau yn yr arweinyddiaeth a gwasanaethau yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau.

## Lles

Dros gylch 2010-2013, roedd lles yn rhagorol mewn un awdurdod lleol ac yn dda mewn saith. Roedd safonau'n ddigonol mewn 12 awdurdod, ac yn anfoddhaol mewn dau awdurdod.

Buom yn monitro cynnydd pedwar awdurdod lleol yn 2013-2014 a oedd wedi cael argymhellion ynglŷn â deilliannau lles o'u harolygiadau.

Mae presenoldeb mewn ysgolion wedi gwella ym mhob awdurdod mewn categori gweithgarwch dilynol ac eithrio un, gydag argymhelliad yn ymwneud â hyn, er bod cyflymder y gwelliant yn amrywio.

Mae canran y disgyblion sy'n gadael Blwyddyn 11 nad ydynt yn gysylltiedig ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng ymhellach yn yr awdurdodau lle'r oedd hyn yn ddiffyg. Ni fuom yn monitro unrhyw awdurdod yn ystod 2013-2014 mewn perthynas â gwaharddiadau o'r ysgol.

# Darpariaeth: Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

## Cymorth ar gyfer gwella ysgolion

Dros gylch 2010-2013, roedd y cymorth ar gyfer gwella ysgolion yn rhagorol mewn dau awdurdod ac yn dda mewn pump. Roedd y cymorth yn ddigonol mewn 10 awdurdod, ac yn anfoddhaol mewn pum awdurdod.

Mae'r gwasanaethau gwella ysgolion yn cwmpasu cyfrifoldeb statudol yr awdurdod ar gyfer cynorthwyo, monitro, herio ac ymyrryd yn ei ysgolion, yn ogystal â chodi safonau mewn meysydd blaenoriaeth a gwella arweinyddiaeth a rheolaeth.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r trefniadau i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion drwy gonsortia rhanbarthol wedi'u ffurfioli yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, er bod y cyfrifoldeb statudol am wella ysgolion yn parhau gyda phob awdurdod lleol.

Cafodd gwasanaethau gwella ysgolion eu monitro mewn rhyw draean o awdurdodau yn ystod 2013-2014. Mae ansawdd y wybodaeth y mae awdurdodau yn ei chael am eu hysgolion wedi gwella, ac mae awdurdodau'n fwy agored ac onest gydag aelodau etholedig, penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion ynglŷn â pherfformiad mewn ysgolion unigol, a diffygion ynddynt.

Mae llawer o'r awdurdodau hyn wedi ymgysylltu â'u gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r blaenoriaethau gwella ar gyfer ysgolion yn eu hawdurdod, a thargedau heriol priodol yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau hyn. Mae pob un o'r gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol yn cysylltu arweinydd systemau (a elwir yn gynghorwyr her erbyn hyn) â phob ysgol i gefnogi a herio'r ysgol i wella a monitro cynnydd. Mae ansawdd gwaith cynghorwyr her wedi bod yn rhy anghyson mewn llawer o awdurdodau, er mae'r awdurdodau hyn yn ymwybodol o'r mater ac yn gweithio gyda'r gwasanaeth rhanbarthol i wella cysondeb.

# Darpariaeth: Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

## Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol

Dros gylch arolygu 2010-2013, roedd y cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant addysgol yn rhagorol mewn dau awdurdod ac yn dda mewn 12 awdurdod. Roedd y cymorth yn ddigonol mewn chwe awdurdod, ac yn anfoddhaol mewn dau awdurdod.

Mae cymorth yn y maes gwasanaeth hwn yn helpu ysgolion i fodloni'u rhwymedigaethau statudol i ddysgwyr sydd ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol.

Yn 2013-2014, buom yn monitro cynnydd dau awdurdod lleol a oedd wedi cael argymhellion ynglŷn â chymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol o'u harolygiadau.

Roedd gan un awdurdod ddiffyg penodol yn ei waith gyda rhieni, ond datryswyd hyn yn llwyddiannus ganddo. Gwnaeth yr awdurdod arall newidiadau polisi a newidiadau strategol sylweddol a gwella'i gynllunio o ganlyniad i hynny, er y bydd yn cymryd mwy o amser i'r awdurdod ddangos yr effaith y gall y newidiadau hyn ei chael ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr.

## Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles

Dros gylch 2010-2013, roedd y gwasanaeth hwn yn rhagorol mewn dau awdurdod, ac yn dda mewn pedwar. Digonol oedd y gwasanaeth mewn 13 awdurdod, ac roedd yn anfoddhaol mewn tri awdurdod.

Mae hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles yn cynnwys gwasanaethau sy'n hyrwyddo presenoldeb da, yn atal disgyblion rhag cael eu gwahardd o'r ysgol, yn cefnogi grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed ac yn rhoi mynediad i arweiniad a chyngor priodol i bobl ifanc. Mae pob awdurdod lleol yn darparu neu'n comisiynu ystod o wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles.

Buom yn monitro cynnydd saith awdurdod lleol yn 2013-2014 a oedd wedi cael argymhellion ynglŷn â hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles o'u harolygiadau.

Mae awdurdodau lleol wedi gwella eu cymorth ar gyfer presenoldeb ysgolion, sydd wedi cyfrannu at gyfraddau presenoldeb gwell. Yn yr ychydig o awdurdodau sydd ag argymhelliad i leihau canran y disgyblion sy'n gadael Blwyddyn 11 nad ydynt yn gysylltiedig ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, mae swyddogion wedi gweithio gyda phartneriaid i wella'u systemau ar gyfer nodi ac olrhain y bobl ifanc â'r risg mwyaf. Mae hyn wedi'u galluogi i dargedu cymorth yn fwy effeithiol, ac wedi arwain at gyfran uwch o bobl ifanc naill ai'n parhau â'u haddysg neu'n symud i gyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl Blwyddyn 11.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau sydd â gwendidau yn eu trefniadau diogelu wedi cymryd camau cadarn i wella'r trefniadau, a goruchwyliwyd y rhain yn fanwl gan uwch swyddogion ac aelodau etholedig. Yn yr awdurdodau hyn, maent yn mynd i'r afael â diwylliannau di-fudd a systemau gwael ar gyfer dwyn staff i gyfrif am eu cyfrifoldebau. Gwnaeth dau awdurdod gynnydd arafach, fodd bynnag, gan iddynt ganolbwyntio gormod ar welliannau ar lefel gwasanaethau heb fynd i'r afael â'r arweinyddiaeth ar lefel uwch reolwyr.

## Mynediad a lleoedd ysgol

Dros gylch arolygu 2010-2013, roedd y gwasanaeth hwn yn dda mewn 12 awdurdod lleol, ond ni welwyd safonau rhagorol yn yr un awdurdod. Roedd y gwasanaeth yn ddigonol mewn naw awdurdod, ac yn anfoddhaol mewn un.

Mae'r maes gwasanaeth hwn yn cynnwys derbyn disgyblion i ysgolion, cynllunio lleoedd ysgol a mynediad at addysg y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymorth ieuenctid.

Buom yn monitro cynnydd pum awdurdod lleol yn 2013-2014 a oedd wedi cael argymhellion ynglŷn â mynediad a lleoedd ysgol o'u harolygiadau.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau wedi gwneud cynnydd da o ran gwella'u cynlluniau ar gyfer lleoedd ysgol. Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig wedi gweithio'n dda â'i gilydd i wneud penderfyniadau anodd, ynglŷn â dyfodol ysgolion bach yn arbennig. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg wedi datblygu gystal mewn ychydig o awdurdodau.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

## Arweinyddiaeth

Dros gylch 2010-2013, roedd yr arweinyddiaeth yn rhagorol mewn dau awdurdod, ac yn dda mewn pump. Digonol oedd yr arolygiaeth mewn 10 awdurdod, ac roedd yn anfoddhaol mewn pum awdurdod.

Buom yn monitro cynnydd wyth awdurdod lleol yn 2013-2014 a oedd wedi cael argymhellion ynglŷn ag arweinyddiaeth o'u harolygiadau.

Mae mwyafrif yr awdurdodau wedi gwneud cynnydd da o ran gwella ansawdd yr arweinyddiaeth. Roedd yr awdurdodau hyn yn deall pa mor ganolog yw blaenoriaeth i wella'r arweinyddiaeth fel y gellir cymryd camau pendant i fynd i'r afael â diffygion penodol eraill.

Fodd bynnag, mewn rhai awdurdodau, nid ydynt wedi mynd i'r afael yn ddigon cyflym na chadarn â diffygion. Nid yw'r awdurdodau hyn wedi llawn dderbyn na deall natur a graddfa gwendidau yn yr arweinyddiaeth, ac nid ydynt ychwaith wedi cymryd camau ddigon cyflym i feithrin y gallu i wella.

## Gwella ansawdd

Dros gylch arolygu 2010-2013, roedd gwella ansawdd yn rhagorol mewn un awdurdod lleol ac yn dda mewn pump. Roedd yn ddigonol mewn 11 awdurdod, ac yn anfoddhaol mewn pum awdurdod.

Buom yn monitro cynnydd 10 awdurdod lleol yn 2013-2014 a oedd wedi cael argymhellion ynglŷn â gwella ansawdd o'u harolygiadau.

Er bod hanner yr awdurdodau hyn wedi mynd i'r afael yn briodol â diffygion, cyfyngedig fu cynnydd yn yr awdurdodau eraill ac mae pryderon yn parhau ynglŷn ag ansawdd eu hunanarfarnu a chynlluniau gwella cysylltiedig. Mae hyn yn aml oherwydd bod hunanarfarnu wedi'i weld yn rhywbeth ychwanegol sy'n cael ei baratoi cyn arolygiad, yn hytrach na rhan annatod o broses gylchol flynyddol yr awdurdod i ddadansoddi perfformiad a chynllunio ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus ar bob lefel. Nid yw'r broses graffu yn ddigon aeddfed na chadarn yn yr awdurdodau hynny lle mae'r swyddogaeth hon yn parhau'n anfoddhaol.

## Gweithio mewn partneriaeth

Dros gylch 2010-2013, roedd gweithio mewn partneriaeth yn rhagorol mewn un awdurdod lleol ac yn dda mewn saith. Roedd yn ddigonol mewn 13 awdurdod, ac yn anfoddhaol mewn un awdurdod.

Buom yn monitro cynnydd tri awdurdod lleol yn 2013-2014 a oedd wedi cael argymhellion ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth o'u harolygiadau.

Yn gyffredinol, mae'r awdurdodau sydd â diffygion o ran gweithio mewn partneriaeth wedi gwella'r ffordd y maent yn gweithio gyda phartneriaid i arfarnu deilliannau, nodi anghenion a chynllunio gyda'i gilydd i sicrhau deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr.

## Rheoli adnoddau

Dros gylch 2010-2013, roedd rheoli adnoddau yn dda mewn saith awdurdod lleol, ond nid oedd yn rhagorol yn yr un awdurdod. Roedd yn ddigonol mewn 11 awdurdod, ac yn anfoddhaol mewn pedwar.

Buom yn monitro cynnydd dau awdurdod lleol yn 2013-2014 a oedd wedi cael argymhellion ynglŷn â rheoli adnoddau o'u harolygiadau.

Mae'r ddau awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â diffygion yn eu cynllunio ariannol. Yn benodol, maent wedi cynllunio'n fwy effeithiol i fynd i'r afael ag ysgolion â diffygion sylweddol yn eu cyllideb.







# Adran 2: Adroddiad sector
## Colegau addysg bellach

Ar hyn o bryd, mae 13 o golegau addysg bellach, heb unrhyw uno eleni. Ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau craidd o golegau addysg bellach yn y flwyddyn adrodd hon. Fodd bynnag, rydym wedi cynnal ymweliadau arolygu sydd wedi arwain at lythyr adolygiad blynyddol o berfformiad cyhoeddedig ar gyfer pob sefydliad.

Yn 2013-2014, roedd 182,460 cofrestriad ar gyrsiau addysg a hyfforddiant mewn colegau addysg bellach. Mae hyn yn ostyngiad o 191,040 o gofrestriadau yn 2012-2013.

# Deilliannau: Colegau addysg bellach

## Safonau

At ei gilydd, y cyfraddau llwyddo ar gyfer dysgwyr mewn colegau addysg bellach oedd 84% yn 2012-2013, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer. Y meysydd pwnc sector lle mae dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus ac yn ennill cymwysterau ar y gyfradd uchaf yw lletygarwch ac arlwyo, manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid, ac addysg a hyfforddiant. Y meysydd sector pwnc â'r perfformiad isaf yw gwyddoniaeth a mathemateg, a'r gwyddorau cymdeithasol. Yn gyffredinol, mae symudiad tuag i fyny mewn safonau ar draws y sector, gyda'r mwyafrif o ddysgwyr yn dweud eu bod wedi cyflawni mwy, neu ar lefel uwch, nag oeddent yn ei ddisgwyl.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn cymryd rhan weithredol yn gosod eu targedau eu hunain a'u hadolygu yn rheolaidd. Maent yn monitro ac yn olrhain eu cynnydd eu hunain yn dda trwy gynlluniau dysgu unigol. Mae llawer o ddysgwyr yn cyflawni cymwysterau mewn medrau hanfodol. Fodd bynnag, mae cyfran lai o ddysgwyr yn cwblhau cymwysterau medrau hanfodol yn llwyddiannus mewn cymhwyso rhif na'r rheini sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn cyfathrebu.

Ar draws yr holl feysydd dysgu, fe wnaeth cyfran y dysgwyr sy'n cwblhau cyrsiau lefel mynediad a lefel 1 yn llwyddiannus wella ychydig rhwng 2011-2012 a 2012-2013. Roedd cynnydd nodedig yn nifer y dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau ar lefel 3 dros yr un cyfnod.

Yn y cymhwyster Bagloriaeth Cymru a gyflwynir mewn colegau addysg bellach, bu gostyngiad bach mewn cyfraddau llwyddo dros y ddwy flynedd diwethaf ar lefel sylfaen a lefel ganolradd, ac eithrio perfformiad dysgwyr yn y diploma uwch lle'r oedd cynnydd yn y cyfraddau llwyddo.

## Lles

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau bywyd gwerthfawr ochr yn ochr â'u dysgu academaidd. Dangosant gynnydd mewn aeddfedrwydd a chyflwynant eu hunain yn hyderus. Mae bron yr holl ddysgwyr yn mwynhau'u dysgu ac yn cyfranogi'n dda mewn sesiynau. Dywed dysgwyr fod llawer o gyrsiau yn rhagori ar eu disgwyliadau. Teimla'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ddiogel ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o sut i gynnal ffyrdd iach o fyw.

Mae dysgwyr yn gwneud y gorau o gyfleoedd i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu dysgu. Cyfranogant yn dda mewn cynghorau myfyrwyr a seneddau dysgwyr, ac yn aml maent yn mynd ati i hyrwyddo gwaith elusen y sefydliad. Mae canlyniadau Arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru yn dangos bod boddhad dysgwyr mewn colegau addysg bellach, er ei fod yn uchel yn gyffredinol, wedi dirywio fymryn ers 2013. Y gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad y mae dysgwyr yn fwyaf beirniadol ohonynt.

# Darpariaeth: Colegau addysg bellach

Mae mwyafrif o golegau wedi gwella'r lefelau cyrsiau a maent yn gynnig, yn sgil uno colegau neu drefniadau trydyddol newydd yn bennaf. Fodd bynnag, nid yw colegau wedi gwella'r cynnig cwricwlwm yn ddigon da ar gyfer dysgwyr sy'n astudio cyn lefel un. Mae colegau wedi cynyddu'n sylweddol nifer y cyrsiau maent yn gynnig mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, ond yn gyffredinol nid ydynt yn talu digon o sylw i wybodaeth am y farchnad lafur wrth gynllunio'r cwricwlwm. Mae polisïau da gan lawer o golegau i wella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Fodd bynnag, mae diffygion o hyd mewn addysgu medrau sylfaenol, ac nid yw pob dysgwr yn cael mynediad addas i gymorth dysgwyr digonol. Erbyn hyn, mae cynlluniau marcio ar gyfer llythrennedd wedi'u cynllunio'n dda gan y rhan fwyaf o golegau, er mai anaml y defnyddir y rhain yn gyson ar draws sectorau pwnc. Megis dechrau cael eu datblygu y mae cynlluniau marcio ar gyfer rhifedd yn y rhan fwyaf o golegau. Mae llawer o golegau wedi gwella agweddau ar eu darpariaeth ar gyfer y Gymraeg, ond cyfyngedig at ei gilydd o hyd yw datblygiad medrau Cymraeg dysgwyr ar ôl 16.

Mae ansawdd yr addysgu a arsylwyd yn ystod ymweliadau â cholegau yn dda yn gyffredinol. Mae gwybodaeth bynciol dda gan y rhan fwyaf o athrawon, a darparant ystod addas o brofiadau dysgu i'r dysgwyr.

Dywed dysgwyr bod gofal, cymorth ac arweiniad yn nodwedd gadarn o'r ddarpariaeth addysg bellach. O fewn colegau, mae llawer o ddysgwyr nad oeddent wedi cael llawer o lwyddiant addysgol cyn ymuno â'r sefydliad yn cyflawni cymwysterau am y tro cyntaf oherwydd y cymorth da a gânt. Mae staff sefydliadau yn nodi'u hanghenion cymorth dysgu unigol yn gynnar ac yn trefnu cymorth priodol. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn symud ymlaen i lefelau dysgu uwch yn y sefydliad neu i addysg uwch. Mae llawer yn defnyddio eu medrau newydd i gefnogi dysgu'u plant eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o golegau yn hyrwyddo ethos sy'n parchu cydraddoldeb ac amrywiaeth eu dysgwyr a'u staff. Mae hyrwyddo cynhwysiant yn nodwedd gadarn o addysg bellach. Mae sefydliadau sydd wedi'u huno'n ddiweddar yn dechrau sefydlu ethos a rennir o'u sefydliadau etifeddiaeth tra hefyd yn galluogi campysau i gynnal a datblygu'u nodweddion diwylliannol eu hunain. Mae offer ac adnoddau diweddar gan bron pob un o'r colegau, ac maent yn cynnal a chadw adeiladau o safon uchel ar y cyfan.





# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Colegau addysg bellach

Yn gyffredinol, mae penaethiaid ac uwch reolwyr yn darparu arweinyddiaeth glir a strategol. Gwnânt ddefnydd da o ystod eang o wybodaeth a data i osod targedau heriol. Mae ganddynt systemau i fonitro ac olrhain cynnydd mewn dysgu a chyrhaeddiad yn rheolaidd. Ceir polisïau a gweithdrefnau clir ar gyfer mynd i'r afael â thanberfformiad a nodir drwy ddadansoddi'r deilliannau a'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr.

Mae'r trefniadau llywodraethu yn gadarn ar y cyfan. Yn gyffredinol, mae llywodraethwyr yn dwyn penaethiaid ac uwch dimau arwain i gyfrif yn briodol. Maent yn craffu ar ddata ar gynnydd dysgwyr, yn sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o unrhyw faterion o fewn y sefydliad, ac yn adolygu'r materion hyn yn drwyadl mewn cyfarfodydd llywodraethwyr. Mae llywodraethwyr yn cynnig her briodol i weithredoedd a phenderfyniadau arweinwyr a rheolwyr.

Ceir gweithdrefnau trylwyr yn y rhan fwyaf o golegau ar gyfer monitro safonau addysgu ac asesu. Mae ganddynt systemau sydd wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer gwella ansawdd. Mae colegau yn gwneud defnydd da o adolygiadau o feysydd dysgu i lywio'u hunanasesu. Mae cynlluniau datblygu ansawdd yn glir a chryno ac maent yn canolbwyntio'n dda ar wella. Mae bron pob un o'r colegau yn rhoi sylw da i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Casglant farnau dysgwyr yn dda drwy eu gweithgareddau sicrhau ansawdd a defnyddiant y rhain i wella profiadau dysgwyr.

Nododd yr adroddiadau adolygu perfformiad blynyddol fod cysylltiadau sefydledig gan golegau ag ystod eang o bartneriaid ar lefelau strategol a gweithredol. Gall arweinwyr ddangos tystiolaeth o'r modd y mae partneriaethau wedi gwella cyfleoedd a deilliannau ar gyfer dysgwyr.





Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
2013-2014

# Adran 2: Adroddiad sector
## Dysgu yn y gwaith


Yn 2013-2014, roedd 22 o ddarparwyr dysgu yn y gwaith. Yn y cyfnod hwn, roedd 65,935 o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni dysgu yn y gwaith. O'r dysgwyr hyn, roedd 20,890 yn gwneud prentisiaethau, roedd 25,385 yn gwneud prentisiaethau sylfaen ac 19,660 yn gwneud hyfforddiant arall. Eleni, fe wnaethom arolygu tri darparwr, ac ailarolygu un darparwr.

# Gweithgarwch dilynol: Dysgu yn y gwaith

Eleni, barnom fod arfer ragorol mewn un darparwr, a bod angen monitro darparwr arall gan dîm Estyn.


Yn y darparwr lle gwelsom arfer ragorol, mae dysgwyr yn cael profiadau dysgu o ansawdd uchel sy'n datblygu'u cymhwysedd ymarferol a'u gwybodaeth theori mewn lleoliadau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Mae strategaeth gynhwysfawr gan y darparwr ar gyfer llythrennedd a rhifedd, wedi'i gosod o fewn strategaeth ehangach i wella medrau pob dysgwr. Mae'r darparwr wedi hyfforddi llawer o diwtoriaid ac aseswyr i gyflwyno llythrennedd a rhifedd. Defnyddia staff a dysgwyr ystod gynhwysfawr o adnoddau dysgu yn effeithiol.

Yn y darparwr y mae angen ei fonitro, mae deilliannau ar gyfer dysgwyr wedi bod yn gyson islaw cyfartaledd cenedlaethol y sector dros y tair blynedd diwethaf. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd araf ac nid yw ansawdd yr addysgu yn ddigon da ar draws y ddarpariaeth. Nid yw dysgwyr yn gwella'u medrau Cymraeg yn ddigon da.





**Ffigur 2.35: Niferoedd y darparwyr mewn categorïau gweithgarwch dilynol**



# Deilliannau: Dysgu yn y gwaith

## Safonau

Mae gwelliant bach iawn yn y barnau a ddyfarnwyd i ddarparwyr eleni o gymharu â'r llynedd. Nid oes unrhyw farnau anfoddhaol, ond ni chafwyd unrhyw farnau rhagorol ychwaith.

Mewn dau o'r tri darparwr a arolygwyd, mae cyfraddau cwblhau'r fframwaith prentisiaeth yn dda, ac yn weddol debyg i lefel y cymharydd cenedlaethol. Mae'r trydydd darparwr yn perfformio ar gyfraddau ychydig islaw'r cymharydd cenedlaethol. Mae data diweddar nas cyhoeddwyd ar gyfer y tri darparwr yn dangos tuedd am i fyny yn y cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni'u hyfforddiant. Fodd bynnag, mae dysgwyr mewn dau o'r tri darparwr yn cwblhau'u hyfforddiant a'u rhaglenni cyflogadwyedd ar gyfraddau islaw'r cymharydd cenedlaethol. Yn y trydydd darparwr, mae dysgwyr yn perfformio ar gyfradd sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn cwblhau cymwysterau mewn medrau hanfodol ar y lefel ofynnol isaf, ond nid ydynt bob amser yn cael eu hannog digon i ddilyn y cymhwyster ar lefel uwch. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn datblygu'u medrau llythrennedd yn dda. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae gormod o ddysgwyr nad ydynt yn gwella gan nad yw staff yn marcio'u gwaith ysgrifenedig yn effeithiol. O ganlyniad, mae dysgwyr yn parhau i ailadrodd camgymeriadau mewn sillafu a gramadeg. Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, nid yw strategaethau i ddatblygu medrau rhifedd dysgwyr wedi'u datblygu'n ddigonol, ac nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr.

Er gwaethaf mwy o gyfleoedd, dim ond nifer gyfyngedig o ddysgwyr sy'n dewis dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n sefyll arholiadau neu asesiadau ysgrifenedig yn Gymraeg.

## Lles

Mae lles yn dda mewn dau ddarparwr, ond digonol yn unig yw lles yn y darparwr arall. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn cael cymorth da yn eu gweithleoedd ac wrth ddilyn hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Mae dysgwyr yn elwa ar gyfnod sefydlu da i'w rhaglenni hyfforddi lle'r ymdrinnir yn fanwl ag iechyd a diogelwch a lles. Fodd bynnag, nid yw darparwyr bob amser yn integreiddio ymdriniaeth o les a byw'n iach yn eu darpariaeth hyfforddiant.

Ym mhob un o'r darparwyr a arolygwyd, mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau cymunedol fel codi arian at elusennau neu weithio gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Mae bron pob dysgwyr yn dangos medrau cymdeithasol a medrau bywyd da. Yn benodol, dangosant barch ac maent yn cyfathrebu'n dda â'u cyflogwyr, hyfforddwyr a chyfoedion. Mae presenoldeb ac ymddygiad dysgwyr yn dda yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.

**Ffigur 2.36: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: Dysgu yn y gwaith

Mae ansawdd yr hyfforddi a'r asesu yn dda mewn dau ddarparwr a arolygwyd, ac yn ddigonol mewn un darparwr. Mae pob un o'r darparwyr yn cyflwyno ystod briodol o raglenni hyfforddi sy'n bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn dda. Maent yn darparu rhaglenni mewn ystod eang o feysydd dysgu ac ar lefelau priodol i fodloni gofynion recriwtio gan gyflogwyr. Mae dysgwyr yn manteisio ar gyfleoedd da i symud ymlaen i'r lefel hyfforddi nesaf ym mhob maes dysgu. Mae pob un o'r darparwyr a arolygwyd yn cynnig agweddau ar hyfforddi ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud digon i annog dysgwyr dwyieithog i ymgymryd â hyfforddiant neu asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae strategaeth llythrennedd a rhifedd ragorol gan un darparwr, ac mae staff yn ei chymhwyso'n gyson ar bob un o'r rhaglenni dysgu. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau dysgwyr. Nid yw dau o'r darparwyr a arolygwyd yn integreiddio llythrennedd, rhifedd ac addysgu ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn ddigon da i'w rhaglenni hyfforddi.

Mae gwybodaeth bynciol dda gan y mwyafrif o diwtoriaid ac aseswyr, ac maent yn rhoi lefelau cymorth personol priodol i'w dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o aseswyr yn herio dysgwyr yn ddigon da drwy osod targedau clir ar gyfer cwblhau asesiadau a chasglu tystiolaeth ar gyfer eu portffolios asesu.

Mae trefniadau priodol gan bob darparwr ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau diogelu. Mae staff hyfforddi'n hyrwyddo iechyd a lles yn dda gyda dysgwyr yn ystod hyfforddiant ac adolygiadau cynnydd. Mewn dau o'r darparwyr a arolygwyd, ceir staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i helpu adnabod a chefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r tri darparwr a arolygwyd wedi datblygu ethos o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb yn eu rhaglenni hyfforddi. Fodd bynnag, nid yw pob darparwr yn mynd ati'n effeithiol i atgyfnerthu a datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r materion hyn yn ystod adolygiadau cynnydd.

Mae llawer o ddysgwyr yn gweithio mewn gweithleoedd da ac yn cael cyfleusterau i ffwrdd o'r gwaith sy'n cynnwys adnoddau da.

**Ffigur 2.37: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Dysgu yn y gwaith

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn rhagorol mewn un darparwr, yn dda mewn un darparwr ac yn ddigonol yn y trydydd darparwr a arolygwyd.

Nodwedd y darparwr rhagorol yw arweinyddiaeth eithriadol yn y ddarpariaeth drwyddi draw, gan arwain at ddeilliannau da ar gyfer dysgwyr sy'n cyflawni'n dda yn eu fframweithiau hyfforddi ar gyfraddau uwchlaw cymaryddion cenedlaethol. Mae'r darparwr hwn wedi datblygu perthnasoedd gweithio rhagorol gyda phartneriaid consortiwm, cyflogwyr ac ysgolion lleol.


At ei gilydd, yn y tri darparwr, ceir cyfathrebu da gyda staff hyfforddi a phartneriaid. Mae gweithdrefnau cynhwysfawr a manwl gan ddarparwyr ar gyfer adolygu a gwella perfformiad staff.


Mae trefniadau sicrhau ansawdd da mewn dau o'r darparwyr a arolygwyd ac yn ddigonol yn unig mewn un darparwr. Lle mae sicrhau ansawdd yn llai effeithiol, nid yw rheolwyr yn defnyddio prosesau hunanasesu i fonitro ac adrodd yn effeithiol ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Nid yw staff mewn un darparwr yn defnyddio prosesau hunanasesu fel cyfrwng i ysgogi gwella ansawdd. Mewn dau ddarparwr, nid yw prosesau ansawdd yn cynnwys yr holl staff perthnasol ac isgontractwyr. Ar eu gwaethaf, mae adroddiadau'n ddisgrifiadol yn bennaf, ac nid ydynt yn cynnwys arfarniad clir o berfformiad a thargedau ar gyfer gwella.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr wedi datblygu a gwella'u partneriaethau a'u perthnasoedd gweithio gyda chyflogwyr lleol, ysgolion a darparwyr hyfforddiant eraill. O ganlyniad i drefniadau partneriaeth cadarn, mae dysgwyr yn manteisio ar y cyfraddau dilyniant gwell i'r lefel hyfforddi nesaf.

Mae trefniadau rheoli adnoddau yn rhagorol mewn un darparwr, yn dda mewn un darparwr ac yn ddigonol mewn un darparwr. Mae'r holl ddarparwyr yn cefnogi'u staff yn dda gyda hyfforddiant datblygiad proffesiynol priodol. Fel arfer, mae'r trefniadau hyn yn cynnwys staff o bartneriaid neu isgontractwyr. Fodd bynnag, nifer isel o'r staff hyn sy'n manteisio ar y trefniadau yn aml.

**Ffigur 2.38: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**









# Adran 2: Adroddiad sector

## Dysgu oedolion yn y gymuned

Mae 15 o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. Mae'r partneriaethau hyn, sy'n seiliedig ar ardaloedd awdurdodau lleol yn bennaf, yn cynnwys ystod o ddarparwyr, fel sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, canolfannau iaith Gymraeg, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chyrff gwirfoddol lleol. Fe wnaeth y partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg uno'n swyddogol yn 2013-2014 i greu partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned Caerdydd a Bro Morgannwg.

Mae dau sefydliad addysg bellach hefyd yn ddarparwyr prif ffrwd dysgu oedolion yn y gymuned. Y sefydliadau hyn yw Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru, a Choleg Cymunedol YMCA. Lansiwyd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru yn swyddogol ym Mai 2014 yn sgil uno Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr Gogledd Cymru Coleg Harlech yn Ionawr 2014.

Mae tri phrif ddull o gyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned. Sefydliadau addysg bellach yw'r prif ddarparwyr, ac maent yn cyflwyno bron i ddwy ran o dair yr holl ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru yn uniongyrchol. Maent yn cyflwyno bron i bumed ran arall o'r ddarpariaeth trwy drefniadau breinio gydag 11 o awdurdodau lleol. Hefyd, mae 14 o awdurdodau lleol yn cyflwyno pumed ran arall o'r ddarpariaeth yn uniongyrchol. Mae hyn yn gynnydd o ryw saith pwynt canran ym maint y ddarpariaeth a gyflwynir gan sefydliadau addysg bellach ers 2011-2012. Mae maint y ddarpariaeth a gyflwynir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol wedi gostwng dau bwynt canran ers 2011-2012.

## Gweithgarwch dilynol: Dysgu oedolion yn y gymuned

Ni roddwyd unrhyw bartneriaethau mewn categori gweithgarwch dilynol yn 2013-2014. Fodd bynnag, bu i ni gynnal ymweliad monitro eleni â'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r bartneriaeth wedi ymateb yn gyflym i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad yn Hydref 2013. Mae wedi gweithio'n dda i ailddiffinio rolau a chyfrifoldebau, i gytuno ar flaenoriaethau a rhoi systemau a phrosesau mwy effeithiol ar waith. At ei gilydd, bu gwelliant ar draws y bartneriaeth o ran nifer y dysgwyr sy'n cwblhau'u cwrs yn llwyddiannus. Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru fod cyfradd lwyddo'r bartneriaeth yn agos at y cymharydd cenedlaethol.

# Deilliannau: Dysgu oedolion yn y gymuned

## Safonau

Fe wnaethom arolygu dwy bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn 2013-2014, un ym Merthyr Tudful a'r llall yng Ngheredigion.

Mae deilliannau dysgwyr ymhlith y gorau yn y sector ar draws y ddwy bartneriaeth. Mae grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn cyflawni deilliannau da at ei gilydd. Yn y ddwy bartneriaeth, mae dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yn cyflawni deilliannau gwell na dysgwyr eraill. Mae dysgwyr sy'n ddynion a merched yn cyflawni rhai o'r cyfraddau llwyddo gorau yn y sector. Lle mae cyfleoedd aml i'w cael, fel ym mhartneriaeth Ceredigion, gwna dysgwyr Cymraeg eu hiaith ddefnydd da o'r Gymraeg i ddysgu yn eu maes pwnc dewisedig. Fodd bynnag, ar draws y bartneriaeth ym Merthyr Tudful, er bod dysgwyr mewn ychydig o ddosbarthiadau yn datblygu'u dealltwriaeth o'r Gymraeg ac agweddau ar fywyd Cymru yn briodol, nid ydynt yn gyffredinol yn gwella'u dealltwriaeth o'r Gymraeg nac yn cysylltu eu dysgu â Chymru yn ddigon da mewn sesiynau.

At ei gilydd, mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod awdurdodau lleol wedi gwella cyfraddau llwyddo o chwe phwynt canran i 80% yn 2012-2013. Yn gyffredinol, fe wnaeth colegau addysg bellach wella cyfraddau llwyddo ar eu rhaglenni breinio o bum pwynt canran i 81% dros yr un cyfnod. Y gyfradd lwyddo gyffredinol ar gyfer darpariaeth a gyflwynir yn uniongyrchol gan sefydliadau addysg bellach yw'r uchaf yn y sector, ar 86%. Mae hwn yr un fath ag ydoedd yn 2011-2012.


## Lles

Mae bron pob dysgwr yn llawn cymhelliant ac yn frwdfrydig mewn sesiynau. Mae llawer ohonynt yn cefnogi'i gilydd yn dda ac mae hyn yn annog dysgwyr i fynychu sesiynau'n rheolaidd. Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu dosbarthiadau a gweithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwella'u dealltwriaeth o ffyrdd iach o fyw a lles yn briodol. Datblygant hunan-barch a hyder trwy gymhwyso'r medrau a ddysgant yn eu bywyd teuluol ac yn y gymuned. Mae llawer o ddysgwyr yn gwella'u medrau bywyd ac yn dod yn fwy hyderus ac annibynnol. Mae mwyafrif o ddysgwyr ar gyrsiau ar gyfer cyflogaeth yn cael cyfleoedd gwerthfawr i wirfoddoli mewn ystod eang o leoliadau cymunedol sy'n gwneud defnydd da o'r medrau y maent wedi'u dysgu.

Mae dysgwyr yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio'r cwricwlwm trwy grwpiau dysgwyr dynodedig lle mae'r partneriaethau yn gofyn am farnau dysgwyr a thrwy holiaduron dysgwyr. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn gwerthfawrogi ymateb y bartneriaeth i lais y dysgwr a'r cyfleoedd dysgu eang sydd ar gael iddynt. Mae llawer o ddysgwyr wedi datblygu ysfa i ddysgu ac maent yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chyflogadwyedd gwerthfawr, sy'n arwain at fwy o gynhwysiant cymdeithasol. Maent yn gwella'u hyder, eu medrau rhianta a'u medrau dysgu annibynnol yn effeithiol iawn.

**Ffigur 2.39: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**



# Darpariaeth: Dysgu oedolion yn y gymuned

Mae'r ddarpariaeth yn dda yn gyffredinol ym Merthyr Tudful a Cheredigion. Mae'r ddwy bartneriaeth yn cyflwyno ystod eang o raglenni sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn dda. Cefnogant ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a dysgwyr ag anghenion ychwanegol yn dda. Mae'r partneriaethau wedi cynyddu nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael i ddysgwyr. Gwna llawer o gyrsiau yng Ngheredigion ddefnydd da o ddeunydd Cymraeg er mwyn ehangu dealltwriaeth dysgwyr o gyd-destun Cymru, ac mae datblygiadau cadarnhaol i wella'r ddarpariaeth Gymraeg ym Merthyr. Mae effaith y ddarpariaeth ar safonau mewn Cymraeg yn dda yng Ngheredigion, ond heb fod cystal ym Merthyr.

Mae ansawdd yr addysgu yn dda yn y ddwy ardal. Defnyddia tiwtoriaid ystod dda o ddulliau ac adnoddau addysgu i ysgogi a diddori dysgwyr, gan gynnwys defnydd da o TGCh. Mae pob tiwtor yn defnyddio ystod addas o ddulliau asesu ac yn rhoi adborth defnyddiol i ddysgwyr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn deall y pwnc ac yn gallu gweld y cynnydd y maent wedi'i wneud. Mae'r amgylchedd dysgu yn dda yn y ddwy ardal. Mae ethos cadarnhaol o gynhwysiant yn y ddwy bartneriaeth. O ganlyniad, mae dysgwyr o ystod eang o gefndiroedd yn cymryd rhan mewn cyrsiau. Yn gyffredinol, mae lleoliadau ar gyfer dysgu o safon dda ac yn darparu amgylchedd dysgu priodol.


**Ffigur 2.40: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**



# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Dysgu oedolion yn y gymuned

Mae'r arweinyddiaeth yn dda mewn un bartneriaeth ac yn rhagorol yn y llall. Mae'r ddwy bartneriaeth yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Maent yn gweithio yn dda gydag ystod o bartneriaid i drefnu a chyflwyno dysgu i oedolion. Ceir prosesau da yn y ddwy bartneriaeth ar gyfer adrodd ar berfformiad a monitro cynnydd a deilliannau ar gyfer dysgwyr. Yn y ddwy ardal, mae trefniadau ar gyfer gwella ansawdd dysgu oedolion yn y gymuned yn gadarn yn gyffredinol. Fodd bynnag, yng Ngheredigion gallai'r bartneriaeth wneud mwy i ddefnyddio gwybodaeth reoli i gynllunio'n strategol a helpu athrawon i arfarnu a gwella deilliannau dysgwyr. Mae'r ddwy bartneriaeth yn defnyddio'u hadnoddau yn effeithiol i wella'r ddarpariaeth i ddysgwyr.

**Ffigur 2.41: Niferoedd y darparwyr a barnau ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**










# Adran 2: Adroddiad sector
## Dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn cynnwys 18 o dimau troseddau ieuenctid, uned pobl ifanc sydd mewn carchar oedolion ac un cartref plant diogel. Mae ychydig o blant a phobl ifanc yn treulio'u dedfrydau mewn lleoliadau diogel yn Lloegr. Eleni, gweithiodd Estyn gyda'n harolygiaethau partner i arolygu ac adrodd ar yr addysg a dderbynia plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Gweithiom gydag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i arolygu dau o'r timau troseddau ieuenctid (TTIau), gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i arolygu'r uned pobl ifanc a gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i arolygu'r cartref plant diogel.

# Deilliannau: Dysgu yn y sector cyfiawnder

## Safonau

Yn y timau troseddau ieuenctid a arolygwyd, dim ond ychydig o blant a phobl ifanc sy'n cyflawni deilliannau da yn eu haddysg. Mae gormod ohonynt nad ydynt naill ai'n mynychu'u dosbarthiadau'n ddigon rheolaidd neu'n methu â chwblhau'r addysg neu'r hyfforddiant a ddechreuant. Fodd bynnag, mae ychydig o bobl ifanc sydd dan oruchwyliaeth y Tîm Troseddau Ieuenctid yn symud ymlaen o sefydliad addysg bellach i gyflogaeth.

Mae deilliannau gwell gan blant a phobl ifanc mewn lleoliadau diogel. Yn y cartref plant diogel, mae llawer o blant yn ennill cymwysterau hyd at lefel TGAU yn y pynciau craidd.

Yn yr uned pobl ifanc yn y carchar, mae'r rhan fwyaf o fechgyn yn cyflawni ystod o gymwysterau ar lefel mynediad a lefel 1 mewn pynciau fel celf, dinasyddiaeth a gwaith coed. Fodd bynnag, nid yw tua hanner yr holl fechgyn yn yr uned pobl ifanc yn cyflawni'n ddigon da yn y medrau craidd, sef llythrennedd, rhifedd a TGCh.

## Lles

Yn y cartref plant diogel, mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn mynychu'n dda ac yn brydlon. Maent yn ymfalchïo yn eu gwaith a'u cyflawniadau. Maent yn mwynhau gosod eu targedau eu hunain ar gyfer gwella'u haddysg ac ymddygiad.

Yn yr uned pobl ifanc yn y carchar, mae'r rhan fwyaf o fechgyn yn mwynhau'u dysgu, yn cyfranogi'n dda ac yn gwneud cynnydd da. Maent yn cyrraedd yn brydlon ac yn ymgysylltu'n gyflym mewn sesiynau. Datblygant eu medrau cymdeithasol a phersonol yn dda mewn llawer o sesiynau. Maent yn mwynhau mynegi'u hunain drwy iaith, cerddoriaeth a chelf.

Mewn un Tîm Troseddau Ieuenctid, mae plant a phobl ifanc yn mynychu 'Paneli Adolygu a Llongyfarch' i ddathlu'r cynnydd a wnânt. Mae'r panel yn cynnwys staff, rhieni neu ofalwyr a'r ynad lleol. Mae'r rhain yn darparu adborth cadarnhaol i blant a phobl ifanc ac yn helpu gwella lefel eu hymgysylltiad â'u dysgu.

# Darpariaeth: Dysgu yn y sector cyfiawnder

Nid yw llawer o blant a phobl ifanc o oedran ysgol statudol sydd dan oruchwyliaeth TTIau yn cael digon o addysg bob wythnos. Mewn ychydig o achosion, dim ond ychydig o oriau a gânt. Mewn un TTI a arolygwyd, mae panel symudiadau wedi'u rheoli yr awdurdod lleol yn gweithio'n dda o ran dod o hyd i addysg addas i blant a phobl ifanc â phroblemau ymddygiad a phresenoldeb. Yn y TTI arall, mae'r awdurdod lleol yn rhy araf yn dod o hyd i ddarpariaeth amgen ar gyfer ychydig o blant a phobl ifanc.

Mynediad cyfyngedig at wasanaethau cymorth sydd gan lawer o blant a phobl ifanc sy'n mynychu TTIau, fel therapi lleferydd ac iaith, gwasanaethau seicoleg addysgol a chymorth ymddygiad. Nid yw'r rheini â medrau llythrennedd a rhifedd gwael bob amser yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Nid oes digon o ddewisiadau addysg neu hyfforddiant i fodloni anghenion pobl ifanc uwchlaw oedran ysgol statudol sydd dan oruchwyliaeth TTIau.

Yn y cartref plant diogel, mae'r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion academaidd a galwedigaethol a diddordebau'r plant a phobl ifanc. Mae mwyafrif yr addysgu yn dda ac yn defnyddio ystod eang addas o arddulliau addysgu i fodloni anghenion dysgwyr.

Yn y lleoliad carchar, mae bechgyn yn mynychu ystod dda o weithgareddau ymarferol sy'n eu hannog i ymgysylltu ag addysg. Mae athrawon yn esbonio pethau'n glir ac yn gwneud defnydd da o arddangosiadau. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella'r medrau craidd, sef llythrennedd, rhifedd a TGCh, yn rhy gyfyngedig.

# Arweinyddiaeth a rheolaeth: Dysgu yn y sector cyfiawnder ieuenctid

Nid yw byrddau rheoli TTI bob amser yn darparu arweinyddiaeth ddigon effeithiol i wella deilliannau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu.

Nid yw'r un o'r awdurdodau lleol yn y TTIau yn monitro safonau a lles plant a phobl ifanc yn ddigon da, nac yn rhoi ystyriaeth ddigon da i'r agweddau hyn wrth gynllunio gwasanaethau.

Yn y cartref plant diogel, mae uwch dîm rheoli addysg newydd yn gweithio'n effeithiol ag uwch aelodau staff gofal i sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion dysgu a gofal plant a phobl ifanc. Mae athrawon sydd wedi ymuno yn ddiweddar â'r tîm arwain newydd yn frwdfrydig ynglŷn â'u rolau ac yn weithgar wrth wella gwaith y ganolfan.

Yn y carchar, mae'r uwch dîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth dda i ddatblygu a chynnal darpariaeth addysg o ansawdd da.

Mae'r trefniadau hunanasesu yn gadarn. Mae rheolwyr yn casglu ac yn dadansoddi data ar gynnydd a chyflawniad dysgwyr yn dda. Mae ganddynt systemau i asesu ansawdd yr addysgu ac i gynorthwyo tiwtoriaid y mae angen iddynt wella. Gweithiant yn dda â'u partneriaid i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer cyflogaeth neu hyfforddiant pellach. Mae cynlluniau datblygu yn dda, ac mae rheolwyr yn monitro'r rhain yn rheolaidd.







# Adran 3: Gweithgarwch dilynol

## Effaith gweithgarwch arolygu dilynol

Mae gweithgarwch dilynol yn nodwedd o'n trefniadau arolygu.

Mae'r arfer o roi 'gweithgarwch dilynol' ar waith ar ôl arolygiadau yn golygu ein bod, lle mae gan ysgolion neu ddarparwyr eraill ddiffygion yn eu darpariaeth, yn gwneud mwy na'u gadael â'r adroddiad a gofyniad i lunio cynllun gweithredu ôl arolygiad. Bydd arolygwyr yn mynd yn ôl yn ddiweddarach i fonitro faint o gynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'u hargymhellion ar gyfer gwella, fel y'u cyhoeddwyd yn yr adroddiad arolygu. Os nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud erbyn yr ymweliad monitro cyntaf, bydd y darparwr yn parhau i gael ei fonitro.

O gael eu nodi fel sefydliadau 'nad oes angen eu monitro mwyach', bydd yr ysgol neu ddarparwr arall yn cael adroddiad cyhoeddedig yn nodi'r cynnydd y maent wedi'i wneud. Mae'r adroddiadau hyn yn dystiolaeth o effaith arolygiadau Estyn o ran helpu ysgolion a darparwyr unigol i wneud cynnydd.

# Ysgolion

Ac eithrio 'arfer ragorol', mae pedwar categori o weithgarwch dilynol ar gyfer ysgolion a gynhelir (ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion). Y mwyaf difrifol yw'r ysgolion hynny y mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddynt, neu'r rhai sydd angen gwelliant sylweddol ynddynt. Mae'r rhain yn gategorïau statudol a bennir mewn deddfwriaeth. Cyflwynom ddau gategori gweithgarwch dilynol newydd yn 2010, sef 'monitro gan Estyn' a 'monitro gan yr awdurdod lleol'.

Isod, ceir siart sy'n dangos nifer yr ysgolion y bu angen categorïau gwahanol o fonitro dilynol arnynt dros y pedair blynedd diwethaf.

# Nifer yr ysgolion ag angen gweithgarwch dilynol

**Ffigur 3.1: Nifer yr ysgolion a gynhelir a roddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol yn dilyn eu harolygiad craidd**

| Blwyddyn | Mesurau arbennig | Angen gwelliant sylweddol | Monitro gan Estyn | Monitro gan yr awdurdod lleol | Cyfanswm mewn categori gweithgarwch dilynol | Nifer yr arolygiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2010-2011** | 4 | 10 | 51 | 40 | 105 | 279 |
| **2011-2012** | 7 | 14 | 75 | 37 | 133 | 266 |
| **2012-2013** | 11 | 14 | 75 | 34 | 134 | 265 |
| **2013-2014** | 8 | 14 | 98 | 62 | 182 | 279 |

Eleni (2013-2014), nodwyd bod angen gweithgarwch dilynol mewn bron i ddwy ran o dair (182 o ysgolion) o'r ysgolion a arolygwyd gennym. Mae hyn yn gyfran uwch na'r llynedd (2012-2013), pan oedd angen gweithgarwch dilynol ar ychydig dros hanner (134 o ysgolion) yr ysgolion a arolygwyd gennym. Y rheswm pennaf am y cynnydd hwn yw bod angen eu monitro gan Estyn neu gan yr awdurdod lleol ar fwy o ysgolion cynradd. Mae cyfran yr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt wedi aros yr un fath â'r llynedd, sef 5% (14 o ysgolion), ac mae cyfran yr ysgolion y mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith ynddynt wedi gostwng ychydig o 4% i 3% (wedi gostwng o 11 ysgol i wyth ysgol).

# Yr amser a gymer i ysgolion ddod allan o gategori gweithgarwch dilynol

Mae'r amser a gymer i ysgol fod wedi gwneud digon o gynnydd i gael ei thynnu o gategori gweithgarwch dilynol yn dibynnu ar nifer a difrifoldeb y diffygion a nodwyd adeg yr arolygiad craidd. Bydd ysgolion sydd â nifer o ddiffygion pwysig mewn categori gweithgarwch dilynol mwy difrifol, ac maent yn debygol o gymryd mwy o amser i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu.

Mae'r siart isod yn dangos nifer a chyfran yr ysgolion sydd wedi'u tynnu o gategori gweithgarwch dilynol ar gyfer pob blwyddyn ers 2010.

**Ffigur 3.2: Niferoedd yr ysgolion a gynhelir ag angen gweithgarwch dilynol arnynt adeg eu harolygiad craidd, a niferoedd a dynnwyd o gategori gweithgarwch dilynol**

| | Nifer yr ysgolion a gynhelir wedi'u rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol 2010-2013 | Nifer yr ysgolion hyn a gynhelir wedi dod allan o gategori gweithgarwch dilynol (erbyn 1 Medi 2014) | |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Nifer | Nifer | % |
| 2010-2011 | 105 | 104 | 99% |
| 2011-2012 | 133 | 125 | 94% |
| 2012-2013 | 134 | 83 | 62% |

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r argymhellion a gyhoeddir mewn adroddiadau arolygu. Caiff rhyw ddwy ran o dair o ysgolion eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol ar ôl blwyddyn. Ar ôl dwy i dair blynedd, ychydig iawn o ysgolion sy'n parhau mewn categori gweithgarwch dilynol. Yr ysgolion hynny a roddwyd yn y categori mesurau arbennig neu'r categori gwelliant sylweddol, neu'r ysgolion a gafodd eu symud i'r naill neu'r llall o'r categorïau hyn o ganlyniad i fonitro dilynol ar ôl hynny, yw'r ysgolion sy'n parhau mewn categori gweithgarwch dilynol yn bennaf.

Mae nodweddion tebyg rhwng yr ysgolion yn y grŵp bychan hwn. Yn aml, mae eu harweinwyr wedi methu â chynllunio a/neu gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol i gyflawniadau dysgwyr am nad ydynt wedi monitro agweddau penodol ar gynnydd yn ddigon da, ac nid ydynt wedi mynd i'r afael â hunanarfarnu'n drwyadl. Nid yw arweinwyr wedi nodi a/neu wella addysgu annigonol. O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu yn parhau i amrywio gormod ac mae athrawon yn parhau ag arferion asesu gwael fel nad oes digon o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent fod yn ei wneud. Mae hyn yn golygu bod safonau yn annerbyniol o isel. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, nid yw'r uwch dîm rheoli'n ymwybodol o'i ddiffygion ei hun er bod arolygwyr yn nodi angen i gryfhau'r arweinyddiaeth, er enghraifft drwy ailddiffinio rolau a chyfrifoldebau, esbonio llinellau atebolrwydd neu sefydlogi anhrefn staffio.

# Ysgolion cynradd

Mae 14 o'r ysgolion yr oedd angen eu monitro naill ai gan Estyn neu'u hawdurdod lleol yn 2012-2013 wedi parhau mewn categori gweithgarwch dilynol am nad ydynt wedi gwneud digon o gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad craidd. Yn yr ysgolion hyn, nid yw arweinwyr wedi datblygu gweithdrefnau ddigon trwyadl ar gyfer nodi beth sydd angen ei wella. Nid ydynt yn gosod targedau heriol ar gyfer gwella. Mae gormod o anghysondeb yn yr addysgu o hyd, ac mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei wneud yn rhy isel. Nid yw athrawon yn defnyddio asesu'n ddigon da i gydweddu'r dysgu ag anghenion disgyblion. O ganlyniad, nid yw safonau yn codi'n ddigon cyflym.

Mae bron pob un o'r ysgolion cynradd yr oedd angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt yn 2012-2013 ac yn 2011-2012 wedi gwneud y gwelliannau angenrheidiol ac nid oes angen gweithgarwch dilynol arnynt mwyach.

Nodwyd bod angen gwelliant sylweddol ar saith ysgol o ganlyniad i'w harolygiad craidd yn 2012-2013. Roedd pump wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion arolygu ac, o ganlyniad, mae arolygwyr wedi'u tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn rhoi ffocws clir ar wella'r ysgol drwy systemau gwell ar gyfer monitro a hunanarfarnu. O ganlyniad, mae safonau wedi dechrau gwella.

Mae **Ysgol Aberporth** yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym mhentref Aberporth yng Ngheredigion. Roedd 122 o ddisgyblion ar y gofrestr adeg yr arolygiad. Canfuwyd fod angen monitro'r ysgol gan Estyn o ganlyniad i'r arolygiad craidd ym Mai 2013. Ymgymerodd y pennaeth presennol â'i swydd ym Medi 2013. Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llawn â phob un o'r argymhellion arolygu, ac nid oes angen ei monitro mwyach.

Un ffactor allweddol yng nghynnydd yr ysgol fu'r monitro ac arfarnu parhaus o effaith camau a gymerwyd o ran safonau gwaith disgyblion. Mae hyn wedi cynnwys pob un o'r staff, gan helpu i ddatblygu ymdeimlad cryf o berchenogaeth gan staff ac ymdrech ar y cyd i lwyddo. Mae'r pennaeth yn rhoi adborth manwl i athrawon ar eu cynlluniau tymor byr yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys arfarniadau o ba mor dda y mae cynllunio yn bodloni anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Hefyd, ceir ffocws cadarn ar ddilyniant wrth ddatblygu medrau rhifedd a llythrennedd. Mae'r ysgol yn defnyddio system gadarn i olrhain cynnydd disgyblion er mwyn asesu cynnydd disgyblion unigol a grwpiau.

Mae ffeil fonitro yn cynnwys tystiolaeth o gamau gweithredu a'u heffaith. Nid yn unig yw hyn yn helpu rhoi gwybodaeth gyson i'r holl randdeiliaid am y cynnydd a wnaed, ond mae hefyd yn cynnal momentwm a pherchenogaeth o ddatblygiadau ymhlith staff.

Yn ddefnyddiol, mae cynllun gweithredu ôl-arolygiad manwl yr ysgol yn cynnwys blaenoriaethau eraill ar gyfer gwella y mae'r pennaeth hefyd wedi'u nodi. Mae gweithio o un ddogfen, a oedd yn cynnwys argymhellion arolygu a blaenoriaethau eraill o ran datblygu'r ysgol, wedi'i gwneud yn haws i arweinwyr fonitro cynnydd.

Mae'r ysgol wedi elwa gryn dipyn o'i chysylltiadau ag ysgol arall yn ystod y cyfnod y bu yn y categori gweithgarwch dilynol. Mae hyn wedi helpu'r pennaeth i fonitro cynnydd. Mae hefyd wedi darparu cyfleoedd buddiol i staff ddysgu o arfer dda.

# Ysgolion uwchradd

Yn 2013-2014, roedd un ysgol wedi gwneud digon o gynnydd i gael ei thynnu o'r categori monitro gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw dwy ysgol wedi gwneud digon o gynnydd o ran gwella safonau, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg, ac mae perfformiad ers yr arolygiad wedi dirywio. Bydd yr ysgolion hyn yn cael eu monitro gan Estyn nawr o ganlyniad i'r diffyg cynnydd hwn.

Yn 2013-2014, cafodd wyth o ysgolion eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol yn dilyn ymweliadau monitro gan Estyn. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn wedi gwella cysondeb a chywirdeb eu hunanarfarnu a'u cynllunio ar gyfer gwelliant. Erbyn hyn, maent yn gosod targedau mwy heriol ac wedi gwella prosesau olrhain a monitro fel eu bod yn canolbwyntio'n fanylach ar godi safonau. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn cael eu dwyn i gyfrif am safonau ac ansawdd yr addysgu ac asesu. Mae ychydig o'r ysgolion hyn wedi gwella presenoldeb yn sylweddol ac wedi cryfhau rôl y corff llywodraethol wrth herio gwelliant ysgol.

Yn ogystal, arhosodd tair ysgol yn y categori 'monitro gan Estyn' yn dilyn ymweliadau monitro. Mae'r ysgolion hyn wedi dangos cynnydd cadarn yn erbyn lleiafrif o argymhellion yn yr adroddiad arolygu, ond wedi gwneud cynnydd annigonol yn gyffredinol. Mae hyn oherwydd bod cynnydd o ran gwella perfformiad yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn rhy araf yn gyffredinol ac mae gormod o anghysondeb o hyd yn yr addysgu, y marcio a'r asesu, a/neu ansawdd hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.

Yn ystod 2013-2014, llwyddodd pedair ysgol yr oedd angen gwelliant sylweddol arnynt i wneud digon o gynnydd i gael eu tynnu o'r lefel hon o weithgarwch dilynol. Mae'r ysgolion hyn wedi gwneud cynnydd cyson o ran gwella eu perfformiad yng nghyfnod allweddol 4, yn ogystal â chodi lefelau presenoldeb. Mae arweinwyr wedi gweithio'n dda i fynd i'r afael â diffygion yn yr addysgu a'r asesu, yn ogystal â gwella cysondeb arweinyddiaeth ganol. Mae tair ysgol yn parhau yn y categori gwelliant sylweddol.


Yn 2013-2014, cafodd un ysgol ei thynnu o'r categori mesurau arbennig. Arhosodd pum ysgol yn y categori mesurau arbennig, a chafodd dwy ysgol eu rhoi yn y categori mesurau arbennig o'r categori angen gwelliant sylweddol. Mae'r ysgolion hyn wedi gwneud cynnydd annigonol o ran sicrhau gwelliannau mewn llawer o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4, ac nid ydynt wedi gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu yn ddigonol. Mae gormod o anghysondeb o hyd yn ansawdd arweinyddiaeth ganol ac uwch arweinyddiaeth ac, er bod arweinwyr wedi rhoi ystod o weithgareddau hunanarfarnu ar waith, nid yw'r wybodaeth a gesglir ganddynt yn cael ei defnyddio'n ddigon da i ddylanwadu ar arfer a sicrhau gwelliannau parhaus.

# Gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

Mae'r mapiau canlynol (tudalennau 144 a 145) yn dangos blwyddyn yr arolygiad a lefel y gweithgarwch dilynol ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol adeg eu harolygiad, ac o fis Gorffennaf 2014.




## **Ffigur 3.3:** Categori gweithgarwch dilynol ar adeg arolygiadau craidd awdurdodau lleol yng Nghymru



- Arfer ragorol
- Ddim yn destun gweithgarwch dilynol
- Monitro gan Estyn
- Angen gwelliant sylweddol
- Mesurau arbennig

## **Ffigur 3.4:** Categori gweithgarwch dilynol o fis Gorffennaf 2014



Roedd angen gweithgarwch dilynol ar fwyafrif yr awdurdodau lleol yn dilyn eu harolygiad cychwynnol.


Mae gan Estyn ddull pwrpasol o fonitro awdurdodau lleol y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt.  Mae arolygwyr cyswllt Estyn yn gweithio gydag awdurdodau i gytuno ar amserlen ar gyfer gweithgarwch dilynol sy'n caniatáu digon o amser i'r awdurdod ddangos cynnydd da.  Gall hyn gynnwys rhwng un a thri ymweliad monitro, er bod dau awdurdod wedi cael ailarolygiadau llawn oherwydd natur neu gwmpas eu diffygion.  Yn ystod yr ymweliad monitro terfynol neu ailarolygiad, bydd arolygwyr yn arfarnu cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion ac yn penderfynu a oes angen gweithgarwch dilynol ar yr awdurdod o hyd neu beidio.

Mae'r map (tudalen 145) yn dangos bod saith awdurdod yr oedd angen gweithgarwch dilynol arnynt adeg yr arolygiad wedi gwneud cynnydd da, ac nad oes angen gweithgarwch dilynol arnynt mwyach.  Yn yr awdurdodau hyn, mae arweinwyr wedi cymryd camau priodol ac amserol i fynd i'r afael â'r argymhellion, gan arwain at rai gwelliannau mewn gwasanaethau a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Fodd bynnag, mae wyth awdurdod mewn categori gweithgarwch dilynol o hyd.  Y ffactor cyffredin ym mhob un o'r awdurdodau hyn yw gwendid yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth.  Yn yr awdurdodau hyn, nid yw rhai uwch arweinwyr wedi llawn ddeall neu dderbyn natur a graddfa'r diffygion.  Mae'r awdurdodau hyn wedi tueddu i ganolbwyntio'u cynlluniau gweithredu ar dasgau ar lefel gwasanaeth yn hytrach na mynd i'r afael â'r rhesymau diwylliannol a systemig pam nad oedd y sefydliad yn cefnogi gwelliant yn ddigon da, yn cynnwys methiannau yn yr uwch arweinyddiaeth a rheolaeth.  Ar ôl methu â gwneud cynnydd da yn ystod y cyfnod monitro, mae rhai awdurdodau fel arfer yn cymryd camau cyflym a phendant pan fydd Estyn yn cynyddu'r lefel gweithgarwch dilynol.

Methodd **awdurdod lleol Sir Benfro** â mynd i'r afael â diffygion yn ei arolygiad cyntaf ym Mehefin 2011 a chynyddwyd ei lefel gweithgarwch dilynol o fod 'angen gwelliant sylweddol' i fod 'angen mesurau arbennig' ar ôl ail arolygiad.  Yn ystod yr ail arolygiad yn Hydref 2012, canfu arolygwyr fod 'arweinwyr corfforaethol ac uwch aelodau etholedig wedi bod yn rhy araf yn adnabod materion allweddol mewn diogelu a newid y diwylliant mewn gwasanaethau addysg, a'u gwella' ac 'mae arweinyddiaeth ar lefel cyfarwyddiaeth a gwasanaethau yn wan'.  Tynnodd arolygwyr sylw hefyd at wendidau mewn rheoli perfformiad, hunanarfarnu, cynllunio a chraffu a oedd yn rhwystrau rhag gwella.  Fodd bynnag, ym Mehefin 2014, pan ymwelodd Estyn â'r awdurdod, canfu arolygwyr fod digon o gynnydd wedi'i wneud i ddileu'r angen am weithgarwch dilynol.  Roedd y prif weithredwr, yr arweinydd ac uwch swyddogion wedi gwneud 'penderfyniadau anodd a sensitif', gan eu rhoi 'ar waith yn ofalus' ac a arweiniodd at ailstrwythuro llawn.  Erbyn hyn, mae'r tîm rheoli yn 'gweithio'n agos â'i gilydd fel grŵp cydlynol i ymgorffori newid' ac 'mae trefniadau cydweithio â phartneriaid rhanbarthol wedi cryfhau gallu'r awdurdod i herio a chefnogi ei ysgolion'.  Mae adroddiad monitro 2014 yn tynnu sylw at y 'newid sylweddol mewn diwylliant o fewn yr awdurdod, a ddangoswyd drwy fod yn fwy agored a thryloyw', fel yr allwedd i gynnydd llwyddiannus.





Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd EM dros
Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
2013-2014


# Adran 4:
# Sylwadau ar berfformiad

# Perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen[15]

2014 yw'r drydedd flwyddyn i'r holl blant saith oed yng Nghymru gael eu hasesu gan eu hathrawon yn erbyn deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn hytrach na lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Disgwylir i ddisgyblion gyflawni deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen erbyn yr oedran hwn, a disgwylir i'r rhai mwyaf abl gyflawni deilliant 6 neu'n uwch.

Mae'r siart isod yn cymharu'r canlyniadau dros y tair blynedd diwethaf hyd at 2014.

**Ffigur 4.1: Y Cyfnod Sylfaen – canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5 neu'n uwch) neu'r deilliant disgwyliedig ac un yn ychwanegol (deilliant 6 neu'n uwch), 2012 i 2014**




Yn 2014, bu gwelliant yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf deilliant 5 ym mhob maes dysgu. Er 2012, mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen wedi cynyddu bron i bum pwynt canran i 85%. Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu – Saesneg (ILIChS) fu'r maes dysgu â'r perfformiad isaf ar gyfer deilliant 5 neu'n uwch am y tair blynedd diwethaf. Yn 2014, mae'r mesur hwn wyth pwynt canran yn is na maes dysgu datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (DPCh).

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau uwch ym mhob maes dysgu yn parhau i wella. Datblygiad mathemategol (DM) oedd y maes dysgu â'r perfformiad isaf ar gyfer y deilliannau uwch dros y tair blynedd diwethaf.

[15] Deilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol yn y pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/statistics-and-research/end-foundation-phase-outcomes-national-curriculum-teacher-assessment-core-subjects-key-stages-2-3/?skip=1&lang=cy


# Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3[16]

Pan gânt eu hasesu gan eu hathrawon ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol (Saesneg neu Gymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth), disgwylir i ddisgyblion gyflawni lefel 4 erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 pan fyddant yn 11 mlwydd oed a disgwylir i'r rhai mwyaf abl gyrraedd lefel 5.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2014, bu gwelliant mewn canlyniadau yn yr holl bynciau. Mewn gwyddoniaeth y mae'r perfformiad gorau o hyd yn y cyfnod allweddol hwn. Fodd bynnag, bach iawn yw'r bwlch rhwng y deilliannau yn y pynciau gwahanol. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'r tri phwnc craidd (sy'n cael ei adnabod fel y dangosydd pwnc craidd neu'r DPC) wedi gwella bron wyth pwynt canran yn y pum mlynedd diwethaf. Yn 2014, cyflawnodd 86.1% o ddisgyblion y dangosydd pwnc craidd, sef cynnydd o 1.8 pwynt canran ers 2013.

Yn 2014, bu hefyd welliant yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 yn yr holl bynciau. Mae dros draean o'r holl ddisgyblion yn cyrraedd y lefel hon ym mhob pwnc bellach. Er 2010, mae perfformiad ar y lefel uwch hon wedi cynyddu o ryw naw pwynt canran ym mhob pwnc.

**Ffigur 4.2: Cyfnod allweddol 2 – canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu'n uwch) a'r lefel ddisgwyliedig ac un yn ychwanegol (lefel 5 neu'n uwch), 2010 i 2014**




[16] Deilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol yn y pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/statistics-and-research/end-foundation-phase-outcomes-national-curriculum-teacher-assessment-core-subjects-key-stages-2-3/?skip=1&lang=cy


Mae disgwyl i ddisgyblion gyrraedd lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, pan fyddant yn 14 oed, a disgwylir i'r rhai mwyaf abl gyrraedd lefel 6 neu 7.

Yn 2014 yng nghyfnod allweddol 3, bu gwelliant mewn canlyniadau ym mhob un o'r pynciau craidd o dros ddau bwynt canran neu fwy ar y lefel ddisgwyliedig. Hon yw'r bedwaredd flwyddyn yn olynol lle mae canlyniadau ym mhob un o'r pedwar pwnc craidd wedi gwella gymaint â'r ganran hon o leiaf. Bu gwelliant o bedwar pwynt canran yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'r tri phwnc craidd (y dangosydd pwnc craidd) yn 2014. Er 2010, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella o dros 17 pwynt canran.

Bu gwelliant hefyd yn y ganran sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn 2014. Mae bron i hanner y disgyblion ym mhob maes pwnc yn cyrraedd o leiaf lefel 6 erbyn hyn. Mathemateg yw'r pwnc â'r gyfran uchaf o ddisgyblion sy'n cyflawni o leiaf lefel 6, ac mae bron i chwarter o ddisgyblion yn cyflawni lefel 7 neu'n uwch hefyd.

Mae'r cynnydd mewn perfformiad yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 wedi bod yn gyson gadarn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cynnydd parhaus mewn deilliannau ar draws pob pwnc, ar lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig a lefelau cyrhaeddiad uwch, wedi codi pryderon ynghylch cywirdeb a dibynadwyedd asesiadau athrawon.

**Ffigur 4.3: Cyfnod allweddol 3 – canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5 neu'n uwch), y lefel ddisgwyliedig ac un yn uwch (lefel 6 neu'n uwch) a'r lefel ddisgwyliedig a dau yn uwch (lefel 7 neu'n uwch), 2010 i 2014**



# Arholiadau yng nghyfnod allweddol 4[17]

### Ffigur 4.4: Canlyniadau arholiadau ar gyfer disgyblion 15 oed[18] mewn ysgolion yng Nghymru

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg | 49.4% | 50.1% | 51.1% | 52.7% | 55.4% |
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 | 63.8% | 67.3% | 72.6% | 77.8% | 82.3% |
| Gwahaniaeth pwynt canran rhwng y ddau ddangosydd hyn | 14.4 | 17.2 | 21.5 | 25.1 | 26.9 |
| Sgôr pwyntiau wedi'i gapio yng Nghyfnod Allweddol 4 | 305.1 | 311.6 | 323.5 | 333.1 | 340.8 |

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion 15 mlwydd oed[18] yn sefyll arholiadau allanol. Yn 2014, fe wnaeth y ganran o ddisgyblion yn cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg gynyddu o bron i dri phwynt canran. Hwn yw'r cynnydd mwyaf o ran y mesur hwn ers iddo gael ei gyflwyno yn 2007. Mae perfformiad yn y dangosydd allweddol hwn wedi cynyddu chwe phwynt canran ers 2010.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 yn parhau i gynyddu'n gyflymach o lawer nag o ran trothwy lefel 2, yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg. Erbyn hyn, y ganran yw 82.3% o gymharu â 63.8% bum mlynedd yn ôl. Mae hwn yn gynnydd o dros 18 pwynt canran. Mae pryderon o hyd felly ynglŷn â'r bwlch hwn mewn perfformiad rhwng trothwy lefel 2 a throthwy lefel 2 yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, Mae'r gwahaniaeth mawr a chynyddol rhwng y ddau ddangosydd yn awgrymu bod ysgolion yn ei chael hi'n haws galluogi disgyblion i ennill ystod o gymwysterau ehangach, yn cynnwys y rheini nad ydynt yn gymwysterau TGAU ond yn gyfwerth â TGAU, yn hytrach na helpu disgyblion i ennill gradd C neu'n uwch mewn iaith a mathemateg TGAU gyda'i gilydd.

Mae sgôr pwyntiau wedi'i chapio ar gyfer cyfnod allweddol 4, sef mesur o gyfartaledd yr wyth canlyniad TGAU gorau neu ganlyniadau cyfwerth, wedi gwella bron 36 pwynt mewn pum mlynedd. Mae'r cynnydd hwn yn golygu bod disgyblion yn 2014, ar gyfartaledd, yn cyflawni cyfwerth â gradd TGAU ychwanegol oddeutu gwerth gradd D (mae gradd D yn werth rhyw 34 o bwyntiau) o gymharu â disgyblion bum mlynedd yn ôl.

[17] Canlyniadau arholiadau yng Nghymru, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/statistics-and-research/examination-results/?skip=1&lang=cy
[18] Disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

**Ffigur 4.5: Canlyniadau arholiadau ar gyfer disgyblion 15 mlwydd oed[18] mewn ysgolion yng Nghymru yn y pynciau craidd (a)**

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canran yn cyflawni A*-C yn** | | | | | |
| Saesneg/Cymraeg | | 63.7% | 63.5% | 64.0% | 67.2% |
| Saesneg | 62.7% | 62.8% | 62.2% | 62.9% | 66.2% |
| Cymraeg (b) | 73.4% | 74.6% | 73.8% | 73.5% | 73.7% |
| Mathemateg | 55.7% | 56.5% | 58.4% | 60.3% | 61.7% |
| Gwyddoniaeth | 63.6% | 65.9% | 70.6% | 74.8% | 82.3% |

(a) Ar gyfer pob disgybl, cymerir y radd orau mewn iaith Saesneg, llenyddiaeth Saesneg a/neu Gymraeg mamiaith a llenyddiaeth Gymraeg.
(b) Mae hyn yn cynrychioli'r ganran sy'n cyflawni A*-C o'r nifer o ddisgyblion 15 oed a ymrestrodd ar gyfer Cymraeg mamiaith, yn hytrach na chyfanswm nifer y rhai 15 oed.

Gwyddoniaeth yw'r pwnc craidd â'r perfformiad gorau yng Nghymru. Yn 2014, llwyddodd mwy na phedwar o bob pum disgybl i gyflawni gradd A*-C (neu gyfwerth) mewn gwyddoniaeth. Ers 2010, mae cyfran y disgyblion yn cyflawni graddau A*-C (neu gyfwerth) mewn gwyddoniaeth wedi cynyddu bron 19 pwynt canran. Mae'r cynnydd nodedig o ran deilliannau mewn gwyddoniaeth wedi digwydd yn bennaf oherwydd niferoedd cynyddol o ddisgyblion yn dilyn cymwysterau gwyddoniaeth alwedigaethol nad ydynt yn raddau TGAU ond yn gyfwerth â TGAU. Yn ystod yr un cyfnod, mae gwelliannau mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg wedi bod yn fwy cymedrol, yn cynyddu o fwy na thri, llai nag un a chwe phwynt canran yn y drefn honno.

[18] Disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

# Dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion[19]

**Ffigur 4.6: Canlyniadau arholiadau ar gyfer disgyblion 17 oed[20] mewn ysgolion yng Nghymru**

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 3 | 94.9% | 96.3% | 96.9% | 96.5% | 97.1% |
| Sgôr pwyntiau ehangach ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion | 747.9 | 798.9 | 772.9 | 806.6 | 804.1 |

Yn 2014, cynyddodd canran y dysgwyr ôl-16 mewn ysgol a gyflawnodd drothwy lefel 3 i 97.1%. Mae'r mesur hwn wedi cynyddu'n gymedrol dros y pum mlynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn mae wedi cynyddu 2.2 pwynt canran. Fe wnaeth y sgôr pwyntiau ehangach gyfartalog a gyflawnwyd gan y dysgwyr hyn ostwng 2.5 pwynt rhwng 2013 a 2014. Fodd bynnag, roedd perfformiad yn y mesur hwn wedi cynyddu bron i 34 o bwyntiau rhwng 2012 a 2013.

[19] Canlyniadau arholiadau yng Nghymru, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/statistics-and-research/examination-results/?skip=1&lang=cy
[20] Disgyblion 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd

# Gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched[21]

**Ffigur 4.7: Perfformiad bechgyn a merched ar draws y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

| | Merched 2014 | Bechgyn 2014 | Gwahaniaeth pwynt canran 2014 | Gwahaniaeth pwynt canran 2013 |
|---|---|---|---|---|
| Canran yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen | 89.5% | 81.0% | 8.5 | 8.4 |
| Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 2 | 89.4% | 83.1% | 6.3 | 6.1 |
| Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 3 | 85.5% | 76.8% | 8.7 | 9.5 |
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg | 59.7% | 51.4% | 8.3 | 8.3 |

Yn 2014, mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn ym mhob cyfnod allweddol. Mae'r gwahaniaethau mwyaf yn parhau i fod yng nghyfnod allweddol 3.

Mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn ym mhob maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched o ran dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn debyg i'r llynedd, lle mae merched yn perfformio'n well na bechgyn o ryw wyth a hanner pwynt canran.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r gwahaniaethu yng nghyrhaeddiad merched a bechgyn wedi lleihau ar gyfer Saesneg a Chymraeg. Mae wedi cynyddu ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth. O ran y dangosydd pwnc craidd, mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn. Fodd bynnag, ar y lefelau uwch mewn mathemateg, mae bechgyn yn perfformio'n well na merched. Hwn yw'r unig faes o fewn unrhyw un o'r pynciau craidd ar draws pob un o'r cyfnodau allweddol lle mae bechgyn yn perfformio'n well na merched.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn o ran y dangosydd pwnc craidd, ond mae'r bwlch wedi lleihau ychydig dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2014, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad merched a bechgyn yn rhyw wyth a hanner o bwyntiau canran. Bum mlynedd yn ôl, roedd y gwahaniaeth dros 10 pwynt canran.

Yng nghyfnod allweddol 4, o ran trothwy lefel 2 yn cynnwys A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn o dros wyth pwynt canran. Roedd y gwahaniaeth hwn yr un fath ag yn 2013, ond mae wedi cynyddu o gymharu â phum mlynedd yn ôl pan oedd y gwahaniaeth yn rhyw saith pwynt canran.

[21] Canlyniadau arholiadau yng Nghymru, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/examination-results/?skip=1&lang=cy

# Perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim[22]

| | Disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael PYDd, 2013 | Disgyblion sy'n gymwys i gael PYDd, 2013 | Gwahaniaeth mewn pwyntiau canran 2013 | Gwahaniaeth mewn pwyntiau canran 2012 |
|---|---|---|---|---|
| Canran yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen | 86.9% | 69.2% | 17.7 | 18.3 |
| Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 2 | 88.1% | 69.8% | 18.3 | 20.0 |
| Canran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 3 | 82.3% | 53.8% | 28.5 | 29.6 |
| Canran yn cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg | 58.5% | 25.8% | 32.7 | 33.2 |

Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gryn dipyn yn waeth na disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn wir o'r Cyfnod Sylfaen hyd at gyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn mynd yn fwy wrth i ddisgyblion fynd drwy'r ysgol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg yn llai na hanner y gyfran o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni'r un peth.

Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys ac nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi lleihau ychydig rhwng 2012 a 2013 ym mhob cyfnod allweddol ac yn y Cyfnod Sylfaen.

[22] Cyflawniad a'r hawl i brydau am ddim yng Nghymru, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/academic-achievement-free-school-meals/?skip=1&lang=cy

# Presenoldeb[23]

### Ffigur 4.8: Presenoldeb yng Nghymru gan ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol, 2010 i 2014

| Cyfnod ysgol | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd (a) | 93.1% | 93.3% | 93.8% | 93.7% | 94.8% |
| Uwchradd (b) | 91.1% | 91.4% | 92.2% | 92.6% | 93.6% |
| Gwahaniaeth pwynt canran (c) | 2 | 1.9 | 1.6 | 1.1 | 1.2 |

a) Mae presenoldeb cynradd yn cynnwys data ar gyfer ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol hefyd lle caiff ei ddarparu.
(b) Mae presenoldeb uwchradd yn cynnwys data ar gyfer ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol hefyd lle caiff ei ddarparu.
(c) Gwahaniaeth rhwng presenoldeb ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

Mae'r cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu'n gyflymach nag ar gyfer ysgolion cynradd dros y pum mlynedd diwethaf. O ganlyniad, mae'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi lleihau.

Absenoliaeth barhaus yw'r term sy'n cael ei roi i ddisgyblion y mae eu cyfraddau presenoldeb yn 80% neu'n is. Yn ystod y flwyddyn academaidd a ddaeth i ben yn 2014, bu 5% o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd yn rhai sy'n absennol yn barhaus. Mae hyn ryw deirgwaith y gyfradd absenoliaeth barhaus mewn ysgolion cynradd. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r disgyblion hyn yn cyfrif am chwarter yr holl absenoldebau yn 2014. Mewn ysgolion cynradd, maent yn cyfrif am ryw 9% o absenoldebau. Mewn ysgolion uwchradd, mae cyfran y disgyblion a ddosbarthwyd yn rhai sy'n absennol yn barhaus wedi haneru er 2008, ac mae wedi gostwng mewn ysgolion cynradd hefyd.

Ers 2010, mae cyfradd absenoldeb gyffredinol merched wedi bod yn uwch na bechgyn mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol. Mae'r un peth yn wir yn 2014, a'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau presenoldeb bechgyn a merched yw 0.4%.


Mae absenoliaeth anawdurdodedig mewn ysgolion cynradd wedi aros yn gyson o gwmpas 1% dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r gyfradd wedi gostwng o dair rhan o ddeg o bwynt canran dros y pum mlynedd diwethaf i 1.3% yn 2014. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng cyfraddau absenoliaeth anawdurdodedig merched a bechgyn mewn ysgolion cynradd neu ysgolion uwchradd.

Mae dadansoddiad o gyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd o gymharu â chyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn dynodi bod cyfraddau absenoliaeth uwch yn gyffredinol gan ysgolion sydd â chyfran uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

[23] Absenoldeb o ysgolion cynradd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/absenteeism-primary-schools/?skip=1&lang=cy
Absenoldeb o ysgolion uwchradd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/statistics-and-research/absenteeism-secondary-schools/?skip=1&lang=cy

# Gwaharddiadau[24]

**Ffigur 4.9: Nifer y gwaharddiadau parhaol o ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir yng Nghymru, 2009 i 2013**




Bu gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau parhaol yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf. Yn y flwyddyn academaidd a ddaeth i ben yn 2013, roedd 99 o waharddiadau parhaol o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru. Mae bechgyn yn cyfrif am ryw dri chwarter o'r holl waharddiadau parhaol. Disgyblion ym Mlynyddoedd 9 a 10 sy'n cyfrif am dros hanner yr holl waharddiadau parhaol ar draws ysgolion. Parhaodd ychydig o dan draean o'r disgyblion a waharddwyd yn barhaol â'u haddysg mewn unedau cyfeirio disgyblion. Mae hyn yn gynnydd ar y ffigurau ar gyfer 2012, sy'n dangos bod rhyw chwarter o'r disgyblion hyn wedi parhau â'u haddysg mewn unedau cyfeirio disgyblion. Yn 2013, nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer tua un o bob wyth disgybl sydd wedi'u gwahardd yn barhaol. Mae hyn yn welliant o gymharu â 2012 pan oedd y gyfradd oddeutu un o bob pum disgybl.

Yn 2013, bu gostyngiad eto yng nghyfanswm nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol, gyda'r nifer o waharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy yn gostwng yn nodedig o gymharu â ffigurau dros y blynyddoedd diwethaf. Bu gostyngiad hefyd yn nifer y gwaharddiadau byrrach o bum niwrnod neu lai. Disgyblion ym Mlynyddoedd 9 a 10 sy'n cyfrif am gyfran fawr o'r gwaharddiadau cyfnod penodol, ac maent yn cyfrif am ryw 44% o gyfanswm y gwaharddiadau ar draws ysgolion.

Roedd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyfrif am ychydig dros 60% o'r holl waharddiadau yn 2013.

[24] Gwaharddiadau o ysgolion yng Nghymru, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/exclusions-schools/?skip=1&lang=cy

# Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)[25]

### Ffigur 4.10: Canran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, 2009 i 2013

| Oedran | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 |
|---|---|---|---|---|---|
| 16-18 | 12.4% | 11.5% | 12.2% | 10.8% | 10.5% (dd) |
| 19-24 | 21.8% | 23.0% | 22.2% | 22.9% | 21.2% (dd) |

(dd) Data dros dro yw'r data ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben yn 2013.

Ar ddiwedd 2013, nid oedd 10.5% o bobl ifanc 16 i 18 oed mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn yn gyfwerth ag 11,800 o bobl ifanc yn eu harddegau. Mae hwn yn ostyngiad o 2012 pan nad oedd 10.8% o bobl ifanc 16 i 18 oed mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fodd bynnag, mae cyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn uwch nag yn Lloegr, lle mae ffigurau dros dro yn dynodi mai rhyw 7.6% yw'r gyfradd, sef yr isaf a fu erioed.

Yn 2013, roedd yn hysbys nad oedd 3.7% o'r rhai a adawodd yr ysgol ym Mlwyddyn 11 mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn yn cymharu â 4.2% yn 2012. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyfran y rhai a adawodd yr ysgol ym Mlwyddyn 11 y mae'n hysbys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng o ryw ddau bwynt canran.

Ar ddiwedd 2013, roedd 21.2% o bobl ifanc 19 i 24 oed nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hyn yn gyfwerth â 55,300 o bobl ifanc. Mae'n ostyngiad o gymharu â 2012 pan oedd 22.9% o bobl ifanc 19 i 24 oed nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyfran y bobl ifanc 19 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi bod ychydig dros un o bob pump o bobl ifanc yn gyson.


[25] Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET), Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/young-people-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy
Cyrchfannau disgyblion o ysgolion yng Nghymru, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/pupil-destinations-schools-wales/?skip=1&lang=cy

# Medrau, addysg bellach a dysgu gydol oes[26]

Mae lefelau cymhwyster wedi cynyddu yng Nghymru yn 2013, gan barhau â'r patrwm dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfran yr oedolion oedran gweithio yr amcangyfrifir nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau yng Nghymru wedi gostwng i ychydig o dan 10% am y tro cyntaf. Yn 2013, roedd dros dri chwarter o oedolion oedran gweithio yng Nghymru wedi ennill o leiaf cymwysterau lefel 2 ac roedd ychydig dros draean wedi ennill cymwysterau lefel gradd (lefel 4 neu'n uwch). Fodd bynnag, mae lefelau cymhwyster yng Nghymru yn parhau'n is nag yn Lloegr, Yr Alban a'r DU yn ei gyfanrwydd, ond yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon.

Yng Nghymru, yn gyffredinol, roedd lefelau cymhwyster ar eu huchaf yn Sir Fynwy, Bro Morgannwg a Chaerdydd, ac ar eu hisaf yn awdurdodau cymoedd De Cymru.

**Ffigur 4.11: Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio, 2004 i 2013 (a)**





(a) Mae oedolion oedran gweithio yn cynnwys dynion 18-64 oed a merched 18-59 oed.

[26] Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio, Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/levels-highest-qualification-held-working-age-adults/?skip=1&lang=cy

# Addysg bellach[27]

Bu gwelliant mewn cyfraddau cyrhaeddiad yn 2012-2013, gyda chyfradd cyrhaeddiad gyffredinol o 93%, i fyny ddau bwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfraddau cyrhaeddiad yn amrywio rhwng gwahanol feysydd pwnc, gan amrywio o 86% mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg i 96% mewn Lletygarwch ac Arlwyo.

**Ffigur4.12: Cyfraddau llwyddiant o ran gweithgarwch dysgu cyffredinol mewn colegau addysg bellach, 2010-2011 i 2012-2013**





Bu gwelliant yn y gyfradd lwyddo gyffredinol ar gyfer yr holl gyrsiau mewn colegau addysg bellach yn 2012-2013. Roedd cyfraddau llwyddiant ar eu huchaf ar lefel mynediad, sef 90%, i fyny dri phwynt canran o'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfraddau llwyddiant ar eu hisaf ar lefel 3, sef 81%, er bod hyn yn gynnydd o un pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd cynnydd hefyd yn y cyfraddau llwyddiant ar lefel 2 o 82% yn 2011-2012 i 84% yn 2012-2013.

[27] Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer addysg bellach (AB), dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned (DOG), Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/learner-outcome-measures-further-education-work-based-learning-community-learning/?skip=1&lang=cy

# Dysgu yn y gwaith[28]

Yn 2012-2013, roedd cyfraddau llwyddiant o ran y fframwaith dysgu yn y gwaith mewn Prentisiaethau Sylfaen a Phrentisiaethau i fyny un pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol i 85% a 87% yn y drefn honno. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y rhaglenni Prentisiaeth yn dod i ben o fewn wyth wythnos heb eu cwblhau yn 2012-2013. Y rheswm am hyn yn bennaf oedd cynnydd yn y 'nifer yn ymadael yn gynnar', a ddyblodd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Ffigur 4.13: Cyfraddau llwyddiant yn y fframwaith mewn Prentisiaethau Sylfaen a Phrentisiaethau, 2010-2011 i 2012-2013**




Yn ail flwyddyn y data cyhoeddedig ar gyfer rhaglenni Hyfforddeiaeth a Chamau at Waith, bu cynnydd yng nghyfraddau llwyddiant gweithgarwch dysgu ar gyfer rhaglenni Hyfforddeiaeth (Ymgysylltu) a Hyfforddeiaeth (lefel 1). Fe wnaeth cyfradd llwyddiant y rhaglen Hyfforddeiaeth (Ymgysylltu) gynyddu wyth pwynt canran i 82%, a bu cynnydd o naw pwynt canran yng nghyfradd llwyddiant y rhaglen Hyfforddeiaeth (lefel 1) i 77%. Mewn rhaglenni Camau at Waith, cyfradd llwyddiant gweithgarwch dysgu oedd 77% ar gyfer rhaglenni Dysgu â Ffocws ar Waith a 93% ar gyfer Llwybrau at Waith, i fyny bump ac 11 pwynt canran yn y drefn honno o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

O fewn tri mis o gwblhau eu rhaglen Hyfforddeiaeth, roedd 41% o hyfforddeion wedi mynd ymlaen i ddysgu ar lefel uwch, roedd 17% wedi dechrau cyflogaeth newydd neu'n newid cyflogaeth ac roedd 22% yn chwilio am waith neu'n ddi-waith. Aeth chwech y cant o ddysgwyr ar raglenni Camau at Gyflogaeth ymlaen i ddysgu ar lefel uwch, dechreuodd 35% gyflogaeth newydd neu newid cyflogaeth, ac roedd 39% yn chwilio am waith neu'n ddi-waith. Ar gyfer y rhaglenni Hyfforddeiaeth a Chamau at Waith, roedd gostyngiad yng nghyfran yr hyfforddeion a'r dysgwyr a oedd yn chwilio am waith neu'n ddi-waith o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o ddau a phum pwynt canran yn y drefn honno.


[28] Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer addysg bellach (AB), dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned (DOG), Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/learner-outcome-measures-further-education-work-based-learning-community-learning/?skip=1&lang=cy

# Dysgu oedolion yn y gymuned[29]

Mae tri phrif fath o ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Sefydliadau addysg bellach yw'r prif ddarparwyr, a darparant bron i ddwy ran o dair o'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru yn uniongyrchol. Darparant bron i un rhan o bump arall o'r ddarpariaeth trwy drefniadau etholfraint gydag 11 o awdurdodau lleol. Yn ogystal, mae 14 o awdurdodau lleol yn darparu un rhan o bump o ddarpariaeth bellach yn uniongyrchol. Mae hyn yn gynnydd o ryw saith pwynt canran ym maint y ddarpariaeth a ddarperir gan sefydliadau addysg bellach er 2011-2012. Mae maint y ddarpariaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol wedi gostwng dau bwynt canran er 2011-2012.

Yn gyffredinol, dengys ystadegau Llywodraeth Cymru fod awdurdodau lleol wedi gwella cyfraddau llwyddiant o chwe phwynt canran i 80% yn 2012-2013. Fe wnaeth sefydliadau addysg bellach wella cyfraddau llwyddiant ar eu rhaglenni etholfraint bum pwynt canran i 81% dros yr un cyfnod. Y gyfradd llwyddiant gyffredinol a gyflwynir yn uniongyrchol gan sefydliadau addysg bellach yw'r uchaf yn y sector, sef 86%. Mae hon yr un fath â'r gyfradd llwyddiant yn 2011-2012.

**Ffigur 4.14: Cyfraddau llwyddiant mewn dysgu oedolion yn y gymuned, yn ôl math o ddarpariaeth, 2012-2013**




29 Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer addysg bellach (AB), dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned (DOG), Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/statistics-and-research/learner-outcome-measures-further-education-work-based-learning-community-learning/?skip=1&lang=cy

Mae Ffigur 4.14 yn dangos bod amrywiad ar draws y mathau gwahanol o ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer pob un o'r tri mesur deilliannau dysgwyr yn 2012-2013. Mae dadansoddiad pellach o'r data sylfaenol yn awgrymu y gellir priodoli o leiaf rhywfaint o'r amrywiad hwn i ddulliau anghyson o gofnodi data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Fodd bynnag, roedd yr amrywiad hwn yn llai nag mewn blynyddoedd blaenorol, gan ddynodi gwelliannau mewn ansawdd data.

Roedd y cyfraddau llwyddiant am ddarpariaeth oedd yn cael ei chyflwyno'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol ar eu huchaf ar gyfer nodau dysgu lefel mynediad a lefel 2, ac ar eu hisaf ar gyfer nodau dysgu lefel 1. Roedd y cyfraddau llwyddiant am ddarpariaeth oedd yn cael ei chyflwyno drwy drefniadau etholfraint sefydliad addysg bellach neu ddarpariaeth arall dysgu oedolion yn y gymuned ar eu huchaf ar gyfer nodau dysgu lefel 2 a lefel 1 yn y drefn honno.

Roedd cyfraddau llwyddiant yn amrywio ar draws meysydd pwnc. Ac eithrio'r maes pwnc 'Arall', roedd y cyfraddau llwyddiant uchaf yn y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi; Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant; ac Addysg Sylfaenol i Oedolion.



**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Chwefror 2015

Annwyl Ann,

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Cam 1 Craffu ar Fil Cymwysterau Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr yn gofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â darparu cymwysterau cyn imi ymddangos am yr ail dro gerbron y Pwyllgor ar 5 Chwefror. Er hwylustod, rwyf wedi nodi fy ymateb o dan bob pwynt y mae'r Aelodau'n ceisio rhagor o wybodaeth yn ei gylch.

**Cadarnhad ynglŷn â'r cymwysterau sydd ar wefan Cymwys am Oes ac yn cael eu cyflwyno naill ai ar ffurf newydd neu ddiwygiedig mewn dwy gyfran:**

- **pob un o'r TGAU a'r Safon Uwch/Uwch Gyfrannol a restrir fydd yr unig fanylebau ar gael i'r sector a gynhelir yng Nghymru, a bydd CBAC yn eu darparu;**
- **o ran pob pwnc arall, bydd modd i ganolfannau ddewis o blith gwahanol fanylebau cymwysterau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol gan unrhyw un o'r sefydliadau dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau cyffredinol.**

O ran pob cymhwyster TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch y mae manylebau newydd neu ddiwygiedig yn cael eu datblygu ar eu cyfer, neu'n cael eu cynnig, ac i'w haddysgu o fis Medi 2015, Medi 2016 neu Fedi 2017, gallaf gadarnhau mai dim ond CBAC sydd wedi dewis datblygu manylebau a fydd yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru. Felly, unwaith y bydd y cymwysterau diwygiedig hyn wedi eu cyflwyno i'w haddysgu gyntaf, dim ond manylebau CBAC yn y pynciau hynny a gaiff eu cymeradwyo i'w defnyddio yn y sector a gynhelir yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
English Enquiry Line 0845 010 4400
Correspondence.Huw.Lewis@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Dylwn ychwanegu bod rhestr o'r cymwysterau, a fydd yn cael eu diwygio er mwyn eu haddysgu o fis Medi 2016 ymlaen, wedi cael ei newid yn ddiweddar. Bydd cymwysterau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol mewn Mathemateg, Mathemateg Bellach a Dylunio a Thechnoleg, ynghyd â TGAU Dylunio a Thechnoleg, nawr yn cael eu rhoi ar waith o 2017 ymlaen, yn hytrach na 2106. Mae hyn yn cyd-fynd â phenderfyniadau ar gyfer y pynciau hyn yn Lloegr.

**Cadarnhad o ba drafodaethau a gynhaliwyd gyda chyrff dyfarnu (heblaw CBAC) ynglŷn â chymwysterau cyffredinol llai cyffredin y gallent eu darparu petai'r angen yn codi yng Nghymru.**

Pan fo cyrff dyfarnu eraill yn parhau i gynnig cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch mewn pynciau lle nad oes angen bodloni gofynion penodol gan Lywodraeth Cymru, ein bwriad yw bod canolfannau yng Nghymru yn rhydd i'w cynnig, cyhyd â bod y cymwysterau'n cwrdd â'r trefniadau rheoleiddio.

Fis Tachwedd 2014, fe wnaeth cyrff dyfarnu sy'n cynnig TGAU a Safon Uwch yng Nghymru mewn cymwysterau cyffredinol llai cyffredin gael cais ysgrifenedig gan fy swyddogion yn ceisio cadarnhad a fyddent, mewn egwyddor, yn dymuno parhau i gynnig TGAU a Safon Uwch pan na fyddai unrhyw egwyddorion penodol ar gyfer y cymwysterau. Rydym wrthi'n trafod gyda'r cyrff dyfarnu, a hyd yn hyn mae OCR, sy'n dyfarnu'r rhan fwyaf o gymwysterau mewn ieithoedd lleiafrifol, wedi cadarnhau eu bod, mewn egwyddor, yn fodlon parhau i gynnig y rhain yng Nghymru.

**Cadarnhad o ba gysylltiadau a fu ynglŷn â gofyn i'r cyrff dyfarnu a fyddent yn dymuno darparu'r TGAU a'r Safon Uwch y datganwyd wedi hynny mai dim ond CBAC fyddai'n eu darparu, gan gynnwys yr ymateb i hyn gan y cyrff dyfarnu.**

Rhwng Medi 2013 a Gorffennaf 2014 mae sawl llythyr a neges e-bost wedi eu cyfnewid rhwng swyddogion a'r cyrff dyfarnu sy'n cynnig TGAU a Safon Uwch ar hyn o bryd er mwyn mesur eu diddordeb mewn cynnig TGAU a Safon Uwch newydd yng Nghymru. Hefyd, gwahoddwyd y cyrff dyfarnu hynny i seminar yn Hydref 2013 pryd y trafodwyd cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer TGAU a Safon Uwch.

Ar gyfer pob cyfnod o'r datblygiad, cafodd pob corff dyfarnu sy'n cynnig TGAU a Safon Uwch ar hyn o bryd eu gwahodd i fynegi diddordeb mewn cydweithio i gynhyrchu manylebau i gwrdd ag egwyddorion dylunio Llywodraeth Cymru. I'r diben hwn, anfonwyd llythyrau yn Chwefror 2014 (ar gyfer cymwysterau Medi 2015) ac ym Mai 2014 (ar gyfer cymwysterau Medi 2016 a 2017), a daeth ymatebion ysgrifenedig i law.

Aethpwyd ati fel hyn oherwydd nad yw'r cyd-destun cyfreithiol presennol yn darparu'n benodol ar gyfer gosod cyfyngiad ar nifer y cymwysterau achrededig nac ar gyfer cynnal proses gystadleuol. Wrth addo ymgysylltu â phroses gydweithredol o'r fath, ni fyddai'r cyrff dyfarnu wedi gallu datblygu eu cymwysterau unigryw eu hunain – ac mewn sawl achos byddent, efallai, wedi bod yn cystadlu am gyfran fach o'r farchnad yng Nghymru. Ar gyfer pob cyfnod, ni fynegodd yr un corff dyfarnu ddiddordeb, heblaw am CBAC.

Hyderaf fod yr wybodaeth hon yn mynd i fod yn gymorth i aelodau'r Pwyllgor.



**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ann Jones AM
Chair, Children, Young People and Education Committee
National Assembly for Wales

3 February 2015

Dear Ann,

I am writing to draw your attention to a Legislative Consent Memorandum which I laid before the Assembly on Friday 30 January. It is not normal practice for Ministers to write directly in this way, but for the reasons set out below I think it appropriate in this instance. A copy of the Memorandum is attached.

The Serious Crime Bill, currently before Parliament completed Committee stage in the House of Commons on 22 January, having been introduced in the Lords.

The Assembly has previously passed two Legislative Consent Motions in respect of amendments to this Bill, firstly in respect of an extension of the offence of child cruelty (at Report stage in the Lords), and secondly in respect of coercive or controlling behaviour (at Committee stage in the Commons).

A number of amendments were tabled by the UK Government on 8 January which required careful consideration as to whether they give rise to the need for the legislative consent of the National Assembly for Wales. Among these was an amendment creating an offence of sexual communication with a child, and the Memorandum I have laid sets out the reasons why this provision falls within the legislative competence of the Assembly.

I note that Business Committee has agreed this morning that the Memorandum will be considered in Plenary on 10 February. Given the late stage of the Bill in Parliament, timescales are exceptionally short. I wanted to ensure that you were made aware as early as possible.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

I am also copying this letter to the Chair of the Health and Social Care Committee; and to Elin Jones AM, Kirsty Williams AM, and Darren Millar AM as Party Spokespeople.

Best wishes

Mark Drakeford.

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**SUPPLEMENTARY LEGISLATIVE CONSENT MEMORANDUM**
**(Memorandum No.3)**

**SERIOUS CRIME BILL**

1. This Legislative Consent Memorandum is laid under Standing Order ("SO") 29.2. SO29 prescribes that a Legislative Consent Memorandum must be laid, and a Legislative Consent Motion may be tabled, before the National Assembly for Wales if a UK Parliamentary Bill makes provision in relation to Wales for a purpose that falls within, or modifies the legislative competence of the National Assembly.

2. The Serious Crime Bill ("the Bill") was introduced in the House of Lords on 5 June 2014. The Bill can be found at:

   http://services.parliament.uk/bills/2014-15/seriouscrime.html

## Summary of the Bill and its Policy Objectives

3. The Bill is sponsored by the Home Office. The UK Government's principal policy objective for the Bill is to ensure that law enforcement agencies have effective legal powers to deal with the threat from serious and organised crime.

4. The Bill is in six Parts:

   - Part 1 makes provision in respect of the recovery of property derived from the proceeds of crime.

   - Part 2 makes amendments to the Computer Misuses Act 1990.

   - Part 3 provides for a new offence of participating in the activities of an organised crime group and strengthens the arrangements for protecting the public from serious crime and gang-related activity provided for in Part 1 of the Serious Crime Act 2007 and Part 4 of the Policing and Crime Act 2009 respectively.

   - Part 4 provides for the seizure and forfeiture of substances used as drug-cutting agents.

   - Part 5 amends the law in relation to the offences of child cruelty and female genital mutilation, provides for female genital mutilation protection orders and creates a new offence of possession of "paedophile manuals".

   - Part 6 provides for or extends extra-territorial jurisdiction in respect of the offences in sections 5 (preparation of terrorist acts) and 6 (training for terrorism) of the Terrorism Act 2006 and confers Parliamentary approval (as required by section 8 of the European Union Act 2011) for

two draft Council Decisions under Article 352 of the Treaty of the Functioning of the European Union. Part 6 also contains minor and consequential amendments to other enactments and general provisions, including provisions about territorial application and commencement.

## Provisions in the Bill for which consent is sought

5. The consent of the Assembly is sought for the amendments tabled by Karen Bradley, Minister for Modern Slavery and Organised Crime, in the UK Parliament on 8 January 2015, which introduce new provision relating to ‘Sexual Communication with a Child’. Details of the amendment can be found in the Notices of Amendments tabled in Public Bill Committee; this list was tabled in Parliament on 8 January 2015.

6. The amendment was agreed to in Committee on 20 January and is included as Clause 67 in the Bill as amended in Public Bill Committee. This Clause provides for a new offence where an adult communicates with a child under 16 for the purpose of obtaining sexual gratification and the communication is sexual or intended to encourage a sexual response. The offence would be triable either way with a maximum penalty (on conviction on indictment) of two years’ imprisonment.

7. It is the view of the Welsh Government that new Clause 67 falls within the legislative competence of the National Assembly for Wales in so far as it relates to “protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults” (paragraph 15) under Part 1 of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006.

8. The provisions outlined above apply in relation to Wales.

9. The provisions outlined above do not include powers for Welsh Ministers to make subordinate legislation.

## Advantages of utilising this Bill rather than Assembly legislation

10. It is the view of the Welsh Government that it is appropriate to deal with these provisions in this UK Bill as it represents the most practicable and proportionate legislative vehicle to enable these provisions to apply in relation to Wales. The inter-connected nature of the relevant Welsh and English administrative systems mean that it is most effective and appropriate for provisions for both to be taken forward at the same time in the same legislative instrument. This will enable the non-devolved partners of the Police and Courts to provide effective partnership and support in delivering a stronger child protection framework. We consider therefore that making provision for an offence which applies across England and Wales helps ensure a co-ordinated approach to the issue as senders and recipients of communications could be located in either country

**Financial implications**

11. There are no financial implications for the Welsh Government.

**Mark Drakeford AM**
**Minister for Health and Social Services**
**January 2015**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon